Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>27 TACHWEDD 2017<br>10.00 o'r gloch** | **MONDAY<br>27 NOVEMBER 2017<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

John Griffith, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod:-

- 30 Hydref, 2017
- 6 Tachwedd, 2017 (Cyllideb)

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 19 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 2, 2017/18** (Tudalennau 35 - 54)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**6** **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2017/18 - CHWARTER 2** (Tudalennau 55 - 84)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB GYFALAF 2017/18 - CHWARTER 2** (Tudalennau 85 - 94)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **CYFRIF REFENIW TAI** (Tudalennau 95 - 100)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR 2018/19** (Tudalennau 101 - 106)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**10** **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2018/19** (Tudalennau 107 - 132)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**11** **TRAWSNEWID Y GWASANAETH LLYFRGELL** (Tudalennau 133 - 218)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**12** **30 AWR O OFAL PLANT AM DDIM** (Tudalennau 219 - 228)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**13** **AROLYGIAD AGGCC O'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YN YNYS MÔN – ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTEROL** (Tudalennau 229 - 262)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant.

**14** **STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU – TAI CYNGOR** (Tudalennau 263 - 298)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**15** **TREFNIADAU DIRPRWYO I'R CYNGOR FEDRU CYMRYD RHAN YN YR ARCHWILIAD O GEISIADAU AR GYFER PROSIECTAU WYLFA NEWYDD A CHYSYLLTIAD GOGLEDD CYMRU DAM DDEDDF CYNLLUNIO 2008** (Tudalennau 299 - 308)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol – Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**16** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 309 - 310)

Ystyried mabwysiadu'r isod: -

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth oherwydd y gallai gwybodaeth eithriedig gael ei datgelu fel caiff ei diffinio yn Atodlen 12A y Ddeddf dan sylw ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd".

**17** **TRAWSNEWID Y GWASANAETH DIWYLLIANT - ORIEL YNYS MÔN** (Tudalennau 311 - 346)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**18** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 347 - 348)

Ystyried mabwysiadu'r isod: -

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth oherwydd y gallai gwybodaeth eithriedig gael ei

datgelu fel caiff ei diffinio yn Atodlen 12A y Ddeddf dan sylw ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd".

**19** **TRAWSNEWID Y GWASANAETH DIWYLLIANT – CARCHAR A LLYS BIWMARES** (Tudalennau 349 - 536)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

DRAFT

**Y PWYLLGOR GWAITH**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Hydref, 2017**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Dafydd Rhys Thomas. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes / Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br>Rheolwr Strategol (Prosiectau Isadeiledd Mawr) (RJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard Dew, R G Parry, OBE, FRAgS |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Glyn Haynes, Eric Jones, G O Jones, Dylan Rees, Alun Roberts |

---

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol gan y Cynghorydd Carwyn Jones ynghylch eitem 9 ar y rhaglen fel Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Llandegfan. Gwnaed datganiad o ddiddordeb sy’n rhagfarnu ganddo hefyd mewn perthynas â'r mater hwn ar y sail bod ei gyfnither yn gweithio yn Ysgol Biwmares a bod mab ei gyfnither yn mynychu Ysgol Llandegfan. Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod, yn dilyn cais a wnaed i’r Pwyllgor Safonau, wedi cael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor hwnnw ar 18 Gorffennaf, 2017 i gymryd rhan yn llawn yn y broses moderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol ond na châi bleidleisio ar y mater.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol gan y Cynghorydd Alun Roberts (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith) ynghylch eitemau 8 a 9 am ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Biwmares.

## 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Nid oedd unrhyw faterion o’r fath.

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2017 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2017 fel rhai cywir.**

## 4. COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2017 i'w mabwysiadu.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2017.**

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o fis Tachwedd, 2017 hyd at fis Mehefin 2018 i’w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar newidiadau i'r Flaenraglen Waith ers y cyfnod adrodd blaenorol fel a ganlyn -

**Eitemau sy’n newydd i'r Flaenraglen Waith**

- Eitem 2 – Cynllun Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd 2017-22 – Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd – i’w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd, 2017.
- Eitem 9 – Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgell – i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, 2017.
- Eitem 10 - Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant yn Oriel Ynys Môn – i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, 2017.
- Eitem 12 – Arolwg AGGCC o’r Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn – Adroddiad Cynnydd Chwarterol – i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, 2017 *.*
- Eitem 14 – Dirprwyaethau sydd eu hangen ar gyfer cyfranogiad y Cyngor o ran archwilio ceisiadau Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru a Wylfa Newydd o dan

Ddeddf Cynllunio 2008 – i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, 2017.

- Eitem 21 – Moderneiddio Ysgolion yn Ardal Llangefni – Achos Strategol Amlinellol / Achos Busnes Amlinellol – i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr, 2017.
- Eitem 35 – Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru - yn amodol ar gadarnhad – i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2018
- Eitem 36 – Tai Gofal Ychwanegol, Seiriol - yn amodol ar gadarnhad, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror, 2018.
- Eitem 37 – Moderneiddio Ysgolion yn Ardal Seiriol – yn amodol ar gadarnhad - i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror, 2018.
- Eitem 38 – Arolwg AGGCC o'r Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn – Adroddiad Cynnydd Chwarterol – i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror, 2018 .
- Arolwg AGGCC o Adroddiad Cynnydd Chwarterol ar Gynllun Gwella Gwasanaethau Plant Ynys Môn – a drefnwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror, 2018 .
- Eitem 45 – Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 4 2017/18 – i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym Mai, 2018 ar ddyddiad i'w gadarnhau.
- Eitem 46 – Adroddiad Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Chwarter 4 2017/18 – i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Mai, 2018 ar ddyddiad i'w gadarnhau.

Yn ogystal, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wrth y Pwyllgor Gwaith fod eitem 26 (Adroddiad Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Chwarter 3, 2017/18 ) wedi cael ei ddwyn ymlaen o gyfarfod 26 Mawrth, 2018 y Pwyllgor Gwaith i'w gyfarfod ar 19 Chwefror 2018 fel y nodir ar y Rhaglen Waith.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd, 2017 a Mehefin, 2018 fel y cyflwynwyd hi.**

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2016/17

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2016/17 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol fel y'i cyflwynwyd yn edrych yn ôl ar y perfformiad yn 2016/17. Mae'n adlewyrchu'r 12 mis diwethaf o dan arweiniad y Pwyllgor Gwaith blaenorol a oedd yn rhan o'r Weinyddiaeth flaenorol. Mae'r adroddiad yn edrych ar gynnydd a wnaed gan y Cyngor yn erbyn ei amcanion gwella ar gyfer 2016/17 fel yr amlinellir drwy'r 7 maes allweddol a nodir yn Nogfen Cyflawniad Blynyddol 2015/16. Bydd yr Adroddiad Perfformiad terfynol yn rhoi asesiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n asesu'r perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn ac yn ei feincnodi yn erbyn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Ar y cyfan, mae'r adroddiad yn portreadu darlun cadarnhaol o berfformiad yn y Cyngor lle mae 64% o'r

DRAFT

DP (Dangosyddion Perfformiad) yn dangos gwelliant, ac 8% heb newid – sy’n golygu bod y Cyngor yn y pedwerydd safle yng Nghymru o ran gwelliant. Mae’r meysydd penodol lle gwelwyd gwelliant amlwg yn cynnwys rheoli absenoldeb salwch (i lawr o 12 diwrnod am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn i 9.8 yn 2016/17) ac ailgylchu lle mae'r perfformiad yn gosod Ynys Môn yn chweched ymhlith awdurdodau lleol Cymru. Mae'r gwelliant yn llawer mwy arwyddocaol gan ei fod wedi digwydd yn ystod cyfnod o lymder. Er bod rhai meysydd i'w gwella y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â nhw, yr her yn awr yw atgyfnerthu'r llwyddiant a chynnal y momentwm gwella i'r dyfodol.

Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi craffu ar yr Adroddiad Gwella Blynyddol a bod y Pwyllgor wedi tynnu sylw at yr angen i dystiolaethu adnewyddiad economaidd yn Amlwch a Biwmares o dan y thema Adfywio Cymunedau a Datblygu'r Economi. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn dilyn y mater hwn i fyny.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod y gwelliant yr oedd yr adroddiad yn tystio iddo ac yn ei weld fel adlewyrchiad o gyfuniad o arweinyddiaeth gan yr UDA, gwaith caled gan holl staff y Cyngor a chydweithrediad gwleidyddol adeiladol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

**Penderfynwyd cytuno ar Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2016/17 ac argymell bod y Cyngor Sir yn ei fabwysiadu fel bod modd ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â disgwyliadau statudol.**

## 7. STRATEGAETH GYFALAF 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 yn nodi'r strategaeth gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2018/19 i’w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r adroddiad yn nodi'r gofynion ar gyfer gwariant cyfalaf yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar elfen cyllid cyfalaf y cyfrif refeniw ac yn pennu'r cyllid sydd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd yn 2018/19.

Er mwyn i'r Cyngor benderfynu pa brosiectau i’w cynnwys yn rhaglen gyfalaf 2018/19, dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid bod gofyn i'r Pwyllgor Gwaith roi arweiniad ar lefel yr arian a fydd ar gael, gan gofio effaith y rhaglen gyfalaf ar yr elfen cyllid cyfalaf yng nghyllideb Refeniw’r Cyngor. Ariennir y rhaglen gyfalaf o nifer o ffynonellau sydd wedi'u rhestru yn yr adroddiad. Ym mis Hydref, 2016, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i nifer o egwyddorion mewn perthynas â'r strategaeth gyfalaf ac amlinellir y rhain yn adran 3 yr adroddiad. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gadarnhau'r egwyddorion hynny i ddibenion strategaeth gyfalaf 2018/19 .

Mae'r Cyngor wedi cychwyn cynllun uchelgeisiol i foderneiddio a diweddaru ei ysgolion trwy’r Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gost gyfalaf o tua £120m. Ariennir Band A y rhaglen ar sail 50% o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a 50% trwy fenthyca digymorth. Yn amodol ar gadarnhad, rhagwelir y bydd cyfraniad Llywodraeth Cymru i Band B yn parhau i fod yn 50% ar gyfer y cynlluniau a ariennir yn draddodiadol ond cyflwynir elfen o gyllid sector preifat hefyd trwy fodel buddsoddi ar y cyd. Wrth

DRAFT

geisio lleihau gwariant refeniw i sicrhau cyllideb gytbwys, mae'n rhesymol hefyd edrych ar leihau'r cynnydd yn y gyllideb cyllid cyfalaf trwy ei gyfyngu i lefel y gellir ei ariannu gan y setliad blynyddol h.y. y Grant Cyfalaf Cyffredinol a benthyca â chymorth – disgwylir i'r rhain fod o gwmpas £1.3m a £2.2 miliwn (yn y drefn honno) fel yn 2017/18. Bydd grantiau cyfalaf ar gael yn 2018/19 i ariannu cynlluniau penodol e.e. cwblhau Ffordd Gyswllt Llangefni, cynlluniau lliniaru llifogydd, cynlluniau isadeiledd a Cham 2 Prosiect Neuadd y Farchnad Caergybi ymhlith eraill, a hynny ar gost o £23.4m. Efallai hefyd y bydd yn rhaid ystyried ariannu nifer o gynlluniau posib eraill – nodir y rhain yn adran 7.3 yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod yr arian sydd ar gael i gynorthwyo cynlluniau cyfalaf yn dynn; mae'n adlewyrchu newid ymagwedd gan Lywodraeth Cymru lle mae cynlluniau cyfalaf llywodraeth leol yn cael eu hariannu fwyfwy trwy grantiau penodol. Nid yw'r grant cyfalaf cyffredinol a'r elfen fenthyca yn yr arian cyfalaf wedi newid fawr ddim dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf sy'n golygu bod llai o arian ar gael ar gyfer prosiectau cyffredinol y Cyngor. Dywedodd y Swyddog ei bod yn bwysig i'r Cyngor barhau i fuddsoddi yn ei asedau cyfredol trwy eu cynnal a'u cadw a'u huwchraddio, a hynny er mwyn osgoi costau llawer uwch yn nes ymlaen oni fyddir yn gwneud hynny. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn adlewyrchu'r amcan hwn ac, ar ôl ymrwymo i gynnal yr asedau cyfredol, ychydig iawn o gyllid ychwanegol sydd ar ôl i ddechrau ar gynlluniau newydd er gwaethaf pwysau i adnewyddu a / neu fuddsoddi yn y cynlluniau hynny a nodir ym mharagraff 7.3 yr adroddiad. Fodd bynnag, nid yw'r cyllid sydd ar gael yn ddigonol i gefnogi dim y tu hwnt i'r cynlluniau hynny a glustnodwyd eisoes a chynnal a chadw asedau megis priffyrdd. Mae'r gyllideb refeniw ar gyfer Priffyrdd wedi gostwng dros amser a'r strategaeth a ddilynwyd yn y gorffennol oedd defnyddio cyllid cyfalaf i ariannu'r elfen refeniw. Gan fod y gyllideb refeniw ar gyfer Priffyrdd yn parhau i fod yn dynn, bwriedir parhau â'r strategaeth hon a defnyddio arian cyfalaf craidd i fuddsoddi £700k i gynnal priffyrdd.

Yr unig gyfle i ddefnyddio arian ychwanegol yw trwy'r gronfa gyfalaf a adeiladwyd beth amser yn ôl o gyllidebau refeniw a oedd heb eu gwario. Mae'r balans sydd heb ei ymrwymo yn £500k a defnyddir y gronfa'n bennaf ar gyfer gwaith brys neu lle mae cyfraniad bychan gan y Cyngor yn caniatáu mynediad at gyllid grant. Er bod angen cadw balans yn y gronfa felly, gellid rhyddhau £250k yn 2018/19 i ariannu rhywfaint o'r pwysau ychwanegol a ddisgrifir yn adran 7.3 yr adroddiad e.e. cynlluniau buddsoddi i arbed bychan fel oedd yn digwydd yn 2017/18.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad a gwnaeth y pwyntiau canlynol -

- Ceisiodd y Pwyllgor Gwaith sefydlu a yw'r Awdurdod yn cael y mwyaf o'i asedau cyn ail-fuddsoddi ynddynt e.e. y bwriad i wario £150k ar gerbydau a fyddai'n cyfateb i tua 50 o gerbydau ar brydles yn seiliedig ar y costau cyfredol.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y £150k ar gyfer prynu cerbydau newydd – mae cerbydau ar brydles yn dod o dan y gyllideb refeniw.

- Credai'r Pwyllgor Gwaith nad oedd mewn sefyllfa ar hyn o bryd i fedru penderfynu sut gellid ariannu costau cyfalaf ychwanegol net Band B Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain o ystyried nad yw'r Achos Busnes ar gyfer Band B wedi ei gymeradwyo eto gan Lywodraeth Cymru. *(Argymhelliad 2 yr adroddiad)*. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cytuno y dylai ailymweld â'r mater hwn pan roddwyd y gymeradwyaeth.
- Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cytuno y dylid rhyddhau £250k yn 2018/19 o'r gronfa gyfalaf wrth gefn i gwrdd â rhywfaint o'r pwysau ychwanegol ac, fel y llynedd, dylid ei ddyrannu ar gyfer prosiectau buddsoddi i arbed am y rheswm bod y rhain wedi eu dylunio i ddarparu arbedion refeniw parhaus i'r Cyngor.

**Penderfynwyd -**

- **Ail-gadarnhau egwyddorion y strategaeth gyfalaf a nodir ym mharagraff 3 yr adroddiad.**
- **Cadarnhau y bydd y cyllid ar gyfer rhaglen gyfalaf 2018/19 yn cael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a'r benthyca â chymorth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifiedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir.**
- **Cadarnhau bod yr ymrwymiadau prosiect cyfredol (Tabl 5 yr adroddiad) a'r cyllid ar gyfer adnewyddu/uwchraddio asedau cyfredol ar gyfer 2018/19 fel y gwelir yn Nhabl 6 yr adroddiad, yn amodol ar gynnwys £250k yn ychwanegol i'w ryddhau yn 2018/19 o'r gronfa gyfalaf wrth gefn i'w ddyrannu i Brosiectau Buddsoddi i Arbed.**

## 8 TAI GOFAL YCHWANEGOL YN SEIRIOL – YMGYSYLLTU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i ymgysylltu â chymuned Seiriol dros gyfnod o fis Tachwedd i fis Rhagfyr 2017 ar faterion sy'n ymwneud â datblygu darpariaeth gofal ychwanegol yn yr ardal.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad yn nodi'r rhesymau cyffredinol dros ddatblygu gofal ychwanegol fel model o ddarpariaeth; yn ne'r Ynys fe nodwyd ardal Seiriol fel y lleoliad a ffafrir pan wnaed ymrwymiad ym mis Hydref, 2015 i ystyried opsiynau ar gyfer safle yn ne Ynys Môn. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi craffu ar y mater ac mae'n cefnogi'r cynnig i ymgysylltu.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y Pwyllgor Gwaith, ym mis Rhagfyr 2013, wedi penderfynu y dylai buddsoddiad yn y dyfodol gael ei dargedu tuag at ddatblygu darpariaeth gofal ychwanegol fel rhan o'r cynllun corfforaethol, tra'n cadw'r dewis sydd ar gael o fewn y sefydliadau preswyl ar yr un pryd. Mae'r model tai gofal ychwanegol yn elfen allweddol o'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion gan fod y gwasanaeth yn ceisio symud i ffwrdd o ddarpariaeth gofal preswyl mwy traddodiadol. Mae'r adroddiad a gyflwynir hefyd yn cynnwys arolwg o opsiynau ar gyfer

DRAFT

safleoedd ac mae'n rhestru'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar yr asesiad a arweiniodd at ddynodi safle Ysgol Biwmares fel yr opsiwn a ffafrir.

Siaradodd y Cynghorwyr Lewis Davies ac Alun Roberts fel Aelodau Lleol ac er eu bod yn cefnogi datblygu tai gofal ychwanegol mewn egwyddor, nid oeddent yn ffafrio'r safle a gynigiwyd i leoli'r ddarpariaeth yn yr ardal hon am resymau penodol, sef yn gyntaf am ei fod ar fryn, y tu allan i'r dref ac yn bellach o gyfleusterau hanfodol nag oedd yn ddelfrydol; ac yn ail oherwydd y byddai'n atgyfnerthu'r argraff fod Biwmares yn dref i bobl hŷn. Yr hyn y mae'r dref ei angen yw buddsoddiad mewn tai cymdeithasol i gadw a denu poblogaeth iau, nid yn lleiaf i gynnal ei ddiwydiant twristiaeth craidd. Roedd y ddau yn pryderu am oblygiadau'r datblygiad hwn i gartref preswyl Haulfre ac Ysgol Biwmares y mae eu dyfodol eisoes dan ystyriaeth.

Ategwyd y sylwadau uchod gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd ac sydd hefyd yn Aelod Lleol, ac ychwanegodd fod angen gwneud gwaith pellach yn y broses ymgysylltu i addysgu pobl am y cysyniad gofal ychwanegol a'r hyn y mae'n ei olygu; dylid ystyried safleoedd eraill hefyd pe bai opsiynau o'r fath yn dod i'r amlwg o ganlyniad i'r ymgysylltiad. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod De Môn yn ardal fawr a holodd a dyllid, er enghraifft, ofyn am farn cymunedau Llanfair a Brynsiencyn hefyd.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth Oedolion mai'r ymrwymiad a wnaed yn 2015 oedd edrych ar ardal Seiriol; mae prinder o safleoedd addas ar gyfer y datblygiad yn Seiriol ond ar ôl ystyried y ffactorau a restrir yn yr adroddiad a thrwy weithio gyda'r gymuned leol, ystyrir y gall safle'r ysgol weithio'n dda a dod yn rhan o'r gymuned,  yn enwedig fel rhan o hyb ehangach ar gyfer heneiddio'n dda. Ffafrir ardal Seiriol oherwydd mae'n cynnig cyfle i fwrw ymlaen o fewn amserlen resymol ac i ddatblygu model o ddarpariaeth y mae'r gwasanaeth yn dymuno ei ddatblygu ac sy'n cynnig dewis arall ar gyfer byw'n annibynnol i bobl hŷn .Bydd y cyfnod ymgysylltu yn caniatáu i unigolion weld tai gofal ychwanegol ac i siarad â phobl am eu profiadau o ofal ychwanegol o ran medru cynnal eu hannibyniaeth tra'n dal i fyw mewn amgylchedd sy'n darparu mynediad i gymorth.

**Penderfynwyd y dylid cynnal cyfnod o ymgysylltu yn lleol yn ardal Seiriol yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr, 2017 mewn perthynas â'r materion canlynol:**

- **Datblygu tai gofal ychwanegol yn ardal Seiriol er mwyn darparu o leiaf 39 o fflatiau hunangynhwysol yn unol â modelau darpariaeth a gymeradwywyd yn genedlaethol.**
- **Y safle sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y datblygiad hwn yw safle cyfredol Ysgol Biwmares naill ai wedi ei gydleoli gydag ysgol wedi'i haddasu neu fel yr unig ddefnydd ar gyfer y tir hwn.**
- **Bod y Cyngor yn mynd ar ôl opsiynau i gyllido'r datblygiad drwy'r Cyfrif Refeniw Tai fel bod y datblygiad yn cael ei ychwanegu at y stoc dai yn y sir gan ddarparu llety hanfodol ar gyfer pobl hŷn**

*(Ymataliodd y Cynghorydd Carwyn Jones rhag pleidleisio)*

## 9. MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL SEIRIOL – YMGYNGHORIAD ANFFURFIOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu yn cynnwys canlyniad yr ymgynghoriad anffurfiol, anstatudol ar foderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyd-destun o ran y gyrwyr am newid; yr ymatebion o'r tri chyfarfod ymgynghori a gynhaliwyd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni disgyblion y tair ysgol yr effeithir arnynt – Biwmares, Llandegfan a Llangoed yn ogystal â rhan-ddeiliaid eraill; dadansoddiad o'r opsiynau ar gyfer newid a wnaed yn unol â system sgorio sefydledig a'r opsiwn yr argymhellwyd y dylid bwrw ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol yn ei gylch.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg fod y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno bod Swyddogion y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn cynnal ymgynghoriad anffurfiol neu anstatudol ar y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol yn ôl ym mis Mehefin, 2016. Cynhaliwyd y broses hon dros y cyfnod rhwng 19 Mehefin a 30 Gorffennaf 2017, pan gafwyd tri chyfarfod â rhan-ddeiliaid yn Ysgolion Llangoed, Biwmares a Llandegfan. 'Roedd wedi mynychu'r cyfarfodydd hynny. Dywedodd yr Aelod Portffolio hefyd fod y mater hwn wedi cael sylw manwl gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yr wythnos flaenorol, ac ar ôl ystyried a thrafod yn ofalus, fod y Pwyllgor wedi cefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd a oedd yn cynnwys cynnal ymgynghoriad statudol ar gau Ysgol Biwmares. Yn nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini, roedd wedi amlinellu'r sail ar gyfer yr argymhelliad, gan gynnwys, ymhlith ffactorau eraill; y gostyngiad yn nifer y disgyblion; y lleoedd dros ben yn Ysgol Biwmares a chost uchel y ddarpariaeth yn sgil hynny; ynghyd â maint y buddsoddiad y mae angen ei wneud yn adeilad yr ysgol. Roedd yr holl opsiynau a sgoriodd uchaf yn erbyn y ffactorau hyn ar gyfer newid yn cynnwys cau Ysgol Biwmares. Roedd wedi datgan yn y cyfarfod ei fod yn agored i unrhyw opsiwn ymarferol arall yn hytrach na chau'r ysgol ac roedd hynny'n parhau. Fodd bynnag, hyd yn hyn ni chyflwynwyd unrhyw opsiynau amgen o'r fath. Cydnabu fod hwn yn benderfyniad anodd ond o ystyried yr amgylchiadau ariannol heriol y mae awdurdodau lleol yn gorfod gweithio ynddynt, a'r newid ymagwedd y mae hynny'n ei olygu, mae'n annhebygol mai hwn fydd y penderfyniad anodd olaf y bydd angen ei wneud.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod yr ymgynghoriad cychwynnol a gynhaliwyd yn broses anffurfiol a gynlluniwyd i gael sylwadau a barn y gymuned leol, yn ogystal ag unrhyw syniadau newydd, a'i fod yn gam ychwanegol yr oedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi ei gymryd o ddewis ac ystyrir ei fod yn arfer da. Pan gynhaliwyd y broses moderneiddio ysgolion yn y gorffennol, mae'r safbwyntiau a'r sylwadau a fynegwyd yn y cam anffurfiol, anstatudol wedi cyfrannu at lunio'r penderfyniad a wnaed yn y pen draw. Yn achos ardal Seiriol, cyflwynwyd nifer o sylwadau ac opsiynau ychwanegol yn ystod yr ymgynghoriad anffurfiol a chafodd y rhain eu hystyried. Derbyniwyd gohebiaeth hefyd gan ysgolion a chyrff llywodraethu'r tair ysgol a chan yr Aelodau Lleol hefyd. Mae'r pryderon a'r materion a fynegwyd yn y llythyrau hyn wedi cael eu cydnabod yn ffurfiol gan y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes ac maent wedi eu hatodi i'r adroddiad. Fodd bynnag, rhaid nodi nad yw'r pwyntiau a godwyd yn newid sut mae'r opsiynau wedi'u

DRAFT

pwysoli a’u sgorio a bod yr holl opsiynau sy’n sgorio’n uchel yn nodi mai cau Ysgol Biwmares sy’n cwrdd yn llawnaf â’r meini prawf ar gyfer newid  e.e. cost uchel fesul disgybl; lleoedd gwag; cyflwr adeilad yr ysgol, capasiti arweinyddiaeth yr ysgol .’Roedd y gwasanaeth wedi gweithio'n galed wedyn i lunio opsiwn ar gyfer ymgynghoriad statudol sy’n eglur ac yn ddiamwys.

Siaradodd y Cynghorwyr Lewis Davies, Alun Roberts a Carwyn Jones yn rhinwedd eu swyddi fel Aelodau Lleol. Daethant â'r materion canlynol i sylw'r Pwyllgor Gwaith -

- Y byddai cau Ysgol Biwmares yn gwneud y dref yn dlotach yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae gan bob un o'r 170 o drefi yng Nghymru ysgol – ni fyddai cael gwared â'r ysgol sydd â hanes hir ym Miwmares  ond yn tanseilio'r dref a'i rhagolygon i’r dyfodol.
- Mai tref gynaliadwy yw tref gydag ysgol. Bydd cau'r ysgol yn atgyfnerthu argraff o dref Biwmares fel tref "sy’n heneiddio" gyda chanran uchel o bobl hŷn. Er mwyn denu a chadw teuluoedd a phobl iau sydd hefyd yn hanfodol i ffyniant diwydiant twristiaeth craidd y dref, rhaid cadw'r ysgol.
- Bod ardal De Ynys Môn, ar sail raddol, wedi gweld colli ystod o wasanaethau. Mae angen cynllun adfywio cynhwysfawr ac integredig ar gyfer yr ardal sy'n mynd i'r afael ag anghenion adnewyddu cymdeithasol ac economaidd. Ni ddylid ystyried ffurf y ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal tan i’r cynllun hwnnw fod wedi ei roi ar waith a hyd nes y mae anghenion ehangach yr ardal yn glir. Felly, mae'r broses ymgynghori statudol arfaethedig yn gynamserol.
- Bod y cynigion a gyflwynir yn ddi-uchelgais a bod diffyg gweledigaeth ar gyfer addysg gynradd yn ardal Seiriol. Nid oes opsiwn ar gyfer ysgol newydd ac mae hynny’n wahanol i’r ardaloedd eraill lle ymgynghorwyd ar foderneiddio ysgolion.
- Bod gwendidau yn y meini prawf a ddefnyddiwyd i ddatblygu opsiynau ac mae'n ymddangos eu bod wedi'u pwysoli tuag at gau Ysgol Biwmares.
- Mae niferoedd y disgyblion yn Ysgol Biwmares yn codi.
- Pe bai Ysgol Biwmares yn cau nid oes sicrwydd y bydd rhieni'n dewis anfon eu plant i Ysgol Llandegfan neu Ysgol Llangoed; efallai y byddant yn dewis mynd â’u plant i ysgolion y tu allan i'r sir a byddai hynny’n golygu bod yr Awdurdod yn colli cyllid.
- Y dylai barn y gymuned leol gael cymaint o bwys â’r ffactorau eraill a dylai pobl leol gael y cyfle i ddatblygu opsiwn yn seiliedig ar sut y maent yn gweld dyfodol y dref a'u profiadau a'u gwybodaeth ohoni.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu bod y ddogfen wreiddiol yr ymgynghorwyd arni’n anffurfiol yn cadarnhau y bydd y lleoedd gwag yn Ysgol Biwmares yn parhau ar lefel o rhwng 60% a 70% tan 2022 ar sail y cyfraddau geni cyfredol yn yr ardal a hefyd ar ôl cymryd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i ystyriaeth sy'n rhagweld 14 o blant ychwanegol yn yr ardal yn y cyfnod.

**Penderfynwyd -**

DRAFT

- **Bod argymhelliad yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol yn ardal Seiriol yn cael ei weithredu.**
- **Awdurdodi Swyddogion y Gyfadran Dysgu Gydol Oes i fynd allan i ymgynghori'n statudol ar y cynigion dan sylw fel a ganlyn :**
- **Cau Ysgol Biwmares ac i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr ar yr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad ddatgan eu dewis am naill ai Ysgol Llandegfan neu Ysgol Llangoed yn unol â'r polisi mynediad ysgolion.**
- **Adolygu dalgylchoedd cyfredol y tair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd Ysgol Biwmares yn cau.**
- **Adnewyddu Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan; ac**
- **Ystyried ffederaleiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan ar ddiwedd y broses hon.**

*(Ni phleidleisiodd y Cynghorydd Carwyn Jones ar y mater)*

## 10. ADOLYGIAD O BERFFORMIAD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (AGGCC)

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgorffori Llythyr Perfformiad Blynyddol AGGCC mewn perthynas â Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn ynghyd â'r Cynllun Gweithredu canlyniadol.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r llythyr Perfformiad Blynyddol yw'r cyntaf o'i fath gan AGGCC ac mae'n adrodd, a hynny ar ffurf newydd, ar berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys meysydd lle gwnaed cynnydd. Mae'n rhoi mwy o sylw i'r Gwasanaethau Oedolion gan fod y Gwasanaethau Plant eisoes wedi bod yn destun arolygiad ym mis Tachwedd, 2016 ac 'roedd yr argymhellion yn deillio o'r arolygiad hwnnw'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd. Mae'r llythyr wedi'i ddrafftio yn dilyn cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol AGGCC gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn ar 24 Mawrth, 2017 lle'r oedd y rheoleiddiwr yn rhoi adborth ar ei weithgaredd arolygu, ymgysylltu a pherfformiad dros y 12 mis blaenorol. Er mwyn sicrhau bod materion a godir yn y llythyr yn cael sylw, lluniwyd Cynllun Gweithredu Blaenoriaethau Gwella sy'n ceisio mynd i'r afael â phob blaenoriaeth gwella a nodwyd o fewn amserlen benodol lle bo modd.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol AGGCC a nodi ei gynnwys.**
- **Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol.**

DRAFT

## 11. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL DIWYGIEDIG AR GYFER WYLFA NEWYDD (CCA)

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gychwyn ar gyfnod o ymgynghori ym mis Tachwedd, 2017 ar y Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig ar gyfer yr Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi cynhyrchu a mabwysiadau'r CCA cyfredol ar gyfer yr Adeilad Niwclear Newydd yn Gorffennaf, 2014. Ers hynny, bu nifer o newidiadau sylfaenol mewn polisi ac mewn deddfwriaeth, yn ogystal â diweddariadau prosiect gan Horizon - sydd wedi golygu bod angen adolygu'r CCA cyfredol. Amlinellir y rhain yn yr adroddiad. Mae'n hollbwysig bod y CCA diwygiedig wedi'u cwblhau a'u mabwysiadu gan y Cyngor Llawn cyn i Horizon gyflwyno ei gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn ystod chwarter cyntaf 2018. Y CCA fydd asgwrn cefn ymateb y Cyngor i'r prosiect a byddant yn llywio ac yn sail ar gyfer safbwynt y Cyngor a fynegir yn yr Adroddiad ar yr Effaith Lleol a sylwadau ysgrifenedig eraill .O ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael i fedru ymgynghori ar y CCA diwygiedig a'u mabwysiadu, cynigir bod y penderfyniad hwn yn cael ei gategoreiddio fel un brys yn unol â darpariaethau paragraff 4.5.16.10 yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac felly na ellir ei alw i mewn. Gallai galw'r penderfyniad i mewn arwain at oedi a allai niweidio budd y Cyngor a'r cyhoedd o ran ymateb i'r cais GCD.

**Penderfynwyd -**

- **Awdurdodi Swyddogion i gychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Tachwedd, 2017am gyfnod o 6 wythnos ar y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa.**
- **Cytuno bod y penderfyniad yn un brys fel y'i diffinnir ym mharagraff 4.5.16.10 yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel na ellir ei alw i mewn, a hynny am y rheswm a nodir yn yr adroddiad.**

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL - CYFLAWNIADAU YN ERBYN Y STRATEGAETH CYFRANOGIAD TENANTIAID

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn nodi'r cynnydd yn erbyn y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau fod yr adroddiad yn adlewyrchu nifer o lwyddiannau yn 2016/17 o ran ymgysylltu'n adeiladol â thenantiaid a les-ddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â sut y rheolir eu cartrefi.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai y bydd y gwasanaeth yn ceisio ffyrdd newydd a modern o sicrhau y gellir clywed barn tenantiaid yn 2017/18

DRAFT

Dywedodd y Cynghorydd Gwilym O. Jones, sef Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, fod y Pwyllgor Sgriwtini wedi ystyried yr adroddiad cynnydd yn ei gyfarfod ar 9 Hydref, 2017 ac wedi nodi'r canlynol -

- Roedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch effaith cyflwyno Credyd Cynhwysol ar deuluoedd bregus, yn enwedig yr oedi cyn y byddant yn derbyn taliadau a'r caledi ariannol y gallai hyn ei achosi. Roedd y Pwyllgor yn glir na ddylai unrhyw denantiaid fod mewn perygl o golli eu cartref os na allant dalu eu rhent am gyfnod dros dro oherwydd oedi o'r fath.
- Nododd a chefnogodd y Pwyllgor y prosiect diwrnodau glanhau stadau.
- Nododd y Pwyllgor y berthynas dda rhwng y Gwasanaeth Tai a Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â rhannu gwybodaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar stadau.
- Nododd y Pwyllgor bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu'r lolfeydd cymunedol mewn stadau tai gwarchod ar yr Ynys fel canolfan ar gyfer hybiau cymunedol a bod ymgynghoriad yn digwydd gyda thenantiaid ar y posibilrwydd o wneud mwy o ddefnydd o'r lolfeydd hyn.
- Cydnabu'r Pwyllgor lwyddiant grŵp Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn a chefnogodd y bwriad i gynyddu cynrychiolaeth o blith tenantiaid o ardaloedd ledled yr Ynys.
- Cefnogodd y Pwyllgor y syniad y dylid rhannu'r adroddiad yn un o'r Sesiynau Briffio ar gyfer Aelodau.
- 'Roedd y Pwyllgor wedi derbyn yr adroddiad ac yn cefnogi'r argymhellion ynddo.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn yr adroddiad cynnydd ar y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer 2016/17.**
- **Bod Aelodau Etholedig a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn chwarae rhan weithredol mewn perthynas â hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid a sicrhau bod gan yr holl denantiaid lais a rhan i'w chwarae mewn datblygiadau tai a chorfforaethol yn y dyfodol.**

## 13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Nid ystyriwyd yr eitem hon.

## 14. TROSGLWYDDO'R GWASANAETH DIWYLLIANT – SAFLE LLYNNON

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFT

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2017 (CYLLIDEB)

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, John Griffith, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAgS |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes/Cfyarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br>Rheolwr Adfywio (ar gyfer eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Eric Jones, Bryan Owen |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. CYNLLUN YMGYNGHORI AR Y GYLLIDEB**

Cyflwynwyd ar gyfer ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith – adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol yn cynnwys cynllun arfaethedig ar gyfer cynnal proses o ymgynghori cyhoeddus ar y cynigion mewn perthynas â Chyllideb 2018/19 yn ystod y cyfnod o'r wythnos sy'n cychwyn 6 Tachwedd hyd 29 Rhagfyr 2017.

Dywedodd y Cadeirydd bod y Cynllun arfaethedig ar gyfer Ymgynghori ar y Gyllideb yn debyg i'r cynllun a fabwysiadwyd i'r un perwyl yn 2017/18. Mae'r Cynllun yn cymryd ymagwedd traws-sector gyda'r bwriad o gyflwyno sylwadau'r dinasyddion drwy amrediad o sianelau a chyfryngau. Roedd y cynllun arfaethedig wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn y cyfarfod ar y Gyllideb a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol; roedd cynrychiolwyr o Llais Ni (sef Cyngor Ieuenctid Ynys Môn) a'r Panel Dinasyddion yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw ac maent yn ystyried yn awr y modd y byddant yn cyfrannu at y broses ymgynghori. Yn ychwanegol at hyn, mae sefydliadau ieuenctid yr Ynys yn ystyried cynnal sesiwn ar y cyd yn hytrach na chyfarfod ar wahân a bydd y rhaglen ymgynghori yn adlewyrchu eu hanghenion.



DRAFT

Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol bod y Cynllun Ymgynghori'n ffrwyth gwaith a wnaed gan y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori Corfforaethol sy'n cynnwys cynrychiolwyr partneriaid megis Llais Ni a Medrwn Môn. Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r broses ymgynghori a gynhaliwyd ar y gyllideb llynedd ac wedi cymryd i ystyriaeth sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gyda golwg ar wella'r broses eleni. Dywedodd y Swyddog ei fod yn hyderus y byddai'r ymagwedd draws-sector hon a'r defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol, yn gwella cyfranogiad ac ymateb y dinasyddion ac o'r herwydd yn helpu i siapio'r gyllideb ar gyfer 2018/19. Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau bod yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r gynllun ac i ymateb i'r cynnydd yn y mewnbwn drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn eu lle fel rhan o'r broses eleni sydd wedi cyrraedd y pwynt a nodwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Ymgynghori ar y Gyllideb am 2018/19 ar gyfer ei weithredu yn ystod y cyfnod o'r wythnos yn cychwyn 6 Tachwedd 2017 hyd at 29 Rhagfyr 2017.**

**3. CYNLLUN RHEOLI SAFLE TREFTADAETH Y BYD CESTYLL A MURIAU TREFI'R BRENIN EDWARD 2018-2028**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gytuno bod yr Awdurdod, fel un o'r prif bartneriaid, yn llofnodi Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Cyd Cestyll a Muriau trefni'r Brenion Edwards ar gyfer 2018-2028.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a datblygiad Economaidd bod y Cynllun, fel y'i cyflwynwyd, yn diweddaru'r Cynllun Rheoli a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2004. Nid oes unrhyw ddisgwyliadau newydd neu ychwanegol ar y Cyngor o safbwynt llunio'r Cynllun Rheoli. Mae Castell Biwmares yn safle treftadaeth y byd ac yn safle diwyllianol o werth sylweddol. Mae CADW wedi paratoi drafft newydd o'r cynllun rheoli a'r cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod 2018 i 2028 sy'n dwyn ynghyd y partïon cyfrifol parties gan olygu y gellir rheoli'r safle mewn modd cydlynol. Mae amcanion y cynllun rheoli yn cyd-fynd â sawl agwedd o waith y Cyngor mewn perthynas â rheoli'r safle o amgylch Castell Biwmares – yn bennaf o ran cynllunio, twristiaeth ac adfywio ond hefyd agweddau penodol sy'n ymwneud â phriffydd, addysg a threftadaeth. Mae Swyddogion y Cyngor wedi cadarnhau bod mwyafrif llethol o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cynllun rheoli yn rhan o'r dyletswyddau statudol y mae'r Awdurdod Lleol eisoes yn ymgymryd â nhw fel yr awdurdod cynllunio lleol ac na fydd unrhyw ymrwymiadau ariannol newydd ar yr Awdurdod o ganlyniad. Gan gadw mewn golwg bwysigrwydd Castell Biwmares fel canolbwynt diwylliannol a thwristaidd a'r buddion economaidd a ddaw i'r ardal yn sgil hynny, cynigiodd yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

**PENDERFYNWYD cytuno bod Cyngor Sir Ynys Môn yn llofnodi Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Safleoedd Treftadaeth y Byd ar gyfer Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward 2018 i 2028 mewn perthynas â Chastell Biwmares.**

**4. CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2018/19**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ar y Gyllideb Refeniw ddrafft ar gyfer 2018/19.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod y cynigion drafft cychwynnol ar gyfer Cyllideb Refeniw 2018/19 yn dod â cham cyntaf y broses o osod y gyllideb i ben. Mae hyn wedi golygu mewnbwn sylweddol gan Swyddogion ac Aelodau Etholedig mewn cyfarfodydd



DRAFT

adolygu gwasanaeth a gweithdai cyllideb sydd wedi arwain at nodi oddeutu £3.3m o arbedion. Mae'r gwaith paratoadol wedi bod yn heriol ac mae'r Cyngor yn dal i wynebu diffyg posibl o £2m yng nghyllideb 2018/19 wedi cymryd i ystyriaeth y pwysau y mae'n rhaid iddo ymdopi â hwy o safbwynt chwyddiant cyflogau, chwyddiant cyffredinol, y cyflog byw cenedlaethol, gostyngiad mewn grantiau a phwysau eraill. Mae'r rhestr ddrafft o gynigion ar gyfer arbedion yn cynnwys nifer o opsiynau gyda hynny'n cynnig rhywfaint o hyblygrwydd o ran y penderfyniadau y bydd angen eu gwneud. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19, nid yn lleiaf oherwydd yr heriau ariannol sy'n debygol o godi yn y blynyddoedd dilynol a'r angen i'r Cyngor fod yn barod amdanynt. Er bod y setliad dros dro i Lywodraeth Leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn well na'r disgwyl i Ynys Môn, mae dal yn cynrychioli gostyngiad o 0.1% o gymharu â setliad 2017/18. Wedi cymryd i ystyriaeth yr holl newidiadau, addasiadau a chyfrifoldebau newydd, mae'r gyllideb ddigyfnewid ar gyfer 2018/19 yn £132.337m, cynnydd o £6.179m o gymharu â chyllideb derfynol 2017/18 sy'n golygu y bydd raid i'r Cyngor, er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, gwrdd â'r holl anghenion o'r gwasanaethau eu hunain a hynny ar ffurf toriadau, cynnydd mewn ffioedd neu arbedion effeithlonrwydd pellach. Mae'r cynigion yn cynnwys cynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor ynghyd ag 1% yn ychwanegol i gyllido pwysau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yr ymgynghori cyhoeddus ar y cynigion cyllidebol yn cychwyn yn syth ar ôl y cyfarfod hwn ac yn parhau hyd ddiwedd Rhagfyr; bydd yr adborth o'r broses hon ynghyd â ffigyrau'r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru yn siapio'r cynigion terfynol ar y gyllideb a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, Sgriwtini ac yna i'r Cyngor Llawn ar gyfer eu cymeradwyo ddiwedd mis Chwefror 2018.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, er bod y setliad dros dros yn well nag a ragdybiwyd yn y Cynllun Ariannol ar gyfer y tymor Canol gan olygu bod y bwlch cyllido yn £2m yn hytrach na £4m, erys risgiau sylweddol i'r gyllideb. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys pwysau mewn perthynas â thâl – mae pwysau arbennig ar gyflogau'r sector cyhoeddus ac os na fydd Llywodraeth Ganolog neu Lywodraeth Cymru'n cwrdd â'r rhain, bydd y Cyngor yn gorfod eu hysgwyddo. Rhagwelir y bydd gorwariant o oddeutu £2m ar gyllideb gyfredol 2017/18 yn bennaf oherwydd pwysau sy'n gysylltiedig â'r galw am wasanaethau yn y Gwasanaethau Plant; nid yw'r gyllideb ddigyfnewid yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gorwariant hwn, felly bydd angen gweithio i ddod â chostau'r gwasanaethau hynny sy'n gorwario yn ôl o fewn y gyllideb. Ni wyddys beth fydd effaith Brexit ar lefel y toriadau gan lywodraeth ganolog ac o'r herwydd ar y setliad terfynol hyd oni cheir cyhoeddiad am Gyllideb San Steffan ym mis Tachwedd. Er bod cyfanswm yr arbedion yn £3.296m sy'n fwy na'r diffyg o £2m yng nghyllideb 2018/19, mae'r sefyllfa ar gyfer 2019/20 yn waeth nag a ragwelwyd yn y CATC. Felly, er bod gan Aelodau rywfaint o hyblygrwydd wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer arbedion, yn y pen draw, bydd angen gweithredu'r arbedion hynny yn 2018/19 neu 2019/20 oherwydd mae'r angen i wneud arbedion yn parhau er bod cyfanswm yr arbedion yn £6.8m dros y tair blynedd nesaf yn hytrach na'r £8.6m a nodwyd yn y CATC.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Hydref lle trafodwyd y cynigion ar gyfer y gyllideb ac y bu hi'n bresennol ynddo. Dywedodd bod y Pwyllgor Sgriwtini, tra'n dymuno cael eglurhad ynghylch effeithiau'r cynigion am arbedion ar gyfer trigolion Ynys Môn; yr effaith bosibl ar addysg a safonau addysgol, y £125k ar gyfer y Tîm Ynys Ynni; y premiwm ar dai gwag ac ail gartrefi ynghyd ag amheuon ynghylch clustnodi'n benodol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol y cyllid ychwanegol y byddai'r cynnydd 1% yn y Dreth Gyngor yn ei gynhyrchu, yn argymell y cynigion am arbedion i'r Pwyllgor Gwaith fel cynigion teg a rhesymol ar gyfer ymgynghori gyda'r cyhoedd yn eu cylch.

Ystyriodd y Pwyllgor gwaith y cynigion a'r ymateb gan Sgriwtini ac fe wnaed y pwyntiau



DRAFT

isod –

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y Cyngor wedi bod yn ceisio gwneud mwy gyda llai ers rhai blynyddoedd yn awr wrth i'r hinsawdd o lymder barhau. Mae'r rhagolygon economaidd yn parhau i fod yn ansicr ac nid oes eglurder eto ynghylch goblygiadau Brexit.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith bod y dyranid o £125k tuag at y Tîm Ynys Ynni yn bwysig o ran gwarchod capasiti yn y Cyngor ar adeg hanfodol bwysig o ran datblygu prosiectau mawr.
- Mewn perthynas â'r cynnydd ychwanegol arfaethedig o 1% yn y Dreth Gyngor i'w glustnodi i gwrdd â phwysau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, nododd y Pwyllgor Gwaith ei bod yn bwysig i'r cyhoedd sylweddoli bod raid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ymateb i'r galw am y gwasanaeth, galw a ddaw yn aml gan bobl fregus. Oherwydd eu bod yn cael eu harwain gan y galw, mae'n anodd rhagweld beth fydd gwariant y Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd gall anghenion annisgwyl godi yn ystod y flwyddyn ac mae hynny'n digwydd. Felly er bod y gwasanaeth yn cael ei nodi fel un sy'n gorwario, mae angen egluro bod hyn i raddau helaeth oherwydd pwysau'r galw sydd arno.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y Panel Sgriwtini Cyllid wrthi'n edrych ar wariant a rheolaeth gyllidebol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol – yn enwedig y Gwasanaethau Plant.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod deall y gyllideb a'r modd y caiff ei rhoi at ei gilydd o'r gwahanol ffynonellau cyllidol sydd ar gael i'r Cyngor yn fater cymhleth ar ei orau; mae'n hanfodol felly bod y Cyngor yn gallu cyfleu'r sefyllfa – a'r angen i sicrhau arbedion – mor glir ag sy'n bosibl i'r cyhoedd ac er mwyn gwneud hynny, mae angen gwybodaeth lawn a dibynadwy arno. Nododd y Pwyllgor Gwaith nad yw o gymorth felly bod Llywodaeth Cymru wedi dweud bod arian ychwanegol wedi cael ei gynnwys yn y setliad, sef cynnydd o £62m a £42m ar gyfer elfennau ysgolion a gofal cymdeithasol yn y drefn honno pan nad yw hynny wedi cael ei drosi'n arian ychwanegol gwirioneddol ar gyfer yr awdurdodau lleol.

  Dywedodd y Cadeirydd y codwyd y mater mewn cyfarfod o CLILC yn ddiweddar pryd nodwyd y diffyg eglurder mewn perthynas â'r modd y dyrannwyd y cyllid ychwanegol hwn. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 na chafwyd unrhyw eglurhad pellach am y modd y daethpwyd at y ffigyrau hyn nac ychwaith ynghylch sut/pryd y bydd yr arian hwn yn cael ei ddyrannu i'r cynghorau. Dywedodd y Swyddog ei fod yn bwriadu ymateb yn ffurfiol i ddatganiad Llywodraeth Cymru ar y setliad i lywodraeth leol ac y gallai godi'r mater hwn fel rhan o'i ymateb. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith y dylai'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 mofyn eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y swm y bydd Ynys Môn yn ei dderbyn o'r arian ychwanegol a ddyrannwyd yn y setliad ar gyfer elfennau ysgolion a gofal cymdeithasol.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith bod elfennau eraill o'r setliad nad oes eglurhad yn eu cylch, e.e. gostyngiad mewn rhai grantiau cyfalaf, yn bennaf mewn perthynas â gwastraff a thrafnidiaeth a all, yn eu tro, effeithio ar y gyllideb refeniw. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith y dylai'r Arweinydd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar ei ran i fynegi ei bryderon ynghylch diffyg tryloywder mewn perthynas â'r cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol y cyfeirir ato uchod.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith ei bod yn hanfodol bod y broses ymgynghori yn cyrraedd cymaint o'r cyhoedd ag sy'n bosibl ac y dylid gofyn nid yn unig am eu barn ynghylch y materion y maent yn eu hystyried fel blaenoriaethau ond hefyd am eu hamwgrymiadau

DRAFT

ynglŷn â'r modd y gall y Cyngor gynhyrchu incwm, sef pwynt dygwyd sylw ato yn y Pwyllgor Sgriwtini.

**Penderfynwyd –**

- **Bod swm o £125k yn cael ei gynnwys yn y gyllideb derfynol i gyllido'r Tîm Ynys Ynni a bod y swm hwn yn cael ei gadw yn y gyllideb am y cyfnod y bydd angen y Tîm fel y nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad.**

- **Bod y grantiau sydd wedi eu hymgorffori yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a'r cyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau newydd yn cael eu dyrannu i'r cyllidebau priodol fel y caniatawyd ar gyfer hynny yn y gyllideb ddisymud yn unol â pharagraffau 5.4 a 5.5 yr adroddiad;**

- **Cadarnhau bod angen cyllideb wrth gefn o £600k i dalu unrhyw gostau tâl ychwanegol (fel y caniatawyd ar ei gyfer yn y gyllideb ddisymud). Adolygu gwerth y gronfa wrth gefn hon cyn penderfynu ar y cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol (paragraff 6.1 yr adroddiad);**

- **Ymgynghori gyda'r cyhoedd ynghylch cynnydd ychwanegol o 1% yn y Dreth Gyngor uwchlaw'r cynnydd o 4% sydd wedi ei bennu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol a bod y cyllid yn cael ei roi o'r neilltu i gyllido'r pwysau ychwanegol sydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â pharagraff 6.5 yr adroddiad;**

- **Cymeradwyo'r gyllideb ddisymud o £132.337m ar gyfer 2018/19 ac y dylai hyn fod yn sail ar gyfer cyllideb refeniw 2018/19 (paragraff 7.1 yr adroddiad);**

- **Bod y swm a neilltuwyd i brosiectau tai drwy'r premiwm ar gyfer tai gwag ac ail gartrefi yn aros ar yr un lefel â 2017/18 yn unol â pharagraff 9.2 yr adroddiad);**

- **Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2018/19 i gydbwyso'r gyllideb refeniw heb orfod defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac er mwyn sicrhau bod yr arbedion y mae angen eu gwneud yn 2019/20 yn gyraeddadwy (paragraff 9.6 yr adroddiad);**

- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn ceisio barn y cyhoedd ar yr arbedion arfaethedig ac yn gofyn am awgrymiadau ar gyfer cynhyrchu incwm.**

- **Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ei ymateb i'r datganiad ar y setliad refeniw dros dro yn gofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y swm a fydd yn cael ei ddyrannu i Ynys Môn o'r £42m a'r £62m sydd wedi ei neilltuo ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol yn y drefn honno.**

- **Bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi pryderon y Pwyllgor Gwaith ynghylch diffyg tryloywder mewn perthynas â'r gostyngiad mewn rhai grantiau cyfalaf a fydd yn cael sgil-effaith ar y gyllideb refeniw, e.e. gwastraff a thrafnidiaeth ynghyd â diffyg eglurder o ran y cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer elfennau ysgol a gofal cymdeithasol y cyfeirir atynt uchod.**



DRAFT

**Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **27 Tachwedd 2017** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

*  *Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen 22

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Rhagfyr 2017** | | | |
| 1 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adran 151 | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>15 Rhagfyr 2017 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |
| 3 | **Moderneiddio Ysgolion – Adroddiad Cynnydd (gan gynnwys ysgolion hefo llai na 120 mewn nifer o ddisgyblion)**<br><br>Cytuno'r cyfeiriad strategol. | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |
| 4 | **Rheoli'r Trysorlys 2017/18 – Adolygiad Canol Blwyddyn** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | 28 Chwefror 2018 |
| 6 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni – Achos Amlinellol Strategol / Achos Busnes Amlinellol cyfunol** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |
| 7 | **Strategaeth Taclo Tlodi**<br><br>Cymeradwyo strategaeth ddrafft ar gyfer mynd allan i ymgynghori. | | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |
| 8 | **Llwybr Datblygu Tai Cyngor – Pecynnau dylunio ag adeiladu gan ddatblygwyr** | | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |
| 9 | **STEM Gogledd Cymru** | Penderfyniad cyfunol i'r Pwyllgor gan fod y cyfraniad y tu hwnt i beth sydd wedi'i gytuno eisoes ar gyfer 2017/18. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones<br>Cyng Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ionawr 2018** | | | | | | |
| 10 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ionawr 2018 | |
| 11 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni – Sylwadau yn dilyn yr ail ymgynghoriad** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ionawr 2018 | |
| 12 | **Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ionawr 2018 | |
| 13 | **Datblygu Tai Fforddiadwy yng Nghaergybi** | | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ionawr 2018 | |
| | **Chwefror 2018** | | | | | | |
| 14 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br><br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adran 151 | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>28 Chwefror 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 16 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 17 | **Cyllideb 2018/19 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | 5 Chwefror 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | 28 Chwefror 2018 |
| 18 | **Ffioedd a Thaliadau 2018/19** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 20 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes**<br><br>Mabwysiadu polisi newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 21 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 22 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | **Ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio yn y Sector Annibynnol 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 24 | **Graddfeydd Talu am wasanaethau Gofal Cartref annibynnol yn ystod 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 25 | **Cynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | 5 February 2018<br>I'W GADARNHAU | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018<br>I'W GADARNHAU | |
| 26 | **Tai Gofal Ychwanegol, Seiriol** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | I'W GADARNHAU | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018<br>I'W GADARNHAU | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | I'W GADARNHAU | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018<br>I'W GADARNHAU | |
| 28 | **Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Llyr Bryn Roberts<br>Pennaeth Interim – Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | 5 Chwefror 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 29 | **Cynllun Busnes 30 mlynedd Cyfrif Refeniw Tai a rhaglen gyfalaf 2018-2019**<br><br>Cymeradwyaeth cyn ei gyrru ymlaen gyda chais am grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr i Lywodraeth Cymru | Cyfrif Refeniw Tai yn fater statudol | Gwasanaethau Tai | Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | I'W GADARNHAU | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018<br>I'W GADARNHAU | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 30 | **Cynllun Comisiynu Rhaglen Cefnogi Pobl**<br><br>Cymeradwyaeth cyn ei gyrru ymalen i'r Pwyllgor Rhanbarthol | Cynllun Cefnogi Pobl yn fater statudol | Gwasanaethau Tai | Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | I'W GADARNHAU | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018<br>I'W GADARNHAU | |
| | **Mawrth 2018** | | | | | | |
| 31 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 32 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 33 | **Polisi Dewisol Taliadau Tai 2018/19**<br><br>Adrodd ar weinyddiaeth y polisi ac unrhyw newidiadau yr argymhellir – pennu polisi. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | **Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2018 – 2021** | | Tai | Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 35 | **Strategaeth Taclo Tlodi**<br><br>Cymeradwyaeth ar y ddogfen yn dilyn cyfnod o ymgynghori | O fewn rhaglen weithredu Cynllun Corfforaethol y Cyngor | Gwasanaethau Tai | Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | I'W GADARNHAU | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 I'W GADARNHAU | |
| 36 | **Storfa Cynnal a Chadw Tai**<br><br>Derbyn cymeradwyaeth i symud ymlaen i arwyddo cytundeb gyda darparwr | Penderfyniad ynghlwm a Chynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai | Gwasanaethau Tai | Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | I'W GADARNHAU | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 I'W GADARNHAU | |
| | | | | **Ebrill 2018** | | | |
| 37 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Ebrill 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mai 2018** | | | | | | |
| 38 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mai 2018 | |
| 39 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2018 | |
| 40 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2018 | |
| | **Mehefin 2018** | | | | | | |
| 41 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mehefin 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Rhagfyr 2017 – Gorffennaf 2018

Diweddarwyd 15 Tachwedd 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf 2018** | | | | | | | |
| 42 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Gorffennaf 2018 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **27 TACHWEDD, 2017** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2017/18)** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **SCOTT ROWLEY** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a'r rheswm/rhesymau**

**1.1** Hwn yw ail gerdyn sgorio blwyddyn ariannol 2017/18.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd nhw ac fel y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith ac mewn ymgynghoriad a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

*1.3.1 Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliant yn ystod Ch3.*

*1.3.2 Fel rhan o'r gwaith ar y Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant, bod y Gwasanaethau Plant yn gweithio gyda'r Tîm Perfformiad Corfforaethol ac yn parhau i ail werthuso'r prosesau sy'n gysylltiedig â choladu data DP yn rheolaidd.*

*1.3.3 Parhau gyda'r panelau herio salwch rheolaidd, gyda chynllun gwaith cysylltiedig i gadw ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch ac darparu cefnogaeth i'r gwasanaethau sydd wedi methu eu targedau.*

*1.3.4 Bod y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion ac anogir Gwasanaethau Plant i ddarparu ymateb ysgrifenedig i gwynion Cam 1 o fewn yr amserlen.*

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

**CH - A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | |
| 7 | **Sgriwtini** | Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r esboniadau a roddwyd ar gyfer mesurau tanberfformio a lliniaru arfaethedig, penderfynodd y Pwyllgor<br><br>• Derbyn yr adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch2 2017/18<br>• Nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ymdrechu i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y nodir ym mharagraffau 3.1.1 i 3.1.4 yr adroddiad, a<br>• Derbyn y mesurau lliniaru fel yr amlinellir ynddi. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

**E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Amgylchedd** | |
| **5** | **Cydraddoldeb** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 2
Atodiad B – Dangosfwrdd Perfformiad Rhaglenni a Phrosiectau – Chwarter 2
Atodiad C - Yr Alldro Refeniw a Ragamcenir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 – Chwarter 2

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2017/18 – Chwarter 1 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2017 ac a dderbyniwyd ganddo.)

**ADRODDIAD MONITRO’R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2017/18)**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Un o amcanion y Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau’r modd y gellir tystiolaethu a chyflwyno gwelliannau parhaus yn gyffredinol. I'r perwyl hwn, mae adroddiad perfformiad yn cael ei ddrafftio bob blwyddyn i’w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos cynnydd neu ddiffyg cynnydd (fel y bo’n berthnasol).

1.2 Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i roi gwybod i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn y dangosyddion sy'n amlygu gweithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sydd o gymorth i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer drafftio’r adroddiad perfformiad.

1.3 Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i ddatblygu a gwreiddio, gan adlewyrchu’r newidiadau hynny sydd wedi cael eu gwneud i systemau ac arferion traddodiadol o fewn y Cyngor. Penderfynwyd pa ddangosyddion i’w cynnwys yn y cerdyn sgorio eleni (fel y gwnaed yn y gorffennol) mewn gweithdy. Cynhaliwyd y gweithdy hwnnw ar 26 Gorffennaf 2017 gydag aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

1.4 Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad A) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch2 a bydd yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd.

## 2. YSTYRIAETHAU

**2.1** Hon yw’r bumed flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn modd cydlynol. Mae'r Cyngor yn gweld tueddiadau yn dod i’r amlwg mewn perthynas â nifer o’r dangosyddion hynny ac mae sylwadau’r UDA /y Pwyllgor Sgriwtini a’r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar gyflawniad gweithredol.

**2.2** Mae'n bwysig nodi y gofynnwyd i gynnwys y canlynol yn y cerdyn sgorio ar gyfer eleni -

**2.2.1.1** ychwanegu'r dangosyddion perfformio MAC newydd (Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus) a gesglir bob chwarter fel y gellir eu cynnwys yn y rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â Rheoli Perfformiad;
**2.2.1.2** cynnwys dadansoddiad fesul Gwasanaeth o rai o'r dangosyddion Rheolaeth Ariannol fel atodiad i'r adroddiad hwn (Atodiad D); ac
**2.2.1.3** mae'r rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â Rheoli Pobl bellach yn cynnwys dadansoddiad o gyfraddau salwch yn yr ysgolion uwchradd a chynradd fel yr argymhellwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar reoli salwch.
**2.2.1.4 m**ae'r rhan Gwasanaethau Cwsmer o'r adroddiad sy'n rhoi sylw i ymateb i gwynion o fewn yr amserlen wedi ei rhannu'n ddau.

## 2.3 RHEOLI PERFFORMIAD

**2.3.1** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad yn dangos perfformiad yn erbyn y dangosyddion a amlinellwyd ac y gofynnwyd amdanynt gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol. Mae'r targedau ar eu cyfer wedi cael eu hadolygu a'u cymharu gyda'r data cymharu cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 13 Medi.

**2.3.2** Ar ddiwedd Ch2 mae'n galonogol nodi bod y mwyafrif o'r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ond nodwn fod X dangosydd yn tanberfformio ac yn dangos yn Ambr neu'n Goch yn erbyn eu targed ar gyfer y flwyddyn.

**2.3.3** Mae un dangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion yn parhau i ddangos tanberfformiad o chwarter 1-

(i) 02) Ll/18b: Canran y gofalwyr sy'n gofalu am oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a dderbyniodd asesiad neu adolygiad o'i hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn. Mae'r DP hwn yn dangos yn AMBR ar y cerdyn sgorio gyda pherfformiad o 83.4% o gymharu â tharged o 93%. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn yn well na'r perfformiad yn Ch2 2016/17 a oedd yn 82.3%. Dylid nodi, oherwydd bod y Gwasanaeth wedi symud i System Gronfa Ddata newydd, WCCIS, dim ond data hyd at y 15 Awst sydd wedi ei gynnwys yn y DP hwn gan nad oedd modd adrodd o'r system WCCIS ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Mae'r Tîm Gofalwyr yn dîm bach o 2. Oherwydd cymorth a gafwyd gan y tîm gwaith cymdeithasol, 'roedd y perfformiad yn dda hyd at ddiwedd 2016/17. Er bod perfformiad wedi dirywio ychydig yn ystod hanner cyntaf 2017/18, mae'r Gwasanaeth yn hyderus y bydd, gyda chymorth a gynlluniwyd gan y tîm gwaith cymdeithasol, y perfformiad yma yn gwella ac yn cyflawni'r targed DP.

**Cam Lliniaru** - i wella'r materion hyn yn ystod 17/18 bydd y gwasanaeth yn -

- Parhau i gefnogi'r Tîm Gofalwyr fel sy'n briodol. Byddai'r gwasanaeth yn dymuno nodi y bydd perfformiad yn amrywio ychydig yn dibynnu ar ffactorau tymhorol, e.e. pwysau gofal annisgwyl, gwyliau ac ati

**2.3.4** Mae dau dangosydd yn y Gwasanaeth Plant yn dangos tanberfformiad yn ystod y chwarter –

(i) 09) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, sydd yn AMBR gyda perfformiad o 19.5% i'w cymharu gyda targed o 15%.

Er bod hyn yn uchel ar ôl 6 mis, mae'r rhesymau am symud ysgol yn rhan o'r cynllunio tymor hir a gyfer y plant, e.e. mabwysiadu, lleoliadau therapiwtig, lleoliadau newydd, symud o ysgolion oedd yn cau i ysgolion newydd; ac o'r herwydd, nid oes angen unrhyw gamau lliniaru.

(ii) 11) PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn sydd yn GOCH gyda perfformiad o 375.5 Diwrnod yn erbyn targed o 250 Diwrnod.

Mae'r DP hwn yn cyfeirio at blant sydd wedi cael eu dadgofrestru yn unig ac nid yw'n cyfeirio at gyfanswm nifer y plant ar y cofrestr. Felly, rhaid bod yn ofalus wrth dadansoddi'r data.

Gwelsom gyfnod pan oedd rhai plant sydd wedi bod ar y gofrestr ers peth amser wedi'u dadgofrestru gan fod y ffigurau ar gyfer chwarter 2 yn cynnwys plant a oedd ar y gofrestr am 4 blynedd. Rhaid croesawu bod eu hamgylchiadau wedi gwella gan arwain at gael eu dileu.

Yn ogystal, mae nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi gostwng yn sylweddol dros y 6 mis diwethaf gyda 56 o blant ar y Gofrestr ar hyn o bryd o gymharu a 102 ar ddiwedd mis Mawrth 2017.

**2.3.5** Ni darparwyd gwybodaeth gan Wasanaethau Plant ar gyfer dangosydd 07 a 08 ar y cerdyn sgorio ar gyfer Ch2.

**2.3.6** Nodwyd yng nghyfarfod mis Medi pan drafodwyd y pwyllgor y dangosyddion sy'n gysylltiedig â Phlant y byddai angen gwaith pellach i wirio a chadarnhau'r data cysylltiedig fel y gellid canfod darlun cywir o ran perfformiad cyfredol y gwasanaeth. Mae'r gwaith yma bod yn digwydd dros y chwe wythnos diwethaf ac mae gan y Gwasanaeth gynllun gweithredu ar waith gydag enillion tymor byr, canolig a hirdymor er mwyn gwella'r sefyllfa a darparu data cywir a chyfredol i'w hystyried. Bydd y gwaith yma (tymor byr a chanolig) yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn a dylai ddarparu darlun cywir o berfformiad am y flwyddyn.

**2.3.7** Mae'r Gwasanaeth Plant wedi darparu'r diweddariad canlynol ar welliannau sy'n cysylltu â'r Dangosyddion Perfformiad ar y cerdyn sgorio –

**2.3.7.1** Dangosodd yr **Adroddiad Gwerthuso Ymarfer** ar gyfer Chwarter 1 bod arferion yn parhau i fod yn anghyson. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o arfer dda sydd wedi eu cadarnhau gan CSSIW fel rhai sy'n sicrhau'r canlyniadau angenrheidiol ar gyfer y plentyn/plant a'u teuluoedd. Mae Rheolwyr wedi parhau i ganolbwyntio ar wella ansawdd arferion Gwaith Cymdeithasol mewn perthynas â gwaith Llys, cofnodi achosion, asesu, dadansoddi risg, Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ac ymweliadau, ymweliadau Amddiffyn Plant, cyfarfodydd grŵp Craidd a Chynlluniau Llwybr (CGG 3.3). Mae ymyraethau wedi'u targedu yn parhau i gael eu cynnal gyda Gweithwyr Cymdeithasol sydd heb wella ansawdd eu harferion.

Mae'r gwasanaeth bellach wedi cytuno i flaenoriaethu gwelliannau mewn arferion asesu Gwaith Cymdeithasol.

**2.3.7.2** Mae **Cynllun Gweithredu Llys** wedi'i ddatblygu er mwyn canolbwyntio ar wella ansawdd a'r dadansoddiad o'r holl asesiadau yr ymgymerir â nhw er mwyn hysbysu ein penderfyniadau a bydd yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer paratoi achosion cyfraith cyhoeddus yn fuan yn y broses. Mae gan Arweinwyr Ymarfer bellach drosolwg o amserlen y Llysoedd ar gyfer achosion o fewn eu Grwpiau ymarfer a byddant yn cefnogi ac yn arwain Gweithwyr cymdeithasol er mwyn sicrhau gwell paratoadau ar gyfer y Llys a bod dogfennau'n cael eu ffeilio ar amser.

**2.3.7.3** Er yr anghysondeb o ran ymarfer, mae gennym dystiolaeth gadarnhaol o'r gweithlu yn gweithio'n uniongyrchol â theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau. Rydym wedi gweld **gostyngiad sylweddol** yn nifer y plant ar y **Gofrestr Amddiffyn Plant** o 102 ym mis Mawrth 2017 i 56 ar y gofrestr ar 31 Awst, 2017 sy'n ostyngiad o 55%. Mae'r Gwasanaethau Plant wedi mabwysiadu'r **Model Risg Thornton / Gwynedd** er mwyn parhau i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i weithio'n rhagweithiol â theuluoedd er mwyn rheoli risg - treulio llawer iawn mwy o amser ochr yn ochr â nhw er mwyn eu helpu nhw i newid er mwyn i'r teulu fod yn lle diogel ar gyfer eu plant. Mae angen rŵan i sefydlogi'r model risg o fewn yr arferion ac i gefnogi ymarferwyr ac arweinwyr ymarfer i allu datblygu eu sgiliau ymhellach o ran sefydlu'r model yn gadarn er mwyn cefnogi penderfyniadau risg effeithiol. Mae Bruce Thornton, cydawdur y model, yn ymgymryd â rôl **Datblygu Hyfforddwr Ymarfer** am gyfnod o 7 mis er mwyn canolbwyntio ar:

- Ddarparu hyfforddiant a mentora er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a gallu ymarferwyr ac arweinwyr ymarfer.
- Cefnogi Rheolwyr Gwasanaeth i weithredu, prosesu, systemau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y Model Risg yn cael ei weithredu o fewn prosesau gwasanaeth.
- Cefnogi datblygiad y Model Risg o fewn goruchwyliaeth feirniadol ac adlewyrchol.

**2.3.8** Mae un dangosydd newydd o fewn y Gwasanaeth Tai a oedd yn Goch ar y cerdyn sgorio ar gyfer Ch1 bellach wedi gwella ac mae'n dangos yn Wyrdd ar ddiwedd Ch2 -

(i) 28) PAM/015 – Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA). GWYRDD. 196 o ddyddiau yn erbyn targed o 200. Ar ôl cymryd camau lliniaru ac adolygu'r dangosydd yn ystod Chwarter 2 mae'r gwasanaeth wedi gwella'r broses ac wedi arbed 29.7 o ddyddiau yn ystod y cyfnod.

**2.3.9** Er bod y dangosyddion sy'n weddill ar gyfer Ch2, i gyd yn **WYRDD** neu'n **FELYN** o fewn yr adran rheoli perfformiad, dylid nodi nad yw hyn yn golygu bod ein safle cenedlaethol wedi gwella ar draws pob maes.

**2.3.10** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ni dderbyniwyd unrhyw ddata ar gyfer Dangosyddion Perfformiad y Gwasanaethau Plant (eitemau 08-11) ar gyfer Ch2.
**2.3.11** Yn ystod Ch2, mae'r targedau wedi cael eu hadolygu ar ôl cyhoeddi'r data cymharu cenedlaethol a rhoddwyd pwyslais ar wella dangosyddion yn y chwarteli is a chanolrifol is.

**2.3.12** Ni wnaed unrhyw newidiadau i ddangosyddion y Gwasanaethau Cymdeithasol (01-11) gan fod y canlyniadau DP ar gyfer 2016/17 wedi'u cadw yn ôl gan Lywodraeth Cymru. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes dyddiad wedi ei gyhoeddi ar gyfer rhyddhau'r data hwn.

**2.3.13** Ni fu newid 'chwaith yn y targedau ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Addysg (12-19) gan nad yw'r targedau ar gyfer yr Awdurdod ar gael eto. Bydd y rhain yn cael eu trafod a'u cytuno yn Ch3 gan ei bod yn gynnar yn y flwyddyn i osod targedau ar gyfer blwyddyn ysgol academaidd 17/18.

**2.3.14 Mae'r UDA yn argymell** -


**2.3.14.1** *Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd mesurau lliniaru i gynorthwyo i wella'r sefyllfa yn Ch3.*

**2.3.14.2** *Fel rhan o'r gwaith ar y Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant, bod y Gwasanaethau Plant yn gweithio gyda'r Tîm Perfformiad Corfforaethol ac yn parhau i ail werthuso'r prosesau sy'n gysylltiedig â choladu data DP yn rheolaidd.*

**2.3.15** Mae Atodiad B yn dangos y rhaglen waith gyfan y mae'r ddau Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol yn ei goruchwylio. Er bod rhai o'r rhaglenni / prosiectau yn dangos yn GOCH mae'n bwysig nodi bod y materion a amlygwyd yn cael eu rheoli a'u monitro drwy'r Byrddau sy'n cwrdd bob chwarter.

## 2.4 RHEOLI POBL


**2.4.1** O ran Rheoli Pobl, nodir bod perfformiad cyfraddau salwch y Cyngor *(dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio o dan Rheoli Pobl)* ar ddiwedd Ch2, sef 4.25, yn dangos gwelliant pellach o gymharu â'r un cyfnod yn 2016/17 pan oedd yn 4.89. Mae hyn yn dangos y rhagwelir y bydd y cyfraddau salwch erbyn diwedd y flwyddyn (os bydd y tueddiadau yn parhau fel y mae'r ddwy flynedd ddiwethaf yn ei awgrymu) yn cyfateb i 9.90 diwrnod am bob gweithiwr amser llawn cyfatebol (ALlC).




Tabl 1


**2.4.2** Mae perfformiad Gwasanaethau yn erbyn y targedau hyn ar gyfer Ch2 yn dangos bod dau wasanaeth yn GOCH neu’n AMBR o gymharu â'u targedau ar gyfer y chwarter:

**2.4.2.1** Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – COCH – 5.07 o dyddiau salwch fesul ALlC (Targed 3.07).Y prif reswm dros y dirywiad yn y perfformiad salwch yn Ch2 yw nifer o achosion o salwch hirdymor yn y Gwasanaeth Hamdden, gan arwain at golli cyfanswm o 391 o ddyddiau yn y cyfnod o gymharu â'r cyfanswm o 874 o ddyddiau a gollwyd yn y gwasanaeth cyfan, neu 45% o lefelau salwch y Gwasanaeth ar gyfer y cyfnod.



Tabl 2


**2.4.2.2** Gwasanaethau Oedolion - AMBR - 6.55 Diwrnod o salwch fesul ALlC (Targed 6.08). Y prif reswm dros y dirywiad yn y lefelau salwch yw achosion salwch tymor hir yn yr Uned Ddarparu, sy'n cyfateb i 1365 o ddyddiau salwch allan o gyfanswm y Gwasanaeth o 2557 (53%). Gwelodd yr Uned Ddarparu hefyd gynnydd o 165 yn nifer y dyddiau salwch tymor byr yn ystod Ch2 (500 diwrnod o salwch) o'i gymharu â Ch1 (335).



Tabl 3

**2.4.3** Mae cysylltiad rhwng cyfraddau salwch a gwaith 'rheoli' salwch. Rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor yw cydymffurfiaeth staff â pholisïau salwch corfforaethol sy'n cynnwys cynnal Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a Chyfarfodydd Adolygu Presenoldeb *(dangosyddion 7 ac 8 ar y cerdyn sgorio)*.

**2.4.4** Mae'r Cyngor yn parhau i wreiddio'r ymarfer hwn ar draws ei wasanaethau ac yn ystod Ch2 roedd 882 o'r 1223 (cronnol) Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith wedi gwblhau o fewn yr amserlen (72%). Roedd hyn yn welliant i gymharu â Ch1 lle roedd 462 o'r 684 cyfweliad wedi'i cwblhau o fewn yr amserlen (67%). Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn is na'r targed o 80% ac mae bellach yn dangos yn AMBR (Tabl 4). Mae cyfanswm y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith (o fewn ac allan o amserlen) a gynhaliwyd hefyd yn isel, sef 86% o gymharu â tharged o 95% ond mae ychydig bach yn well na'r ffigwr o 85% ar gyfer Ch1.




Tabl 4

**2.4.5** Yn ystod Ch2, y gwasanaethau a fethodd â chyrraedd y Targed DIG Corfforaethol o 80% o fewn yr amserlen oedd y Gwasanaethau Plant (58%), Dysgu (68%) Gwasanaethau Oedolion (73%), Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (75%) a'r Gwasanaethau Adnoddau (75%).

**2.4.6** 'Roedd dau wasanaeth yn dangos yn GOCH o ran canran y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gwblhawyd (o fewn yr amserlen a'r tu allan iddi), sef y Gwasanaeth Dysgu ar 81% a'r Gwasanaethu Plant ar 84%. Mae'r gwasanaethau sy'n weddill o fewn 5% i'r targedau.

**2.4.7** Mae'r ffigyrau ar gyfer Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP) yn Ch2 yn 59% (46 allan o 78) ac yn waeth na'r ffigwr o 78% ar gyfer Ch1 (nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys ysgolion). Atgoffwyd gwasanaethau o'r angen i gynnal CAP a bydd hwn yn faes i roi sylw arbennig iddo yn y panelau herio yn 2017/18.

**2.4.8** Er bod lle i wella o ran dilyn y Polisi Rheoli Absenoldeb, h.y. cynnal cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a chyfarfodydd adolygu presenoldeb, mae'n galonogol nodi y llwyddwyd i gyrraedd y targed salwch cyffredinol ar gyfer y 4ydd chwarter yn olynol ac os yw'r duedd hon yn parhau, rydym yn rhagweld canlyniad o 9.9 diwrnod am bob gweithiwr amser llawn (yn seiliedig ar gyfartaledd 3 blynedd).

***2.4.9 Mae'r UDA yn argymell felly -***

***2.4.9.1*** *Parhau gyda'r panelau herio salwch rheolaidd, gyda chynllun gwaith cysylltiedig i gadw ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch ac darparu cefnogaeth i'r gwasanaethau sydd wedi methu eu targedau.*

## 2.5 GWASANAETH CWSMER

**2.5.1** Yn ystod Ch2, defnyddiwyd technoleg AppMôn i roi gwybod am 1000 o faterion unigol (gan gynnwys tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaeth neu gwynion, palmentydd wedi torri, ffurflenni cronfeydd data clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Daeth 83% o'r rhain drwy'r wefan, sef lefel sy'n debyg i Ch1 17/18 pan ddaeth 85% drwy'r wefan.

**2.5.2** Mae angen gwneud rhagor o waith i gael manylion gan y cyflenwr am faint o weithiau y mae AppMôn wedi ei lawrlwytho. Gwneir hyn yn ystod Ch3 ac adroddir ar y canlyniadau yn Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch3.

**2.5.3** Mae'r dangosyddion sy'n weddill o fewn yr Adain Gwasanaethau Digidol yn canolbwyntio ar y wefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwelwyd cynnydd o 54k yn nifer yr ymweliadau unigryw yn ystod Ch2 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (328k yn 17/18 a 274k yn 16/17). Mae ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi arwain at gyfanswm o 23k o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ein dilyn ni, sef 11k o ddilynwyr ar Facebook a 12k o ddilynwyr ar Twitter.

**2.5.4** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, erbyn diwedd Ch2 derbyniwyd 43 o gwynion. Mae 92% o'r cwynion oedd angen ymateb erbyn diwedd Ch2 (38 cwyn) wedi derbyn ymateb o fewn yr amserlen (2 ymateb hwyr gan y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ac 1 gan Adnoddau). O'r cwynion hyn, cadarnhawyd 13 ohonynt yn llawn (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [5], Adnoddau [4], Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1], Tai [1], Trawsnewid [1] a Gwasanaethau Cymdeithasol [1]). Cadarnhawyd 1 gŵyn yn rhannol (Tai) ond ni chafodd y 25 sy'n weddill eu cadarnhau. Am ragor o wybodaeth am Gwynion Corfforaethol, gweler y ddolen ganlynol: http://www.ynysmon.gov.uk/ystadegau-cwynion-y-cyngor/11531.article

**2.5.5** Roedd 6 Chŵyn Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant [4] a Gwasanaethau Oedolion [2]) a 30 Cwyn Cam 1 (Gwasanaethau Plant [25], Gwasanaethau Oedolion [5]) yn ystod Ch2.

- **2.5.5.1** O'r 30 cwyn Cam 1, ymatebwyd yn ysgrifenedig i 53% (yr un fath ag ar ddiwedd Ch1) o'r cwynion o fewn yr amserlen, sef yr un ganran â Ch1. Roedd yna 14 o ymatebion ysgrifenedig hwyr gyda 12 o fewn Gwasanaethau Plant a 2 o fewn Gwasanaethau Oedolion.
- **2.5.5.2** Y rheswm am y tan perfformiad o fewn yr amserlen o fewn Gwasanaethau Plant oedd ymateb yn ysgrifenedig o fewn yr amserlen.
- **2.5.5.3** wrth deud hyn, roedd 22 o'r 25 (88%) wedi siarad gyda'r achwynydd o fewn yr amserlen sy'n well na pherfformiad Ch1 (80% ).

**2.5.6** Ymatebwyd i 79.4% o'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen ar ddiwedd Ch2 o'i gymharu ag 80% ar ddiwedd Ch1. Roedd cyfanswm o 479 o geisiadau o'r fath yn Ch1 ac 82 o ymatebion hwyr. Daeth mwyafrif yr ymatebion hwyr

o’r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, sef 28% o'r ymatebion hwyr (26% o'r 88 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth), y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda 24% (22% o'r 91 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth), a Dysgu gyda 16% (33% o'r 39 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth). Am ragor o wybodaeth am geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ewch i'r ddolen ganlynol: http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data-a-rhg/ystadegau-mynediad-i-wybodaeth-y-cyngor

***2.5.7 Mae'r UDA yn argymell felly -***

***2.5.8.1*** *Bod y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion ac y dylid atgoffa’r Gwasanaethau Plant i ddarparu ymateb ysgrifenedig i gwynion o fewn amserlenni.*

**2.6 RHEOLAETH ARIANNOL**

**2.6.1** Rhagamcanir gorwariant cyffredinol o £ 1.924m ar gyfer diwedd y flwyddyn 31 Mawrth 2018. Mae £ 2.706m o hyn ar gyllidebau gwasanaeth, sy'n cynnwys nifer o orwariant a tanwariant. Mae hyn yn welliant o £ 0.343m ar y sefyllfa a nodwyd ar ddiwedd Chwarter 1. Mae'r Gwasanaethau sy'n dal i gael pwysau cyllidebol sylweddol yn debyg i 2016/17 (Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, a Dysgu). Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r materion ac yn gweithio i leihau'r gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir i Gyllid Corfforaethol danwario o £ 0.331m a rhagwelir y bydd Treth y Cyngor, sy'n cynnwys Premiwm Treth y Cyngor, yn casglu £0.450m mwy nag a dybiwyd. O ganlyniad, mae'r gorwariant cyffredinol a ragamcanir yn gostwng i £ 1.924m. Mae’r lefel ragamcanedig o orwariant yn 1.53% o gyllideb net y Cyngor. Mae'r balansau cyffredinol ar hyn o bryd yn ddigonol i gynnal y gorwariant heb atal y targed lefel isaf o £ 6m a osodwyd gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror 2017.

**2.6.2** Dylid nodi yn Chwarter 2 na chafodd effaith cynnal a chadw'r gaeaf ei gynnwys yn y rhagolygon gan nad oes unrhyw wybodaeth ar gael. Mae’r rhagolygon yn destun newid pellach wrth i wybodaeth newydd ddod i law. Fodd bynnag, gyda chraffu yn rheolaidd gan yr Uwch Dim Arwain a gwaith pellach gan y Penaethiaid Gwasanaethau i gymryd camau adferol bydd y rhain yn helpu'r gwasanaethau i reoli o fewn y cyllidebau y gallent eu rheoli.

**2.6.3** Gellir gweld rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Ch2' a drafodir yn y Pwyllgor Gwaith ar 27 Tachwedd a’r Panel Sgriwtini Cyllid ar 1 Rhagfyr.

**3. ARGYMHELLION**

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i’r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

***3.1.1*** *Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliant yn ystod Ch3.*

***3.1.2*** *Fel rhan o’r gwaith ar y Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Plant, bod y Gwasanaethau Plant yn parhau i weithio gyda’r Tîm Perfformiad Corfforaethol ynghylch casglu eu DPA.*

***3.1.2*** *Parhau gyda'r panelau herio salwch rheolaidd, gyda chynllun gwaith cysylltiedig i gadw ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch ac darparu cefnogaeth i’r gwasanaethau sydd wedi methu eu targedau.*

***3.1.4*** *Bod y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion ac atgoffa’r Gwasanaethau Plant i ddarparu ymateb ysgrifenedig i gwynion Cam 1 o fewn yr amserlen.*

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2017/18

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 16/17 Result | Canlyniad 15/16 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Melyn / Yellow | ↓ | 43 | 36 | 71 | 59 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau | - | - | 6 | - | 5 | 5 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | - | - | - | 25 | 21 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 92% | 80% | 93% | 64% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↓ | 47% | 80% | 63% | - |
| 05) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | - | 65 | - | 191 | 261 |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 30 | - | 54 | 53 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | - | 358 | - | 566 | 712 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | → | 79.40% | 80% | 77% | 67% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | - | 479 | - | 1037 | 854 |
| 10) % o'r galwadau ffôn heb ei ateb | Gwyrdd / Green | → | 12% | 15% | 13% | 12% |
| 11) % o gyfathrebu ysgrifenedig a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o'u derbyn (Siopwr Cudd) | Gwyrdd / Green | - | 78% | - | 67% | - |
| 12) % o ymatebion ysgrifenedig mewn dewis iaith y cwsmer (Siopwr Cudd) | Gwyrdd / Green | - | 100% | - | 100% | - |
| 13) % o alwadau ffôn a atebwyd yn ddwyieithog (Siopwr Cudd) | Gwyrdd / Green | - | 83% | - | 77% | - |
| 14) % y staff a gymerodd y cyfrifoldeb am ymholiad y cwsmer (Siopwr Cudd) | Melyn / Yellow | - | 87% | - | 90% | - |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 15) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | - | - | - | - | - |
| 16) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 1k | - | 1k | - |
| 17) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 8k | - | 10k | - |
| 18) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | Gwyrdd / Green | ↑ | 23k | 21k | 21k | - |
| 19) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | Gwyrdd / Green | ↑ | 328k | 271k | 541k | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 16/17 Result | Canlyniad 15/16 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2278 | - | 2258 | 2310 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1265 | - | 1250 | 1303 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | Gwyrdd / Green | ↑ | 4.25 | 4.52 | 9.78 | 11.68 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | - | - | 1.73 | - | 4.72 | 11.68 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | - | - | 2.53 | - | 5.06 | 6.79 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 4.02 | 4.2 | - | - |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.74 | - | - | - |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 2.28 | - | - | - |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↓ | 3.71 | 4.2 | - | - |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.76 | - | - | - |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.95 | - | - | - |
| 06) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Ambr / Amber | ↑ | 72% | 80% | 78% | 84% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Ambr / Amber | ↑ | 86% | 95% | 91% | - |
| 08) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Coch / Red | - | 59% | 80% | 57% | - |
| 09) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | - | - | - | 10% | - |
| 10) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Ch4) | - | - | - | 80% | 80% | - |
| 11) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | - | - | - | 91.40% | 98% |
| 12) Nifer o staff Asiantaeth | - | ↑ | 17 | - | 15 | 26 |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | ↑ | £66,008,000 | £67,226,000 | 1.85% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | ↑ | £126,157,000 | - | - | £128,081,000 | 1.53% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | Coch / Red | ↓ | £38,505,000 | - | - | £22,026,000 | -42.80% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | ↓ | £2,444,000 | - | - | £1,655,500 | -32.26% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | -£8,981,090 | -£9,840,570 | 9.57% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | - | ↑ | £12,377,000 | - | - | £8,715,000 | -26.59% |
| 07) Chost benthyca | - | → | £4,257,000 | - | - | £4,095,000 | -3.81% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Melyn/Yellow | ↓ | - | 81.58% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | | 98.70% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | | 98.70% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Ambr / Amber | ↑ | - | 97% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↓ | - | 100.27% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd d | - | ↓ | - | 99.98% | - | - | - |

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 16/17 Result | Canlyniad 15/16 Result | Chwartel 16/17 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar | Gwyrdd / Green | ↑ | 19.01 | 22 | 20.51 | 20.3 | - |
| 02) Ll/18b Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Ambr / Amber | ↓ | 83.4 | 93 | 94.4 | 90.8 | - |
| 03) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 93.33 | 90 | 90.48 | - | - |
| 04) PM19 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd | Melyn / Yellow | ↓ | 2.9 | 1.5 | 6.05 | - | - |
| 05) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 61.54 | 40 | 62.6 | - | - |
| 06) PM20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | → | 62.29 | 62 | 33.3 | - | - |
| 07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | - | - | - | - | 79.35 | 82.79 | - |
| 08) PM24 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol (42 diwrnod gwaith) | - | - | - | - | 89.17 | - | - |
| 09) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | Ambr / Amber | ↓ | 19.5 | 15 | 17.53 | - | - |
| 10) PM33 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 5 | 5 | 5.04 | - | - |
| 11) PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Coch / Red | ↓ | 375.5 | 250 | 266 | - | - |
| 12) Presenoldeb – Cynradd (%) (Ch3/Q3) | - | - | - | - | 94.8 | 95.1 | - |
| 13) Presenoldeb – Uwchradd (%) (Ch3/Q3) | - | - | - | - | 94.6 | 94.5 | Uchaf / Upper |
| 14) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Cynradd | - | - | - | - | - | - | - |
| 15) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Uwchradd | - | - | - | - | - | - | - |
| 16) CA4 – % y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2+ | - | - | - | - | 58.8 | 56.9 | - |
| 17) CA3 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | - | ↑ | 88.9 | 90.1 | 87.6 | 84.5 | Canrif Uchaf / Upper Median |
| 18) CA2 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | - | ↑ | 91.4 | 91 | 89.4 | 91.8 | Uchaf / Upper |
| 19) CS - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC/DCS | - | ↑ | 85.8 | 88.4 | 84.7 | 86.2 | Isaf / Lower |
| 20) LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y | Gwyrdd / Green | ↑ | 146k | 144k | 288k | 289k | Uchaf / Upper |
| 21) LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 136K | 135k | 272k | 284k | - |
| 22) Nifer yr ymgeiswyr gyda phlant sy'n ddibynyddion iddynt y mae'r Cyngor wedi sicrhau llety gwely a brecwast iddynt (llety nad yw'n hunangynhaliol) | Gwyrdd / Green | - | 0 | 0 | 0 | - | - |
| 23) % y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol | Melyn / Yellow | ↓ | 89.33 | 92 | 90.2 | 89.5 | - |
| 24) Cynhyrchiant y gweithlu – % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel amser | Gwyrdd / Green | ↓ | 80.11 | 80 | 80.1 | 74.6 | - |
| 25) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | ↑ | 18 | 23 | 28 | 33.7 | - |
| 26) PAM/013 - Nifer o eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Melyn / Yellow | ↑ | 33 | 35 | - | - | - |
| 27) PAM/014 - Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | - | ↑ | 1 | - | - | - | - |
| 28) PAM/015 - Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↑ | 196 | 200 | - | - | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 29) STS/005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glanweithdra | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.3 | 94 | 93.4 | 95.1 | - |
| 30) STS/006: Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ar ôl i rywun adrodd amdanynt | Gwyrdd / Green | → | 100 | 100 | 97.31 | 98.5 | - |
| 31) WMT/009b: Canran y gwastraff sirol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu | Gwyrdd / Green | → | 75.57 | 67 | 65.79 | 59.5 | Uchaf / Upper |
| 32) WMT/004b: Canran y gwastraff sirol a anfonwyd i'w dirlenwi | Gwyrdd / Green | → | 0.55 | 5 | 6.6 | 16.9 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 33) THS/011c: % y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan (blynyddol) | - | - | - | 10 | 10.1 | 13.5 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 34) Nifer y bobl ifanc sydd wedi mynychu rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth | Gwyrdd / Green | ↑ | 20k | 30k | 113k | 132k | - |
| 35) LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol | Gwyrdd / Green | ↑ | 236k | 217k | 464k | 458k | Isaf / Lower |
| 36) PAM/023 - Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 97 | 80 | 98 | - | Uchaf / Upper |

Atodiad B

Mae'r ddogfen yma wedi'i gynnwys yn adroddiad chwarterol y cerdyn sgorio Sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter i ddarparu diweddariad lefel uchel byr ynghylch statws y gwaith sydd yn berthnasol ac yn adrodd i'r -

- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau, a'r**
- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes**

Yr allwedd CAG ar gyfer y ddogfen uchod yw fel a ganlyn –

CAG:

| | |
|---|---|
| Wedi ei gwblhau | Prosiect wedi ei gwblhau |
| Ar y trywydd iawn | Prosiect yn datblygu yn ôl y disgwyl ac mae ar y trywydd iawn |
| Ar ei hôl hi | Mae prosiect angen penderfyniadau / cymorth allweddol |
| Hwyr | Mae'r prosiect yn hwyr a thŷ ôl i'r amserlen ddisgwyliedig |
| Gwyn | Nid yw'r prosiect wedi dechrau |

| Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau | | |
|---|---|---|
| **Rhaglenni** | **Prosiectau Unigol** | **RAYG a Diweddariad** |
| **Moderneiddio Ysgolion** | **Ardal y Llannau (Ysgol Rhyd y Llan)** | Wedi cwblhau |
| | **Ardal Caergybi (Yshol Cybi)** | Wedi cwblhau |
| | **Bro Rhosyr a Bro Aberffraw** | llithriad yn yr amserlen Mae'r amserlen ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd yn Niwbwrch wedi llithro i Ionawr 2019 |
| | **Llangefni** | Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017 mai Opsiwn B yw'r opsiwn a ffafrir |
| | **Seiriol De Ddwyrain** | Y broses ymgynghori anffurfiol wedi ei gynnal |
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn – Prosiect Opsiynau Gwella Llety** | **Gofal Ychwanegol Llangefni** | Mae cynnydd da yn cael ei wneud efo'r gwaith adeiladu ac mae'r adeiladwyr yn hyderus eu bod yn cadw at yr amserlen a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2018 |
| | **Gofal Ychwanegol Amlwch** | Roedd seibiant wedi bod ar hwn ond mae yna waith o edrych ar ardal Amlwch eto wedi ei gychwyn. Mae darn o waith yn cael ei wneud gan yr Adran Dai i edrych ar anghenion tai yn fwy eang o fewn yr ardal sydd yn cynnwys ystyried TGY. |
| | **Gofal Ychwanegol De'r Ynys** | Y bwriad yw ymghynghori ymhellach yn yr Hydref ar safle ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn Seiriol. |
| | **Tai a chefnogaeth** | ail-strwythuro yn ystod yr Haf 2017. |
| | **Tendro Gwasanaeth Gofal Cartref** | edrych ar fframwaith Gogledd Cymru ar gyfer Gofal Cartref. Mae'r tendr yma wedi mynd allan ddechra mis Hydref |
| | **In house day Services** | Cynnig prosiect yn mynd i UDA Tachwedd 2017 |
| **Trawsnewid llyfrgelloedd, gwasanaeth ieuenctid, amgueddfeydd, diwylliant a Market Hall** | **Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant** | Modelau newydd reoli Amgueddfeydd a Diwylliant ar waith erbyn Ebrill 2018 |
| | **Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | Mae'r Strategaeth arfaethedig yn cael ei ystyried i'w fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2017 |
| | **Adolygiad Gwasanaeth Ieuenctid** | **Amserlen ddiwygiedig wedi ei gytuno gan y Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid ar y 13/07/2017** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Market Hall** | Mae Capasiti y Tim yn risg uchel ar hyn o bryd o fewn y prosiect |
| **Hamdden** | | Cynlluniau arbedion ar gyfer 2017/18 wedi ei gweithredu. Arbedion ar gyfer 2018/19 wedi ei rhoi ymlaen. |
| **Ynys Ynni** | | |
| **Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC)** | | Cynllun Datblygu Cyrchfan wedi ei fabwsyiadu'n gorfforaethol gan y PG. Disgwylir penodi Rheolwr Cyrchfan newydd yn Ch3. |
| **Tai Arloesol (Innovative Housing Solutions)** | | Wedi cyflwyno cais am grant o Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer unedau byw ar gyfer pobl ifanc |
| **Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | | |
| **Strategaeth Ataliol** | **Ymyrraeth gynnar** | |
| | **Gweithredu Strategaeth Taclo Tlodi** | |
| | **Trawsnewid Ieuenctid** | |
| **Cynyddu lefelau ailgylchu** | | |
| **Gwaith lliniaru llifogydd** | | |

| **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes** | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen / Prosiect** | **Prosiectau Cysylltiedig** | **RAYG a Diweddariad byr** |
| **Cyswllt Adnoddau - Northgate (AD)** | | Mae amserlen ddiwygiedig a gynigir gan y Bwrdd i gwmpasu trafodaethau diweddar. |
| **Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid** | **Rhaglen Ehangu Cyswllt Môn / Cyswllt Wyneb Yn Wyneb** | Hyfforddiant TGCh staff wedi cael ei drefnu o Ch2 ymlaen |
| | **Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid** | Trafodaethau ar y gweill i uno canolfannau galw presennol |
| | **Cyswllt Dros Y Ffôn + Newid Sianel** | Canolfannau Cyswllt sy'n cael eu profi ar hyn o bryd gan y gwasanaethau: |

| | | |
|---|---|---|
| | | Refeniw (wedi'i drefnu i fynd yn fyw Ch3) |
| | **CRM** | Gweithredwyd y Modiwl Gwastraff ac Ailgylchu yn Ch3. Wedi llithro ychydig o Ch2. |
| | **Gwella Prosesau Busnes** | Cynllun gwaith yn ei le - gwaith o sgopio'r broses cychwynnol wedi ei gychwyn ac i'w gwblhau cyn ddiwedd Ch3 |
| | **Cydymffurfiaeth a Boddhad** | |
| **Alternative Delivery Models** | | Diweddariad wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd yn ystod Ch3 |
| **Invest to Save** | | |
| **Trawsnewid y Gweithlu** | **Cynllunio gweithlu** | |
| | **Prentisiaethau** | |
| **Caffael** | | Prosiect estynedig Caffael i'w sefydlu i ganolbwyntio ar fuddiannau corfforaethol i'r dyfodol |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | Mae'r Strategaeth Ynni a'r cynllun gweithredu ar waith ac mae adroddiadau misol yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Tir ac Asedau. |
| **Strategaeth TGCh** | | |
| **Cynllun Gwella Sgriwtini** | | Diweddariad wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd yn ystod Ch3 |
| **Strategaeth Cyfathrebu** | | Recriwtio Swyddog Cymorth Cyfathrebu yn ystod Ch3.<br><br>Gyda Chynllun y Cyngor newydd 2017-22 nawr mewn lle, bydd hyn hefyd yn helpu i lunio ein blaenoriaethau o ran cyfathrebu dros y blynyddoedd i ddod. |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Ch2 2017/18 – Cyllideb Hyd Yma | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig 2017/18 | Ch2 2017/18 Amrywiad | Ch1 Amcangyfrif o'r Gwariant hyd at 31 Mawrth 2018 | Ch2 Amcangyfrif o'r Alldro 31 Mawrth 2018 | Ch1 Amcangyfrif o'r Alldro 31 Mawrth 2018 | 2017/18 Rhagamcan o'r Gor/ (Tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | |
| Cyllideb sydd wedi ei dirprwyo i'r Ysgolion | 44,039 | 22,409 | 22,409 | -0 | 44,039 | -0 | 0 | 0.00% |
| Addysg Ganolog | 2,762 | 1,946 | 2,263 | 318 | 3,380 | 618 | 618 | 22.37% |
| Diwylliant | 1,355 | 810 | 757 | -53 | 1,285 | -70 | 20 | -5.17% |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 22,487 | 11,633 | 11,983 | 350 | 22,678 | 191 | 299 | 0.85% |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,003 | 4,375 | 5,158 | 783 | 9,902 | 1,899 | 2,106 | 23.74% |
| **Tai** | 1,055 | 981 | 954 | -27 | 1,055 | 0 | 0 | 0.00% |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,574 | 4,236 | 4,289 | 53 | 6,674 | 100 | 3 | 1.52% |
| Eiddo | 1,071 | 601 | 569 | -33 | 1,060 | -11 | -33 | -1.07% |
| Gwastraff | 6,294 | 3,688 | 3,631 | -58 | 6,269 | -25 | 30 | -0.39% |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,939 | 1,200 | 1,118 | -82 | 2,049 | 110 | 80 | 5.68% |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,155 | 1,028 | 971 | -57 | 2,058 | -97 | -14 | -4.49% |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,217 | 629 | 637 | 9 | 1,217 | 0 | 0 | 0.02% |
| TGCh | 1,715 | 893 | 1,048 | 155 | 1,815 | 100 | 100 | 5.82% |
| Trawsnewid Corfforaethol | 905 | 337 | 341 | 4 | 875 | -30 | 0 | -3.33% |
| **Adnoddau** | 2,756 | 1,601 | 1,728 | 127 | 2,796 | 40 | 32 | 1.46% |
| **Busnes y Cyngor** | 1,615 | 817 | 921 | 104 | 1,822 | 207 | 50 | 12.82% |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 1,915 | 1,051 | 826 | -224 | 1,667 | -248 | -172 | -12.93% |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 761 | 380 | 332 | -49 | 681 | -80 | -70 | -10.46% |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | 108,616 | 58,616 | 59,936 | 1,320 | 111,322 | 2,706 | 3,049 | 2.49% |
| **Cyllid Corfforaethol** | | | | | | | | |
| Ardollau | 3,335 | 3,334 | 3,332 | -2 | 3,335 | 0 | 0 | 0.00% |
| Rhyddhad Trethi dewisiol | 60 | 0 | 0 | 0 | 60 | 0 | 0 | 0.00% |
| Cyllido Cyfalaf | 8,149 | 2,193 | 2,192 | -2 | 7,955 | -194 | -235 | -2.38% |
| Arian Wrth Gefn Cyffredinol ac Arall | 1,280 | 1,280 | 1,067 | -213 | 1,067 | -213 | 0 | -16.64% |
| Arbedion Corfforaethol | -227 | -114 | 0 | 114 | 0 | 227 | 150 | -100.00% |
| Cyfraniad Gwasanaethau Cefnogi CRT | -678 | 0 | 0 | 0 | -678 | -0 | 0 | 0.07% |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,622 | 700 | 700 | 0 | 5,470 | -152 | -149 | -2.70% |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | 17,541 | 7,392 | 7,290 | -102 | 17,209 | -331 | -234 | -1.89% |
| Cyfanswm Cyllideb 2017/18 | 126,157 | 66,009 | 67,226 | 1,217 | 128,531 | 2,374 | 2,815 | 1.88% |
| | | | | | | | 0 | |
| **Cyllido** | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | -23,002 | -11,501 | -11,501 | -0 | -23,002 | 0 | 0 | 0.00% |
| Y Dreth Gyngor | -32,941 | 0 | 0 | 0 | -32,981 | -40 | -348 | 0.12% |
| Premiwm y Dreth Gyngor | -564 | 0 | 0 | 0 | -974 | -410 | -347 | 72.75% |
| Grant Cymorth Refeniw | -69,650 | -34,825 | -34,825 | -0 | -69,650 | 0 | 0 | 0.00% |
| **Cyfanswm Cyllid 2017/18** | -126,157 | -46,326 | -46,327 | 0 | -126,607 | -450 | -695 | 0.36% |
| **Cyfanswm yr alldro gan gynnwys effaith cyllido** | 0 | 19,683 | 20,899 | 1,217 | 1,924 | 1,924 | 2,119 | 1.53% |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **27 TACHWEDD 2017** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>02148 751865<br>ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1. Ym mis Chwefror 2017, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2017/18 gyda gwariant net y gwasanaethau, swm o £126.157m i gael ei gyllido o incwm o'r Dreth Gyngor, Grantiau Cenedlaethol Annomestig a grantiau cyffredinol. Cymeradwywyd swm ychwanegol o £0.490m ar gyfer ei wario ar ysgolion i'w gyllido o arian wrth gefn y Cyngor. O'r herwydd, mae cyfanswm y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18 yn £126.647m.

2. Roedd y gyllideb am 2017/18 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion gwerth £2.444m. Mae hyn yn cynnwys £490k o arbedion ar gyfer Dysgu a fydd yn cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn, fel y cytunwyd gan y Cyngor. Y swm arbedion diwygiedig sydd ei angen ar gyfer 2017/18 yw £1.954m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y tanwariant/gorwariant net a ddangosir.

3. Mae'r adroddiad hwn yn egluro perfformiad ariannol Gwasanaethau'r Cyngor am hanner cyntaf y flwyddyn ariannol sy'n cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 30 Medi 2017. Ceir crynodeb hefyd o'r sefyllfa a ragamcenir am y flwyddyn gyfan.

4. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2017/18 gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor yw gorwariant o £1.924m. Mae hyn yn cyfateb i 1.53% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2017/18.

5. Argymhellir y dylid:-

   **(i)** Nodi'r sefyllfa sydd wedi'i nodi yn atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r canlyniad disgwyliedig ar gyfer 2017/18;
   **(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau Digwyddiadau Annisgwyl ar gyfer 2017/18 fel y manylir yn Atodiad C;
   **(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad Ch. Gofynnir hefyd i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo newid arfaethedig, sef bod £20k o ddyraniad £87k y gwasanaeth Dysgu o dan y rhaglen Buddsoddi i Arbed i weithredu'r system "ONE" (system wybodaeth i reolwyr); yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiect Buddsoddi-i-Arbed arall gan y gwasanaeth Dysgu sef datblygu gwefan a siop ar-lein ar gyfer Oriel Ynys Môn;
   **(iv)** Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2017/18 yn Atodiad D;
   **(v)** Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2017/18 yn Atodiadau DD ac E;
   **(vi)** Cymeradwyo cyfalafu costau Cyflog Cyfartal o hyd at £2.566m yn unol â Chyfarwyddyd Cyfalafu Llywodraeth Cymru sy'n effeithiol tan 31/03/2018.

| | | |
|---|---|---|
| **B -** | **Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | |
| | d/b | |
| **C -** | **Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | |
| | Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | |
| **CH -** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | |
| | Ydy | |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | Ydy | |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b– y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |

- Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2017/18
- Atodiad B – Tabl o'r Canlyniadau Refeniw a ragamcenir ar gyfer 2017/18
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau Digwyddiadau Annisgwyl 2017/18
- Atodiad CH – Adolygiad o'r prosiectau Buddsoddi i Arbed
- Atodiad D – Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2017/18
- Atodiad DD – Gwybodaeth ynglŷn â monitro Staff Asiantaeth
- Atodiad E – Gwybodaeth ynglŷn â monitro Ymgynghorwyr

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2017/18 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 14 Chwefror 2017 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2017).

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2 2017/18

### 1. Balans Cyffredinol – Sefyllfa Gychwynnol

**1.1** Ar gychwyn y flwyddyn ariannol, roedd gan y Cyngor £13.357m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig a chronfeydd wrth gefn o £2.089m yn yr ysgolion. Roedd y canlyniad dros dro ar gyfer 2016/17 wedi arwain at falansau cyffredinol o £8.697 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol. Roedd y balans cyffredinol terfynol ar 1 Ebrill 2017, yn dilyn nifer fechan o addasiadau ar ôl yr archwiliad, yn £8.355m. Mae balans isafswm y gronfa wrth gefn gyffredinol wedi'i osod ar £6m fel y cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2017.

1.2 Roedd yr adroddiad ar gyfer Chwarter 1 yn amlygu'r risg efallai y byddai angen i'r Cyngor dalu oddeutu £2m o hawliadau Tâl Cyfartal o'r balans cyffredinol uchod unwaith mae'r rhain wedi'u setlo. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau Cyfarwyddyd Cyfalafu am hyd at £2.556m gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn gadael i'r Cyngor gyfalafu unrhyw gostau Tâl Cyfartal a geir erbyn 31 Mawrth 2018. Bydd hyn yn gymorth i rannu'r gost dros nifer o flynyddoedd, trwy'r tâl Darpariaeth Refeniw Isafswm (MRP). Os benthycir arian dros gyfnod o 10 mlynedd i ariannu'r costau byddai hyn yn creu taliadau llog o thua £62k y flwyddyn am 10 mlynedd. Gallai unrhyw Gostau Tâl Cyfartal a geir ar ôl 31 Mawrth 2018 effeithio ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor gan y bydd y Cyfarwyddyd Cyfalafu yn dod i ben ar y dyddiad hwn.

### 2. Rhagamcan o Berfformiad Ariannol yn ôl Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion am berfformiad ariannol pob gwasanaeth am y cyfnod a'r sefyllfa alldro a ragamcenir i bob gwasanaeth i'w gweld yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £2.706m (2.49%) ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2018. Mae hyn yn welliant o £343k ar Chwarter 1. Amcangyfrifir tanwariant o £0.331m ar Gyllid Corfforaethol, sy'n welliant o £97k ers Chwarter 1 oherwydd tanwariant a ragwelir ar gronfeydd digwyddiadau annisgwyl oedd wedi'u neilltuo. Yn ogystal, rhagwelir gwarged o £450k ar gasglu'r Dreth Gyngor, ac o'r ffigwr hwn mae £261k o ganlyniad i warged ar y Premiwm Treth Gyngor newydd. Fodd bynnag, mae hyn yn is na'r gwarged ar y Dreth Gyngor a ragwelwyd yn adroddiad Chwarter 1, sef £695k. Cyfanswm y rhagamcanion refeniw ar hyn o bryd ar gyfer 2017/18 yw gorwariant o £1.924m, sef 1.53% o gyllideb refeniw net y Cyngor. Mae hyn yn welliant o £195k ar y gorwariant o £2.119m (1.68%) a gafodd ei adrodd yn Chwarter 1.

**2.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100k neu uwch). Nid yw'r rhagamcan yn dwyn i gyfrif unrhyw bwysau ychwanegol a allai godi os bydd y tywydd yn ddrwg yn ystod y gaeaf (cynnal a chadw priffyrdd dros y gaeaf, costau gofal cymdeithasol). Mae risg felly y gallai'r gorwariant fod yn uwch na £1.924m. Y pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol ar y Cyngor yw cost Rhiantu Corfforaethol. Disgwylir y bydd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn gorwario £1.899m. Mae hwn yn Wasanaeth statudol sy'n cael ei arwain gan y galw ac sy'n anodd ei reoli. Petai'r Cyngor yn gorwario yn unol â'r rhagolygon presennol, byddai'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn cael ei rhoi dan gryn bwysau a byddai'n agos at yr isafswm o £6m a osodwyd gan y Swyddog Adran 151 ac a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn.

**2.3** Yn yr adroddiad yn Chwarter 1, argymhellwyd adolygu cronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn adnabod unrhyw gronfeydd clustnodedig nad oes angen amdanynt mwyach neu nad ydynt yn flaenoriaeth, ac y gellid eu dychwelyd i'r gronfa wrth gefn gyffredinol i helpu i ariannu'r gorwariant. Mae'r adolygiad hwn ar y cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd a chaiff ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

| Crynodeb o Amrywiadau a Ragamcenir ar 31 Mawrth 2018<br>yn seiliedig ar wybodaeth ariannol fel yr oedd ar 30 Medi 2017 | |
|---|---|
| | **(Tan) / Gorwariant £000** |
| Dysgu | 548 |
| Gwasanaeth Plant a Theuluoedd | 1,899 |
| Gwasanaethau Oedolion | 191 |
| Busnes y Cyngor | 207 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (248) |
| Cyllid Corfforaethol a Budd-daliadau a Roddwyd | (331) |
| Casglu'r Dreth Cyngor | (450) |
| Arall (cyfanswm yr amrywiadau'n llai na £100k) | 108 |
| Cyfanswm yr Amrywiadau yn y (tan)/gorwariant | 1,924 |

## 3. Eglurhad o'r Prif Amrywiadau

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gorwariant o £318k (16.33%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd Chwarter 2. Y rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £618k (22.37%). Mae'r rhagamcan cyffredinol hwn yr un fath ag adroddwyd yn Chwarter 1. Fodd bynnag, bu nifer o newidiadau ar draws sawl maes yn yr adran Addysg Ganolog i wneud iawn am hyn. Y newid mwyaf sylweddol yw cynnydd o £83k yn y gorwariant ar leoliadau all-sirol oherwydd 5 lleoliad newydd. Disgwylir y bydd gorwariant o £225k ar Leoliadau All-sirol erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagamcenir y bydd y gorwariant ar Integreiddio yn y sector Uwchradd yn gostwng £34k i £27k. Yn yr yn modd, bu gwelliant o £61k ar gostau ysgol nad ydynt yn cael eu dirprwyo oherwydd cafodd costau band llydan PSBA eu talu'n ôl, a disgwylir bellach y bydd tanwariant o £12k ar y gyllideb hon. Mae costau Cludiant Ysgol yn dal i beri pwysau ar y gyllideb a rhagwelir gorwariant o £367k ar dacsis ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir y bydd gorwariant o £78k ar y gyllideb ar gyfer Cynnal.

**3.1.1.2** Mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo gyda bid buddsoddi i arbed ar gyfer y system 'One Management'. Disgwylir y bydd y buddsoddiad yn y system hon yn gostwng gwariant ar dacsis yn y dyfodol. Disgwylir hefyd y bydd cydweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael yn sicrhau arbedion yn erbyn y gyllideb tacsis.

#### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Bu tanwariant o £53k (6.5%) yn y Gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, a'r canlyniad a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw tanwariant o £70k (5.17%). Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant wedi codi yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd lle mae swyddi gwag heb gael eu llenwi tan y byddwn yn gwybod beth yw canlyniad terfynol yr adolygiad o'r gwasanaeth llyfrgelloedd.

**3.1.2.2** Mae risg hefyd y bydd y Cyngor yn gorfod talu tâl adfeiliad unwaith ac am byth, am iddo derfynu'r prydles ar Ynys Lawd yn gynnar. Bydd y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith am benderfyniad ynghylch sut y dylid ariannu'r tâl hwn, os bydd rhaid i'r Cyngor dalu'r costau.

**3.1.2.3** Yn ystod y broses o osod y gyllideb, fe dynnwyd y gyllideb ar gyfer safle Melin Llynnon oherwydd cynlluniau i drosglwyddo'r safle. Fodd bynnag, mae'n cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd i drosglwyddo'r safle ac o ganlyniad, mae'r Cyngor yn dal i ddod i gostau (£13k erbyn diwedd Chwarter 2). Gan y bydd costau mewn perthynas â chynnal a chadw'r safle dros y gaeaf, bydd y costau'n parhau i gynyddu a gallent fod gyn uched â £40k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

**3.2.1** Bu gorwariant o £350k (3.01%) yn y gwasanaeth am y cyfnod, a rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro ar gyfer y flwyddyn gyfan yn orwariant o £191k (0.85%). Mae hyn yn welliant o £108k ar y gorwariant o £299k a ragwelwyd ac adroddwyd yn Chwarter 1.

**3.2.2** Dyma'r elfennau o fewn yr amrywiad i'r alldro a ragwelir:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: rhagwelir tanwariant o (£247k);
- Anableddau Corfforol (AC): rhagwelir gorwariant o £276k;
- Anableddau Dysgu (AD): rhagwelir gorwariant o £268k;
- Iechyd Meddwl (IM): rhagwelir gorwariant o £178k;
- Yr Uned Ddarparu: rhagwelir tanwariant o (£198k); a
- Rheolaeth a Chymorth: rhagwelir tanwariant o (£86k).

**3.2.3** Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol i'w gweld yn y gwasanaethau Anableddau Corfforol, Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Mae hyn o ganlyniad i nifer fechan o leoliadau arbenigol cost uchel y mae'n rhaid eu cael i gwrdd â chymhlethdod anghenion y Defnyddwyr Gwasanaeth hyn.

**3.2.4** Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i geisio gwrthbwyso'r gorwariant drwy ostwng gwariant yn y meysydd hynny y mae ganddo fwy o reolaeth drostynt. Mae'r uned ddarparu mewnol yn rhagamcan tanwariant o £198k a disgwylir y bydd Rheolaeth a Chymorth yn tanwario £86k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cynnal adolygiad o'i gyllidebau fel y soniwyd yn yr adroddiad ar gyfer Chwarter 1, ac mae wedi ail-alinio cyllidebau o feysydd sy'n tanwario, megis yr uned ddarparu, i feysydd lle mae'r pwysau mwyaf sylweddol ar y gyllideb.

**3.2.5** Mae tua 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn cael ei harwain gan y galw. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus ar ddarogan y costau i'r gyllideb hon yn y dyfodol. Mae'r rhagfynegiad diwedd blwyddyn ar ddiwedd pob mis yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar bob lleoliad oedolyn. Mae hyn yn ei gwneud yn hynod o anodd ceisio darogan y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn lawn, a gall arwain at newidiadau mawr o un cyfnod i'r nesaf.

**3.2.6** Cyflwynwyd bidiau llwyddiannus am grantiau o Gronfeydd Gofal Canolraddol i sicrhau cefnogaeth yn y maes Anableddau Dysgu, ac yn benodol i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth i symud ymlaen i wasanaethau gwahanol, llai costus o bosib, sy'n cynnig gwell canlyniadau posib i unigolion. Yn ogystal â hyn, mae'r adran yn dechrau ar gyfnod o gyd-gynhyrchu gyda darparwyr gwasanaethau byw â chymorth, gyda'r bwriad o newid y modd o gwrdd â deilliannau ar gyfer unigolion yn yr amgylchedd hwn.

**3.2.7** Mae'r flwyddyn hon yn flwyddyn heriol gan fod nifer o bwysau cyllidebol sylweddol wedi digwydd gan gynnwys gostyngiad yn yr incwm Cefnogi Pobl a chynnydd mewn ffioedd byw â chymorth yn gysylltiedig â thelerau ac amodau. Mae pwysau ychwanegol a oedd yn deillio o'r gofynion Cyflog Byw wedi gostwng, gan fod y Gwasanaeth wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn y "Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol" sydd wedi helpu'r Gwasanaeth i ariannu'r pwysau cost sy'n gysylltiedig â'r Cyflog Byw**.**

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Gwelwyd gorwariant o £783k (17.91%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd yn gorwario £1,899k (23.74%) dros y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn cynnwys rhagamcan o £1,814k o orwariant ar Blant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Mae hyn yn lleihad o £207k o'r gorwariant a adroddwyd yn Chwarter 1. Mae'r gwelliant hwn oherwydd bod costau Rhiantu Corfforaethol wedi gostwng ar ôl i 2 leoliad drud ddod i ben.

**3.3.2** Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar:-

- rhagdybiaeth sefyllfa waethaf o'r galw/costau ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal yn seiliedig ar y costau gwasanaeth/y galw/y galw tebygol ar gyfer y dyfodol;
- rhagdybiaethau'n ymwneud â phenderfyniadau/datblygiadau ar achosion. Nid yw'r rhain yn bethau y gellir eu rhagweld ac mae amgylchiadau unigol yn gallu, ac yn, newid. Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a rhagdybiaethau'n ymwneud â phenderfyniadau/datblygiadau ynghylch achosion, gwnaed y rhagdybiaeth orau bosib. Mae costau Plant Sy'n Derbyn Gofal yn dibynnu ar y galw ac yn gallu amrywio rhwng £3k a £10k yr wythnos ar gyfer gofal arbenigol.

**3.3.3** Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gwrdd â'r gost o ymyraethau Llys e.e. asesiadau preswyl /llety â chymorth i rieni a phlant; cyswllt a oruchwylir ac asesiadau arbenigol eraill sydd hefyd yn rhai na ellir eu rhagweld ac sy'n cael eu harwain gan y galw. Mae'r Amlinell Cyfraith Gyhoeddus yn nodi bod rhaid i'r asesiadau hyn gael eu cynnal cyn yr achos sydd hefyd yn rhoi pwysau ar gyllidebau timau

**3.3.4** Mae'r Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd yn mynd drwy broses o ailstrwythuro a bydd y ffocws ar Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys. Bydd y strwythur newydd yn canolbwyntio ar waith ataliol ac yn cefnogi plant i fyw gartref yn saff. Bydd adnoddau ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer y prosiect Trothwy Gofal yn cefnogi hyn ond bydd yn cymryd amser. Y cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yw'r prif reswm pam fod y Gwasanaeth yn gorwario. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd o 72% (47/81) yn y plant sy'n destun Gorchmynion Gofal Llawn yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf. Mae lleoliad preswyl yn costio £220,000 y flwyddyn ar gyfartaledd ac ar hyn o bryd, mae gennym 14 o blant mewn gofal preswyl.

**3.3.5** I liniaru'r gorwariant ar y lleoliadau hyn mae'r Gwasanaeth wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith ar gyfer 2017/18 sy'n cynnwys: adolygu'r plant/pobl ifanc sydd mewn lleoliadau preswyl ar hyn o bryd; anelu i gynyddu'r opsiynau o ran lleoliadau ar yr Ynys; cefnogi plant i fynd yn ôl adref pan fo'n ddiogel iddynt wneud hynny, ac adolygu'r drefn cymeradwyo cyllid ar gyfer lleoliadau preswyl. Mae'n rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth nawr gymeradwyo pob penderfyniad i ganiatáu gofal preswyl.

## 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Cafwyd tanwariant o £27k (2.75%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Disgwylir y bydd gwariant y gwasanaeth o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cafwyd adolygiad trylwyr o'r gyllideb er mwyn cymryd i ystyriaeth y strwythur newydd. Mae'r adolygiad wedi dangos y bydd gan y Gwasanaeth gyllideb gytbwys.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a Chymunedol (yn cynnwys Morwrol a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd y Gwasanaeth wedi tanwario £82k ar ddiwedd chwarter 2 (6.8%). Rhagwelir y bydd y gwasanaeth wedi gorwario £110k (5.68%) erbyn 31 Mawrth 2018. Mae hyn yn gynnydd ar y gorwariant o £80k a ragamcanwyd yn ystod Chwarter 1.

**3.5.1.2** Rhagwelir y bydd elfen Datblygu Economaidd y Gwasanaeth o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae tanwariant ar yr elfen staffio oherwydd swyddi gwag ond tan y bydd ymarfer ailstrwythuro'r gwasanaeth wedi'i gwblhau, mae'n anodd rhagweld a fydd unrhyw arbedion yn codi o hyn yn ystod 2017/18.

**3.5.1.3** Disgwylir y bydd yr adain Forwrol wedi gwario o fewn ei chyllideb ar ddiwedd y flwyddyn hefyd. Efallai y bydd y gwelliannau a wnaed yn ddiweddar i'r system ar gyfer bilio ffioedd angori yn ychwanegu at yr incwm a gesglir yn y dyfodol. Nid yw'r rhagamcan hwn yn cynnwys unrhyw effaith bosib yn sgil tywydd garw.

**3.5.1.4** Rhagwelir gorwariant o £110k yn y gwasanaeth Hamdden erbyn diwedd y flwyddyn; mae hyn yn gynnydd o £30k ers Chwarter 1. Mae incwm y canolfannau hamdden, gan gynnwys incwm y caffis, yn parhau i greu pwysau gan fod y gwasanaeth yn ei chael yn fwy a mwy anodd cyflawni'r targedau incwm. Nid yw'r ffigwr yn cynnwys arbedion ar ardaloedd awyr agored sydd, ar hyn o bryd, wrthi'n cael eu trosglwyddo i gyrff allanol.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £57k (5.58%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £97k (4.49%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd yn y tanwariant o £14k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 1. Mae'r gwelliannau mwyaf sylweddol i'w gweld yn yr adrannau Trwyddedu â Iechyd yr Amgylchedd o fewn yr adain Gwarchod y Cyhoedd oherwydd incwm annisgwyl unwaith ac am byth.

**3.5.2.2** Mae'r rhan fwyaf o'r cyllidebau o dan Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn tanwario ychydig, ac eithrio Planning Delivery Wales, y Grant Eiddo ac Amgylcheddol (PEG), Cefn Gwlad ac Arfordir a Marchnadoedd – amcangyfrifir y bydd y rhain yn gorwario ychydig. Rhagwelir y bydd gan yr Adain Gynllunio danwariant o £22k ar y cyfan erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd Gwarchod y Cyhoedd wedi tanwario £75k am y flwyddyn ariannol. Nid yw'r incwm ar gyfer Datblygiadau Mawr wedi cael ei ragamcanu mor fuan â hyn oherwydd diffyg gwybodaeth.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Cafwyd £53k (1.24%) o orwariant gan y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn a rhagwelir y bydd wedi gorwario £100k (1.52%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r rhagamcan nawr yn cynnwys effaith y contract newydd ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd sy'n fwy costus na'r contract cynnal a chadw blaenorol a oedd wedi dod i ben. Disgwylir y bydd hyn yn creu £200k o gostau ychwanegol, sy'n egluro'r cynnydd yn y gorwariant o gymharu â Chwarter 1. Fodd bynnag, bydd tanwariant mewn meysydd cyllideb eraill yn y gwasanaeth Priffyrdd yn gostwng effaith hyn i lawr i £100k. Nid yw'r canlyniad a ragwelir yn cynnwys unrhyw ragamcan mewn perthynas â'r Gyllideb Waith gan fod y gyllideb hon yn cael ei heffeithio gan ofynion cynnal a chadw dros y gaeaf ac unrhyw ddifrod gan stormydd, a allai gynyddu costau Priffyrdd yn y dyfodol.

**3.6.1.2** Mae yna nifer o or/tanwariannau a'r gorwariant mwyaf sylweddol yw £100k ar Ddylunio Gwaith Cynnal a Chadw, a'r contract Cynnal a Chadw a grybwyllir uchod. Mae'r tanwariant mwyaf ar Waith Stryd sy'n rhagweld tanwariant o £100k.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £58k (1.56%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar ddiwedd y chwarter hwn a rhagwelir y bydd y gwasanaeth wedi tanwario £25k (0.39%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn welliant o £55k oherwydd roedd adroddiad Chwarter 1 yn amcangyfrif y byddai'r Gwasanaeth wedi gorwario £30k ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.6.2.1** Mae'r sefyllfa o ran y Safle Cynhyrchu Trydan ym Mhenhesgyn wedi gwella o £40k o orwariant i £15k o danwariant a ragwelir oherwydd gwariant gostyngedig ar gyflenwadau a gwasanaethau. Rhagwelir tanwariant o £30k ar gyfer Gorsaf Drosglwyddo Penhesgyn oherwydd tanwariant ar drafnidiaeth ac eiddo. Rhagwelir hefyd y bydd y tanwariant ar Waredu Gwastraff yn cynyddu o £10k yn Chwarter 1 i £30k yn Chwarter 2 oherwydd costau llai yn gysylltiedig â Gwaredu Gwastraff. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd mewn ailgylchu ar ôl lansio'r troli bocsys. Rhagwelir y bydd costau casglu gwastraff yn gorwario £50k oherwydd gwaith ychwanegol o gasglu gwastraff Ailgylchu.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Cafwyd tanwariant o £33k (5.45%) yn y Gwasanaethau Eiddo yn ystod y chwarter. Rhagwelir y bydd tanwariant o £11k (1.07%) yn y Gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn ostyngiad o £22k o'r tanwariant a ragamcanwyd yn Chwarter 1.

**3.6.3.2** Amcangyfrifir y bydd gorwariant o £50k ar Atgyweirio a Chynnal a Chadw adeiladau'r Cyngor. Adroddwyd yn Chwarter 1 y byddai'r gwasanaeth yn gweld incwm rhent ychwanegol o £60k ond disgwylir bellach y bydd y gwarged hwn yn gostwng i £14k. Rhagwelir tanwariant o £16k ar weithwyr oherwydd Swydd Rheolwr wag.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Cafwyd gorwariant o £168k (9.01%) yn y swyddogaeth Trawsnewid yn ystod y cyfnod. Mae'r rhan fwyaf o'r swm hwn i'w briodoli i ymrwymiadau a godwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Disgwylir y bydd Trawsnewid yn gorwario cyfanswm o £70k (1.82%). Mae hyn yn gysylltiedig â'r gorwariant amcangyfrifiedig o £100k yn TGCh sy'n cael ei drafod isod yn 3.7.1.1. a chaiff ei leihau gan danwariant o £30k yn y gwasanaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**3.7.1.1** Mae cyllidebau'r adain TGCh o dan bwysau oherwydd ymrwymiadau sydd wedi llithro o 2016/17 ac o ganlyniad i weithgaredd sylweddol mewn perthynas â phrosiectau corfforaethol sydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau y gellir cwrdd ag amcanion Corfforaethol y Cyngor. Mae'r swyddogaeth yn parhau i ragweld gorwariant o £100k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**3.7.1.2** Mae'r adain AD yn parhau i ragweld cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**3.7.1.3** Rhagwelir y bydd yr adain Trawsnewid Corfforaethol wedi tanwario £30k ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd swydd rheolwr wag a chyllid allanol tuag at swydd prosiect. Y chwarter diwethaf roedd y swyddogaeth yn rhagweld y byddai'r gwariant yn cyfateb i'r gyllideb.

### 3.8 Adnoddau (heb gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**3.8.1** Roedd cyllideb y swyddogaeth Adnoddau yn dangos gorwariant o £127k (7.93%) erbyn diwedd y cyfnod. Bydd y lefel gwariant uchel yma yn dod yn ôl yn raddol at y gyllideb wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Rhagwelir y bydd y swyddogaeth yn gorwario £40k (1.46%) ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan. Mae hyn yn gynnydd bychan ar y gorwariant o £32k a ragwelwyd yn Chwarter 1. Mae hyn oherwydd pwysau cyllidebol (£60k) yn yr adain Refeniw a Budd-daliadau, megis gorwariant ar beilïaid, staff asiantaeth a grantiau gweinyddu is nag y cyllidebwyd ar eu cyfer.

### 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd gorwariant o £104k (12.72%) gan y swyddogaeth ar 30 Medi 2017 a rhagwelir gorwariant o £207k (12.82%) ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y gorwariant o £50k a adroddwyd ar gyfer Chwarter 1. Rhagwelir gorwariant o £300k ar gostau staff ymgynghori i lenwi swyddi gwag dros dro ac ar ffioedd cyfreithiol. Nid yw'r gwasanaeth wedi gallu llenwi'r swyddi o adnoddau mewnol. Mae cost lawn y rhain yn cael ei lleihau'n rhannol gan danwariant o £75k ar staffio ac incwm dros ben o bridiannau tir sy'n dod i £33k. Mae'r swydd undeb llafur (nad yw wedi'i chynnwys yn y gyllideb) hefyd yn cynyddu'r pwysau ar y gyllideb o £10k.

### 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Gwelwyd tanwariant o £224k (21.36%) gan y swyddogaeth yn ystod y cyfnod. Rhagwelir tanwariant o £248k (12.93%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn fwy o danwariant o gymharu â'r tanwariant o £172k a ragwelwyd yn yr adroddiad yn Chwarter 1. Mae hyn oherwydd tanwariant amcangyfrifiedig mewn cyfraniadau pensiwn i Gyngor Gwynedd (£78k); a disgownts pensiwn o (£72k) y sicrhaodd y Cyngor trwy dalu'r cyfraniad at y diffyg 3 blynedd i'r gronfa mewn un lwmp swm yn hytrach na fel taliad misol. Mae llai o wariant hefyd ar Ffioedd Crwner (£31k). Yn ogystal, cafwyd incwm yn ôl (£28k) y darparwyd ar ei gyfer fel dyled ddrwg yn flaenorol a thalwyd incwm unwaith ac am byth o £44k i'r Cyngor ar ôl iddynt gwblhau dod â Chwmni Gwastraff Môn Arfon i ben.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd tanwariant o £49k (12.78%) gan y swyddogaeth ar ddiwedd y Chwarter. Rhagwelir tanwariant o £80k (10.46%) ar gyfer y flwyddyn ariannol oherwydd arbedion sy'n deillio o ailstrwythuro'r drefn Rheolaeth Strategol.

## 4. Cyllid Corfforaethol (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Disgwylir tanwariant o £331k (1.89%) ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol gan gynnwys Budd-daliadau a roddwyd. Disgwylir tanwariant o £152k mewn perthynas â Budd-daliadau a Roddwyd oherwydd gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr sy'n derbyn cymorth o dan y Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor. Rhagwelir tanwariant o £194k ar gostau cyllido cyfalaf hefyd oherwydd arbedion a wnaed ar fenthyca'n fewnol ac oedi'r broses o ail-gyllido benthyciadau. Mae'r gwarged hwn wedi gostwng o'r chwarter blaenorol oherwydd y cynnydd yn y gyfradd sylfaenol o 0.25% i 0.50%, a gadarnhawyd ar 2 Tachwedd 2017. Bydd unrhyw fenthyca a wna'r Cyngor yn awr yn ddrutach, er y bydd yn dewis y gyfradd llog isaf posib wrth wneud penderfyniadau i fenthyca. Mae hefyd yn bosib y bydd angen i'r Cyngor allanoli rhywfaint o'i fenthyca mewnol (£5m) i gynyddu balansau arian parod dyddiol y Cyngor. Mae'r benthyca mewnol hwn wedi cyflawni arbedion yn y llog sy'n daladwy ond mae'n rhaid ei allanoli erbyn hyn gan fod balansau arian parod y Cyngor yn is nag oeddent yn y blynyddoedd blaenorol. Mae effaith hyn wedi'i gynnwys yn y rhagolwg o gostau cyllido cyfalaf.

**4.2** Mae Atodiad C yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa ariannol mewn perthynas â'r cyllidebau digwyddiadau annisgwyl ar ddiwedd y chwarter hwn. Cymeradwywyd cyfanswm o £1.380m fel cyllideb ar gyfer digwyddiadau annisgwyl fel rhan o gyllideb 2017/18. Mae hyn yn cynnwys targed arbedion o £300k o ddiswyddiadau gwirfoddol. Mae £328k net wedi cael ei drosglwyddo i/o wasanaethau i ariannu prosiectau penodol, materion cyllidebol neu i ryddhau arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol. Rhagamcan darbodus ar hyn o bryd yw y bydd diffyg o £227k o ran yr arbedion ar ddiswyddiadau gwirfoddol. Gobeithir y bydd hyn yn gwella wrth i'r flwyddyn fynd heibio. Mae £1.067m wedi'i ymrwymo o gyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r cyllidebau hyn wedi'u gwario erbyn diwedd y flwyddyn yn unol â'r prosesau cymeradwyo angenrheidiol ar gyfer defnyddio cyllidebau digwyddiadau annisgwyl. Fodd bynnag, rhagwelir tanwariant o £336k ar y Cyllidebau Clustnodedig ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd oedi gyda'r Prosiect Trothwy Gofal a rheoli cyllideb yn effeithiol yn y Gwasanaethau Oedolion. Rhagwelir cyfanswm o £213k o danwariant ar gyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl, ac eithrio'r targed arbedion. Rhagwelir tanwariant hefyd ar Etholiadau Sirol (£53k) a Chronfeydd Digwyddiadau Annisgwyl Cyffredinol (£65k). Rhagwelir gorwariant o £203k ar y gronfa ar gyfer cyflogau a graddio oherwydd bod nifer uwch na'r disgwyl o staff yn derbyn taliadau diswyddo. Mae hyn yn ychwanegol at y £250k sydd eisoes wedi'i gymeradwyo a'i ariannu o'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol ar gyfer costau'n gysylltiedig â diswyddiadau.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Caiff y gyllideb ar gyfer Cronfa'r Dreth Gyngor ei phennu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu yn y flwyddyn gyfredol yn unig yn seiliedig ar y ffigwr a osodwyd fel sail y dreth ym mis Tachwedd 2016. Nid yw'n darparu ar gyfer dyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i ymrwymiadau yn codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau i bobl sengl ac ati), newidiadau i sail dreth y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg neu amheus. Nid oes modd amcangyfrif y newidiadau hyn ac yn anorfod, byddant yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Y rhagolwg cyfredol yw y bydd y Gronfa Treth Gyngor yn cyflawni £189k yn uwch na'r ffigwr targed. Hefyd, mae'n edrych yn debyg y bydd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef tâl Treth Gyngor ychwanegol y mae'r Cyngor yn ei godi ar ail gartrefi ar Ynys Môn ers 1 Ebrill 2017, yn cyflawni £261k yn uwch na'i darged. Felly, fel cyfanswm, rhagwelir gwarged o £450k o ran casglu'r Dreth Gyngor.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2017/18

**6.1** Cafodd arbedion cyllidebol o £1.954m eu tynnu o gyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2017/18 a bydd rhaid canfod £300k arall mewn arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol – sonnir am hyn uchod. O'r arbedion cyllidebol yr ydym wedi'u hadnabod, disgwylir bod £1.656m wedi'i gyflawni neu y bydd yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae posibilrwydd na fydd £299k yn cael ei gyflawni. Disgwylir y diffyg arbedion mwyaf yn y gwasanaeth Dysgu: rhagwelir y bydd yn tangyflawni £169k ar ei darged oherwydd yr oedi wrth gytuno ar leihad yn yr oriau glanhau a'r methiant i drosglwyddo Melin Llynnon. Gellir gweld dadansoddiad manwl llawn ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

## 7. Buddsoddi i Arbed

**7.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17 a cafodd £983k ei neilltuo i brosiectau unigol. Hyd yma, mae £217k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn yn ystod 2017/18. Mae'r holl brosiectau ar wahanol gamau o ran eu datblygiad, gyda rhai'n nes at gael eu cwblhau nag eraill. Mae manylion llawn am wariant a cynnydd pob un o'r rhaglenni i'w gweld yn Atodiad CH. Mae'r atodiad yn cynnwys eitem gwerth £87k o dan Dysgu Gydol Oes ar gyfer moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad. Roedd y gwasanaeth wedi cynllunio i wario hwn, trwy weithredu modiwlau oedd heb eu defnyddio o'r System Wybodaeth 'ONE Management'. Disgwylir y bydd y prosiect hwn angen tua £67k, felly, cynigir bod yr £20k sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r dasg o ddatblygu siop ar-lein a gwefan ar gyfer Oriel Ynys Môn sydd hefyd yn brosiect Buddsoddi i Arbed, a dylai hynny arwain at incwm ychwanegol. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r newid hwn.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**8.1** Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, gwariwyd £629k ar staff Asiantaeth. Gan amlaf, cawsai'r rhain eu hariannu'n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd yr angen am staff llanw ar gyfer salwch, tra bod £367k o'r ffigwr yn gysylltiedig â chael staff llanw tra bod y Gwasanaethau Plant yn mynd trwy broses ailstrwythuro. Mae Adnoddau wedi gwario £121k ar staff asiantaeth. Roedd £63k o hwn ar gyfer cyflogi staff adennill dyledion er mwyn cynyddu'r incwm a gesglir gan yr Awdurdod, a £53k ar gyfer y prosiect AD a Chyflogau Northgate, sy'n cael ei ariannu o gronfa wrth gefn benodol. Roedd y Gwasanaeth Gwastraff wedi gwario £126k i gael asiantau safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r rhan fwyaf o'r ffigwr hwn, 63%, yn cael ei ariannu trwy grant allanol. Gellir gweld y manylion llawn yn Atodiad DD.

**8.2** Roedd y gwariant ar ymgynghorwyr yn ystod Chwarter 2 yn £597k, gyda £382k o hwn yn cael ei ariannu o grantiau neu gyfraniadau. Mae nifer o resymau am ddefnyddio ymgynghorwyr a gellir gweld manylion llawn am y gwariant yn Atodiad E.

## 9. Casgliad

**9.1** Rhagamcenir cyfanswm o £1.924m o orwariant ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae £2.706m o hwn ar gyllidebau gwasanaethau, sy'n cynnwys nifer o eitemau o orwariant a thanwariant. Mae hwn yn welliant o £0.343m ar Chwarter 1. Mae'r Gwasanaethau sydd dal yn profi pwysau sylweddol ar eu cyllidebau yn debyg i 2016/17 (y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, a Dysgu). Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r materion ac yn gweithio i leihau lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir y bydd Cyllid Corfforaethol yn tanwario £0.331m ac mae disgwyl i'r Dreth Gyngor, sy'n cynnwys y Premiwm Treth Gyngor, gasglu £0.450m dros ben. Felly, mae'r gorwariant cyffredinol yn gostwng i £1.924m. Mae lefel y gorwariant a ragwelir yn 1.53% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynglŷn ag effaith y lefel hwn o orwariant ar falansau cyffredinol petai'r gorwariant hwn yn digwydd mewn gwirionedd. Mae'r balansau cyffredinol yn ddigonol ar hyn o bryd i gynnal y gorwariant heb amharu ar y targed lefel isafswm o £6m a osodwyd gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror 2017.

**9.2** Dylid nodi ar gyfer Chwarter 2 nad yw effaith gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf wedi'i gynnwys yn y rhagolygon gan nad oes unrhyw wybodaeth ar gael. Mae'r rhagolygon yn dueddol o newid wrth i wybodaeth newydd ymddangos. Fodd bynnag, gyda sgriwtini rheolaidd gan yr UDA ac os cymerir camau cywiro gan y Penaethiaid Gwasanaeth, bydd hyn yn gymorth i'r gwasanaethau ymdopi o fewn y cyllidebau sydd yn eu rheolaeth.

## Yr Alldro Refeniw a Ragamcenir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 – Chwarter 1

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Ch2 2017/18 – Cyllideb Hyd Yma | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig | Ch2 2017/18 Amrywiad | Ch2 Amcangyfrif o'r Gwariant hyd at 31 Mawrth 2018 | Ch2 Amcangyfrif o'r Alldro 31 Mawrth 2018 gor/(tan) | | Ch1 Amcangyfrif o'r Alldro 31 Mawrth 2018 gor/(tan) | 2017/18 Rhagamcan o'r Gor/(Tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | |
| Cyllideb sydd wedi ei dirprwyo i'r Ysgolion | 44,039 | 22,409 | 22,409 | -0 | 44,039 | -0 | | 0 | 0.00% |
| Addysg Ganolog | 2,762 | 1,946 | 2,263 | 318 | 3,380 | 618 | | 618 | 22.37% |
| Diwylliant | 1,355 | 810 | 757 | -53 | 1,285 | -70 | | 20 | -5.17% |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 22,487 | 11,633 | 11,983 | 350 | 22,678 | 191 | | 299 | 0.85% |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,003 | 4,375 | 5,158 | 783 | 9,902 | 1,899 | | 2,106 | 23.74% |
| | | | | | | | | | |
| **Tai** | 1,055 | 981 | 954 | -27 | 1,055 | 0 | | 0 | 0.00% |
| | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,574 | 4,236 | 4,289 | 53 | 6,674 | 100 | | 3 | 1.52% |
| Eiddo | 1,071 | 601 | 569 | -33 | 1,060 | -11 | | -33 | -1.07% |
| Gwastraff | 6,294 | 3,688 | 3,631 | -58 | 6,269 | -25 | | 30 | -0.39% |
| | | | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,939 | 1,200 | 1,118 | -82 | 2,049 | 110 | | 80 | 5.68% |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,155 | 1,028 | 971 | -57 | 2,058 | -97 | | -14 | -4.49% |
| | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,217 | 629 | 637 | 9 | 1,217 | 0 | | 0 | 0.02% |
| TGCh | 1,715 | 893 | 1,048 | 155 | 1,815 | 100 | | 100 | 5.82% |
| Trawsnewid Corfforaethol | 905 | 337 | 341 | 4 | 875 | -30 | | 0 | -3.33% |
| | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** | 2,756 | 1,601 | 1,728 | 127 | 2,796 | 40 | | 32 | 1.46% |
| | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | 1,615 | 817 | 921 | 104 | 1,822 | 207 | | 50 | 12.82% |
| | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 1,915 | 1,051 | 826 | -224 | 1,667 | -248 | | -172 | -12.93% |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Ch2 2017/18 – Cyllideb Hyd Yma | Ch2 Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig | Ch2 2017/18 Amrywiad | Ch2 Amcangyfrif o'r Gwariant hyd at 31 Mawrth 2018 | Ch2 Amcangyfrif o'r Alldro 31 Mawrth 2018 gor/(tan) | | Ch1 Amcangyfrif o'r Alldro 31 Mawrth 2018 gor/(tan) | 2017/18 Rhagamcan o'r Gor/(Tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 761 | 380 | 332 | -49 | 681 | -80 | | -70 | -10.46% |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | 108,616 | 58,616 | 59,936 | 1,320 | 111,322 | 2,706 | | 3,049 | 2.49% |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| Ardollau | 3,335 | 3,334 | 3,332 | -2 | 3,335 | 0 | | 0 | 0.00% |
| Cymorth Trethi Dewisol | 60 | 0 | 0 | 0 | 60 | 0 | | 0 | 0.00% |
| Cyllido Cyfalaf | 8,149 | 2,193 | 2,192 | -2 | 7,955 | -194 | | -235 | -2.38% |
| Cronfeydd 'Digwyddiadau Annisgwyl' Cyffredinol ac Eraill | 1,280 | 1,280 | 1,067 | -213 | 1,067 | -213 | | 0 | -16.64% |
| Arbedion Corfforaethol | -227 | -114 | 0 | 114 | 0 | 227 | | 150 | -100.00% |
| Cyfraniad Gwasanaethau Cefnogol CRT | -678 | 0 | 0 | 0 | -678 | -0 | | 0 | 0.07% |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,622 | 700 | 700 | 0 | 5,470 | -152 | | -149 | -2.70% |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | 17,541 | 7,392 | 7,290 | -102 | 17,209 | -331 | | -234 | -1.89% |
| | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Cyllideb 2017/18 | 126,157 | 66,009 | 67,226 | 1,217 | 128,531 | 2,374 | | 2,815 | 1.88% |
| | | | | | | | | 0 | |
| **Cyllido** | | | | | | | | | |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | -23,002 | -11,501 | -11,501 | -0 | -23,002 | 0 | | 0 | 0.00% |
| Y Dreth Gyngor | -32,941 | 0 | 0 | 0 | -33,130 | -189 | | -348 | 0.12% |
| Premiwm y Dreth Gyngor | -564 | 0 | 0 | 0 | -825 | -261 | | -347 | 72.75% |
| Grant Cymorth Refeniw | -69,650 | -34,825 | -34,825 | -0 | -69,650 | 0 | | 0 | 0.00% |
| **Cyfanswm Cyllido 2017/18** | -126,157 | -46,326 | -46,327 | 0 | -126,607 | -450 | | -695 | 0.36% |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro gan gynnwys effaith cyllido** | 0 | 19,683 | 20,899 | 1,217 | 1,924 | 1,924 | | 2,119 | 1.53% |

**Crynodeb o Sefyllfa Ariannol y Cronfeydd 'Digwyddiadau Annisgwyl' ar gyfer 2017/18 fel yr oeddent yn Chwarter 2**

| | Cyllideb Wreiddiol<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Cyllideb Ddiwygiedig<br>£ | Wedi'i ymrwymo hyd yma (30/09/17)<br>£ | Y Swm nad yw wedi ei ymrwymo ar hyn o bryd<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian Wrth Gefn Cyffredinol | 283,635 | - 105,900 | 177,735 | 112,970 | 64,765 |
| Gwella | - | - | - | - | - |
| Tâl a Graddfeydd | 200,000 | - 197,640 | 2,360 | 205,292 | - 202,932 |
| Cost Newid | 92,000 | - | 92,000 | 92,000 | - |
| Ardoll Prentisiaethau | 290,000 | - | 290,000 | 327,478 | - 37,478 |
| Etholiadau'r Sir | 150,000 | - 97,460 | 52,540 | - | 52,540 |
| Trothwy Gofal | 240,000 | - | 240,000 | 159,000 | 81,000 |
| Arian Wrth Gefn Clustnodedig | 425,000 | - | 425,000 | 170,000 | 255,000 |
| **Cyfanswm y Cyllidebau Wrth Gefn** | 1,680,635.00 | -401,000.00 | 1,279,635.00 | 1,066,740.78 | 212,894.22 |
| | | | | | |
| **Targed Arbedion Diswyddo Gwirfoddol** | -300,000.00 | 72,540.00 | -227,460.00 | 0.00 | -227,460.00 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | 1,380,635.00 | -328,460.00 | 1,052,175.00 | 1,066,740.78 | -14,565.78 |

**<u>Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed</u>**

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm wedi'i Gymeradwyo £ | Swm wedi'i Ddyrannu (cyfanswm – nid dim ond Bl 1) £ | Dyraniad ar gyfer 2017/18 £ | Gwariant hyd yma £ | Cyllideb sydd ar ôl 2017/18 £ | Amcangyfrif o gyfanswm y gwariant yn 2017/18 £ | 2017 /18 Amcangyfrif o'r Gor / (Tan) wariant £ | Diweddariad Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Datrysiad sganio a llif gwaith i'r adain Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 170,000 | 170,000 | 63,414 | 106,586 | 165,330 | -4,670 | Mae'r prosiect yn dod yn ei flaen yn dda a disgwylir ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2017. Mae risg y bydd yn llithro rhywfaint i Ionawr 2018. |
| Trawsnewid | Catalog Daearyddol o Dir ac Eiddo Lleol | Gweithredu system Catalog Daearyddol o Dir ac Eiddo Lleol ar draws y Cyngor | 10,800 | 10,800 | 10,800 | 8,750 | 2,050 | 10,800 | 0 | Y prosiect wedi'i gwblhau'n ffisegol. |
| Trawsnewid | System Rheoli'r Berthynas â Chwsmeriaid (CRM) | Prynu a gweithredu system CRM | 255,000 | 255,000 | 135,000 | 105,777 | 29,223 | 135,000 | 0 | Mae'r prosiect yn dod yn ei flaen, mae'r holl ffurflenni mewnol ar gael ar MonITor. Mae 12 ffurflen yn awr ar gael ar y rhyngrwyd ac AppMôN i aelodau'r cyhoedd eu defnyddio. Gall cwsmeriaid nawr gofrestru am gyfrif ar AppMôn a/neu y wefan gorfforaethol ac mae 1600 o gwsmeriaid wedi gwneud hynny. Bydd y Modiwl Gwastraff ac Ailgylchu yn dod i rym erbyn diwedd mis Tachwedd 2017. Wrthi'n profi modiwl y Ganolfan Gyswllt ar hyn o bryd cyn ei lansio. Bydd nifer o ddatblygiadau CRM eraill megis Ffurflenni Rheoli Gwastraff ac Integreiddio'r Porth Talu yn cael eu gweithredu'n fuan. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm wedi'i Gymeradwyo £ | Swm wedi'i Ddyrannu (cyfanswm – nid dim ond Bl 1) £ | Dyraniad ar gyfer 2017/18 £ | Gwariant hyd yma £ | Cyllideb sydd ar ôl 2017/18 £ | Amcangyfrif o gyfanswm y gwariant yn 2017/18 £ | 2017 /18 Amcangyfrif o'r Gor / (Tan) wariant £ | Diweddariad Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T.G. / Adnoddau | Porth Talu | Prynu a gweithredu porth talu fel y gellir derbyn taliadau trwy'r App | 27,000 | 27,000 | 27,000 | 6,000 | 21,000 | 21,000 | -6,000 | Mae cysylltiadau i'r CRM (gweler uchod) mewn lle. Mae Capita yn datblygu'r rhyngwyneb rheoli arian parod. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwella Gwytnwch y Systemau Cynllunio | Systemau cynllunio awtomatig newydd | 118,000 | 118,000 | 118,000 | 23,154 | 94,847 | 80,000 | -38,000 | Prynwyd y system rheoli amser SAGE ac mae wrthi'n cael ei rhoi ar waith. Mae'r prosiect digideiddio yn mynd rhagddo a phrofwyd y systemau cyfredol er mwyn eu hintegreiddio i'r system newydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo 'r y templedi ar gyfer llythyrau cynllunio. Wrthi'n trefnu dyddiadau hyfforddiant ac mae gwaith map GIS yn mynd rhagddo yn dda. Mae tua 3000 o ffeiliau a dogfennau wedi cael eu sganio hyd yma. |
| Adnoddau | Gwella Systemau Casglu Incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu i'r ffrydiau incwm presennol ac yn gadael i ddulliau casglu incwm newydd (AppMon ac ati) gysylltu i'r system rheoli arian parod | 150,000 | 150,000 | 47,478 | 9,488 | 37,990 | 47,478 | 0 | Mae cynnydd y prosiect yn unol â chynllun prosiect yr ymgynghorwyr a bydd yn mynd yn ymlaen i 2018/19 oherwydd graddau'r gwaith sydd ei angen ar y prosiect. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm wedi'i Gymeradwyo<br>£ | Swm wedi'i Ddyrannu (cyfanswm – nid dim ond Bl 1)<br>£ | Dyraniad ar gyfer 2017/18<br>£ | Gwariant hyd yma<br>£ | Cyllideb sydd ar ôl 2017/18<br>£ | Amcangyfrif o gyfanswm y gwariant yn 2017/18<br>£ | 2017 /18 Amcangyfrif o'r Gor / (Tan) wariant<br>£ | Diweddariad Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad | Gweithredu modiwlau sydd heb eu defnyddio yn y system gwybodaeth i reolwyr 'ONE' | 87,000 | 87,000 | 87,000 | 0 | 87,000 | 87,000 | 0 | Mae'r gwaith partneriaeth yn dod ymlaen yn dda a disgwylir y bydd tua £67k wedi cael ei wario ar y system gwybodaeth i reolwyr 'ONE' erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn gofyn i gael defnyddio gweddill y gronfa i ariannu gwaith datblygu gwefan a siop ar-lein yn Oriel Ynys Môn. Mae hwn hefyd yn brosiect buddsoddi i arbed gan ei fod yn debygol o gynyddu incwm. |
| T.G. / Trawsnewid | Digital First / Digital By Default | Cyflogi Swyddog Arweiniol Digidol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2 | 120,000 | 70,000 | 0 | 70,000 | 30,000 | -40,000 | Oedi gyda recriwtio hyd oni fydd cynnydd digonol wedi ei wneud gyda'r prosiectau CMS a CRM sydd eu hangen i wneud y swydd yn hyfyw |
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwell Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system sy'n defnyddio'r 'cwmwl' i gofnodi ymweliadau archwilio.Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan ac fe'i prynwyd trwy gytundeb fframwaith gyda chefnogaeth 19 allan o'r 22 Cyngor yn Nghymru. | £10,000 y flwyddyn am 4.5 blynedd | 45,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | 4,000 | -6,000 | Ni chafwyd unrhyw wariant hyd yma ond mae'r cynllun yn debygol o fwrw ymlaen yn ail hanner y flwyddyn. Bydd angen i unrhyw danwariant gario drosodd i 2018/19. |
| Cyfanswm | | | | **982,800** | **675,278** | **216,583** | **458,696** | **580,608** | **-94,670** | |

## Adolygiad o Arbedion EffeithIonrwydd 2017/18

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllideb 2017/18<br><br>£'000 | Modd eu cyflawni yn 2017/18<br><br>£'000 | Posib na fydd modd eu cyflawni 2017/18<br><br>£'000 | NI chânt eu cyflawni o gwbl<br><br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 610 | 441 | 169 | 0 | Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r glanhawyr ysgolion, disgwylir y byddwn yn cyflawni'r arbediad yn llawn o 2018/19 ymlaen, fodd bynnag, mae'n debygol na fydd yr arbediad o £116k i gyllideb 2017/18 yn cael ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol hon, gan fod y broses wedi cymryd hirach i'w gweithredu nag oeddem wedi'i ddisgwyl. Ni fydd £40k yn cael ei gyflawni oherwydd penderfyniadau a wnaed ynglŷn â Melin Llynnon, fodd bynnag, mae hwn yn cael ei liniaru oherwydd bod amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth eraill wedi cyflawni mwy o incwm na'r disgwyl. Nid fydd £13k yn cael ei gyflawni yng nghyswllt terfynu'r brydles ar Ynys Lawd, ac er ein bod wedi dod â'r brydles i ben, cafwyd costau hyd yma mewn perthynas â clirio'r safle, costau unwaith ac am byth yw'r rhain. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 187 | 179 | 8 | 0 | Mae gwaith yn dal i fynd ymlaen gydag AD mewn perthynas â'r oriau yn y canolfannau hamdden i sicrhau bod modd cwrdd â'r diffyg o £3k. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio gydag Eiddo a Caffael ar yr arbediad £5k a geir o allanoli caffis y canolfannau hamdden. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 339 | 273 | 66 | 0 | Rhagwelir y bydd arbedion o £6k yn cael eu cyflawni ar y contract Gwastraff cyffredinol, fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn rhagweld tanwariant. Mae'n debyg na fydd y gwasanaeth ond yn cyflawni £16k o'r targed £26k ar gyfer allanoli toiledau cyhoeddus oherwydd y diddordeb cyfyngedig gan drydydd partïon. |
| Gwasanaethau Oedolion | 559 | 529 | 30 | 0 | Ni fydd yr arbedion a gynigiwyd yn sgil newidiadau i'r ddarpariaeth arlwyo mewn cartrefi gofal preswyl yn cael eu gweithredu tan Ch3 a Ch4, fodd bynnag bydd y gwasanaeth yn cyflawni'r arbedion o linellau cyllideb eraill a chânt eu cyflawni o 2018/19 ymlaen. |
| Tai | 41 | 36.5 | 4.5 | 0 | Bu ychydig o oedi o ran adolygu'r perfformiad ynni, mae un swyddog wedi cychwyn y gwaith tra bod yr ail swyddog heb gychwyn, felly mae'n golygu y bydd angen addasu'r targed. |
| Trawsnewid | 79 | 79 | 0 | 0 | Disgwylir y bydd modd cyflawni'r holl arbedion o 2017/18 |
| Busnes y Cyngor | 18 | 18 | 0 | 0 | Disgwylir y bydd modd cyflawni'r holl arbedion o 2017/18 |
| Adnoddau | 121 | 100 | 21 | | Disgwylir y bydd yr arbedion yn cael eu cyflawni, fodd bynnag, mae'r arbedion ar bostio yn ddibynnol ar lwyddiant y Prosiect Northgate, ni fydd hyn yn hysbys nes yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol. |
| **Cyfanswm** | **1,954** | **1,656** | **299** | **0** | |

**COSTAU ASIANTAETH EBRILL – MEDI 2017**

| | £ | Ariannwyd o | Pwrpas |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Plant | **367,030.58** | Cyllideb graidd, cyllideb staffio sydd heb ei defnyddio a chyllid wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Staff i lenwi swyddi gwag tra bod yr ailstrwythuro wedi bod yn mynd ymlaen |
| Adnoddau | 4,615.00 | Cyllideb Staff | I lenwi swydd lle roedd yr aelod staff ar absenoldeb salwch tymor hir |
| | 53,202.35 | Cronfa wrth gefn Benodol | Cynorthwyo gydag uwchraddio'r Feddalwedd Northgate ar gyfer Cyflogau ac AD |
| | 63,409.00 | Cyllideb Graidd Benodol a Chyllideb Staff | Adfer Dyledion sydd heb eu casglu |
| | **121,226.35** | | |
| Trawsnewid | **8,828.43** | Cyllideb Staff | Llanw ar gyfer salwch staff |
| Rheoleiddio ac Economaidd | **5,880.01** | Cyllideb Staff | I gwrdd â thargedau arolwg statudol |
| Gwastraff | 43,667.87 | Cyllideb Graidd | Asiantau Safle yn y Canolfannau Ailgylchu |
| | 82,102.80 | Arian Grant | Asiantau Safle yn y Canolfannau Ailgylchu |
| | **125,770.67** | | |
| **Cyfanswm** | **628,736.04** | | |

**Gwybodaeth ynglŷn â Monitro Ymgynghorwyr**

| Gwasanaeth | Swm £ | Categori – Rheswm am Benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus i gwrdd â set sgiliau penodol lle nad oes gofyn cael Swydd Barhaol | Cyfaint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect unwaith ac am byth | | |
| **Faint a wariwyd ar ymgynghorwyr yn Ch1** | **310,775** | | | | | |
| Addysg Ganolog | 69 | ✓ | | | Craidd | Ffioedd Achredu |
| Addysg Ganolog | 200 | | | ✓ | Craidd | 3 Sesiwn Cymorth Cyntaf yn Ysgol Syr Thomas Jones |
| Addysg Ganolog | 9,800 | | ✓ | | Craidd | Darparu hyfforddiant a chyngor a datblygu polisïau ar gyfer diogelu, iechyd a diogelwch a monitro presenoldeb staff ar draws yr holl ysgolion. |
| Addysg Ganolog | 300 | ✓ | | | Craidd | Ffioedd proffesiynol mewn perthynas ag asesu disgyblion |
| Addysg Ganolog | 250 | | | ✓ | Grant | Rôl gefnogaeth allanol i athrawon sydd Newydd Gymhwyso yn eu blwyddyn gyntaf o ddysgu. |
| Addysg Ganolog | 1,925 | | | ✓ | Grant | Monitro'r strategaeth Iaith Gymraeg ar ran yr Awdurdod |
| Addysg Ganolog | 2,913 | ✓ | | | Grant | Cyrsiau TGCh a Digidol |
| **Cyfanswm Addysg Ganolog** | 15,457 | | | | | |
| Diwylliant | 149 | ✓ | | | Craidd | Dosbarthiadau Meistr gan Arlunydd |
| Diwylliant | 1,370 | ✓ | | | Craidd | Arlunydd i arwain Criw Celf |
| **Cyfanswm Diwylliant** | 1,519 | | | | | |

| Gwasanaeth | Swm £ | Categori – Rheswm am Benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus i gwrdd â set sgiliau penodol lle nad oes gofyn cael Swydd Barhaol** | **Cyfaint y gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect unwaith ac am byth** | | |
| Economaidd a Rheoleiddio | 1,000 | | | ✓ | Craidd | Uwch Gyfarwyddwr Gweithgynhyrchu ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (cyfraniad CSYM) |
| Economaidd a Rheoleiddio | 3,357 | ✓ | | | Craidd | Cytundeb Fframwaith Isadeiledd Trosglwyddo a Chysylltiadau'r Grid – Darparu cefnogaeth a chyngor ar gyfer delio ag agweddau technegol y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu arfaethedig gan National Grid (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru) |
| Economaidd a Rheoleiddio | 1,800 | | | ✓ | Allanol (Cytundeb Perfformiad Cynllunio – PPA) | 2 ddiwrnod o wasanaeth ymgynghorol – System Rheoli Dogfennau |
| Economaidd a Rheoleiddio | 9,031 | ✓ | | | Allanol (PPA) | Darparu cyngor cynllunio archeolegol arbenigol |
| Economaidd a Rheoleiddio | 4,650 | ✓ | | | Allanol (PPA) | Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol |
| Economaidd a Rheoleiddio | 85,802 | ✓ | | | Allanol (PPA) | Cytundeb Fframwaith Amlddisgyblaethol – Darparu arbenigedd, sgiliau a chapasiti i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu gweithgareddau sy'n ymwneud â Datblygiadau Ynni Mawr ar yr Ynys, gyda sylw penodol i'r orsaf niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa. |
| Economaidd a Rheoleiddio | 148,290 | ✓ | | | Allanol (PPA) | Cytundeb Fframwaith Gwasanaeth Cyfreithiol – Darparu cyngor cyfreithiol yng nghyswllt Gorsaf Niwclear Newydd Wylfa ac unrhyw brosiectau eraill o dan y rhaglen Ynys Ynni. |

| Gwasanaeth | Swm £ | Categori – Rheswm am Benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus i gwrdd â set sgiliau penodol lle nad oes gofyn cael Swydd Barhaol | Cyfaint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect unwaith ac am byth | | |
| Economaidd a Rheoleiddio | 95,571 | ✓ | | | Allanol (PPA) | Cytundeb Fframwaith Isadeiledd Trosglwyddo a Chysylltiadau'r Grid – Darparu cefnogaeth a chyngor ar gyfer delio ag agweddau technegol y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu arfaethedig gan National Grid. |
| Economaidd a Rheoleiddio | 600 | ✓ | | | Allanol (PPA) | Darparu naratif am y naws am le unigryw sydd gan Ynys Môn |
| Economaidd a Rheoleiddio | -28,597 | ✓ | | | Allanol (PPA) | Adennill Ffioedd a dalwyd |
| Economaidd a Rheoleiddio | 1,643 | | | ✓ | Allanol (VVP) | Cytundeb Fframwaith Amlddisgyblaethol – (Adeilad Warden Parc Gwledig y Morglawdd – dyluniad a chostau) |
| Economaidd a Rheoleiddio | 5,181 | | | ✓ | Allanol (NDA) | Cytundeb Fframwaith Datblygu Economaidd – (Dadansoddi'r Bwlch yn y Gadwyn Gyflenwi) |
| Economaidd a Rheoleiddio | 10,000 | | | ✓ | Allanol (NDA) | Ffi Gynllunio Amlinellol ar gyfer tir ar Barth Menter Llangefni (EZ5) |
| Economaidd a Rheoleiddio | 11,000 | | | ✓ | Allanol (Llywodraeth Cymru) | Cytundeb Fframwaith Datblygu Economaidd – Strategaeth a gwerthusiad terfynol ar gyfer LlLlLlA Caergybi |
| Economaidd a Rheoleiddio | 1,500 | | | ✓ | Allanol (Llywodraeth Cymru) | Diweddariad ar gyfer yr astudiaeth safleoedd Ysgolion blaenorol |
| Economaidd a Rheoleiddio | 765 | ✓ | | | Craidd | Monitro tiwbiau tryledidiad |
| Economaidd a Rheoleiddio | 357 | ✓ | | | Craidd | Cyflenwi a Dadansoddi Tiwbiau Tryledidiad |

| Gwasanaeth | Swm £ | Categori – Rheswm am Benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus i gwrdd â set sgiliau penodol lle nad oes gofyn cael Swydd Barhaol** | **Cyfaint y gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect unwaith ac am byth** | | |
| Economaidd a Rheoleiddio | 886 | | | ✓ | Craidd | Cwrs Trelar |
| Economaidd a Rheoleiddio | 1,670 | | | ✓ | Cyfraniad Grant | PRA a mapio'r cyn Ffatri Smeltio/Asid Sylffwrig yn Amlwch |
| Economaidd a Rheoleiddio | 169 | | | ✓ | Cyfraniad Grant | Archwilio coesau gwartheg |
| Economaidd a Rheoleiddio | 1,625 | | | ✓ | Craidd | Gwaith Dichonoldeb yng Nghanolfan Hamdden Amlwch |
| Economaidd a Rheoleiddio | 1,502 | | | ✓ | Cyfuniad o Grant a Craidd | Amrywiol |
| **Cyfanswm Economaidd a Rheoleiddio** | 357,802 | | | | | |
| Priffyrdd | 83 | | | ✓ | Craidd | Ardoll am y gwasanaeth dyfarniadau parcio |
| Priffyrdd | 836 | ✓ | ✓ | | Craidd | Cyfraniad sefydlog i'r WPPP am brosesu Hysbysiadau Cosb Sefydlog ar gyfer parcio |
| Priffyrdd | 1,005 | ✓ | | | Craidd | Ymweliad ar safle gan Spur/Conduent i atgyweirio problemau lawrlwytho ar y feddalwedd |
| Priffyrdd | 2,072 | ✓ | | | | Amser staff – Casglu data o bell, Ynys Môn |
| Priffyrdd | 3,795 | | | ✓ | Craidd | Arolygon SCRIM (*Road Surface Skid Resistance*) |
| Priffyrdd | 1,500 | ✓ | ✓ | | Grant | Gwasanaeth Ysgrifenyddol y Fforwm Mynediad Lleol |
| **Cyfanswm Priffyrdd** | 9,290 | | | | | |

| Gwasanaeth | Swm £ | Categori – Rheswm am Benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus i gwrdd â set sgiliau penodol lle nad oes gofyn cael Swydd Barhaol** | **Cyfaint y gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect unwaith ac am byth** | | |
| Ysgolion | 2,400 | | | | Craidd | Cefnogaeth Rheolaeth i'r ysgol |
| Ysgolion | 525 | | | | Craidd | Cefnogaeth i'r Corff Llywodraethu |
| Ysgolion | 540 | | | ✓ | Craidd | Sesiynau Celf |
| Ysgolion | 750 | | | ✓ | Craidd | Sesiynau Cerddoriaeth / Drama |
| Ysgolion | 500 | | | ✓ | Craidd | Sesiynau Chwaraeon |
| Ysgolion | 84 | | | ✓ | Craidd | Gwasanaeth Cyfieithu |
| Ysgolion | 776 | | | ✓ | Craidd | Ymarferydd Creadigol |
| **Cyfanswm Ysgolion** | 5,575 | | | | | |
| Gwastraff | 44,960 | ✓ | | | Cyllideb Graidd – yn Ariannu ei Hun | Taliadau am reoli hysbysiadau cosb sefydlog |
| Gwastraff | 750 | ✓ | | | Craidd | Monitro Nwy Perimedr |
| Gwastraff | 3,174 | ✓ | | | Craidd | Cefnogaeth Dechnegol Nwy Tirlenwi Penhesgyn |
| Gwastraff | 206 | ✓ | | | Craidd | Ffi Mesuryddion a Setlo Taliad |
| Gwastraff | 74 | ✓ | | | Craidd | 'DuoS Offtake' yn unig |
| Gwastraff | 13,971 | ✓ | | | Craidd | Rheoli gwaith ôl-ofal Tirlenwi |
| Gwastraff | 919 | ✓ | | | Craidd | Goruchwyliaeth y CQA a Rheolaeth Prosiect ar gyfer y gwaith |
| Gwastraff | 3,600 | ✓ | | | Craidd | Strategaeth Reoli a Gweithredu Cynllun Nwy ar safle Tirlenwi |
| Gwastraff | 1,812 | ✓ | | | Craidd | Rheoli Safle Tirlenwi |

| Gwasanaeth | Swm £ | Categori – Rheswm am Benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus i gwrdd â set sgiliau penodol lle nad oes gofyn cael Swydd Barhaol | Cyfaint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect unwaith ac am byth | | |
| Gwastraff | 2,000 | ✓ | | | Craidd | Arolwg wrth Gerdded y Safle ac adroddiad |
| Gwastraff | 1,253 | ✓ | | | Craidd | Adroddiad CQA |
| Gwastraff | 2,694 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol a Grant | Monitro Bioaerosol |
| Gwastraff | 600 | ✓ | | | Cyfraniad Allanol a Grant | Gwaith gan ymgynghorwyr ym Mhenhesgyn |
| **Cyfanswm Gwastraff** | 76,012 | | | | | |
| CRT | 12,000 | | | ✓ | Grant | Gwasanaeth ymgynghorol ynghylch Tai Fforddiadwy – Wylfa Newydd |
| CRT | 4,801 | | | ✓ | Craidd CR | Treuliau ar gyfer ymgynghorydd i'w system Orchard |
| **Cyfanswm CRT** | 16,801 | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 7,140 | | | ✓ | Cyllid ar gyfer digwyddiadau annisgwyl | Sefydlu'r tîm Trothwy Gofal sy'n anelu at leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal |

Tudalen 80

| Gwasanaeth | Swm £ | Categori – Rheswm am Benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o’r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus i gwrdd â set sgiliau penodol lle nad oes gofyn cael Swydd Barhaol** | **Cyfaint y gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect unwaith ac am byth** | | |
| Gwasanaethau Plant | 8,080 | | ✓ | | Cyllideb staffio sydd heb ei defnyddio a chyllid wrth gefn a gymeradwywyd gan y PG | Cadeirio ac Adolygu Achosion Amddiffyn Plant |
| Gwasanaethau Plant | 188 | | | ✓ | Cyllideb staffio sydd heb ei defnyddio a chyllid wrth gefn a gymeradwywyd gan y PG | Ymgyrch recriwtio |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Plant** | **15,408** | | | | | |

| Gwasanaeth | Swm £ | Categori – Rheswm am Benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus i gwrdd â set sgiliau penodol lle nad oes gofyn cael Swydd Barhaol | Cyfaint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect unwaith ac am byth | | |
| Trawsnewid | 179 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Gwasanaethau ymgynghorol a Gosod |
| Trawsnewid | 4,250 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Gwasanaethau gosod a chyflunio |
| Trawsnewid | 1,189 | | | | | Contract Cynnal a Chadw UPS |
| Trawsnewid | 1,325 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Gwasanaethau Ymgynghorol a Gosod |
| Trawsnewid | 4,020 | | | ✓ | Grant | Asesiadau gweithwyr cymdeithasol |
| Cyfanswm Trawsnewid | 10,963 | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 24,070 | Na | Llanw i swydd llawn amser | swydd Cyfreithiwr Contractau | Gorwariant ar y gyllideb | Cyngor ar gontractau a chaffael – swydd dros gyfnod mamolaeth 04/18 |
| Busnes y Cyngor | 375 | | | Unwaith ac am byth | Cyllideb Graidd | Ystyriaeth a Chyngor ar Bapurau Tribiwnlys |
| Busnes y Cyngor | 52,305 | Na | Llanw i swydd llawn amser | swydd Cyfreithiwr Contractau | Gorwariant ar y gyllideb | Cyngor ar gontractau a chaffael –swydd dros gyfnod mamolaeth 04/18 |
| Busnes y Cyngor | 4,426 | | Llanw i swydd llawn amser | Llywodraethu Corfforaethol | Gorwariant ar y gyllideb | Gwasanaethau Proffesiynol |

| Gwasanaeth | Swm £ | Categori – Rheswm am Benodi | | | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol) | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus i gwrdd â set sgiliau penodol lle nad oes gofyn cael Swydd Barhaol | Cyfaint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect unwaith ac am byth | | |
| Busnes y Cyngor | 225 | | | Ie | | Gweithdy i'r Eisteddfod |
| Cyfanswm Busnes y Cyngor | 81,401 | | | | | |
| Adnoddau | 1,250 | ✓ | | | Cyllideb graidd | Gwasanaeth Ymgynghorol TAW |
| Adnoddau | 500 | | | ✓ | Cyllideb graidd | Gwaith ar hawliadau tâl cyfartal |
| Adnoddau | 400 | | | ✓ | Cyllideb graidd | Gwasanaeth ymgynghorol ar y system Civica |
| Adnoddau | 900 | | | ✓ | Cyllideb graidd | Gwasanaeth ymgynghorol Resourcelink |
| Adnoddau | 3,597 | | | ✓ | Cyllideb graidd | Costau rheoli prosiect EDMS |
| | 6,647 | | | | | |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Chwarter 2** | **596,876** | | | | | |
| **Cyfanswm Ebrill i Medi 2017** | **907,651** | | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **27 TACHWEDD 2017** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 2 2017/18** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD J GRIFFITH** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD :**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r cynnydd ar wariant a'r derbyniadau yn ystod chwarter 2 yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2017/18

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| **Atodiad A** - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Cyfalaf - Chwarter 2 2017/18<br>**Atodiad B** - Crynodeb o Wariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a ragwelir erbyn Diwedd y Flwyddyn |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| • Cyllideb Gyfalaf 2017/18, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror 2017;<br>• Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror 2017;<br>• Adroddiad Canlyniadau Cyfalaf 2016/17, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 12 Mehefin 2017; ac<br>• Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1 2017/18 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 18 Medi 2017. |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae’r adroddiad canlynol yn nodi’r sefyllfa mewn perthynas â’r Gyllideb Gyfalaf yn chwarter 2 y flwyddyn ariannol ac yn caniatáu i Aelodau nodi cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2017, cymeradwyodd y Cyngor Rhaglen Gyfalaf o £27.630m am 2017/18 ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai a Rhaglen Gyfalaf o £12.873m ar gyfer y CRT. Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2017, cymeradwyodd y Cyngor i Lithriad Cyfalaf o £4.677m gael ei ddwyn ymlaen o 2016/17 ac, yn ogystal, cariwyd llithriad o £1.758m drosodd o raglen ysgolion yr 21ain ganrif. Ers gosod y gyllideb, mae cynlluniau eraill wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hariannu gan grantiau, ac yn werth £1.873m i gyd. Yn gynwysedig yn hyn, mae cynlluniau grant megis y Grant Diogelwch ar y Ffyrdd o £0.163m a grant MALD o £0.115m ar gyfer Oriel Ynys Môn. Mae’r Awdurdod hefyd wedi derbyn Cyfarwyddyd Cyfalafu ar gyfer Tâl Cyfartal – cyfanswm o £2.566m, sy’n dod â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2017/18 i £51.377m.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2017/18

**2.1** Isod, mae tabl sy’n crynhoi’r gwariant Cyfalaf hyd at 30 Medi 2017, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Medi 2017 a’r modd y bwriedir cyllido’r Rhaglen Gyfalaf yn 2017/18:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario % | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 2,490 | 579 | 337 | 2 | 339 | 59 | 14 |
| CRT Tai | 12,873 | 3,848 | 3,743 | 473 | 4,216 | 110 | 33 |
| Dysgu Gydol Oes | 9,598 | 3,823 | 3,659 | 243 | 3,902 | 102 | 41 |
| Economaidd ac Adfywio | 8,890 | 65 | 29 | 5 | 34 | 53 | 0 |
| Priffyrdd | 11,440 | 1,733 | 1,755 | 70 | 1,825 | 105 | 16 |
| Rheoli Gwastraff | 172 | 66 | 66 | - | 66 | 101 | 39 |
| Eiddo | 507 | 317 | 314 | 0 | 314 | 99 | 62 |
| Trawsnewid | 655 | 386 | 166 | 77 | 242 | 63 | 37 |
| Adnoddau | 2,566 | - | - | - | - | - | - |
| Cynllunio | 411 | 411 | 478 | - | 478 | 116 | 116 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,776 | 219 | 109 | 124 | 233 | 106 | 13 |
| **Cyfanswm** | **51,377** | **11,446** | **10,656** | **995** | **11,651** | **102** | **23** |

| | |
|---|---|
| **Ariannwyd gan:** | |
| Grant Cyfalaf | 23,611 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 2,866 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 3,509 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 8,868 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,208 |
| Arian Wrth Gefn | 752 |
| Benthyciad | 1,001 |
| Tanwariant o 2016/17 | 564 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **51,377** |

**2.2** Roedd 98% o’r gyllideb a broffiliwyd wedi ei wario hyd at ddiwedd yr ail chwarter, fodd bynnag, dim ond 19% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi cael ei gwario hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod yr arian ar gyfer nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn cael ei wario yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Mae gwaith ar rai Cynlluniau Cyfalaf wedi cychwyn ers tro, gyda’r rhan fwyaf o’r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 2 wedi cael ei gwario, cynlluniau megis Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan. Mae rhai Cynlluniau Cyfalaf eto i gychwyn, neu prin wedi cychwyn, ond mae’r cyllidebau hynny wedi’u proffilio ar gyfer rhan olaf y flwyddyn ariannol. Mae’r rhain yn cynnwys Cam 2 y Cynllun Goleuadau Stryd, setlo hawliadau Tâl Cyfartal a’r Gronfa Gofal Canolraddol. Gweler y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017/18 a’i proffiliau yn Atodiad B yr adroddiad hwn. Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn 2017/18 a cheir diweddariad ar y rhain yn adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae gwariant ar y Cyfrif Refeniw Tai yn fwy na'r proffil, gyda 110% o'r gyllideb a broffiliwyd wedi cael ei wario erbyn diwedd yr ail chwarter ond dim ond 33% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y mai 89% o'r gyllideb fydd wedi cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn ystod Chwarter 2, dyfarnwyd yr holl gontractau ar gyfer y gwaith cynnal a chadw cynlluniedig traddodiadol am 2017/18. Mae'r tendrau hyn wedi ymrwymo'n llawn y gyllideb gyfan ar gyfer y gyllideb gwaith cynnal a chadw cynlluniedig ac mae'r gwaith, a'r gwariant, yn mynd rhagddo'n unol â disgwyliadau'r Gwasanaeth. Yn ychwanegol at hyn, fe ddyfarnwyd dau gontract yn ystod Chwarter 2 ar gyfer Adnewyddu Boeleri Gwres Canolog. Bydd trydydd contract, a'r un terfynol ar gyfer 2017/18, yn cael ei ddyfarnu yn ystod Chwarter 3.

**2.4** Cafodd y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau, a ariannwyd o'r derbyniadau cyfalaf a gafwyd yn sgil gwerthu mân-ddaliadau ac incwm o'r rhenti, ei gwblhau yn ystod 2016/17. Roedd y gwarged ar ddiwedd y flwyddyn yn £0.307m, sydd wedi cael ei glustnodi'n benodol ar gyfer gwaith Cyfalaf pellach yn 2017/18. Fodd bynnag, rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y rhaglen yn gwario £0.464m yn ystod y flwyddyn ariannol hon, sef gorwariant o £0.157m. Ariennir y gorwariant hwn o werthu mân-ddaliadau sydd wedi cael eu trefnu'n barod yn unol a'r Cynllun Rheoli Asedau Mân-ddaliadau.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017/18 ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn a'r gwaith yn mynd rhagddo. Ceir diweddariad cryno ar y cynlluniau hyn isod:-

- Neuadd y Farchnad - £0.125m wedi cael ei ddefnyddio'n llawn o'r grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid tuag at ernes ar gyfer yr iawndal mewn perthynas â phryniant gorfodol Neuadd y Farchnad (a fydd dal yn gorfod mynd i dribiwnlys o bosib). Wedi proses faith, cymeradwywyd y grant o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ar yr amod y bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo costau'r tendr a'r broses ar gyfer cam 2.

- Ffordd Gyswllt Llangefni – Cwblhawyd Rhannau 1 a 2 yn ystod wythnosau diwethaf 2016/17, ac mae gwaith yn cael ei wneud ar Ran 4. Mae gwaith ar Ran 4 yn mynd rhagddo'n unol â'r disgwyliad ac mae'n debygol y bydd gwaith wedi ei gwblhau yn Rhagfyr 2017 (ac y bydd yr anfonebau wedi eu cwblhau erbyn Mawrth 2018). Yn ystod Chwarter 2, cafodd y gwariant ei hawlio'n llawn yn erbyn y grant. Cafodd y tendr adeiladu ar gyfer Rhan 3 ei gyhoeddi yn ystod Chwarter 2 a disgwylir y tendrau'n ôl erbyn 13 Hydref. Caiff y tendrau eu hasesu yn ystod mis Hydref a bydd gwaith yn cychwyn ar y safle yn ystod Chwarter 3 ar yr amod y ceir y caniatadau angenrheidiol ar gyfer y tir / y bydd modd prynu'r tir. Mae archebion ymlaen llaw ar gyfer yr ymgymerwyr statudol wrthi'n cael eu paratoi ar hyn o bryd (ar gyfer Rhan 3).

- Seilwaith Strategol Llangefni – Cyflwynwyd bid ar gyfer arian o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ym mis Ebrill. Llwyddodd y bid ac fe'i cymeradwywyd yn ffurfiol ym mis Mehefin 2017. Gwnaed gwaith dylunio a thirfesur yn ystod misoedd yr haf a bydd Gwahoddiad i Dendro ar gyfer y contract yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref gyda'r disgwyliad y bydd y gwaith yn cychwyn yn fuan yn 2018. Bydd y cynllun yn cynnwys adeilad unedau diwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac estyniad i'r swyddfeydd yn y Ganolfan Fusnes ar gyfer eu gosod.

- Morglawdd Caergybi – bydd y gwaith ar y comisiwn cychwynnol yn cael ei gwblhau yn yr Hydref. Mae'r cyllid ar gyfer yr ymgynghoriad eleni'n cael ei ddarparu gan Stena Port.

- Ysgolion yr 21ain Ganrif – Cafodd y cyllid ar gyfer Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan ei dynnu i lawr yn gyfan gwbl fel rhan o'r rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif yn 2016/17. O'r herwydd, caiff y gwaith sydd ar ôl i'w gwblhau ar y ddwy ysgol yn ystod 2017/18 ei gyllido drwy fenthyciadau ac adnoddau'r Cyngor fel rhan o gyfraniad 50% y Cyngor tuag at y prosiect. Mae costau prosiect ar amryfal gynlluniau'n parhau i amrywio, fodd bynnag, mae'r gost gyfan ar gyfer Band A yn parhau i fod o fewn y gyllideb a gymeradwywyd. Mae gwaith wedi cychwyn ar yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Santes Dwynwen ac adnewyddu Ysgol Parc Y Bont. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu £2.302m hyd yma ar gyfer 2017/18, ac mae'n rhaid gwario £1.9m ohono. Petai'r tywydd yn ddrwg yn ystod cyfnod y gaeaf, gallai hynny olygu oedi gyda'r rhaglen ac mae perygl na fyddai modd gwario'r £1.9m hwn ac y byddai'r Grant Cyfalaf yn cael ei golli. Hyd at ddiwedd chwarter 2, roedd £0.384m wedi cael ei hawlio yn erbyn y grant.

- Cyfalaf ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd – Cynllun fydd hwn i wneud gwaith cyfalaf ar y B5110 rhwng Llangefni a Marianglas. Mae gwaith wedi cael ei wneud ar y cynllun hwn yn ystod Chwarter 2 ac mae 75% o'r gyllideb flynyddol wedi cael ei wario. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r cynllun Grant Cyfalaf hwn.

- Grant MALD Oriel Ynys Môn – Ychydig o arian a wariwyd yn ystod Chwarter 1 a 2. Mae gwaith ar adnewyddu'r toiledau, goleuadau, drws ffrynt, llawr newydd wedi ei raglennu i gychwyn yn chwarter 3. Yn chwarter 4, disgwylir y bydd y cynllun yn cael ei gwblhau gyda rhywfaint o waith tirlunio. Disgwylir y bydd y grant wedi ei wario'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon oherwydd mae'n un o amodau'r grant bod y gwaith yn cael ei gwblhau a'r grant yn cael ei hawlio erbyn diwedd chwarter 4.

**3.1.2** Mae yna gynlluniau yn y Rhaglen Gyfalaf nad ydynt wedi cychwyn eto, neu sy'n disgwyl i gael eu cymeradwyo gan y sawl a fydd yn darparu'r cyllid. Ceir diweddariad cryno ar y cynlluniau isod:-

- Lliniaru Llifogydd Biwmares – mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ar gyfer Lliniaru Llifogydd Biwmares yn eu rhaglen ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, i gael cynnig ffurfiol, bydd rhaid i'r Awdurdod gyflwyno bid a chael cymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Gwerthusiad ar brosiect diwygiedig sy'n gorfod cynnwys canlyniadau ymarfer ymgynghori cyhoeddus bydd hynny'n digwydd unwaith y bydd gwaith dylunio'r cynllun wedi ei gwblhau. Ar y gorau, bydd rhywfaint o arian yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon a mwy yn y nesaf. Ar y gwaethaf, efallai y bydd y gwaith yn cael ei ohirio a gall hyn olygu colli'r cyllid grant.

- Lliniaru Llifogydd Pentraeth – Mae'r gwaith hwn wrthi'n cael ei ddylunio ar hyn o bryd ac, os bydd y trafodaethau ynghylch y tir a'r cais am grant yn llwyddiannus, mae'n bosib y bydd yn cychwyn haf nesaf. Mae'r cynllun ar restr 5 mlynedd LIC o gynlluniau 'sydd ar y gweill' ond byddai angen grant i'r gwaith fynd yn ei flaen. Mae grant wedi cael ei ddyfarnu ar gyfer y dyluniad.

- Seilwaith Strategol Caergybi – Cynllun yw hwn i godi unedau diwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi, ac mae bid ddrafft wedi cael ei chyflwyno i Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Disgwylir canlyniad cadarnhaol, fodd bynnag, bydd angen sicrhau cyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Er y bydd cyllid cyfatebol ar gael o bosib, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cytundeb mewn perthynas â'u cyfraniad.

- Porth Twristiaeth – Mae bid wedi cael ei chyflwyno am arian o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac mae'n cael ei hasesu ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn Chwarter 3.

- Lôn Newydd i Wylfa Newydd – Ni ddisgwylir i unrhyw waith gael ei wneud yn awr yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd y gwaith ar-lein yn mynd yn ei flaen ond nid yw'n debygol o gychwyn rŵan tan o leiaf Chwarter 3 2018/19 a gall gael ei ohirio tan Chwarter 1 2019/20 gan ddibynnu ar y cynnydd a wneir o ran cwblhau'r Gorchmynion Prynu Gorfodol angenrheidiol.

- Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr – Nid yw'r Gwasanaeth Tai yn rhagweld y bydd unrhyw wariant mewn perthynas ag adeiladu'r safle yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Yn dilyn adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith yn ystod Hydref 2017, penderfynwyd y byddai Ceisiadau Cynllunio ffurfiol yn cael eu cyflwyno ar gyfer Safle Aros Dros Dro yn Star a Safle Parhaol ym Mhenhesgyn. Bydd gwariant cyfalaf yn ystod 2017/18 yn cael ei gyfyngu i ffioedd proffesiynol mewn perthynas â dyluniad y safle, comisiynu adroddiadau gan arbenigwyr ynghylch addasrwydd y safle a chyflwyno ceisiadau cynllunio a ffioedd cysylltiedig.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r Derbyniadau Cyfalaf y clustnodwyd cyllid ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2017/18 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30-Medi-2017 £'000 | Rhagwelwyd hyd at 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 530 | 86 | 563 |
| Cyffredinol | 2,925 | 2,262 | 2,415 |
| Diwydiannol | 275 | 0 | 125 |
| Ysgolion | 640 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4,370** | **2,348** | **3,103** |

**3.2.2** Rhagwelir y bydd y Derbyniadau Cyfalaf ar 31 Mawrth 2018 yn £3.103m yn erbyn cyllideb o £4.370m. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith na fydd gwerthiant dwy ysgol wedi ei gwblhau tan y flwyddyn ariannol nesaf. Derbyniwyd £2.348m mewn Derbyniadau Cyfalaf hyd at ddiwedd Chwarter 2, sy'n cyfateb i 54% o'r gyllideb flynyddol. Mae'r gwerthiannau'n cynnwys Parc Mownt (£0.350m) a safle hen Ysgol y Graig (£1.672m). Mae'r Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir yn cynnwys £0.477m o werthu gwahanol Mân-ddaliadau a £0.125m o unedau diwydiannol.

**3.2.3** Nid yw'r Awdurdod wedi derbyn unrhyw dderbyniadau cyfalaf mawr ers diwedd y chwarter.

## 4. Y GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGAMCENIR AR GYFER 2017/18

**4.1** Isod, ceir tabl yn dangos y Gwariant a ragamcenir ar 31 Mawrth 2018, a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | Tan / Gor Wariant Rhagamcenir £'000 | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 2,490 | 1,289 | - 1,201 | - 48 |
| CRT Tai | 12,873 | 11,490 | - 1,383 | - 11 |
| Dysgu Gydol Oes | 9,598 | 7,002 | - 2,595 | - 27 |
| Economaidd ac Adfywio | 8,890 | 810 | - 8,080 | - 91 |
| Priffyrdd | 11,440 | 6,254 | - 5,186 | - 45 |
| Rheoli Gwastraff | 172 | 97 | - 75 | - 44 |
| Eiddo | 507 | 664 | 157 | 31 |
| Trawsnewid | 655 | 605 | - 51 | - 8 |
| Adnoddau | 2,566 | 2,566 | - | - |
| Cynllunio | 411 | 928 | 517 | 126 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,776 | 1,811 | 35 | 2 |
| **Cyfanswm** | **51,377** | **33,516** | **- 17,861** | **- 35** |
| **Ariannwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid Rhagamcenir £'000** | **Amrywiad** | **% Amrywiad** |
| Grant Cyfalaf | 23,611 | 11,361 | - 12,249 | - 52 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 2,866 | 3,103 | 238 | 8 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 3,509 | 2,132 | - 1,377 | - 39 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 8,868 | 6,583 | - 2,285 | - 26 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,208 | 8,825 | - 1,383 | - 14 |
| Arian wrth Gefn | 752 | 510 | - 241 | - 32 |
| Benthyciad | 1,001 | 1,001 | - | - |
| Tanwariant o 2016/17 | 564 | - | - 564 | - 100 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **51,377** | **33,516** | **- 17,861** | **- 35** |

**4.2** Fel y gwelir o dabl 4.1 (uchod) rhagwelir y bydd tanwariant o £17.861m ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017/18 ac mae'n bosibl y bydd £15.515m o'r swm hwn yn llithro i Raglen Gyfalaf 2018/19. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2018/19 a'r amcangyfrif cyfredol mewn perthynas â'r cyllid yw Grant Cyfalaf (£13.071m), Derbyniadau Cyfalaf (£0.547m), Benthyca gyda Chefnogaeth (£0.444m), Cyfraniad Refeniw (£1.403m) ac Arian Wrth Gefn (£0.050m) Bydd y llithriad posibl yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19. Rhagwelir mai'r prif brosiectau a fydd, fe dybir, yn tanwario yw Seilwaith Strategol Caergybi, Seilwaith Strategol Llangefni a'r Lôn Newydd i Wylfa Newydd, fel y gwelir yn Atodiad B. Mae'r tri chynllun yn cael eu cyllido bron yn gyfan gwbl o grantiau a dyma'r rheswm am yr amrywiad sylweddol yn y cyllid Grantiau Cyfalaf yn nhabl 4.1. Y rhesymau am y tanwariant mewn perthynas â Seilwaith Strategol Caergybi yw ein bod yn parhau i chwilio am gyllid allanol ac mae bid ddrafft wedi cael ei chyflwyno. Rhagwelir y bydd tanwariant ar gynllun Seilwaith Strategol Llangefni oherwydd dim ond yn ddiweddar y llwyddwyd i sicrhau cyllid allanol a dim ond gwaith dylunio a thirfesur sy'n debygol o gael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Nid oes disgwyl i'r cynllun Lôn Newydd i Wylfa Newydd fynd yn ei flaen tan Hydref 2018 ar y cynharaf.

**4.3** Rhagwelir y bydd y Gofyniad Cyllid Cyfalaf ar 31 Mawrth 2018 yn £138.061m, sef angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca fel y gall ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn benthyca £111.430m yn allanol, sydd, yn ei hanfod, yn golygu bod angen i'r Awdurdod fenthyca £26.631m i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os bydd yr arian hwn yn cael ei fenthyca'n allanol, bydd yr Awdurdod yn parhau i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2017/18 (Atodiad 11).

**4.4** Ar 27 Medi 2017, derbyniodd yr Awdurdod lythyr gan Lywodraeth Cymru yn dweud wrth yr Awdurdod bod ei gais am Gyfarwyddyd Cyfalafu 2017/18 ar gyfer Taliadau Iawndal Tâl Cyfartal wedi ei gytuno mewn egwyddor gyda rhai amodau. Mae'r Tâl Cyfartal yn debygol o fod oddeutu £2.5m ac yn cael ei gyllido o Fenthyca Di-gefnogaeth.

## 5. <u>Y DYFODOL</u>

**5.1** Cafodd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2018/19 ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 30 Hydref 2017. Yn y strategaeth, argymhellwyd bod Cyllid Cyfalaf craidd y Cyngor ar gyfer 2018/19, yn cynnwys Grant Cyfalaf Cyffredinol (£1.340m), Benthyca gyda Chefnogaeth (£2.203m) a Derbyniadau Cyfalaf (£0.500m), yn cael ei ddyrannu i gyllido'r gwaith o uwchraddio asedau cyfredol (£3.217m) ac i gyfrannu tuag at gyllido cynllunio gydag ymrwymiad a ddygwyd ymlaen o 2017/18 (£0.826m). Mae'r cynlluniau y gwnaed ymrwymiad iddynt yn dod i gyfanswm o £23.4m, gyda'r cyllid gweddilliol yn dod o grantiau allanol.

Yn ogystal, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ddefnyddio £250k o arian wrth gefn cyfalaf i gyllido cynlluniau Buddsoddi i Arbed llai. Gofynnir yn awr i Wasanaethau gyflwyno bidiau a fydd yn cael eu hasesu cyn i'r Pwyllgor Gwaith argymell y gyllideb gyfalaf derfynol i'r Cyngor ym mis Chwefror 2018.

Yn ogystal, mae nifer o gynlluniau newydd posibl a fyddai angen cyllid ychwanegol wedi cael eu cynnwys yn y Strategaeth. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys peiriannau Graeanu newydd, adnewyddu cartrefi gofal i'r henoed, uwchraddio'r system ffôn newydd ac uwchraddio Offer yn y Canolfannau Hamdden. Gellid cyllido'r cynlluniau ychwanegol hyn o gronfa gyfalaf wrth gefn, neu drwy fenthyciadau di-gefnogaeth os gall y cynllun gynhyrchu incwm/arbedion i ad-dalu'r benthyciad di-gefnogaeth a'r llog. Bydd y Cyngor llawn yn gwneud penderfyniad ar y cynlluniau ychwanegol hyn ym mis Chwefror 2018.

Cyfeirir yn y Strategaeth hefyd at y rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif. Caiff Band A y rhaglen ei gyllido gan 50% cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a 50% benthyca di-gefnogaeth a bydd yn parhau i 2018/19 gyda gwaith a fydd yn mynd rhagddo ar ddatblygu Ysgol Santes Dwynwen, Adnewyddu ysgol Brynsiencyn ac Ysgol Bro Llangefni.

Bydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) hefyd yn cael ei hystyried gan y Cyngor llawn ym mis Chwefror gyda'r CRT yn cael ei gyllido gan Gyfraniadau Refeniw a'r Grant Lwfans ar gyfer Gwaith Trwsio Mawr.

# Crynodeb o Wariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a’r Gwariant a ragwelir erbyn Diwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 958,280 | 479,136 | 289,367 | 0 | 289,367 | -189,769 | 60 | 30 | 958,280 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 1,301,000 | 99,996 | 46,080 | 2,242 | 48,322 | -51,674 | 48 | 4 | 150,000 | -1,151,000 | -88 |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 200,000 | 0 | 1,209 | 0 | 1,209 | 0 | 0 | 1 | 150,000 | -50,000 | -25 |
| Tai fforddiadwy a ddygwyd ymlaen 2015/16 | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,489,930** | **579,132** | **336,655** | **2,242** | **338,897** | **-241,443** | **59** | **14** | **1,288,930** | **-1,201,000** | **-113** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 600,000 | 180,000 | 117,633 | 51,392 | 169,026 | -10,974 | 94 | 28 | 600,000 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,635,000 | 2,317,500 | 2,299,829 | 395,092 | 2,694,921 | 377,421 | 116 | 58 | 4,635,000 | 0 | 0 |
| Cerbydau Uned Cynnal Tai 2017/18 | 144,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 144,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 502,580 | 35,000 | 31,386 | 1,520 | 32,906 | -2,094 | 94 | 7 | 200,000 | -302,580 | -60 |
| Ailfodelu'r Stoc Cyfredol | 693,120 | 0 | 12,720 | 1,778 | 14,497 | 14,497 | 0 | 2 | 693,120 | 0 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol | 4,800,000 | 650,000 | 645,511 | 17,375 | 662,886 | 12,886 | 102 | 14 | 3,700,000 | -1,100,000 | -23 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 175,000 | 188,963 | 6,333 | 195,296 | 20,296 | 112 | 56 | 350,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 167,620 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 167,620 | 0 | 0 |
| SATC | 870,280 | 435,140 | 407,343 | 0 | 407,343 | -27,797 | 94 | 47 | 870,280 | 0 | 0 |
| Eiddo | 110,000 | 55,000 | 39,378 | 0 | 39,378 | -15,622 | 72 | 36 | 130,000 | 20,000 | 18 |
| **Cyfansymiau ar gyfer: CRT Tai** | **12,872,600** | **3,847,640** | **3,742,763** | **473,490** | **4,216,252** | **368,612** | **110** | **33** | **11,490,020** | **-1,382,580** | **-65** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 474,620 | 200,000 | 193,682 | 0 | 193,682 | -6,318 | 97 | 41 | 474,620 | 0 | 0 |
| Atgyweirio Adeiladau Addysgol | 500,000 | 300,000 | 161,136 | 0 | 161,136 | -138,864 | 54 | 32 | 500,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Caergybi | 1,158,000 | 897,241 | 896,289 | 0 | 896,289 | -952 | 100 | 77 | 897,241 | -260,759 | -23 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Y Llannau | 2,502,000 | 2,023,678 | 2,023,678 | 0 | 2,023,678 | 0 | 100 | 81 | 2,023,678 | -478,322 | -19 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Parc y Bont | 314,000 | 164,477 | 164,478 | 19,620 | 184,097 | 19,620 | 112 | 59 | 548,191 | 234,191 | 75 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Bro Rhosyr / Bro Aberffraw | 3,591,000 | 9,219 | 219,986 | 223,514 | 443,500 | 434,281 | 4,811 | 12 | 1,992,725 | -1,598,275 | -45 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Bro Seiriol | 166,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -166,000 | -100 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Brynsiencyn | 217,000 | 228,172 | 0 | 0 | 0 | -228,172 | 0 | 0 | 228,172 | 11,172 | 5 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Llangefni | 675,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 337,686 | -337,314 | -50 |
| **Cyfanswm** | **9,597,620** | **3,822,787** | **3,659,249** | **243,133** | **3,902,383** | **79,596** | **102** | **41** | **7,002,313** | **-2,595,307** | **-27** |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Porth Twristiaeth | 1,050,000 | 10,000 | 4,872 | 0 | 4,872 | -5,128 | 49 | 0 | 210,000 | -840,000 | -80 |
| Seilwaith Strategol Caergybi | 5,001,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100,000 | -4,901,000 | -98 |
| Seilwaith Strategol Llangefni | 2,523,000 | 25,000 | 0 | 1,440 | 1,440 | -23,560 | 6 | 0 | 300,000 | -2,223,000 | -88 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 84,750 | 5,000 | 4,519 | 0 | 4,519 | -481 | 90 | 5 | 84,750 | 0 | 0 |
| Cyllid Salix - Goleuadau LED | 5,190 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -5,190 | -100 |
| I2S - Effeithlonrwydd Ynni yn y Canolfannau Hamdden | 111,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -111,000 | -100 |
| Grant MALD Oriel Ynys Môn 2017/18 | 115,370 | 25,000 | 19,338 | 3,967 | 23,305 | -1,695 | 93 | 20 | 115,370 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **8,890,310** | **65,000** | **28,729** | **5,407** | **34,136** | **-30,864** | **53** | **0** | **810,120** | **-8,080,190** | **-91** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Meysydd Parcio | 12,920 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12,920 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 346,400 | 62,000 | 61,394 | 22,881 | 84,275 | 22,275 | 136 | 24 | 346,400 | 0 | 0 |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir | 761,000 | 380,500 | 543,289 | 0 | 543,289 | 162,789 | 143 | 71 | 761,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LlC) | 800,000 | 0 | 11,163 | 0 | 11,163 | 11,163 | 0 | 1 | 800,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LlC) | 800,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -800,000 | -100 |
| Lôn Newydd Wylfa Newydd | 4,097,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -4,097,000 | -100 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 3,414,000 | 770,000 | 619,080 | 46,893 | 665,973 | -104,027 | 86 | 20 | 3,125,000 | -289,000 | -8 |
| Teithio Llesol | 4,000 | 0 | 45 | 0 | 45 | 45 | 0 | 1 | 4,000 | 0 | 0 |
| Grant Diogelwch Ffyrdd | 163,000 | 125,000 | 122,788 | 0 | 122,788 | -2,212 | 98 | 75 | 163,000 | 0 | 0 |
| Cyllid Salix - Goleuadau Stryd | 365,000 | 365,000 | 363,777 | 0 | 363,777 | -1,223 | 100 | 100 | 365,000 | 0 | 0 |
| Cyllid Salix - Goleuadau Stryd Rhan 2 | 636,240 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 636,240 | 0 | 0 |
| Morglawdd Caergybi | 40,000 | 30,000 | 33,872 | 0 | 33,872 | 3,872 | 113 | 85 | 40,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **11,439,560** | **1,732,500** | **1,755,409** | **69,775** | **1,825,184** | **92,684** | **105** | **16** | **6,253,560** | **-5,186,000** | **-45** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Telehandler a'r Bont Bwyso | 97,000 | 66,000 | 66,410 | 0 | 66,410 | 410 | 101 | 68 | 97,000 | 0 | 0 |
| I2S - Traeth Coch | 75,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -75,000 | -100 |
| **Cyfanswm** | **172,000** | **66,000** | **66,410** | **0** | **66,410** | **410** | **101** | **39** | **97,000** | **-75,000** | **-44** |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 200,000 | 10,000 | 10,088 | 0 | 10,088 | 88 | 101 | 5 | 200,000 | 0 | 0 |
| Mân-ddaliadau | 307,000 | 307,000 | 303,705 | 480 | 304,185 | -2,815 | 99 | 99 | 464,000 | 157,000 | 51 |
| **Cyfanswm** | **507,000** | **317,000** | **313,793** | **480** | **314,273** | **-2,727** | **99** | **62** | **664,000** | **157,000** | **31** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| Prosiectau TGCh | 90,790 | 45,395 | 10,116 | 38,250 | 48,366 | 2,971 | 107 | 53 | 90,790 | 0 | 0 |
| TGCh - Seilwaith Craidd | 150,000 | 150,000 | 103,429 | 29,904 | 133,333 | -16,667 | 89 | 89 | 150,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 100,000 | 50,000 | 0 | 0 | 0 | -50,000 | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Symud Data I Systemau Newydd | 50,000 | 11,000 | 10,200 | 8,375 | 18,575 | 7,575 | 169 | 37 | 50,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Trwydded MS | 101,000 | 101,000 | 0 | 0 | 0 | -101,000 | 0 | 0 | 101,000 | 0 | 0 |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,770 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 55,000 | -50,770 | -48 |
| System EDMS - Buddsoddi i Arbed | 57,860 | 28,930 | 42,120 | 0 | 42,120 | 13,190 | 146 | 73 | 57,860 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **655,420** | **386,325** | **165,865** | **76,529** | **242,394** | **-143,931** | **63** | **37** | **604,650** | **-50,770** | **-8** |
| **Adnoddau** | | | | | | | | | | | |
| Tâl Cyfartal | 2,566,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,566,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,566,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **2,566,000** | **0** | **0** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 410,670 | 410,670 | 478,102 | 0 | 478,102 | 67,432 | 116 | 116 | 928,000 | 517,330 | 126 |
| **Cyfanswm** | **410,670** | **410,670** | **478,102** | **0** | **478,102** | **67,432** | **116** | **116** | **928,000** | **517,330** | **126** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Gweithredu CCIS | 65,000 | 32,500 | 29,818 | 0 | 29,818 | -2,682 | 92 | 46 | 65,000 | 0 | 0 |
| Canolfan Byron | 150,000 | 61,873 | 1,124 | 123,745 | 124,869 | 62,996 | 202 | 83 | 143,931 | -6,069 | -4 |
| Adnewyddu Haulfre | 68,270 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 68,270 | 0 | 0 |
| Seiriol | 1,000,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,000,000 | 0 | 0 |
| Garreglwyd | 250,000 | 125,000 | 78,090 | 0 | 78,090 | -46,910 | 62 | 31 | 291,240 | 41,240 | 16 |
| ICF Maes William Williams | 218,400 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 218,400 | 0 | 0 |
| ICF Rectory | 24,600 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 24,600 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,776,270** | **219,373** | **109,032** | **123,745** | **232,777** | **13,404** | **106** | **13** | **1,811,441** | **35,171** | **2** |
| **Cyfanswm** | **51,377,380** | **11,446,427** | **10,656,007** | **994,801** | **11,650,808** | **203,173** | **102** | **23** | **33,516,034** | **-17,861,346** | **-35** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **27 TACHWEDD 2017** |
| **PWNC:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 2 2017/18** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol: -

**(i)** Y sefyllfa a nodir o ran perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2017/18.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2017, cytunodd y Cyngor gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18 a oedd yn dangos gwarged cynlluniedig o £5,530k.

**(ii)** Roedd y gyllideb ar gyfer 2017/18 yn cynnwys cyfraniad at y rhaglen gyfalaf o £8,882k, ond dylid nodi fod £1,326k o wariant a gynlluniwyd ar y gyfer 2016/17, heb ei gwblhau a mae wedi llithro i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017/18. Bydd y llithriad yma hefyd yn cael ei gyllido o falansau'r CRT.

**(iii)** Rhoddwyd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb cyfalaf a addaswyd, diffyg cyllideb cynlluniedig o £4,678k, a fydd yn cael ei gyllido o'r gronfa wrth gefn CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i 'glustnodi', ac ni ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2017 hyd at 30 Medi 2017.

**4. Trosolwg**

**(i)** Mae'r sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer 2017/18 yn dangos tanwariant o £35k, sef amrywiad o 0.6%. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Atodiad A.

**(ii)** Mae'r gwariant cyfalaf yn llai na'r swm a broffiliwyd a disgwylir iddo fod £1,383k yn is na'r gyllideb gyfalaf ddiwygiedig erbyn diwedd y flwyddyn. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Atodiad B.

**(iii)** Disgwylir i'r diffyg a ragwelir (cyfuniad o'r refeniw a'r cyfalaf) fod £1,418k yn llai na'r gyllideb diwygiedig, yn bennaf oherwydd gwelliant yn yr incwm o renti modurdai ag effaith o'r gostyngiad a ragwelir yng ngwariant cyfalaf.

**5. Incwm**

**(i)** Mae’r incwm £55k (1%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd.

**(ii)** ’Roedd y gyllideb wedi cymryd yn ganiataol y byddai’r gwaith o ailfodelu’r modurdai wedi ei gwblhau. Mae'r rhagolwg wedi ei ddiwygio i ddangos incwm ychwanegol o £35k yn sgil gweithredu’r prosiect fesul cam.

**6. Gwariant nad yw’n Atgyweiriadau a Cynnal a Chadw**

**(i)** Yn gyffredinol, mae’r gwariant £21k yn is na'r gyllideb. Hyd yn hyn, mae’r unig amrywiaethau sylweddol oherwydd taliadau cyfleustodau uwch yn ardaloedd cymunedol, wedi ei wrthbwyso gan arbedion yng ngweinyddiaeth rhenti. Diwygiwyd y tanwariant a ragwelir o £60k i adlewyrchu hyn.

**7. Gwaith Atgyweirio a Cynnal a Chadw**

**(i)** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (UCT) yn dangos gorwariant o £6k sydd llawer is na’r gorwariant £53k a ddangoswyd yn Chwarter 1. Dangosir hyn yr effaith o gyflwyno gweithdrefnau diwygiedig i wella codio ac amseroldeb yr archebion prynu. Fodd bynnag, parhawn i fonitro’r gwariant yn agos.

**(ii)** Mae gorwariant yn y pennawd Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw Arall yn sgil caffael gwasanaethau (yn arbennig gwaith cynnal a chadw tir) sy’n ymwneud â llawer o'r flwyddyn ariannol. Yn ogystal bu gariant ychwanegol ynglŷn â galwadau allan ar gyfer offer tân a gosod y system larwn tân newydd yn nepo Gaerwen. Datgelodd ymchwiliad dilynol fod yr ymrwymiadau wedi eu gor-ddatgan gan £10k. O ganlyniad, cynyddwyd y rhagolwg o’r gwariant gan £60k i gwrdd â’r ffactorau yma.

**7. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ad-daliadau o’r gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn ac ni chânt eu monitro’n gyffredinol yn ystod y flwyddyn. Dangosir yr adroddiad cyfalaf diweddaraf fod y cyfraniad sydd ei angen o refeniw y CRT wedi gostwng gan £57k.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Cyfanswm y rhaglen gyfalaf wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor yn Chwefror 2017 oedd £11,547k, a oedd i’w gyllido gan y Lwfans Atgyweiriadau Mawr £2,665k a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT £8,882k. Dygwyd ymlaen £1,326k o wariant cyfalaf cynlluniedig fel llithriad o 2016/17 i roi rhaglen gyfalaf diwygiedig o £12,873k. Rhagwelir gwariant rhagamcanol 2017/18 i fod yn £11,490k, gyda’r tanwariant o £1,383k yn cael ei rolio ymlaen i 2018/19.

**10. Balans CRT**

**(i)** Balans agoriadol cronfa wrth gefn CRT oedd £7,544k. Rhagwelir gwarged o £5,565k ar y cyfrif refeniw a bydd angen £8,825k o’r gronfa wrth gefn i gyllido gwariant cyfalaf. O ganlyniad, y rhagolwg ar gyfer Balans Cronfa wrth Gefn CRT fel ar 31 Mawrth 2018 yw £4,284k.

| | | |
|---|---|---|
| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham y gwnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?** | | |
| Amherthnasol | | |
| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | | |
| **CH - A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D - A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS)** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Ymgynghorir â hi fel rhan o’r UDA |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Eraill** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A - Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd Chwarter 2.<br>Atodiad B - Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd Chwarter 2. | | |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Cyllideb y CRT am 2017/18 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ar 20 Mawrth 2017).<br>• Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT am 2017/47 (fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ar 20 Mawrth 2017). | | |

**ATODIAD A**

## CYFRIF CRT 2017/18

| | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Cyllideb a Broffilwyd Mis 6 | Cyfanswm Gwariant Hyd Mis 6 | Amrywiad Variance to Month 6 | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn | Amrywiaeth Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Anheddau | (16,052,000) | (8,026,000) | (8,050,196) | (24,196) | (16,052,000) | 0 |
| Modurdai | (185,000) | (92,500) | (112,762) | (20,262) | (220,000) | (35,000) |
| Taliadau Gwasanaeth | (97,000) | (48,500) | (49,743) | (1,243) | (97,000) | 0 |
| Arall | (291,000) | (128,500) | (137,975) | (9,475) | (291,000) | 0 |
| Darpariaeth Drwg-ddyledion | 147,000 | 0 | 0 | 0 | 147,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(16,478,000)** | **(8,295,500)** | **(8,350,676)** | **(55,176)** | **(16,513,000)** | **(35,000)** |
| **Gwariant nad yw'n Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiaid Tenantiaid | 96,710 | 48,307 | 41,502 | (6,805) | 96,710 | 0 |
| Gweinyddiaeth Rhent | 409,410 | 204,705 | 29,711 | (174,994) | 349,410 | (60,000) |
| Rheoli Stadau | 206,280 | 102,227 | 218,975 | 116,748 | 206,280 | 0 |
| Gwariant Refeniw Arall | 629,020 | 314,548 | 358,179 | 43,631 | 629,020 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant nad yw'n Atgyweiriadau a Cynnal a Chadw** | **1,341,420** | **669,787** | **648,367** | **(21,420)** | **1,281,420** | **(60,000)** |
| **Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal Tai (UCT) | 3,268,040 | 1,628,093 | 1,634,189 | 6,096 | 3,268,040 | 0 |
| Staff Cynnal Adeiladau (heb fod yn UCT) | 863,890 | 430,606 | 432,329 | 1,723 | 863,890 | 0 |
| Atgyweiriadau a Cynnal a Chadw arall | 498,570 | 249,574 | 397,597 | 148,023 | 558,570 | 60,000 |
| **Cyfanswm Atgyweiriadau a Cynnal a Chadw** | **4,630,500** | **2,308,273** | **2,464,115** | **155,842** | **4,690,500** | **60,000** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Ffioedd Ariannu Cyfalaf | 3,677,000 | 0 | 0 | 0 | 3,677,000 | 0 |
| Codi Tâl – Gwasanaethau Tai | 621,830 | 0 | 0 | 0 | 621,830 | 0 |
| Codi Tâl – Gwasanaethau Canolog | 677,010 | 0 | 0 | 0 | 677,010 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,975,840** | **0** | **0** | **0** | **4,975,840** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,947,760** | **2,978,060** | **3,112,482** | **134,422** | **10,947,760** | **0** |
| **CYFANSWM REFENIW – (GWARGED) / DIFFYG** | **(5,530,240)** | **(5,317,440)** | **(5,238,194)** | **79,246** | **(5,565,240)** | **(35,000)** |

| | Cyllideb Flynyddol 2017/18 £ | Cyllideb a Broffilwyd Mis 6 £ | Cyfanswm Gwariant Hyd Mis 6 £ | Amrywiad Variance to Month 6 £ | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn £ | Amrywiaeth Diwedd Blwyddyn £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
| Gwariant Cyfalaf Cynlluniedig 2017/18<br>Llithriant 2016/17 | 11,547,000<br>1,326,000 | 3,847,640 | 4,216,252 | 368,612 | 11,490,020 | (1,382,980) |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | (2,665,000) | (2,665,000) | (2,665,000) | 0 | (2,665,000) | 0 |
| **CYFANSWM CYFALAF – (GWARGED) / DIFFYG** | **10,208,000** | **1,182,640** | **1,551,252** | **368,612** | **8,825,020** | **(1,382,980)** |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN CRT** | **4,677,760** | **(4,134,800)** | **(3,686,942)** | **447,858** | **3,259,780** | **(1,417,980)** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol CRT** | (7,544,017) | | | | (7,544,017) | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa wrth Gefn CRT** | 4,677,760 | | | | 3,259,780 | |
| **BALANS CAU CRT** | **(2,866,257)** | | | | **(4,284,237)** | |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gwariant a Ragwelir (£) | Gor / Tanwariant a Ragwelir (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Contract Gwres Canolog | 600,000 | 180,000 | 169,026 | -10,974 | 600,000 | 0 |
| Contract Cynnal a Chadw Cynlluniedig | 4,635,000 | 2,317,500 | 2,694,921 | 377,421 | 4,635,000 | 0 |
| Cerbydau Uned Cynnal Tai 2017/18 | 144,000 | 0 | 0 | 0 | 144,000 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 502,580 | 35,000 | 32,906 | -2,094 | 200,000 | -302,580 |
| Ailfodelu'r Stoc Gyfredol | 693,120 | 0 | 14,497 | 14,497 | 693,120 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol | 4,800,000 | 650,000 | 662,886 | 12,886 | 3,700,000 | -1,100,000 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 175,000 | 195,296 | 20,296 | 350,000 | 0 |
| Risgiau Tân | 167,620 | 0 | 0 | 0 | 167,620 | 0 |
| SATC | 870,280 | 435,140 | 407,343 | -27,797 | 870,280 | 0 |
| Adeiladau | 110,000 | 55,000 | 39,378 | -15,622 | 130,000 | 20,000 |
| **Cyfansymiau ar gyfer CRT Tai** | **12,872,600** | **3,847,640** | **4,216,252** | **368,612** | **11,490,020** | **-1,382,580** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **27 TACHWEDD 2017** |
| **PWNC:** | **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2018/2019** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH (AELOD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN: E-BOST: | **GERAINT H JONES (RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU)**<br>01248 752651 ghjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Rwy'n argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniadau isod:-

1. Nodi cyfrifiad sylfaen y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn 2018/19, sef 30,663.09, (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth at y diben yma - Rhan E6).

2. Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni dros y flwyddyn 2018/19 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth – Rhan E5).

3. Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor)(Cymru)(Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2018/19 sef 30,773.31 ac am y rhannau hynny o'r ardal sydd wedi eu rhestru isod:-

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,474.10 |
| Biwmares | 1,061.76 |
| Caergybi | 3,847.36 |
| Llangefni | 1,920.50 |
| Porthaethwy | 1,406.50 |
| Llanddanielfab | 367.43 |
| Llanddona | 373.78 |
| Cwm Cadnant | 1,163.31 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,300.75 |
| Llanfihangel Esceifiog | 683.71 |
| Bodorgan | 451.48 |
| Llangoed | 650.28 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 607.78 |
| Llanidan | 410.02 |
| Rhosyr | 989.60 |
| Penmynydd | 238.97 |
| Pentraeth | 555.87 |
| Moelfre | 617.45 |
| Llanbadrig | 660.71 |
| Llanddyfnan | 499.45 |

| | |
|---|---|
| Llaneilian | 553.29 |
| Llannerchymedd | 521.77 |
| Llaneugrad | 180.08 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,802.82 |
| Cylch y Garn | 396.33 |
| Mechell | 538.24 |
| Rhosybol | 474.13 |
| Aberffraw | 292.45 |
| Bodedern | 426.29 |
| Bodffordd | 417.41 |
| Trearddur | 1,274.47 |
| Tref Alaw | 251.64 |
| Llanfachraeth | 222.77 |
| Llanfaelog | 1,259.89 |
| Llanfaethlu | 284.08 |
| Llanfair-yn-neubwll | 557.91 |
| Y Fali | 976.38 |
| Bryngwran | 353.35 |
| Rhoscolyn | 355.61 |
| Trewalchmai | 353.59 |

## RHESYMAU A CHEFNDIR

Mae’r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau’r Dreth Gyngor (CT1 v.1.0) 2018/19 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn bandiau amrywiol ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2017 a chrynhoir gan yr Awdurdod tan rhan 22B(7) o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992, fel yr ychwanegwyd gan Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae’r cyfrifiadau yn cymryd i ystyriaeth disgowntiau, eithriadau a phremiymau a hefyd newidiadau i’r rhestr brisio sy’n debygol yn ystod 2018/19.

Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o’i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i’r cyrff sy’n codi trethi a phraeseptau erbyn 31 Rhagfyr 2017. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cymorth Refeniw erbyn 22 Tachwedd 2017 ac i bwrpas pennu’r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 3 Ionawr 2018.

Mae’r cyfrifiadau yn **Atodiad A** yn seiliedig ar gadarnhau disgownt o ddim ar gyfer Dosbarthiadau A, B a C ar gyfer 2018/19 gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018 ac yn cymryd i ystyriaeth penderfyniad y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth 2016 i godi premiymau o 25% ar dai gwag ac ail dai perthnasol ar gyfer 2017/18 ymlaen. Mae’r cyfrifiadau hefyd yn seiliedig ar i’r Cyngor llawn gadarnhau yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2017 y bydd y Cynllun lleol cyfredol Gostyngiadau’r Dreth Gyngor yn parhau fel y mae ar gyfer 2018/19. Mae Llywodraeth Cymru’n parhau i gwrdd yn llawn â chostau cynllun cenedlaethol blaenorol y DU ond bydd costau oherwydd baich achosion ac/neu gynnydd yn y Dreth Gyngor yn syrthio ar gynghorau lleol.

## SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER CYFRIFO’R GRANT CYNNAL REFENIW

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D, cyn addasu ar gyfer y gyfradd gasglu, (ac sy’n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy’n eiddo’r Weinyddiaeth Amddiffyn), yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo’r hawliadau ar gyfer Grant Cynnal Refeniw 2018/19. **OND**, bydd y cyfanswm yma, sy’n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo’r Grant Cynnal Refeniw, **yn eithrio’r addasiadau am bremiymau.** Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 30,663.09 (i’w gymharu efo 30,735.70 am 2017/18). Mae hyn yn gostyngiad o 0.24%, sef gostyngiad cyffredinol o 40 eiddo lle y gellir codi treth arnynt h.y. mwy o eiddo yn gadael y rhestr brisio (nawr yn cael eu hystyried yn tai gwyliau ac felly yn annomestig) na rhai newydd yn dod i fewn i’r rhestr.

## SYLFAEN Y DRETH AT DDIBEN PENNU’R DRETH

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D sy’n cael ei ddefnyddio at ddiben pennu’r dreth, wedi cael ei addasu gan wneud lwfans ar gyfer methu â chasglu, sy’n parhau i fod yn 1.5% a hefyd, sy’n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy’n eiddo’r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 30,773.31. **Nodir, felly, bod y ffigurau a nodir tan argymhelliad 3 yn cynnwys yr addasiadau am bremiymau.**

Cyfanswm y sylfaen arfaethedig am 2018/19 at ddiben pennu’r dreth yw 30,773.31. Mae hyn yn cymharu efo 30,794.83 am 2017/18 ac yn gostyngiad o 0.07%.

Cafwyd newidiadau sylweddol i’r sylfaen y dreth, at pwrpas pennu’r dreth am 2018/19, mewn perthynas ac eiddo lle codir premiymau arnynt wrth gymharu efo 2017/18. Am eiddo lle mae’r premiymau yn berthnasol, mae’r symudiadau yma i’w gweld :–

- mae yna ostyngiad mewn nifer eiddo tai gwag hirdymor lle mae’r premiwm yn berthnasol – 550 am 2017/18 i lawr at 449 am 2018/19 (cyfwerth Band D o 137.50 i lawr at 112.25);
- mae yna gynnydd mewn eiddo ail dai lle mae’r premiwm yn berthnasol – 1,455 am 2017/18 i fyny at 1,754 am 2018/19 (cyfwerth Band D o 363.75 i fyny at 438.50).

Mae hyn yn gynnydd o 9.88% yn yr elfen premiwm o sylfaen y dreth, at pwrpas pennu’r dreth. Nid yw’r cynnydd yma, serch hynny, yn ddigonol i osgoi gostyngiad bychan yn sylfaen y dreth at bwrpas pennu’r dreth.

Amcangyfrifir bydd y premiwm o 25% adeg 2018/19 yn codi incwm ychwanegol o bron i £690k i Gyngor Sir Ynys Môn am 2018/19 (ar ôl cymryd ystyriaeth o gynnydd yn y Dreth Gyngor o 4%).

| | |
|---|---|
| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | |

Mae disgresiwn gan y Cyngor llawn, dan reoliadau a wnaed dan Rhan 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, wedyn, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, i osod disgownt i'r dosbarthiadau penodedig o anheddau (yn bennaf tai haf ac ail gartrefi (Dosbarthiadau A a B)). Wrth i hyn gael ei gyflwyno, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim i'r ddau ddosbarth penodedig A a B ac mae'r penderfyniad wedi ei gadarnhau yn flynyddol. Ym mis Mawrth 2007, ac ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim ar Ddosbarth Penodedig C (rhai mathau o dai gwag tymor hir) a hynny am y tro cyntaf ac mae wedi gwneud hynny bob blwyddyn wedyn.

Byddai rhoi disgownt o 25%, 50% neu 100% yn groes i bolisi'r Cyngor llawn a gwrthodwyd yr opsiwn.

Mae'r Cyngor llawn, ar 10 Mawrth 2016, wedi gwneud penderfyniad i godi premiymau o 25% ar eiddo gwag ac ail dai perthnasol.  Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yma.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Hyd 2004, y Cyngor llawn oedd yn gyfrifol am y cyfrifiad hwn. Bellach, mae'r swyddogaeth hon wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o swyddogaethau sydd wedi cael eu neilltuo i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, y Cyngor llawn yn hytrach na'r Pwyllgor Gwaith sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â disgowntiau ( a phremiymau yn y dyfodol) a phennu Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r modd y cafodd y sylfaen ar gyfer y dreth ei gweithio allan yn cymryd i ystyriaeth yn llawn y polisi cyfredol a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ynghylch caniatáu disgownt i ddosbarthiadau penodedig A, B a C ynghyd â pholisi'r Cyngor llawn ar ganiatáu gostyngiad hyd at 100% yn y Dreth Gyngor i'r rheiny sy'n gymwys dan gynllun lleol y Cyngor.

Mae'r Cyngor llawn, ar 10 Mawrth 2016 wedi gwneud ei benderfyniad i godi premiymau o 25% ar eiddo gwag ac ail dai perthnasol.  Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yma.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Bydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn galluogi'r Cyngor llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2018/19

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim Sylw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim Sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | Efallai na fydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn ddigon cywir h.y. eithriadau a disgowntiau wedi cael eu gweithio allan yn anghywir, amcangyfrif anheddau sy'n gymwys i godi premiymau 25% arnynt yn anghywir, y newidiadau sy'n debygol o ddigwydd yn 2018/19 yn anghywir, megis tanamcangyfrif erydiad yn sylfaen y dreth dros y blynyddoedd, e.e. gostyngiadau bandio a chyfraddau casglu sy'n rhy optimistaidd. Y risg i'r Cyngor fyddai diffyg o ran faint o'r Dreth Gyngor y byddai'n ei chasglu yn ystod y flwyddyn.<br><br>Ceisir lliniaru hyn drwy gymryd ymagwedd geidwadol wrth amcangyfrif nifer yr anheddau newydd a'r rhai lle gellir codir premiwm arnynt, a thrwy wneud lwfans ar gyfer erydiad yn sylfaen y dreth a'r gyfradd gasglu. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A: Cyfrifiad ar gyfer Sylfaen y Dreth Leol 2018/19

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1) 2018/19

**ATODIAD A**

## CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2018/19

| | BAND | A * | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan A** | **ANHEDDAU TRETHADWY** | | | | | | | | | | | |
| **A.1** | Holl anheddau trethadwy | | 4,622 | 6,540 | 6,464 | 7,054 | 5,307 | 2,561 | 1,025 | 158 | 48 | 33,779 |
| **A.2** | Anheddau sy'n derbyn gostyngiad anabledd | | 15 | 42 | 45 | 88 | 74 | 45 | 17 | 10 | 6 | 342 |
| **A.3** | Cyfanswm yr anheddau trethadwy wedi'i addasu (cymryd i ystyriaeth gostyngiadau anabledd) | 15 | 4,649 | 6,543 | 6,507 | 7,040 | 5,278 | 2,533 | 1,018 | 154 | 42 | 33,779 |
| **Rhan B** | **ADDASIADAU DISGOWNT A PHREMIWM** | | | | | | | | | | | |
| **B.1** | Anheddau heb ddisgownt neu bremiwm (gan gynnwys eiddo gwag ac ail gartrefi heb ddisgownt neu bremiwm) | 7 | 1,805 | 3,528 | 3,735 | 4,374 | 3,584 | 1,878 | 744 | 99 | 28 | 19,782 |
| **B.2a** | Anheddau gyda disgownt o 25% (ag eithrio eiddo gwag ac ail gartrefi) | 8 | 2,614 | 2,750 | 2,307 | 2,123 | 1,280 | 450 | 162 | 24 | 3 | 11,721 |
| **B.2b** | Anheddau gyda disgownt o 50% (ag eithrio eiddo gwag ac ail gartrefi) | 0 | 6 | 8 | 17 | 7 | 14 | 7 | 10 | 4 | 0 | 73 |
| **B.3a** | Anheddau gyda disgownt amrywiol ag eithrio 25% neu 50% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3b** | Anheddau gyda disgownt eiddo gwag neu ail gartref | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3c** | Anheddau gyda phremiwm eiddo gwag neu ail gartref | 0 | 224 | 257 | 448 | 536 | 400 | 198 | 102 | 27 | 11 | 2,203 |
| **B.4** | Cyfanswm yr anheddau a addaswyd sydd yn daladwy | 15 | 4,649 | 6,543 | 6,507 | 7,040 | 5,278 | 2,533 | 1,018 | 154 | 42 | 33,779 |

## CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2018/19

| | BAND | A * | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan C** | **CYFRIFIAD O ANHEDDAU SY'N DALADWY GYDA DISGOWNTIAU A PHREMIYMAU** | | | | | | | | | | | |
| **C.2** | Cyfanswm anheddau gan gynnwys disgowntiau a phremiymau | 13 | 4,049 | 5,916 | 6,034 | 6,640 | 5,051 | 2,467 | 998 | 153 | 44 | |
| **C.3** | Cymhareb â Band D | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 1 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | |
| **C.4** | Cyfwerthoedd Band D (wedi'u talgrynnu i ddau le degol) | 7.22 | 2,699.00 | 4,601.14 | 5,363.33 | 6,639.75 | 6,173.44 | 3,562.72 | 1,663.33 | 305.50 | 102.67 | 31,118.10 |
| **C.5** | Cyfanswm yr anheddau disgowntedig ag eithrio addasiad premiwm | 13 | 3,993 | 5,852 | 5,922 | 6,506 | 4,951 | 2,417 | 973 | 146 | 41 | |
| **C.6** | Cyfwerthoedd Band D ag eithrio addasiad premiwm | 7.22 | 2,661.67 | 4,551.17 | 5,263.78 | 6,505.75 | 6,051.22 | 3,491.22 | 1,620.83 | 292.00 | 96.25 | 30,541.11 |
| **Rhan E** | **CYFRIFO'R SYLFAEN DRETH GYNGOR** | | | | | | | | | | | |
| **E.1** | Anheddau Trethadwy : cyfwerthoedd Band D | | | | | | | | | | | 31,118.10 |
| **E.2** | Cyfradd gasglu (wedi'i thalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 98.50% |
| **E.3** | = E1 x E2 (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 30,651.33 |
| **E.4** | Anheddau Dosbarth O wedi'u heithrio : cyfwerthoedd Band D (Eiddo'r Weinyddiaeth Amffiddyn) | | | | | | | | | | | 121.98 |
| **E.5** | Sylfaen y Dreth Gyngor at ddiben pennu'r dreth | | | | | | | | | | | 30,773.31 |
| **E.5a** | Anheddau disgowntiedig sydd yn daladwy ag eithrio addasiad premiwm | | | | | | | | | | | 30,541.11 |
| **E.6** | 100% o sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r grant cynnal | | | | | | | | | | | 30,663.09 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **27 TACHWEDD 2017** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH (DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) (SWYDDOG ADRAN 151)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GERAINT H JONES (RHEOLWR GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU)**<br>01248 752651<br>ghjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

**ARGYMHELLION**

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i Gyngor Sir Ynys Môn (Cyngor llawn) yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2017 na ddylai'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gael ei adolygu na'i newid am gynllun arall, heblaw bod y Cyngor llawn yn defnyddio ei disgresiwn o dan adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 y bod ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19 ymlaen yn diystyru taliadau a wneir o dan Gynllyn Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru(CCGHC) – gweler **Atodiad A**.

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2017 y dylid mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol (efo'r newid uchod sy'n cael ei argymell gan y Pwyllgor Gwaith) yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2017 ei fod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) (Swyddog Adran 151) i wneud trefniadau gweinyddol fel bod pob newid blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiad technegol mewn unrhyw reoliad/reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ac am bob blwyddyn ddilynol ac hefyd i gymryd ystyriaeth o'r newidiadau anghenreidiol i rheoliadau gostyngiadau'r dreth gyngor wrth ddefnyddio'r ddiystyriaeth ychwanegol o daliadau a wneir tan CCGHC.

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Gweler yr adroddiad ynghlwm - **Atodiad B**

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Gweler yr adroddiad ynghlwm - **Atodiad B**

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae Rheoliadau yn nodi bod hyn yn benderfyniad i'r Cyngor llawn. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'w gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

Hefyd, nid yw penderfyniadau o dan adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 wedi cael eu dirprwyo gan y Cyngor llawn i'r Pwyllgor Gwaith neu i swyddogion.

DRAFT

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19 y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo yn gyson â'r cynlluniau a gymeradwywyd yn flynyddol gan y Cyngor llawn yng nghyswllt y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac sydd mewn grym ers y flwyddyn ariannol 2014/15 – heblaw am y newid sy'n cael ei argymell.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Mae'r Setliad Drafft Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru 2018/19 wedi ein cyrraedd ar 10 Hydref 2017 ac mae'r Setliad Drafft yn dyfarnu Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'r Cyngor i gwrdd â chostau ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19 o £5,187,000 (i'w gymharu efo £5,165,000 am 2017/18). Mae'r rhagamcaniadau isod wedi eu gwneud yn seiliedig ar y grant o dan y Setliad Drafft am 2018/19.

Y gwariant cyfredol tybiedig am 2017/18 (diwedd Chwarter 2), yw £5,367,807 yn erbyn cyllideb o £5,600,000 ar gyfer 2017/18. Mae cost y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2017/18 yn cael ei osod yn erbyn Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan Llywodraeth Cymru o £5,165,000. Mae hyn yn rhoi diffyg tybiedig rhwng y gwariant ar grant o oddeutu £203k i'r Awdurdod fod yn gyfrifol amdano yn 2017/18. Gellir cwrdd â'r diffyg yma o'r gyllideb gyfredol ar gyfer 2017/18.

Yng Nghyllideb Drafft y Cyngor am 2018/19, mae £5,524,000 wedi ei ddyranu i gwrdd â chost y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac hefyd am ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer drwg ddyledion gordaliadau budd-dal.

Bydd dau ffactor yn 2018/19 yn cael effaith ar y gwariant ar y cynllun:-

- Rhwng Ebrill 2017 a Medi 2017 mae gostyngiad mewn llwyth achos o 1%, sy'n cymharu hefo gostyngiad o 2.1% yn ystod 2016/17 (Ebrill i Ebrill) a gostyngiad o 2.5% yn ystod 2015/16 a gostyngiad o 1.8% yn 2014/15;

- Cynnydd a gynlluniwyd yn y Dreth Gyngor o 4.0% am 2018/19 yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol 2018/19 – 2020/21.

Un o'r ffactorau ansicr, yn ystod 2018/19, sy'n effeithio ar wariant o dan y cynllun yw effaith diwygiadau arfaethedig Canghellor y Trysorlys yng Nghyllideb yr Hydref ar 22 Tachwedd 2017 ac hefyd, o ganlyniad i'r Gyllideb os bydd Llywodraeth Cymru yn uwchraddio neu ddim y ffigyrau ariannol ar gyfer ei reoliadau diwygiedig parthed y cynllun am 2018/19.

Gan ystyried yr uchod, ar y gorau bydd y gwariant a amcangyfrifir ar y cynllun yn £5,470,870 (gan dybio cynnydd yn y Dreth Gyngor o 4.0% a gostyngiad 2% mewn llwyth achos) ac ar ei waethaf y gwariant a amcangyfrifir o £5,636,200 (yn tybio 5.0% o gynnydd yn y Dreth Gyngor a na fydd gostyngiad llwyth achos).

Felly disgwylir diffyg a amcangyfrifir o rwng £284k a £450k yng nghyllid grant y bydd yn rhaid i'r Cyngor fod yn gyfrifol amdano. Mae hyn yn seiliedig ar i'r Cyngor llawn ail-fabwysiadu'r cynllun cyfredol heb ei newid. Serch hynny, bydd maint y diffyg yn fwy amlwg wrth i'r broses y gyllideb mynd ymlaen.

DRAFT

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | Y brif risg i'r Cyngor yw costau ychwanegol ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn uwch na'r Grant Llywodraeth Cymru am 2018/19. Nid oes gan y Cyngor reolaeth ar newidiadau yn y llwyth achosion a phe bai yn cynyddu, bydd costau'r Cyngor hefyd yn cynyddu o ganlyniad. Byddai 1% o gynnydd yn y llwyth achos yn gosod baich ychwanegol o oddeutu £55,000 ar yr Awdurdod.<br><br>Mae effaith Cylliodeb yr Hydref Canghellor y Trysorlys ar hyn o bryd yn ansicr. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – llythyr dyddiedig 27 Hydref 2017 Llywodraeth Cymru
Atodiad B – Adroddiad i'r Cyngor llawn i'w ystyried 12 Rhagfyr 2017.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Diweddariad Hydref 2017

Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Gostungiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru – Mark Drakeford AC 9.10.17

Adran 13A Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992 fel a diwygiwyd gan Adran 10, Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 2012

DRAFT

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **12 RHAGFYR 2017** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | **MARC JONES**<br>**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)**<br>**(SWYDDOG ADRAN 151)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **GERAINT JONES - RHEOLWR GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU**<br>**(EST. 2651)** |
| **GWEITHREDU :** | **MABWYSIADU'R CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR AM 2018/19** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Mae'r adroddiad yn egluro'r angen i fabwysiadu cynllun erbyn 31 Ionawr 2018 yng nghyswllt 2018/19.

## 2. GWYBODAETH CEFNDIROL

**2.1** Mabwysiadodd y Cyngor llawn ar 15 Rhagfyr 2016 ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am flwyddyn ariannol 2017/18. Mae angen i'r Cyngor llawn ystyried, yn unol â Rhan 2, Rheoliad 18 o "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) Rheoliadau 2013 Rhif. 3029 (W.301) (y Rheoliadau) ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a ddylai adolygu ei gynllun neu ei ddisodli gyda Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arall. Rhaid i'r Cyngor llawn wneud unrhyw newid i'w gynllun, neu unrhyw gynllun newydd yn ei le, heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol cyn yr un y bydd yn newid neu'r cynllun newydd yn dod i rym.

**2.2** Fe wnaeth y Cyngor llawn o dan y cynllun cyfredol fabwysiadu'r Rheoliadau yn ffurfiol fel ei gynllun a chan ddefnyddio'i bwerau dewisol fe benderfynodd ddefnyddio disgresiwn lleol i fabwysiadu Pensiwn Anabledd Rhyfel Lleol a Chynllun Dewisol Pensiwn Gweddwon Rhyfel yn unol â'r Rheoliadau. Fe welir manylion yn y cynllun cyfredol o'r elfennau nad ydynt yn cael eu cyfrif fel incwm i bwrpas y disgresiwn lleol hwn. Mae hwn yn darparu cymorth Treth Gyngor ychwanegol at yr hyn y mae'n rhaid ei dalu'n statudol dan y Rheoliadau. Hwn yw'r unig ddisgresiwn presennol lleol a roddir gan y Cyngor llawn dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Leol cyfredol.

**2.3** Rhaid i'r Cyngor llawn hefyd roi sylw i Reoliad 17 y Rheoliadau pan fydd yn adolygu neu'n newid cynllun. Os bydd y Cyngor llawn yn penderfynu adolygu neu newid ei gynllun, rhaid iddo gyhoeddi cynllun drafft o'r adolygiad mewn ffordd y mae'n credu sy'n addas a rhaid iddo ymgynghori gyda phobl a fydd, yn ei dyb ef, â diddordeb yng ngweithrediad ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Nid oes, fodd bynnag, unrhyw ofyniad i ymgynghori'n flynyddol, dim ond pan fydd cynllun yn cael ei adolygu neu ei newid y bydd yn rhaid cynnal ymgynghoriad.

**2.4** Am 2018/19 mae Llywodraeth Cymru wedi ein hysbysebu (gweler **Atodiad A**) byddant yn gwneud newidiadau angenrheidiol i'r rheoliadau canlynol er mwyn sicrhau bod cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yn medru diystyru taliadau a wneir o dan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (CCGHC) :-

DRAFT

- Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013; a

- Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn)(Cymru) 2013.

Maent yn annog awdurdodau i ddefnyddio'r pwerau hyn i ddiystyru'n llawn unrhyw daliadau gan CCGHC.

Heblaw am y newid uchod ac hefyd fel ar gyfer 2017/18, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rheoliadau diwygiedig i uwchraddio'r ffigyrau ariannol a ddefnyddir yn y Rheoliadau ac er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau technegol eraill fydd eu hangen o ganlyniad i newidiadau i fudd-daliadau. Unwaith yn rhagor, yr un modd â 2017/18, bydd amseriad y rheoliadau diwygiedig hynny yn dibynnu ar Gyllideb yr Hydref Canghellor y Trysorlys (22 Tachwedd 2017) a'r atodlen uwchraddio ddilynol a gyhoeddwyd gan yr Adran am Waith a Phensiynau ychydig ddyddiau ar ôl Cyllideb yr Hydref. Y dyddiad cynharaf y gall Llywodraeth Cymru bennu'r Rheoliadau drafft newydd sy'n adlewyrchu'r uwchraddiad i'r ffigyrau ariannol neu unrhyw newid technegol arall gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw yn gynnar mis Rhagfyr 2017. Rhaid rhoi'r rheoliadau hyn gerbron ar ffurf ddrafft am 20 diwrnod gwaith heb gyfrif dyddiau gwyliau a chael trafodaeth lawn cyn iddynt ddod i rym. Ar gyfer 2017/18, ni ddaeth y rheoliadau diwygiol hyn i rym hyd 18 Ionawr 2017 a disgwylir y bydd amserlen debyg yn berthnasol ar gyfer 2018/19.

**2.5** Gan fod y Cyngor llawn yn cyfarfod ar 12 Rhagfyr 2017 i benderfynu ar ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lleol am 2018/19, cynigir bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) (Swyddog Adran 151) yn cael yr awdurdod i wneud trefniadau gweinyddol fel bod yr holl newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiadau technegol a phenderfyniad y Cyngor llawn (os dyna ei ddymuniad) i ddiystyru'n llawn unrhyw dalaiadau gan CCGHC yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ac am bob blwyddyn ddilynol.

## 3. ADOLYGIAD O'R CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR GYFREDOL

**3.1** Yn **Atodiad B** rhoddir gwybodaeth, ystadegau a gwerthoedd i'r Cyngor llawn ynglŷn ag effaith ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2017/18. Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol yn y dyfodol i'r Cyngor llawn wrth iddo ystyried a ddylai adolygu neu newid ei gynllun cyfredol, i'r graddau -

- Y gall ddefnyddio'r data hwn i fesur patrymau (a oedd yn gywir ar 30 Medi 2017) yn erbyn y waelodlin (yn gywir yn Rhagfyr 2012) pan gynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran nodweddion a ddiogelir ac achosion o freguster. Mae'r patrymau yma yn cael eu mesur yn flynyddol pob Medi (rhoddwyd data tebyg i'r Cyngor llawn wrth ystryied ei gynllun am 2017/18);

- Er mwyn dechrau deall yr effaith a gaiff y cynllun ar drigolion yr Ynys mewn perthynas ag oed, pobl anabl, rhyw a chenedl;

- I'r dyfodol, i efallai hysbysu dealltwriaeth y Cyngor llawn o gostau tebygol gwahanol gynlluniau posibl ac o gostau tebygol rhoi diogelwch llawn neu rannol i rai grwpiau penodol o gleientiaid a phobl fregus. Ar hyn o bryd, rhaid darparu hyd at 100% o ostyngiad dan y Rheoliadau (os yn ddilys) ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud mewn datganiad ysgrifenedig ar 9 Hydref 2017 bydd y trefniadau yma yn parhau am 2018/19 ond bydd adolygiad o hyn yn cael ei ystyried o Ebrill 2019 ymlaen, fel rhan o'r ystyriaethau ehangach ynglŷn â sut i wneud y Dreth Gyngor yn decach.

**3.2** Ers y data gwaelodlin a sefydlwyd yn Rhagfyr 2012, gellir nodi'r patrymau canlynol ar yr Ynys yng nghyswllt ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor:-

DRAFT

- **Llwyth Achosion:** mae'r lleihad yn y llwyth achosion yn parhau ac yn ddiweddar ar raddfa ychydig yn arafach nag am yr un cyfnod y llynedd. Rhwng Rhagfyr 2012 i Medi 2014, gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn y llwyth achosion o 6.3% (6,960 i lawr i 6,525). Yn ystod y cyfod blynyddol o Medi 2014 hyd at Medi 2015, syrthiodd y llwyth achosion 1.8% i lawr i 6,410 ac o Fedi 2015 i Fedi 2016, syrthiodd y llwyth achosion 2.5% i lawr i 6,252. Yn y cyfnod 12 mis diwethaf o Fedi 2016 i Fedi 2017, syrthiodd y llwyth achosion eto 2.1% i lawr i 6,117;

- **Llwyth Achosion:** mae'r nifer hawliadau wedi'u Pasportio h.y. hawlwyr sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm, wedi syrthio o 69.5% i 65.8% o'r llwyth achosion yn ystod y 12 mis cyn Medi 2017. Mae hawliadau sydd heb Basportio h.y. hawlwyr safonol, wedi codi o 30.5% i 34.2%. Mae hyn yn newid sylfaenol yn y 12 mis diwethaf. Am hawlwyr safonol, rhaid i'r awdurdod lleol ddilysu manylion incwm. Mae'r hawlwyr yma fel arfer mewn gwaith ar lefel incwm sy'n ddilys i gael gostyngiad yn y dreth gyngor, llawn neu'n rhannol neu'n bensiynwyr efo cynilon ac incwm eraill;

- **Oed:** roedd y dadansoddiad yn Rhagfyr 2012 yn awgrymu nifer ychydig yn uwch o ran hawliadau gan bobl o Oedran Gweithio o gymharu â Phensiynwyr (rhaniad 51.5%/48.5%). Erbyn Medi 2014, roedd hyn wedi cynyddu rhyw fymryn (rhaniad 51.7%/48.3%) hefo'r un patrwm hyd at Medi 2015 (52.7%/47.3%). I fyny at Medi 2016, mae'r cynnydd wedi sefydlogi ac yn dangos rhaniad 51.9%/48.1%, ac, erbyn Medi 2017, roedd ryw ychydig o gynnydd yn Oedran gweithio (52.4% / 47.6%);

- **Oed:** roedd y dadansoddiad o aelwydydd â phlant yn hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor yn Rhagfyr 2012 yn 21.9% o'r llwyth achosion. Erbyn Medi 2014, roedd hyn wedi cynyddu i 24.2% ac erbyn Medi 2015 arhosodd yn weddol sefydlog ar 24.1% ond erbyn Medi 2016, roedd wedi syrthio i 23.2%. Erbyn Medi 2017, mae hyn yn parhau'n sefydlog ar 23.3%;

- **Anabledd:** roedd y dadansoddiad o aelwydydd yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor lle derbyniwyd taliadau anabledd penodol (sef Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl (Isel, Canolig neu Uchel), Lwfans Gweini, Cyfran Cefnogaeth o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd a Thaliadau Annibyniaeth Personol) yn Rhagfyr 2012 yn 39.3% o'r llwyth achosion. Erbyn Medi 2014, roedd wedi mynd i lawr i 34.8%. Bu'r patrwm i wyrdroi erbyn Medi 2015 hefo 37.0% o aelwydydd yn cael gostyngiad ac roedd y patrwm yma, lle mae taliadau anabledd penodol yn cael eu derbyn wedi parhau hefo cynnydd i fyny at 39.8% o'r achos llwyth erbyn Medi 2016. Erbyn Medi 2017, mae cynnydd sylweddol i 45.7% o'r llwyth achosion.

- **Rhyw:** roedd yr achosion a oedd yn ymwneud â rhieni sengl a oedd yn ferched yn Rhagfyr 2012 yn 92.5% (13.3% o'r llwyth achosion). Erbyn Medi 2014, roedd yn 92.3% (14.3% o'r llwyth achosion) ac erbyn Medi 2015 roedd yn 92.1% (13.2% o'r llwyth achosion). Ym Medi 2016 roedd y ffigwr yn 91.1% (14.2% o'r llwyth achosion). Ar Medi 2017, roedd yr achosion a oedd yn ymwneud â rhieni sengl a oedd yn ferched yn 93.5%% (14.4% o'r llwyth achosion);

- **Hîl:** Ym mis Rhagfyr 2012 fe gyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol ei Chyfrifiad ar gyfer Mawrth 2011 a oedd yn ymwneud ag amrywiaeth yn Ynys Môn. Gofynnir i'r holl hawlwyr sy'n cwblhau ffurflen gais Gostyngiadau'r Treth Gyngor gwblhau arolwg ethnig gwirfoddol. (Gweler Tabl 6 yn Atodiad B am ddadansoddiad yn seiliedig ar yr arolwg gwirfoddol o gymharu â ffigyrau Cyfrifiad Mawrth 2011).

**3.3** Am y 6 mis cyntaf yn 2017/18 roedd 657 o hawlwyr Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd wedi eu prosesu (i'w gymharu â 693 am yr un cyfnod y llynedd) gyda 7,820 o newidiadau mewn amgylchiadau wedi'u prosesu (i'w gymharu â 11,006 am yr un cyfnod y llynedd). Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu hawliadau newydd a newidiadau mewn amgylchiadau oedd 6.9 diwrnod o fewn y cyfnod hwn (am y un cyfnod y llynedd yr amser ar gyfartaledd oedd 6.2 diwrnod).

**4. ADOLYGU'R CYNLLUN CYFREDOL – DISGRESIWN LLEOL**

**4.1** Fel a soniwyd yn paragraff 2.4, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r Rheoliadau i alluogi awdurdodau diystyru taliadau a wneir o dan CCGHC. Hefyd, bydd y rheoliadau yn cael eu diwygio i gymryd ystyriaeth o'r uwchraddiadau ariannol a newidiadau technegol arferol sy'n cael eu defnyddio yn y Rheoliadau. Felly, am 2018/19, yr unig ystyriaethau sydd ar gael i'r Cyngor llawn i'w hadolygu ac i benderfynu arnynt yw ym maes y disgresiwn lleol a ganiateir dan y Rheoliadau, gan gynnwys ystyriaeth o'r disgresiwn ychwanegol i ddiystyru taliadau a wneir o dan CCGHC. O dan y Rheoliadau, (i atgoffa'r Cyngor llawn) mae ganddo ddisgresiwn lleol yn y meysydd hyn yn unig:-

- Y gallu i gynyddu'r cyfnod gostyngiad estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bersonau ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith lle y maent eisoes wedi bod yn derbyn gostyngiad treth gyngor a ddaw i ben wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith h.y. **"Cyfnod Talu Estynedig";**

Mae'r costau uwch a amcangyfrifir am 2017/18 yn gysylltiedig ag ymestyn y cyfnod statudol estynedig yn amrywio rhwng £8,060 am bythefnos hyd at £23,680 am 6 wythnos y tu hwnt i'r 4 wythnos safonol. O dan y rheolau blaenorol ar gyfer Budd-dal Dreth Gyngor, nid oedd unrhyw ddarpariaeth arbennig yn bodoli i ganiatáu ar gyfer hyn a wnaeth y Cyngor ddim defnyddio'r disgresiwn hwn pan gyflwynwyd y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Argymhellir felly na ddylid adolygu'r cynllun ac ymestyn y cyfnod talu am 2018/19;

- Disgresiwn i gynyddu swm y Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel a fydd yn cael ei ddiystyru wrth weithio allan incwm yr hawliwr h.y. **"Gweddwon Rhyfel"**;

Mae gan y Cyngor llawn eisoes gynllun lleol sy'n caniatáu hyblygrwydd ychwanegol yn y maes hwn. Argymhellir y dylai hyn barhau. Amcangyfrifir y bydd y gost i'r Cyngor yn £22,795 yn 2017/18. Argymhellir, felly, bod y swm ychwanegol sy'n cael ei ddiystyru dan y cynllun lleol cyfredol yn parhau heb ei ddiwygio am 2018/19;

- Y gallu i ôl-ddyddio'r cais Gostyngiadau'r Treth Gyngor o safbwynt hawliadau hwyr cyn y cyfnod safonol o dri mis cyn yr hawliad h.y. **"Ôl-ddyddio Hawliadau";**

Mae'r Cyngor llawn bob amser wedi bod o'r farn bod 3 mis yn gyfnod digonol i ganiatáu ôl-ddyddio Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i hawliadau gan bensiynwyr a rhai o oed gweithio. Mae'r Cyngor llawn o'r farn bod digon o rwydweithiau cefnogaeth ar gael i hawlwyr. Mae yna lawer iawn o ansicrwydd am y gost debygol pe bai cynllun lleol o'r fath yn cael ei fabwysiadu ac argymhellir, felly na ddylid adolygu'r cynllun drwy ymestyn y cyfnod ôl-ddyddio y tu hwnt i 3 mis yn ystod 2018/19.

- Y gallu diwygiedig o fewn y rheoliadau ddiwygiedig am 2018/19 i ddiystyru'n llawn unrhyw daliadau a wneir gan CCGHC. Fel mae llythyr 27 Hydref 2017 (**Atodiad A**) o Lywodraeth Cymru yn dweud, mae'r taliadau presennol yn cael eu gwneud gan bum corff ar ran yr Adran Iechyd. Mae cofnodion presennol am Ostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor yn dangos nad oes taliadau o'r fath ar hyn o bryd yn cael eu gwneud ar rhan yr Adran Iechyd gan y pum corff yma i hawlwyr o dan ein Cynllun presennol. Felly argymhellir, bod y Cyngor llawn yn defnyddio ei ddisgreswn o dan adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodrarth Leol 1992 i ddiystyru yn llawn unrhyw daliadau gan CCGHC a bod y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor am 2018/19 ymlaen yn adlewyrchu hyn.

**4.2** Dylid nodi nad oes unrhyw arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r elfennau dewisol hyn – mae'r gost yn syrthio ar drethdalwyr lleol.

**4.3** O dan Atodiad 1 ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19, mae'r Cyngor llawn yn manylu ar y weithdrefn lle y gall hawlwyr newydd wneud cais am ostyngiad o dan y cynllun. Isod ceir dadansoddiad o'r dull ymgeisio a ddefnyddir gan hawlwyr newydd am y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor rhwng 1 Ebrill 2017 a 30 Medi 2017:-

DRAFT

| Dull Ymgeisio | Nifer | Canran (%) |
|---|---|---|
| **A. Ceisiadau electronig** | | |
| **i.** Drwy apwyntiad dros y ffôn i Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau, Llangefni | 60 | 9.1 |
| **ii.** Drwy apwyntiad efo partneriaid cymeradwy efo hyfforddiant priodol – Cyswllt Môn, Canolfan J E O'Toole, Gwasanaethau Tai ac ati | 68 | 10.4 |
| **iii.** Ceisiadau ar-lein drwy'r wefan – hunan wasanaeth | 443 | 67.4 |
| **iv.** Dogfennau mewnbwn yr Adran Gwaith a Phensiynau | 61 | 9.3 |
| **B. Ceisiadau ar bapur** | 4 | 0.6 |
| **C. Dull yr ymgeisio ddim yn wybyddus gan na chafodd ei gofnodi'n briodol** | 21 | 3.2 |
| **CYFANSWM** | **657** | **100** |

Argymhellir hefyd bod y gweithdrefnau hyn yn parhau'r un fath ac nad ydynt yn cael eu hadolygu ar gyfer 2018/19, heblaw am y newidiadau trefniadol fydd raid ei wneud wrth i'r gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol gychwyn cael ei gyflwyno ym Mawrth 2018. Yn Rhagfyr 2016 cyflwynwyd y weithdrefn o dderbyn "llofnod electronig" pan yn hawlio drwy ddull electronig ac, erbyn Rhagfyr 2017, cyflawnir clandriad awtomatig ac intregreiddio ffurflenni hawlio a gwblhawyd ar lein i mewn i feddalwedd y swyddfa gefn.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL A RISG

**5.1** Nid yw'r Setliad Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru 2018/19 yn debygol o gyrraedd tan yr wythnos yn cychwyn 18 Rhagfyr 2017 ac, felly, ni wn (adeg ysgrifenni'r adroddiad hwn) beth fydd y dyfarniad Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor terfynol i'r Cyngor i gwrdd â chostau ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19. Mae'r rhagamcaniadau isod wedi eu gwneud yn seiliedig ar y Setliad Drafft 2017/18 a gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2017. Y gwariant cyfredol (diwedd Chwarter 2, 2017/18 yw £5,367,807), hefo Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Llywodraeth Cymru yn ei erbyn o £5,165,000 am 2017/18. Mae hyn yn rhoi diffyg tybiedig o £203k i'r Awdurdod fod yn gyfrifol amdano yn 2017/18. Y Grant Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arfaethedig dan y Setliad Dros Dro ar gyfer 2018/19 yw £5,187,000. Yn Nghyllideb Drafft y Cyngor am 2018/19 mae £337k wedi cael ei ddyrannu i gwrdd â chost y diffyg ac hefyd am ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer ddrwgddyledion gor-daliadau budd-dal.

**5.2** Bydd dau ffactor yn 2018/9 yn cael effaith ar y gwariant ar y cynllun:-

- Rhwng Ebrill 2017 a Medi 2017 mae gostyngiad mewn llwyth achos o 1%, sy'n cymharu hefo lleihad 2.1% (Ebrill i Ebrill) yn ystod 2016/17 gostyngiad o 2.5% yn ystod 2015/16 a gostyngiad 1.8% yn ystod 2014/15;

- Cynnydd a gynlluniwyd yn y Dreth Gyngor o 4.0% am 2018/19, yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol 2018/19 – 2020/21.

Un o'r ffactorau ansicr, yn ystod 2018/19, sy'n effeithio ar wariant o dan y cynllun yw effaith diwygiadau arfaethedig Canghellor y Trysorlys yng Nghyllideb yr Hydref ar 22 Tachwedd 2017 ac hefyd, o ganlyniad i'r Gyllideb os bydd Llywodraeth Cymru yn uwchraddio neu ddim y ffigyrau ariannol ar gyfer ei reoliadau diwygiedig parthed y cynllun am 2017/18.

.

**5.3** Gan ystyried yr uchod, ar y gorau bydd y gwariant a amcangyfrifir ar y cynllun yn £5,470,870 (gan dybio gostyngiad 2% mewn llwyth achos a 4.0% cynnydd yn y Dreth Gyngor) ac ar ei waethaf y gwariant a amcangyfrifir o £5,636,000 (yn tybio na fydd gostyngiad llwyth achos a 5.0% o gynnydd yn y Dreth Gyngor).

**5.4** Felly, disgwylir diffyg a amcangyfrifir o rhwng £284k a £450k yng nghyllid grant y bydd yn rhaid i'r Cyngor fod yn gyfrifol amdano. Mae hyn yn seiliedig ar i'r Cyngor llawn ail-fabwysiadu'r cynllun cyfredol heb ei newid. Serch hynny, bydd maint y diffyg yn fwy amlwg wrth i'r brosesgosod y gyllideb mynd ymlaen.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

**6.1** Mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o dan y Rheoliadau Anghenion Rhagnodedig. Er bod y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynllun arall i'w ddefnyddio pe na bai'r Cyngor yn sefydlu cynllun, mae'r Cyngor, er hynny, â dyletswydd statudol i fabwysiadu ei gynllun ei hun, hyd yn oed pe bai'n dewis peidio â gosod unrhyw un o'r elfennau dewisol.

## 7. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

**7.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn dilyn ei ymgynghoriad ar gyfer y Rheoliadau gwreiddiol yn 2012. Mae asesiad lleol o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gynnal ar ran y Cyngor mewn trefniadau ar y cyd ar draws Cymru hefyd mewn perthynas â Rheoliadau 2012 (Rhagfyr 2012, cyhoeddwyd Mawrth 2013) a chafodd hwn ei ddiweddaru ym Medi 2014, Medi 2015, Medi 2016 a diweddariad pellach Medi 2017 fel y gwelir yn **Atodiad B**.

## 8. GOBLYGIADAU'R IAITH GYMRAEG

**8.1** Mae'r prif reoliadau a rheoliadau diwygiedig Cynulliad Cymru yn ddwyieithog. Mae Cynllun y Cyngor ei hun yn ddwyieithog ac mae ffurflenni hawlio, naill a'i trwy ddulliau electronig neu trwy bapur, yn ddwyieithog. Mae'n partneriaid cymeradwy wedi cael eu hannog i roi gwasanaeth dwyieithog ac mae'n gwasanaeth hawlio hunan wasanaeth yn hollol ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth i hawlio tros y ffôn neu drwy apwyntiad hefo staff y Cyngor hefyd yn hollol ddwyieithog.

**8.2** Mae holl ohebiaeth parthed rhybuddion gwobrwyo Gostyngiad y Dreth Gyngor yn ddwyieithog ac mae'r gwasanaeth yn gallu siarad a gohebu yn yr iaith mae'r cwsmer yn ei ddewis. Serch hynny, mae meddalwedd gweinyddu'r Cynllun yn yr uniaith Saesneg (does dim dewis gwahanol ar gael yn y farchnad). Mae'r ohebiaeth rhwng y Cyngor â'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan amlaf, yn yr uniaith Saesneg ond mae ffurflenni hawlio trwy'r Gymraeg ar gael o'r Adran Gwaith a Phensiynau.

## 9. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**9.1** Wrth ddrafftio'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2017/18, cymerwyd i ystyriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut mae'r Cynllun yn cefnogi'r nodau llesiant. Pwrpas y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yw rhoi'r gallu i bobol oedran gwaith a phensiynwyr sydd ar incwm isel i gwrdd â chostau'r Dreth Gyngor. O dan y Cynllun rhoddir cymorth ychwanegol i bensiynwyr a phobol anabl trwy ddiystyru lefel uwch o incwm a hefyd, gosod y lefel incwm disgwylir pensiynwyr a phobol anabl i fyw arno, cyn dechrau colli ar yr hyn sy'n cael eu talu fel gostyngiad, ar lefel uwch na phobol oedran gwaith. Mae hyn yn cyd-fynd ag un o brif nodweddion diwygio lles bod hI'n fwy manteisiol i fod mewn gwaith nac allan o waith.

**9.2** Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi gostyngiad ychwanegol parthed cwsmeriaid sy'n derbyn pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel.

**9.3** Mae'r Cynllun yn cyfrannu at y nodau llesiant o Gymru lewyrchus, Cymru sy'n iachach, Chymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus.

## 10. DOGFENNAU CEFNDIROL

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Anghenion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (C.301)(i'w diwygio)

Y Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Anghenion Rhagnodedig a Chynlluniau diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2018 Rhif ???? (W ???)

DRAFT

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru: Cymariaethau o fewn Cymru o Nodweddion a Ddiogelir ac Amlder bregusrwydd Mawrth 2013 - Simon Horsington and Associates Ltd, 2013, (wedi ei diweddaru Medi 2014, Medi 2015, a Medi 2016 a Medi 2017).

## 11. Argymhellion

- Nad yw'r Cyngor llawn yn adolygu nac yn disodli ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gyda chynllun arall, heblaw bod y Cyngor llawn yn defnyddio ei disgresiwn o dan adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 y bod ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2018/19 ymlaen yn diystyru taliadau a wneir o dan Gynllyn Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru(CCGHC) ;

- Bod y Cyngor llawn yn ffurfiol yn mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol (efo'r newid uchod sy'n cael ei argymell) am flwyddyn ariannol 2018/19 **(gweler Atodiad C);**

- Bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) (Swyddog Adran 151) wneud trefniadau gweinyddol fel bod yr holl newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu ddiwygiadau technegol mewn unrhyw reoliad neu reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ac am bob blwyddyn ddilynol ac hefyd i gymryd ystyriaeth o'r newidiadau anghenreidiol i rheoliadau gostyngiadau'r dreth gyngor wrth ddefnyddio'r ddiystyriaeth ychwanegol o daliadau a wneir tan CCGHC.

.

**GERAINT JONES**
**RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU** **3 TACHWEDD 2017**

DRAFT

**Tabl 1: Llwyth Achosion 30 Medi 2017**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiad y Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,117** | **100%** | **£5,367,807** | **100%** |
| | | | | |
| Dyfarniad llawn Gostyngiad y Dreth Gyngor h.y. 100% | 4,758 | 77.8% | £4,478,194 | 83.4% |
| Dyfarniad rhannol Gostyngiad y Dreth Gyngor h.y. llai na 100% | 1,359 | 22.2% | £889,613 | 16.6% |
| | | | | |
| Hawliadau wedi'u Pasportio* | 4,023 | 65.8% | £3,785,886 | 70.5% |
| Hawliadau heb eu Pasportio h.y. Hawliadau Safonol | 2,094 | 34.2% | £1,581,921 | 29.5% |
| | | | | |
| Band A (Gostyngiad Anabl) | 9 | 0.1% | £6,380 | 0.1% |
| Band A | 1,985 | 32.5% | £1,446,749 | 27.0% |
| Band B | 1,963 | 32.1% | £1,615,006 | 30.1% |
| Band C | 1,086 | 17.8% | £1,021,252 | 19.0% |
| Band D | 645 | 10.5% | £679,542 | 12.7% |
| Band E | 315 | 5.2% | £410,635 | 7.6% |
| Band F | 92 | 1.5% | £149,952 | 2.8% |
| Band G | 20 | 0.3% | £33,949 | 0.6% |
| Band H | 2 | 0.0% | £4,342 | 0.1% |
| Band I | 0 | 0.0% | £0 | 0.0% |
| | | | | |
| Caergybi | 1,709 | 28.0% | £1,382,176 | 25.7% |
| Llangefni | 519 | 8.5% | £426,531 | 7.9% |
| Amlwch | 458 | 7.5% | £400,456 | 7.5% |
| Porthaethwy | 223 | 3.6% | £205,422 | 3.8% |
| Rhosyr | 206 | 3.4% | £185,486 | 3.5% |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 201 | 3.3% | £201,772 | 3.8% |
| Y Fali | 173 | 2.8% | £143,945 | 2.7% |
| Biwmares | 168 | 2.7% | £157,370 | 2.9% |
| Llanfairpwll | 142 | 2.3% | £130,901 | 2.4% |
| Llanfaelog | 140 | 2.3% | £125,868 | 2.3% |
| Llannerch-y-medd | 134 | 2.2% | £118,943 | 2.2% |
| Llanfair yn Neubwll | 128 | 2.1% | £108,129 | 2.0% |
| Llanbadrig | 119 | 1.9% | £109,020 | 2.0% |
| Llanfihangel Esceifiog | 109 | 1.8% | £100,731 | 1.9% |
| Bodedern | 99 | 1.7% | £86,812 | 1.6% |
| Llangoed | 98 | 1.6% | £87,934 | 1.6% |
| Pentraeth | 97 | 1.6% | £88,770 | 1.7% |
| Llanidan | 94 | 1.5% | £80,798 | 1.5% |
| Mechell | 92 | 1.5% | £84,944 | 1.6% |
| Trewalchmai | 91 | 1.5% | £82,012 | 1.5% |
| Bodorgan | 91 | 1.5% | £79,885 | 1.5% |
| Llaneilian | 91 | 1.5% | £90,960 | 1.7% |
| Moelfre | 84 | 1.3% | £70,794 | 1.3% |
| Rhosybol | 80 | 1.3% | £75,922 | 1.4% |
| Bryngwran | 74 | 1.2% | £62,544 | 1.2% |
| Bodffordd | 70 | 1.1% | £59,522 | 1.1% |
| Cwm Cadnant | 69 | 1.1% | £66,951 | 1.2% |
| Aberffraw | 68 | 1.1% | £55,197 | 1.0% |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 61 | 1.0% | £68,778 | 1.3% |
| Llanddaniel | 53 | 0.9% | £49,006 | 0.9% |
| Cylch y Garn | 52 | 0.9% | £53,587 | 1.0% |

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Ardaloedd Trefi a Chymunedau Lleol (parhad)** | | | | |
| Trearddur | 51 | 0.8% | £55,328 | 1.0% |
| Llanddona | 50 | 0.8% | £48,705 | 0.9% |
| Tref Alaw | 48 | 0.8% | £51,241 | 1.0% |
| Llanfaethlu | 47 | 0.8% | £44,414 | 0.8% |
| Llanfachraeth | 44 | 0.7% | £39,735 | 0.5% |
| Llanddyfnan | 37 | 0.6% | £40,531 | 0.8% |
| Rhoscolyn | 17 | 0.3% | £18,917 | 0.4% |
| Penmynydd | 16 | 0.3% | £15,510 | 0.3% |
| Llaneugrad | 14 | 0.2% | £12,259 | 0.2% |

* Hawliadau a basbortiwyd yw Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm.

**Tabl 2: Oed - Hawliadau gan Bobl o Oed Gweithio a Phensiynwyr 30 Medi 2017**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,117** | **100%** | **£5,367,807** | **100%** |
| **Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 3,206 | 52.4% | £2,689,142 | 50.1% |
| Oed Pensiynwr | 2,911 | 47.6% | £2,678,665 | 49.9% |
| **Hawliadau pasport yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,186 | 35.7% | £1,965,691 | 36.6% |
| Oed Pensiynwr | 1,839 | 30.1% | £1,820,257 | 33.9% |
| **Di-basport h.y. hawliadau safonol yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 1,020 | 16.7% | £723,451 | 13.5% |
| Oed Pensiynwr | 1,072 | 17.5% | £858,408 | 16.0% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed - Cwpl** | | | | |
| Oed Gweithio | 743 | 12.1% | £767,695 | 14.3% |
| Oed Pensiynwr | 801 | 13.1% | £875,589 | 16.3% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed - Sengl** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,463 | 40.3% | £1,921,447 | 35.8% |
| Oed Pensiynwr | 2,110 | 34.5% | £1,803,076 | 33.6% |

* Hawliadau a basbortiwyd yw Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm.

DRAFT

**Tabl 3: Oed – Aelwydydd gyda chyfrifoldeb am Blant 30 Medi 2017**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,117** | **100%** | **£5,367,807** | **100%** |
| | | | | |
| Cwpl | 1,543 | 25.2% | £1,642,917 | 30.6% |
| Sengl | 4,574 | 74.8% | £3,724,890 | 69.4% |
| | | | | |
| **Dim plant** | **4,691** | **76.7%** | **£4,164,994** | **77.6%** |
| 1 plentyn | 610 | 10.0% | £491,005 | 9.1% |
| 2 plentyn | 443 | 7.3% | £371,157 | 6.9% |
| 3 phlentyn | 234 | 3.8% | £205,613 | 3.8% |
| 4 plentyn | 101 | 1.7% | £93,956 | 1.8% |
| 5 plentyn | 21 | 0.3% | £21,798 | 0.4% |
| 6 phlentyn | 9 | 0.1% | £10,026 | 0.2% |
| 7 plentyn | 4 | 0.1% | £4,967 | 0.1% |
| 8 plentyn | 1 | 0.0% | £1,226 | 0.0% |
| 9 plentyn | 3 | 0.0% | £3,065 | 0.1% |
| | | | | |
| Oed Gweithio | 457 | 7.5% | £448,220 | 8.4% |
| Oed Pensiynwr | 17 | 0.3% | £19,523 | 0.4% |
| | | | | |
| Oed Gweithio | 942 | 15.4% | £700,072 | 13.0% |
| Oed Pensiynwr | 16 | 0.3% | £16,866 | 0.3% |
| | | | | |
| Oed Gweithio | 231 | 3.8% | £215,742 | 4.0% |
| Oed Pensiynwr | 1 | 0.0% | £1,054 | 0.0% |
| | | | | |
| Oed Gweithio | 358 | 5.9% | £264,035 | 4.9% |
| Oed Pensiynwr | 1 | 0.0% | £1,097 | 0.0% |

**Tabl 4: Aelwydydd lle dderbyniwyd taliadau anabledd penodol* 30 Medi 2017**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,117** | **100%** | **£5,367,807** | **100%** |
| | | | | |
| Oed Gweithio | 1,384 | 22.6% | £1,249,482 | 23.3% |
| Oed Pensiynwr | 1,414 | 23.1% | £1,337,457 | 24.9% |

* Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl (Isel, Canolig, Uchel), Lwfans Gweini, Elfen Gefnogaeth y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Lwfans Analluogrwydd a Thaliadau Annibyniaeth Personol.

**Tabl 5: Dadansoddiad o nodweddion a ddiogelir: Rhyw, rhiant Sengl 30 Medi 2017**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,117** | **100%** | **£5,367,807** | **100%** |
| | | | | |
| Oed Gweithio | 873 | 14.3% | £645,120 | 12.0% |
| Oed Pensiynwr | 9 | 0.1% | £9,371 | 0.2% |
| | | | | |
| Oed Gweithio | 54 | 0.9% | £44,799 | 0.8% |
| Oed Pensiynwr | 7 | 0.1% | £7,495 | 0.1% |

**Tabl 6: Cefndir Ethnig Ynys Môn 30 Medi 2017**

| Tarddiad Ethnig | Cyfrifiad Mawrth 2011 | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Medi 2017 |
|---|---|---|
| Prydeinig Gwyn | 96.6% | 84.4% |
| Gwyn arall | 1.7% | 15.3% |
| Etifeddiaeth gymysg | 0.8% | 0.0% |
| Asiaidd (Pawb) | 0.7% | 0.0% |
| Du (Pawb) | 0.1% | 0.3% |
| Arall (Pawb) | 0.3% | 0.0% |

**Tabl 7: Gostyngiad y Dreth Gyngor ychwanegol a ddyfarnwyd dan y cynllun dewisol lleol 30 Medi 2017**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiad y Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,117** | **100%** | **£5,367,807** | **100%** |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (Cyn 1973) | 3 | 0.1% | £2,535 | 0.1% |
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | 23 | 0.4% | £20,260 | 0.4% |

DRAFFT

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2018/19

# Cynllun Penodedig ar gyfer Hawlwyr sy'n Bensiynwyr a phobl nad ydynt yn Bensiynwyr

DRAFFT

**Rhagarweiniad**

Ers 1 Ebrill 2013, mae Budd-dal y Dreth Gyngor, sef dull o gynorthwyo teuluoedd incwm isel gyda'u Dreth Gyngor, wedi cael ei ddiddymu. Cafodd ei ddisodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Ar 19 Rhagfyr 2012 gwnaed rheoliadau gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef "Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 Rhif 3144 (C.316)" **(Rheoliadau Rhagnodedig)** a "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 Rhif 3145 (C.317)" **(Rheoliadau Diofyn)**. Ar 22 Ionawr 2013 gwnaed rheoliadau diwygiedig pellach gan Lywodraeth Cymru "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Rheoliadau Rhagnodedig a Cynllun Diofyn)(Cymru)(Diwygio) 2013" **(Rheoliadau Diwygiedig).**

Roedd y Rheoliadau Rhagnodedig yn cynnwys cymal machlud. O ganlyniad i'r cymal yma, roedd y rheoliadau a nodwyd uchod ond yn berthnasol am y flwyddyn ariannol 2013/14. Dan y cymal yma roedd yn ofynnol i adolygu'r rheoliadau a dod a rhai newydd ymlaen erbyn 1 Ionawr 2014 gan Weinidogion Cymru. Petai rheoliadau newydd ddim yn cael eu rhoi ymlaen erbyn y dyddiad yma, ni fyddai darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'w gweithredu yng Nghymru ar ôl 31 Mawrth 2014.

Ar 26 Tachwedd 2013, cymeradwyodd Cynlluniad Cymru ddwy set o reoliadau newydd : "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynlluniau Diofyn) (Cymru) 2013" **(Rheoliadau Diofyn)** a'r "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013" **(Rheoliadau Rhagnodedig)**. Mae'r rhain ar gael ar : -

**Rheoliadau Diofyn**

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3035/contents/made/welsh

**Rheoliadau Rhagnodedig**

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3029/contents/made/welsh

**Rheoliadau Diwygiedig**

Ar ?? Ionawr 2018, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru set bellach o reoliadau diwygio, yn bennaf i uwchraddio'r ffigyrau ariannol yn unol â chynnydd yng nghostau byw ac i roi sylw i nifer o fân-bwyntiau technegol - Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Rheoliadau Rhagnodedig a'r Cynlluniau Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2018 (**Rheoliadau Diwygio**). Mae'r rhain ar gael ar :-

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/??/contents/made/welsh

Mae'r rheoliadau hyn, felly yn pennu prif nodweddion y cynllun y dylai pob Cyngor yng Nghymru ei fabwysiadu. Felly, mae cyfrifoldeb yn parhau ar Gyngor Sir Ynys Môn i fabwysiadu cynllun. Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2018 ar gyfer 2018/19 ymlaen.

Bydd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn seiliedig ar Reoliadau Rhagnodedig Llywodraeth Cymru (fel y diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau Rhagnodedig hyn hefyd yn caniatáu i Gyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu cynllun sy'n cynnwys amrediad cyfyngedig o elfennau dewisol i ddarparu cefnogaeth bellach ar gyfer y Dreth Gyngor. Mewn achosion lle mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu elfennau dewisol ychwanegol, nodir yr elfennau dewisol hyn yn y ddogfen hon.

Oni fydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud cynllun erbyn 31 Ionawr 2018, yna daw'r cynllun diofyn i rym yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Diofyn. Fodd bynnag, ni fedr Cyngor Sir Ynys Môn ddefnyddio unrhyw ddisgresiwn oni bai ei fod yn mabwysiadu ei gynllun ei hun dan y Rheoliadau Rhagnodedig.

**Gofynion y Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Cymeradwyodd y Cyngor llawn Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 12 Rhagfyr 2017 mewn perthynas â'r flwyddyn yn cychwyn ar 1 Ebrill 2018. Mae'n nodi, yn unol â'r Rheoliadau Rhagnodedig:-

- Categorïau o bobl sydd â hawl neu sydd ddim â hawl i ostyngiad;
- Y gostyngiadau y mae pobl ym mhob categori â hawl iddynt;
- Gofynion gweithdrefnol y Cynllun:-

**1.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i ymgeisio am ostyngiad dan y cynllun.

**2.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i apelio yn erbyn penderfyniad gan awdurdod o ran hawl person i ostyngiad dan y cynllun neu swm unrhyw ostyngiad y mae gan y person hawl iddo.

**3.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i gyflwyno cais i awdurdod am ostyngiad dan Adran 13A (1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

DRAFFT

**Cynllun Lleol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar ofynion fel y cânt eu nodi yn Rheoliadau Llywodraeth Cymru sef "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (C. 301) (Rheoliadau Rhagnodedig)" a'r "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018 Rhif ?? (C. ?)". Mae'r Rheoliadau Rhagnodedig a'r rheoliad diwygio ar gael ar:-

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/3029/contents/made/welsh

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/??/contents/made/welsh

I grynhoi:-

**Rhan 1 y Rheoliadau Rhagnodedig**:

Mae'n cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a diffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y cynllun hwn.

**Rhan 2 y Rheoliadau Rhagnodedig: gofynion y cynllun mewn perthynas ag awdurdodau bilio yng Nghymru (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Beth y mae'n rhaid i'r cynllun a fabwysiedir gan Gyngor Sir Ynys Môn ei gynnwys – categorïau o bersonau, gostyngiadau a gofynion gweithdrefnol y cynllun.

**Rhan 3 y Rheoliadau Rhagnodedig: Categorïau o bersonau sydd â hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

**Pensiynwyr** sydd yng Nghategorïau A i B.

**Eraill nad ydynt yn bensiynwyr** sydd yng Nghategorïau C i D.

**Rhan 4 y Rheoliadau Rhagnodedig: Categorïau o bersonau na ddylid eu cynnwys dan y cynllun hwn (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Categorïau o bersonau sydd i gael eu heithrio o'r cynllun hwn, gan gynnwys pobl sy'n cael eu trin fel rhai nad ydynt yn byw ym Mhrydain Fawr a phobl y mae rheolau mewnfudo'n berthnasol iddynt.

Personau y mae eu cyfalaf yn uwch na £16,000.

Personau sy'n absennol am gyfnod o eiddo.

Personau sy'n fyfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 1 i 5 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn yng nghyswllt pensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio**

Yn Atodlenni 1 i 5, nodir y rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar hawl pensiynwyr i gael gostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad hwnnw dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y mae incwm a chyfalaf ar gyfer pensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl am ostyngiad dan y cynllun hwn.

DRAFT

**Rhan 5 ac Atodlenni 6 i 10 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Mae Atodlenni 6 i 10 yn nodi'r rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar gymhwyster pobl nad ydynt yn bensiynwyr i ostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y bydd incwm a chyfalaf ar gyfer pobl nad ydynt yn bensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn, gan gynnwys mewn achosion lle mae person nad yw'n bensiynwyr neu ei b/phartner yn cael credyd cynhwysol.

**Atodlen 11 y Rheoliadau Rhagnodedig (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Nodi'r darpariaethau ar gyfer defnyddio'r cynllun hwn yn achos myfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 12 i 14 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phob ymgeisydd h.y. pensiynwr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Mae Atodlen 12 yn ymwneud â materion gweithdrefnol y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn. Mae'n disgrifio'r weithdrefn y dylai person ei ddilyn wrth wneud cais am ostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Mae Atodiad 1 y cynllun hwn yn rhoi manylion ynghylch sut y gall person wneud cais i Gyngor Sir Ynys Môn am ostyngiad yn y Dreth Gyngor.

Mae Atodlen 12 hefyd yn disgrifio sut y gall person apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan Gyngor Sir Ynys Môn dan y cynllun hwn.

Gan fod Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio dulliau cyfathrebu electronig mewn perthynas â chyflwyno cais a rhoi gostyngiad, ceir yn Atodlen 12 fanylion am faterion y mae'n rhaid eu cynnwys dan y cynllun hwn.

Mae Atodlenni 13 a 14 yn disgrifio pwy a fedr wneud cais dan y cynllun hwn, dyddiad cyflwyno'r cais, ôl-ddyddio ceisiadau i bensiynwyr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr eraill, diwygio a thynnu ceisiadau yn ôl a'r dystiolaeth a'r wybodaeth y mae eu hangen gyda'r cais. Mae Atodlenni 13 a 14 hefyd yn nodi'r gofynion dan y cynllun hwn o ran y wybodaeth y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ei ddarparu wrth roi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad a'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y rhybudd o benderfyniad.

**Rhan 6 y Rheoliadau Rhagnodedig (fel y diwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Gosod allan y darpariaethau trosiannol fydd yn berthnasol i bobl sy'n derbyn, neu sydd wedi gwneud cais i dderbyn, gostyngiad o dan y cynlluniau gostyngiadau cyfredol, pan fydd y cynlluniau newydd yn dod i rym.

**Elfennau dewisol y cytunwyd arnynt gan Gyngor Sir Ynys Môn Cyngor i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y Dreth Cyngor yn ychwanegol at y gofynion statudol a nodwyd yn y Rheoliadau Rhagnodedig a fabwysiadwyd gan y Cyngor**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu mabwysiadu Cynllun Dewisol Lleol ar gyfer Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel. Manylir ar hyn yn Atodiad 2 lle nodir yr elfennau hynny o bensiynau o'r fath a fydd yn cael eu diystyru fel incwm. Mae hwn yn gymorth at y Dreth Gyngor sy'n ychwanegol at y gefnogaeth sy'n ofynnol yn statudol yn y Rheoliadau Rhagnodedig.

Hwn fydd yr unig ddisgresiwn lleol y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ei ddefnyddio dan ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**Manylion am y drefn lle y gall rhywun wneud cais am ostyngiad o dan y cynllun**

Rhaid i bob person wneud cais am Ostyngiad Dreth Gyngor, oni bai bod rheoliadau pellach gan Lywodraeth Cymru yn datgan fel arall. Bydd hon yn ffurflen electronig neu'n ffurflen gais bapur ar gyfer Gostyngiad y Dreth Gyngor a rhaid ei danfon i un o'r swyddfeydd dynodedig canlynol:-

**A.** Gellir gwneud cais electronig fel a ganlyn: -

**i.** Drwy apwyntiad i fynychu i gwblhau'r ffurflen yng Nghyswllt Môn,Swyddfeydd y Cygnor, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 755869/70/72/73/74/75/76/77/78/79) neu i ymweld â chleientiaid bregus yn eu cartref i gwblhau'r ffurflen gais (Ffôn 01248 752658/752226);

**ii.** Drwy apwyntiad i lenwi'r ffurflen dros y ffôn yn Swyddfeydd Adain Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 752658/752226);

**iii.** Drwy apwyntiad i gwblhau'r ffurflen efo "partneriaid" cymeradwy hefo hyfforddiant priodol. Y rhai cyfredol yw -

- Canolfan JE O'Toole, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 760208);
- unrhyw swyddfa Cyngor ar Bopeth sydd ar yr Ynys (Ffôn 01248 722652);
- Swyddfa Cymorth Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 765912) a Gwasanaeth Cwsmer Tai, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni (Ffôn 01248 752200); ac
- Swyddfeydd Digartref Ynys Môn, Caergybi (Ffôn 01407 765557).

Efallai, yn y flwyddyn bydd yr Awdurdod yn ychwanegu at y rhestr yma o "bartneriaid" cymeradwyo hefo hyfforddiant priodol;

**iv.** Yn electronig drwy wefan Cygnor Sir Ynys Môn - http://www.ynysmon.gov.uk/lles-ac-arian/budd-daliadau-a-hawliau-lles/cais-ar-lein-budd-dal-tai-a-cynllun.gostyngiadaur-dreth-gyngor/ neu safleoedd hunan wasanaeth o fewn :-

- Cyswllt Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 755869/70/72/73/74/75/76/77/78/79);
- Caffi Stesion y Llan, Yr Hen Stesion, Bridge Street, Llanerchymedd (Ffôn 01248 470481);
- Canolfan Iorwerth Rowlands, Steeple Lane, Biwmares, LL58 8AE (Ffôn 01248 811508);
- Llyfrgell Amlwch, Lôn Parys, Amlwch, LL68 9EA (Ffôn 01407 830145);
- Llyfrgell Niwbwrch, Neuadd Prichard Jones, Niwbwrch, Llanfairpwllgwyngyll LL61 6SY (Ffôn 01248 440770);
- Canolfan JE O'Toole, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 760208);
- Canolfan Gymunedol Gwelfor, Ffordd Tudur, Morawelon, Caergybi LL65 2DH (Ffôn 01407 763518).

**v.** Dogfen Fewnbwn Awdurdod Lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau (LAID) a Gwybodaeth Cwsmer Awdurdod Lleol (LACI) lle maent yn datgan bwriad i hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor;

**vi.** Y ffurflenni Credyd Cynhwysol mewn ffurf electronig oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau lle maent yn datgan bwriad i hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor:-

- LCTR2 – ffurflen Gostyngiad y Dreth Gyngor Leol
- LCTR3 - ffurflen Gostyngiad y Dreth Gyngor Leol

**vii.** Yn electronig ar unrhyw ffurf arall y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn penderfynu arno yn y dyfodol.

DRAFT

**B.** Gellir cyflwyno cais ar bapur drwy'r dulliau canlynol: -

**i.** Trwy gyfrwng ffurflenni cais a gymeradwywyd a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn Swyddogaeth Adnoddau, Adain Refeniw a Budd-daliadau yn ei swyddfeydd dynodedig yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW neu'r Swyddfa Budd-daliadau, Canolfan J E O'Toole, Sgŵar Trearddur, Caergybi, LL65 1NB.

**ii.** Y ffurflenni Credyd Cynhwysol canlynol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau lle maent yn datgan bwriad i hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor:-

- LCTR2 – ffurflen Gostyngiad y Dreth Gyngor Leol;
- LCTR3 - ffurflen Gostyngiad y Dreth Gyngor Leol.

DRAFFT

**CYNLLUN LLEOL - DIYSTYRU PENSIWN RHYFEL**
**Atodlen 4, Rheoliad 30 - Pensiynwyr**
**Atodlen 9, Rheoliad 31 – Heb fod yn Bensiynwyr**

| ELFENNAU UNIGOL | DIYSTYRU INCWM |
|---|---|
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | Ydyw<br>(£10 statudol, 100% Lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel | Ydyw<br>(£10 statudol, 100% Lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (cyn 1973 - SPAL) | Ydyw<br>(2018/19) 100% statudol, £ ??. ?? yn amodol ar uwchraddio * blynyddol) |
| Atodiad Anghyflogadwy | Na |
| Lwfans ychwanegol ar gyfer Gwraig (a delir gydag Atodiad Anghyflogadwy) | Nac oes |
| Lwfans Gweini Cyson | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Annilysrwydd | Na |
| Lwfans 'Cysuron' | Na |
| Lwfans Oed | Na |
| Lwfans ar gyfer Galwedigaeth o Safon Is | Na |
| Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Galwedigaethol Anabledd Difrifol | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Plant | Na |

* gosodir gan y Lluoedd Morwrol, y Fyddin a'r Awyrlu ac ati, Gorchymyn Pensiwn Gwasanaeth "Anabledd a Marwolaeth" 2006. Nid yw'r ffigyrau uwchraddio ar gyfer 2018 /19 wedi dod i law eto.

DRAFT

**ATODIAD 2A**

**CYNLLUN LLEOL - DIYSTYRU TALIADAU A WNEIR O DAN GYNLLUN CYMORTH GWAED HEINTIEDIG CYMRU**
**Atodlen ?, Rheoliad ?? – Pensiynwyr***
**Atodlen ?, Rheoliad ?? – Heb fod yn Bensiynwyr***

**Bod y taliadau a wneir o dan y cynllun yn cael eu diystyru'n llawn (h.y. 100%) .**

*** gosidir gan Lywodraeth Cymru o dan rheoliadau'r gostyngiadau'r dreth gyngor 2013 (sydd heb eu diwygio eto ar gyfer 2018/19)**

DRAFFT

DRAFT

**Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Education and Public Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: A19640021

At:
Cyfarwyddwyr Cyllid
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Anfonwyd copi at:
Prif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru
Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

27 Hydref 2017

Annwyl Gyfaill

**Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru**

Mae'r llythyr hwn yn rhoi canllawiau ar sut i drin taliadau a wneir o dan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) at ddibenion cynlluniau gostyngiadau lleol ar gyfer y dreth gyngor. Bydd y cynllun yn darparu cefnogaeth o 1 Tachwedd 2017 i bobl sydd wedi'u heintio â hepatitis C a/neu HIV drwy waed neu gynhyrchion gwaed a gyflenwyd gan y GIG.

Mae'r cynllun newydd yng Nghymru yn dod yn lle'r cynlluniau presennol ar gyfer y DU gyfan a weinyddir gan bum corff unigol dan gontract â'r Adran Iechyd (Cronfa Skipton, Sefydliad Caxton, Ymddiriedolaeth Macfarlane, Ymddiriedolaeth Eileen a MFET Ltd). Mae'r help a'r gefnogaeth yn cynnwys darparu taliadau ex-gratia. Mae'r taliadau hyn wedi'u heithrio rhag treth ac ni chânt eu cynnwys yng nghyfrifiadau CThEM na'r Adran Gwaith a Phensiynau at ddibenion treth na budd-daliadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad â CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r rheoliadau statudol er mwyn caniatáu i'r trefniadau hyn barhau ar ôl 1 Tachwedd 2017.

Dan adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, mae gan awdurdodau bilio lleol yr hyblygrwydd i eithrio neu roi gostyngiadau i unigolion neu ddosbarth o drethdalwyr. Nid yw Llywodraeth Cymru yn dymuno achosi anfantais i'r buddiolwyr wrth newid i'r cynllun newydd. Byddwn yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r rheoliadau canlynol er mwyn sicrhau bod cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yn eu diystyru yn yr un ffordd o 2018-19 ymlaen.

Parc Cathays Cathays Park
Caerdydd Cardiff
CF10 3NQ
Ebost • Email: LGSF.ministerialcorrespondence@gov.wales

- Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013; a

- Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013.

Felly, rydym yn annog awdurdodau i ddefnyddio'r pwerau hyn i ddiystyru'n llawn unrhyw daliadau gan WIBSS wrth adolygu achosion presennol neu wrth asesu pwy sy'n gymwys am eu cynlluniau gostyngiadau lleol ar gyfer y dreth gyngor.

Os bydd gennych unrhyw gwestiwn ynghylch yr uchod, mae croeso ichi anfon e-bost: lgsf.ministerialcorrespondence@llyw.cymru

Yn gywir

**DEBRA CARTER**
Cyllid Strategol Llywodraeth Leol / Local Government Strategic Finance

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **27/11/2017** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cllr. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Rachel Rowlands**<br>**752094 rfxlh@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i bob Aelod** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1. Argymhellion**

a) Mabwysiadu Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022.

b) Gweithredu’r newidiadau arfaethedig yn Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022:

i) Cau Llyfrgell Cemaes, Llyfrgell Moelfre a Llyfrgell Niwbwrch, parhau i ymchwilio i gamau lliniaru fel pwyntiau mynediad cymunedol a/neu gynyddu darpariaeth symudol yn yr ardaloedd a effeithir gan benderfyniadau i gau.

ii) Datblygu model gydweithredol gyda Chanolfan Biwmares o ran Llyfrgell Biwmares.

iii) Derbyn ymrwymiad cadarn gan Gyngor Cymuned Llanfaelog mewn perthynas â Llyfrgell Rhosneigr erbyn 2 Ionawr 2018. Os na ddarperir unrhyw ymrwymiad cadarn, yna mynd ymlaen i’w chau fel yn achos i) uchod.

iv) Er mwyn sicrhau'r arbedion mwyaf posibl, argymhellir **derbyn Opsiwn B** o fewn costau Drafft y Gwasanaeth Llyfrgell (Atodiad 5): Cyfanswm y staff cyn lleied â phosibl i arbed arian (Y staff i gyd o'r Llyfrgelloedd caeedig), a derbyn y risgiau fel y nodwyd yn 13.1 isod. Rhaid i swyddogion nodi y gallai hyn arwain at Her Cyfreithiol a / neu Ymyrraeth Gweinidogol.

**neu**

**Derbyn Opsiwn C** o fewn costau Drafft y Gwasanaeth Llyfrgell: Cadw 22 awr (2 / 3 draean y staffio) o'r llyfrgelloedd caeedig o fewn y strwythur staffio newydd i helpu i liniaru a chynnal perfformiad yn erbyn safonau staffio'r WPLS.

**2. Cyflwyniad**

**2.1.** Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r strategaeth arfaethedig i'r dyfodol ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Sir Ynys Môn, **Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 ("y Strategaeth Ddrafft")**. Pwrpas y Strategaeth Ddrafft hon yw sicrhau sylfeini cadarn a chynaliadwy a fydd yn caniatáu i Gyngor Sir Ynys Môn ("y Cyngor") ddiwallu anghenion preswylwyr a chyflawni gofynion statudol y Cyngor.

## 3. Cefndir

**3.1.** Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth llyfrgell statudol sy'n gynhwysfawr ac yn effeithlon, fel sy'n ofynnol gan adran 7 o **Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964[1].**

**3.2.** Mae **Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru[2]** (WPLS) yn cael eu gosod a'u hasesu gan Lywodraeth Cymru. Tra nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â statud, maent yn fodd o feincnodi gwasanaethau llyfrgell ar draws Cymru, ac yn rhoi sicrwydd i'r Gweinidog sy'n gyfrifol o ran y defnydd o'r gwasanaeth, ei safonau a'i ansawdd; mae'r WPLS yn un o'r mesurau o ran p'un a yw Awdurdod Llyfrgell yn cyflawni ei ddyletswydd statudol.

**3.3.** Yn 2013 rhoddwyd yr her i'r Cyngor ganfod arbedion effeithlonrwydd o £16m yn y 3 blynedd ddilynol.

**3.4.** Nododd **Cynllun Corfforaethol Ynys Môn 2013-17**[3] ("y Cynllun Corfforaethol") nod i gyflawni gostyngiad o 60% yng nghostau cyffredinol hamdden, diwylliant a'r llyfrgelloedd i'r Cyngor dros gyfnod y cynllun.

**3.5.** Yn ystod 2014-15 ymgymerodd Gwasanaeth Llyfrgell y Cyngor ag **Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell**[4] gyda'r nod o sicrhau y gellir cyflenwi'r gwasanaeth gorau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Roedd yr Adolygiad yn dadansoddi testunau fel perfformiad, defnydd, anghenion ac opsiynau ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth. Roedd yr adolygiad wedi canfod sawl opsiwn ar gyfer datblygu'r gwasanaeth i'r dyfodol. Mae'r prif ysgogwyr newid yn rhai ariannol a thechnolegol.

**3.6.** O ganlyniad i'r Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell oedd yn parhau, ynghyd â goblygiadau ariannol y Cynllun Corfforaethol, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen ar gyfer Llyfrgelloedd, y Gwasanaeth Ieuenctid, Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant yn Ebrill 2015 gyda'r nod o oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r addewidion a wnaed yn y Cynllun Corfforaethol i archwilio opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer darparu Llyfrgelloedd.

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/75/contents

[2] http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/libraries/public-library-standards/?lang=en

[3] http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2014/04/02/u/s/p/corporate-plan-2013-2017.pdf p.13

[4] http://www.anglesey.gov.uk/download/47802

**3.7.** Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod Hydref 2015 i gasglu barnau ar yr opsiynau a nodwyd gan ac i wahodd unrhyw syniadau eraill. Cafwyd bron i 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarparwyd drwy holiaduron, sesiynau wyneb yn wyneb a gweithdai. Er nad oedd unrhyw opsiwn clir a ffefrir wedi ymddangos o'r atebion hyn, roedd tystiolaeth y byddai'n fanteisiol i geisio cyfleoedd ar gyfer modelau 'cefnogaeth gymunedol', yn gweithio gyda mentrau cymdeithasol neu ddarparwyr amgen i weithio gyda'r Cyngor i gynnal y gwasanaeth, yn hytrach nag unrhyw bosibilrwydd o ddileu'r gwasanaeth.

**3.8.** Yn dilyn ymlaen o'r ymgynghoriad, datblygodd y Gwasanaeth Llyfrgell Strategaeth Ddrafft ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion ("AECA") i fynd i'r afael ag argymhellion yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell, yr adroddiad ymgynghori a'r sefyllfa ariannol.

**3.9.** Cyflwynwyd Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 i'r Pwyllgor Gwaith: Ddydd Mawrth, 14eg Chwefror, 2017 am 10.00am o dan Eitem 21: Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgell – Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2017 – 2022

http://democracy.anglesey.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=3081&Ver=4&LLL=0

PENDERFYNWYD:-

- Nodi'r broses a ddilynwyd o ran datblygu'r strategaeth, ynghyd â'r rhesymeg y tu ôl i'r hyn a gynigir o fewn Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell;
- Cymeradwyo'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad Anghenion;
- Awdurdodi Swyddogion i fwrw ymlaen â'r gwaith o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell, yn unol â'r amserlen a amlinellir yn yr adroddiad;
- Nodi y bydd y gwasanaeth yn parhau i drafod ac ymgynghori â phartïon sydd â diddordeb ac y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref ar yr opsiynau gafodd eu hadnabod ar gyfer trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgell.

## 4. Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 ("y Strategaeth Ddrafft")

**4.1.** Datblygwyd y Strategaeth Ddrafft i ymateb i'r heriau a'r anghenion a amlinellir uchod. Cynhwyswyd y Strategaeth Ddrafft fel Atodiad 1.

**4.2.** Rydym wedi gwrando ar farnau preswylwyr ac wedi eu gwreiddio o fewn y Strategaeth Ddrafft hon. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod llyfrgelloedd yn:

- Cynnal gwasanaeth benthyca llyfrau a werthfawrogir yn fawr
- Cynnal darpariaeth TGCh a Rhwydwaith gref

- Parhau i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i wella eu sgiliau a dysgu
- Cyflenwi gwasanaethau gyda staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Dangos cysylltiad clir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[5]

**4.3. Y Weledigaeth**

Mae'r Strategaeth Ddrafft yn amlinellu gweledigaeth arfaethedig ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell ac yn gosod fframwaith cyflenwi a chanddo'r potensial i ddiwallu anghenion y Safonau Llyfrgelloedd, ac i ymateb i anghenion ein cwsmeriaid. Y weledigaeth arfaethedig yw:

***Mae llyfrgelloedd Ynys Môn yn lleoedd croesawgar i ddarllen, dysgu a darganfod – y tywysydd y gellir ymddiried ynddo yng nghalon ein cymunedau.***

**4.4.** Wrth wraidd y weledigaeth, ceir y nodau craidd:

- **Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant** – Rydym yn cydnabod bod llyfrgelloedd cyhoeddus wedi cael eu hysgogi bob amser gan egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant.
- **Ei gwneud yn hawdd i bawb ddefnyddio ein gwasanaethau** – Rydym yn cydnabod nad yw pawb yn gallu neu'n dymuno cael mynediad i'r gwasanaeth llyfrgell yn yr un modd, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaeth yn gynhwysol i bawb.
- **Darparu gwasanaethau o safon uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer** – Byddwn yn cyflenwi adnoddau o safon uchel mewn mannau croesawgar
- **Bod yn dywysydd y gellir ymddiried ynddo** – Rydym ar gael i helpu i gael mynediad i wybodaeth mewn amgylchedd y gellir ymddiried ynddo.
- **Partneriaeth gyda sefydliadau ac asiantaethau** – Rydym yn cydnabod bod gan bartneriaethau llwyddiannus rolau a chyfrifoldebau clir, ynghyd â disgwyliadau a reolir a chanlyniadau gweladwy ar gyfer bob partner.
- **Staff** – Rydym eisiau i'n staff a'n gwirfoddolwyr eich helpu i wneud yn fawr o'ch llyfrgelloedd. Gwyddwn hefyd mai ein staff yw ein hased mwyaf ac rydym eisiau bod yn lle gwych i weithio ynddo. Rydym eisiau creu cyfleoedd i wirfoddolwyr.

**5. Yng ngolau'r uchod, mae'r Strategaeth Ddrafft hon yn symud i batrwm o ddarpariaeth yn seiliedig ar:**

[5] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted

- Lyfrgelloedd Ardal
- Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad yr Awdurdod
- Gwasanaethau Symudol (sy'n cynnwys y Llyfrgelloedd Symudol, y Gwasanaeth i Rai sy'n Gaeth i'w Tai (ar gyfer y rheiny nad ydynt yn gallu gadael eu cartref oherwydd salwch neu anabledd) a'r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion)
- Pwyntiau mynediad posibl yn y gymuned (yn dibynnu ar ddosbarthiad A a B)

**5.1.** Yn fanylach, dyma'r ddarpariaeth arfaethedig:

**Haen 1: Llyfrgelloedd Ardal:** Llyfrgell lawn amser, wedi'i staffio'n llawn, sydd ar agor am tua 40 awr yr wythnos, a gefnogir gan dîm proffesiynol ar lefel y Sir gyfan. (Llangefni a Chaergybi)

**Haen 2: Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad y Cyngor gydag elfen o gymorth gan y gymuned:** Tua 20 awr o ran oriau agor gyda staff craidd a ddarperir gan yr Awdurdod, cefnogir y staff rheng flaen (ar lefel cangen) gan dîm proffesiynol ar lefel y Sir gyfan. (Amlwch, Benllech a Porthaethwy)

**Haen 3: Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad y Cyngor:** Tua 10-12 awr o ran oriau agor gyda staff craidd a ddarperir gan yr Awdurdod, cefnogir y staff rheng flaen (ar lefel cangen) gan dîm proffesiynol ar lefel Sir gyfan. (Biwmares, Moelfre, Niwbwrch a Rhosneigr)

**Gwasanaethau Symudol:** Ochr yn ochr â'r uchod, cynhelir adolygiad llawn o lwybrau'r Gwasanaeth i Rai sy'n Gaeth i'w Tai a'r Llyfrgell Symudol a'r mannau y byddant yn galw ynddynt. Rhagwelir y bydd newidiadau yn y maes gwasanaeth hwn wrth fynd ymlaen, i gwrdd â phatrymau defnydd sy'n newid, fodd bynnag nodir yn ein AECA bod ein Gwasanaethau Symudol yn elfen bwysig o'n darpariaeth i'n Sir wledig. Mae'n bosibl y gweithredir modelau amgen, er enghraifft, partneru gyda'r trydydd sector i gyflenwi elfennau o'r Gwasanaeth i Rai sy'n Gaeth i'w Tai.

**6.** Yn defnyddio ystadegau poblogaeth, ystadegau perfformiad, cost defnyddio llyfrgelloedd presennol, ac anghenion o ran cydraddoldeb yn unol â chasgliadau'r asesiad, a chanlyniadau'r Ymgynghoriad, mae'r **Strategaeth Ddrafft yn cynnig (yn unol â diffiniadau'r haenau) cynnal:-**

- Dwy Lyfrgell Ardal Haen 1 yng **Nghaergybi** a **Llangefni**;
- Tair Llyfrgell Haen 2 a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad y Cyngor yn **Amlwch**, **Porthaethwy** a **Benllech**
- Dwy Lyfrgell Haen 3 a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad y Cyngor ym **Miwmares** a **Rhosneigr**; ynghyd â Gwasanaethau Symudol – fel y modd mwyaf

cynhwysfawr ac effeithlon o gyflenwi Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn o fewn y gyllideb sydd ar gael.

**6.1.** Yn ogystal, mae defnyddio'r dosbarthiad haenog hwn yn canfod lleoliadau lle na ellir parhau i gynnal y ddarpariaeth yn ei ffurf bresennol oherwydd diffyg datrysiad. **Felly, mae'r Strategaeth Ddrafft yn cynnig terfynu'r ddarpariaeth bresennol o gynnal gwasanaeth llyfrgell o adeilad mewn tair cymuned**, sef **Cemaes, Moelfre** a **Niwbwrch**. Fodd bynnag, oherwydd effaith gymdeithasol debygol y cynnig hwn, cynigir 'datrysiad dolen gymunedol' a/neu gynyddu Gwasanaethau Symudol er mwyn lliniaru effeithiau cymdeithasol ar y gymuned ac er mwyn cynnal mynediad i'r gwasanaeth ar gyfer preswylwyr y gymuned honno drwy ddulliau amgen. Gallai'r dulliau amgen hyn fod drwy wasanaeth 'clicio a chasglu' cymunedol, pwynt mynediad mewn ysgol leol neu adeilad cymunedol / siop, neu fel y soniwyd yn flaenorol, darpariaeth llyfrgell symudol.

**6.2.** Bydd gweithredu'r Strategaeth Ddrafft yn golygu y bydd newidiadau'n digwydd ar draws y rhwydwaith llyfrgelloedd presennol. Bydd yn cynnwys rhesymoli oriau a newid trefniadau rheoli adeiladau gyda'r llyfrgelloedd cymunedol, addasu lleoliadau a chyfnodau gweithredu Gwasanaethau Symudol, a gweithredu dulliau amgen ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth yn yr ardaloedd hynny a effeithir fwyaf.

**6.3.** Dyma'r ymatebion o'r llyfrgelloedd Haen 3:

**Biwmares**: Roedd Cadeirydd Canolfan Biwmares (Canolfan Hamdden Gymunedol), sy'n fenter gymdeithasol, wedi cadarnhau yn ystod y cyfarfod cyhoeddus, y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gweithio gyda'r Gwasanaeth Llyfrgell. Yn ogystal, derbyniwyd llythyr yn mynegi diddordeb, fel y nodir yn adroddiad canfyddiadau'r ymgynghoriad.

**Cemaes**: Dim datrysiad cymunedol ar hyn o bryd

**Moelfre**: Dim datrysiad cymunedol ar hyn o bryd

**Niwbwrch**: Dim datrysiad cymunedol ar hyn o bryd

**Rhosneigr**: Potensial am Lyfrgell a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad y Cyngor mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Llanfaelog.

## 7. Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Strategaeth Ddrafft

**7.1.** Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn dros gyfnod o ddeuddeg wythnos yn ystod haf 2017. Gellir gweld Adroddiad Llawn yr Ymgynghoriad yn Atodiad 2

**7.2.** Pwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd llywio proses benderfynu'r Cyngor a chanfod:

- A ydi Trigolion Môn yn cytuno gyda Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell – Y Ffordd Ymlaen 2017-22

- I ba raddau y mae'r ymagwedd tair haen yn un sydd yn cael ei chefnogi
- Ennyn barn trigolion ar effaith bosibl unrhyw newidiadau i'r Gwasanaeth Llyfrgell arnyn nhw fel unigolion

**7.3. Negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad**

Mae'r negeseuon allweddol a ganlyn yn grynodeb lefel uchel o'r prif bwyntiau a wnaed yn rhan o'r ymgynghoriad. Nid ydynt wedi eu bwriadu i fod yn llwyr gynrychioliadol; maent yn adlewyrchu sylwadau a wnaed drwy'r amrywiaeth o wahanol sianelau ymgysylltu sydd ar gael:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r Strategaeth gyda 51.88% o'r rhai gwblhaodd holiadur yn cytuno neu'r cytuno'n gryf gyda'r strategaeth.
- Roedd 71.53% yn cytuno gyda'r ymagwedd haenau, ond nid o anghenraid yn cytuno fod eu llyfrgell o ddewis yn yr haen gywir.
- Dylid adolygu'r Gwasanaeth Llyfrgell Symudol fel rhan o'r broses trawsnewid er mwyn lliniaru effaith unrhyw newid ac yna yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y defnydd gorau yn cael ei wneud ohono.
- Ceir thema gyson bod llyfrgelloedd wedi eu marchnata'n wael a bod prinder hysbysebu ac arwyddion i ddangos lle maen nhw.
- Pobl yn nodi eu bod yn gweld effaith newidiadau ar eraill (pobl hŷn, teuluoedd heb geir, rhai sydd yn chwilio am waith etc) hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi eu heffeithio eu hunain. Hefyd effaith posibl arnyn nhw i'r dyfodol pe byddai eu sefyllfa yn newid.
- Gwasanaeth sydd yn bwysig – adeiladau yn llai pwysig.
- Dywedodd 44.5% y bydden nhw yn peidio â defnyddio'r Gwasanaeth Llyfrgell petai eu llyfrgell leol yn cau.
- Nifer yn awgrymu cyflwyno caffi neu beiriant coffi er mwyn creu incwm a chreu awyrgylch mwy hamddenol.
- Teimlad cryf fod gormod o bwysau yn cael ei roi ar garfan fechan o wirfoddolwyr sydd yn heneiddio i gynnal gwasanaethau sydd yn bwysig i'r cymunedau.
- Nifer o sylwadau am addasu oriau agor llyfrgelloedd i roi cyfle i bobl sydd yn gweithio a phlant sydd yn yr ysgol i gael mynediad.
- Trigolion yn poeni am sut fyddan nhw ac eraill yn cael mynediad at y gwasanaeth wrth iddynt heneiddio gan fod trafnidiaeth gyhoeddus yn wael mewn ambell ardal.
- Nifer fawr yn poeni am effaith newidiadau i'r Gwasanaeth ar sgiliau plant a chenedlaethau'r dyfodol.
- Pryder yn cael ei ddangos am ddiffyg gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig a'r ffaith fod

colli llyfrgell o bosibl yn cythryblu'r sefyllfa.

- Canfyddiad fod angen gwneud mwy o ddefnydd o'r adeiladau waeth beth fydd patrwm rhain i'r dyfodol.
- Awgrymiadau y dylid cael mwy o wasanaethau'r Cyngor yn y Llyfrgelloedd i bobl beidio gorfod teithio i Langefni i wneud bob dim.
- Cafwyd awgrymiadau hefyd y dylid lleihau'r gwasanaeth yn y llyfrgelloedd Haen 1 er mwyn amddiffyn y gweddill.

**7.4.** Sesiynau Allgymorth

- Cynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgysylltu eraill ac fe gafwyd cysylltiad wyneb yn wyneb gyda 748 o unigolion. Nid oedd 207 (27.67%) o'r rhain yn ddefnyddwyr llyfrgell. Gellir gweld y prif negeseuon o'r gweithgareddau yn Adroddiad yr Ymgynghoriad yn Atodiad 2.
- Cynhaliwyd gweithgareddau ymgysylltu penodol gyda Phobl Ifanc, gyda digwyddiadau ymgysylltu mewn Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Cynradd. Gwahoddwyd swyddogion i gyfarfod Llais Ni yn Llangefni (19/07/17). Prosiect yw Llais Ni sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn perthynas â materion sy'n bwysig iddynt.
- Cynhaliwyd Sesiynau Galw Heibio ym mhob un o'r 10 llyfrgell, ynghyd â Chyfarfodydd Cyhoeddus mwy ffurfiol mewn ardaloedd Llyfrgelloedd Haen 3 (5 ardal – Biwmares, Cemaes, Moelfre, Niwbwrch a Rhosneigr).

## 8. Effaith y Strategaeth Ddrafft

### 8.1. Yr Effaith ar Gydraddoldeb

Yn unol â'r ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ac anghenion o'r strategaeth. Ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus, diweddarwyd yr asesiad effaith cydraddoldeb ac anghenion (gweler atodiad 4).

**8.2.** Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion[6] (AECA) yn asesu'r angen am y Gwasanaeth Llyfrgell, ynghyd ag effaith unrhyw newidiadau arfaethedig ar y boblogaeth a all fod yn dymuno ei ddefnyddio. Ystyriwyd pob opsiwn yn ofalus yn nhermau'r effaith ar breswylwyr Ynys Môn, yn ogystal â gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth llyfrgell 'cynhwysfawr ac effeithlon' yn unol â Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Yn ogystal, rhoir ystyriaeth i Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â'r anghenion o ran bod Awdurdodau Llyfrgelloedd yng Nghymru yn adrodd ar eu perfformiad blynyddol mewn perthynas â'r Safonau hyn.

**8.3.** Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y Strategaeth Ddrafft, ymhlith y dangosyddion eraill,

[6] Atodiad 4 Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion

ystyriwyd y canlynol fel rhan o'r AECA:

- Y defnydd o lyfrgelloedd (nifer y defnyddwyr) a chostau gweithredu
- Gwybodaeth ddemograffig am gymunedau Ynys Môn, gan gynnwys twf i'r dyfodol
- Lleoliad llyfrgelloedd sefydlog a lle mae'r llyfrgell symudol yn galw
- Patrymau defnydd cwsmeriaid o lyfrgelloedd
- Maint dalgylchoedd llyfrgelloedd, gan gynnwys pellteroedd teithio
- Lefelau amddifadedd mewn dalgylchoedd llyfrgelloedd
- Perchnogaeth ceir
- Anghenion pobl a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell: Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 5/6

**8.4.** Ymgymerwyd ag AECA ar gyfer bob lleoliad/cymuned unigol lle cynigir gwneud newidiadau sylweddol, a defnyddiwyd casgliadau'r asesiadau hynny i lywio'r Strategaeth Ddrafft. Mae copïau o'r asesiadau ar gyfer safleoedd penodol ar gael o llyfrgelloedd@ynysmon.gov.uk neu gellir cael copïau caled ar gais gan y Gwasanaeth Llyfrgell.

**8.5.** Mae AECA y Strategaeth Ddrafft wedi dwyn ynghyd effaith bosibl y Strategaeth Ddrafft ar y sir gyfan, ond hefyd ar grwpiau gwarchodedig penodol o fewn y cymunedau hynny sy'n wynebu newidiadau sylweddol.

**8.6.** Mae'r AECA yn amlygu effaith negyddol ar gyfer grwpiau oedran penodol fel pobl hŷn a rhieni sydd hefo plant ifanc (o dan 5 mlwydd oed) o ganlyniad i leihau'r rhwydwaith o leoliadau llyfrgell sefydlog.

**8.7.** Mabwysiadwyd y Strategaeth Ddrafft i fynd i'r afael â'r effeithiau negyddol hyn drwy gynnig i addasu'r gwasanaeth symudol a sefydlu trefniadau mynediad amgen.

**8.8.** Yn dilyn ystyriaeth lawn, adolygwyd y Strategaeth Ddrafft i fynd i'r afael â'r effeithiau posibl a nodwyd.

**8.9.** Mae'r cymunedau mwyaf difreintiedig o fewn dalgylch Llyfrgelloedd Llangefni a Chaergybi, a effeithir leiaf gan unrhyw newidiadau i'r model cyflenwi gwasanaeth fel yr awgrymwyd o fewn y Strategaeth Ddrafft.

**8.10.** Mae ardaloedd lle gall unigolion fod dan anfantais oherwydd natur wledig ardaloedd a chysylltiadau gwael wedi cael eu mapio, a gweithredir i gynyddu mynediad cymunedol yn yr ardaloedd hyn.

**8.11.** Mae'r AECA yn canfod fod cyfleoedd i ddatblygu a meithrin cydlyniant cymunedol a

gwydnwch yn y cymunedau hynny lle ceir awydd i gydweithredu â'r Cyngor i gyflenwi gwasanaethau drwy ddulliau newydd.

**8.12.** Mae'n debygol y bydd rhai grwpiau o'r farn fod y cynnig yn annheg gan y bydd pwyntiau gwasanaeth yn cau mewn rhai cymunedau ac yn cael eu cadw mewn rhai eraill. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn agored ac yn barod i dderbyn awgrymiadau o ran gwahanol ddulliau o weithio, a all arwain wella'r gwasanaeth ac nid ei ddirywio o ganlyniad i'r strategaeth hirdymor hon.

**8.13.** Wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddrafft, rhoddwyd cyfle ac anogaeth i bob rhan o gymunedau'r Cyngor weithio gyda'i gilydd i ddatblygu syniadau gyda'r nod o fod o fudd i'r gymuned gyfan.

**9. Yr Effaith ar Berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell**

**9.1.** Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (WPLS) yn asesu p'un a yw awdurdodau lleol yn cyflawni'r dyletswyddau statudol. Yn ogystal, mae'r WPLS yn asesu p'un a yw'r gwasanaeth a ddarperir yn diwallu anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid y llyfrgell a phreswylwyr lleol.

**9.2.** Nid ydym yn rhagweld y bydd mabwysiadu'r Strategaeth Ddrafft hon yn cael effaith andwyol sylweddol ar berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell yn nhermau'r WPLS. Mae'r effaith debygol yn erbyn y WPLS wedi cael ei mapio a'i graddio yn ôl y drefn RAG.

**10. Yr Effaith ar Gymunedau**

**10.1.** Caiff y Strategaeth Ddrafft fwy o effaith ar rai cymunedau yn ardal y Cyngor nag eraill, yn enwedig yn y pum cymuned lle argymhellir newid i'r drefn bresennol.

**10.2.** Rydym wedi trafod y Strategaeth Ddrafft gyda chynghorau cymuned a phartneriaid eraill yn y pum cymuned dan sylw. Dylid nodi bod gwrthwynebiad ac amharodrwydd i weld unrhyw newidiadau i'r rhwydwaith llyfrgelloedd yn parhau.

**10.3.** Fodd bynnag, derbyniwyd ymateb cadarnhaol gan ddwy o'r cymunedau lle argymhellir Llyfrgell Haen 3 a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad y Cyngor, sef Biwmares a Rhosneigr, o ran os mabwysiadir y Strategaeth Ddrafft gan y Cyngor, mae Cynghorau Cymuned a phartneriaid eraill wedi nodi eu parodrwydd i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Llyfrgell i sefydlu trefn o'r fath.

**10.4.** Yn y tair cymuned sydd ar ôl (Cemaes, Moelfre a Niwbwrch), lle mae'r Strategaeth Ddrafft yn argymell terfynu cynnal gwasanaeth llyfrgell o adeilad a bod datrysiad mynediad cymunedol neu gynyddu Gwasanaethau Symudol yn cymryd ei le, bu'r ymateb yn amrywiol ond, yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn gwrthwynebu i'r newidiadau arfaethedig fel y gellir gweld yn y dystiolaeth yn nodiadau'r cyfarfodydd yn Atodiad 3.

**10.5.** Yn seiliedig ar yr ymatebion gan wahanol gymunedau, rydym o'r farn na ddaeth unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth o sylwedd i law sy'n awgrymu na ddylid mabwysiadu'r Strategaeth Ddrafft, ac nid yw'r wybodaeth a dderbyniwyd yn amlygu ystyriaethau pellach yn nhermau'r AECA (ar wahân i'r rheiny a nodir yn 9.6 isod). Fodd bynnag, dylid cydnabod bod sawl cymuned (Niwbwrch, Biwmares, Cemaes a Phorthaethwy) wedi amlygu y byddai

colli neu newid agweddau ar ddarpariaeth y llyfrgell yn arwain at sgil-effeithiau cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol pellgyrhaeddol.

**10.6.** Dylid cyfeirio at ardal Cemaes yn benodol, lle gallai cau'r llyfrgell yn ardal Cemaes gael effaith ar breswylwyr yr ardal honno oherwydd effaith yr orsaf bŵer niwclear newydd sy'n cael ei hadeiladu (Wylfa Newydd). Nid yw'r effaith yn ymwneud yn benodol â chau'r llyfrgell, ond o ran colli ased cymunedol. Mae Swyddogion y Cyngor wedi codi'r posibilrwydd y gellid defnyddio adeilad y Llyfrgell fel hwb cymunedol fyddai'n ymgorffori llyfrgell, y gellid ei ddefnyddio fel lle / adnodd i liniaru effaith adeiladu'r orsaf newydd ar breswylwyr. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn digwydd yn y tymor byr. Ar 18 Hydref 2017, argymhellodd y Bwrdd Trawsnewid na ddylid trin Llyfrgell Cemaes yn wahanol i unrhyw lyfrgell arall yn haen tri, ac fel y cyfryw, y dylid parhau i argymell ei chau. Pe awgrymir llyfrgell fel ffactor liniarol fel rhan o ddatblygiad Wylfa Newydd, er enghraifft, fel rhan annatod o hwb cymunedol, yna argymhellodd y Bwrdd Trawsnewid y byddir yn delio â hynny ar yr adeg honno, pe bai cyllid ar gael.

**11. Ystyriaethau Perthnasol**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy, sef sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor a gallu, cynnwys, integreiddio, cydweithio a'r defnydd ataliol o adnoddau wrth ystyried yr hyn sy'n cael ei gynnig.

Wrth ddatblygu ac ystyried y Strategaeth Ddrafft, rhoddwyd ystyriaeth i'r materion hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Adlewyrchir yr ystyriaethau hyn yng ngweledigaeth a nodau'r Strategaeth Ddrafft. Fel y gweithredir y Strategaeth Ddrafft, byddwn yn parhau i ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**12. Cyd-destun Ariannol**

**Byddai gwireddu'r Strategaeth Ddrafft yn arwain at arbedion o rhwng £49,983 a £72,575**. (gweler Atodiad 5).

Rhagwelir y bydd yr arbedion yn cael eu gwireddu yn ystod 2018-19, yn unol â'r rhaglen waith a nodir yn adran 14 isod.

Mae Atodiad 5 yn nodi'r arbedion y gallai'r Strategaeth Ddrafft eu cyflawni. Pennwyd cost 3 opsiwn o ran staffio.

a) Arbedion yn y strwythur staffio gan gadw staff

b) Arbedion yn y strwythur staffio gyda'r nifer leiaf bosibl o staff

c) Strwythur staffio sy'n cadw 22 awr o ran oriau staff (ar raddfa 3) o'r llyfrgelloedd fyddai'n cau o fewn strwythur staffio newydd i helpu i leihau effaith cau ac i ddiogelu perfformiad y Cyngor yn erbyn y WPLS yn nhermau lefelau staffio.

## 13. Prif Risgiau

### 13.1. Prif Risgiau

**Risgiau i Opsiynau Strwythur Staffio**

**13.1.1.** Strwythur Staffio Risgiau i **Opsiwn A**: Cyfanswm arbedion strategaeth sy'n cadw lefelau staffio cyfredol

- Ni fyddai'r gwasanaeth gyflawni'r Safon Staffio Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru - niferoedd staff cyffredinol, ond bydd perfformiad y gwasanaeth wella oherwydd newid swyddogaethau swydd a rhesymoli'r gwasanaethau a gweithio'n agosach gyda'r gymuned.

**13.1.2.** Risgiau Strwythur Staffio i **Opsiwn B**: Arbedion staffio'r strwythur -lleiafswm staffio isaf

1. Cyfyngu difrifol ar y gallu o fewn y Gwasanaeth i ddarparu opsiynau lliniaru yn yr ardaloedd hynny yn amodol ar gau llyfrgell. Efallai y bydd darpariaeth ehangach y llyfrgell symudol yn bosib ond nid gweithredoedd eraill e.e. 'cliciwch a chasglu' neu bwyntiau gollwng cymunedol. **Risg o Her Gyfreithiol**
2. Dirywiad pellach mewn perfformiad yn erbyn Safon Staffio Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, Bydd hyn yn effeithio ar berfformiad ym mhob Dangosydd a Safonau, ond yn enwedig y Safon Staffio, gan arwain at **risg o ymyrraeth weinidogol**
3. Cyfyngu'n sylweddol ar y gallu o fewn y gwasanaeth i gyflenwi absenoldebau staff sy'n arwain at gau annisgwyl, yn effeithio perfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a gwasanaeth i'r cyhoedd, yn enwedig yng nghyd-destun toriad cyllideb Staff Wrth Law sydd rhan o'r pecyn arbedion
4. Cyfyngiad pellach ar y gallu i wella a datblygu'r gwasanaeth i'r cyhoedd
5. Cyfyngu ar y gallu i hybu lefelau staffio yn Llyfrgell Neuadd y Farchnad Newydd (Caergybi), gan gyfyngu ar gyfleoedd i dyfu.
6. Risg o bwysau sy'n gysylltiedig â gwaith ar ein staff oherwydd lefelau staffio isel iawn, gan arwain at gynnydd mewn trosiant staff a lefelau salwch staff.

**13.1.3.** Strwythur Staffio Risgiau i **Opsiwn C**: Arbedion gan gadw 22 awr ar gyfer effeithiau lliniaru cau

1. Lliniaru opsiynau yn yr ardaloedd hynny yn amodol ar gau llyfrgell, e.e. 'Clicio a chasglu' neu bwyntiau gollwng cymunedol, yn bosibl ond nid i'r un graddau ag Opsiwn A.

2. Dirywiad pellach mewn perfformiad yn erbyn Safon Staffio Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, ond nid i'r un graddau ag Opsiwn A

### 13.2. Risgiau Cyffredinol

13.2.1. Mae gwireddu'r Strategaeth Ddrafft yn llwyddiannus yn dibynnu ar gydweithio rhwng cynghorau cymuned, partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth.

13.2.2. Mae gwireddu'r newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth (yn enwedig yn y cymunedau lle argymhellir gwneud y newid mwyaf) yn dibynnu ar drafodaethau parhaus gyda chynghorau cymuned a phartneriaid eraill; a gall y negydu hwn amlygu rhwystrau, diffyg capasiti, diffyg adnoddau, yr angen am fuddsoddiad neu unrhyw fater arall na ellir ei ragweld hyd yma.

13.2.3. Mae gwireddu'r Strategaeth Ddrafft hon hefyd yn dibynnu ar gydweithio gyda gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor. Mae'r rhaglen waith i weithredu'r strategaeth yn arwain at oblygiadau o ran adnoddau gwasanaethau eraill.

13.2.4. Gan fynd ymlaen o'r uchod, gall rhai o'r goblygiadau hyn fod yn destun penderfyniadau pellach gan y cyngor, yn enwedig o ystyried defnydd a dyfodol safleoedd unigol, ynghyd ag ymrwymiadau gwasanaethau eraill y Cyngor.

## 14. Camau nesaf ac amserlen

Pwyllgor Craffu: 13 Tachwedd 2017

Ar gyfer penderfyniad y Pwyllgor Gwaith: 27 Tachwedd 2017

## 15. Nodir amserlen weithredu ddangosol mewn perthynas â'r Strategaeth Ddrafft Arfaethedig:-

| |
|---|
| Ymrwymiad cadarn gan Gyngor Cymuned Llanfaelog erbyn 2 Ionawr 2018 |
| Gweithredu newidiadau yn y strwythur staffio erbyn Mawrth 2018 |
| Gweithredu'r newid o ran terfynu darpariaeth bresennol mewn tair cymuned (pedair o bosib, os nad yw Cyngor Cymuned Llanfaelog yn dangos ei ymrwymiad cadarn i Lyfrgell Rhosneigr) erbyn diwedd Mawrth 2018. |
| Gweithredu'r newid o ran sefydlu darpariaeth liniarol yn y tair cymuned (o bosib 4) o Ebrill 2018 ymlaen. |
| Gweithredu'r newid i'r Gwasanaeth Symudol o Ebrill 2018 |
| Gweithredu'r newid a sefydlu Llyfrgell a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad y Cyngor ym Miwmares (ac yn amodol ar ymrwymiad cadarn gan Gyngor Cymuned Llanfaelog, yn Rhosneigr) o Ebrill 2018 ymlaen. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Mae’r broses drawsnewid wedi ystyried ac ymgynghori ynghylch ystod eang o opsiynau posibl. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae’r ailfodelu’n cael ei gynnal mewn ymateb i gais Corfforaethol penodol o dan gylch gorchwyl y Bwrdd Trawsnewid Dysgu Gydol Oes. |

| CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| |

| D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae'r sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae'r sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw faterion staffio sy’n codi yn unol â phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig. Bydd angen ystyried unrhyw gostau diswyddo sy’n ynghlwm efo’r strategaeth ynghyd ag unrhyw oblygiadau TUPE fydd yn codi.<br>Mae’r adroddiad yn nodi gweithredu newidiadau i’r strwythur staffio erbyn Mawrth 2018 – a fydd unrhyw oedi tra’n disgwyl ymateb gan gynghorau a darparwyr eraill yn y gymuned cyn gallu cadarnhau’r strategaeth yn effeithio ar yr amserlen hyn o ystyried bydd angen rhoi cyfnodau rhybudd os oes newidiadau i gyntundebau/cyflogaeth? |
| 5 | **Eiddo** | Bydd angen ystyried y "Drwydded i feddiannu" yn adeilad Llyfrgell Cemaes. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **(TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bod y Pwyllgor yn argymell –<br><br>• Bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell ddrafft ar gyfer 2017-22, a<br><br>• Eu bod yn gweithredu'r newidiadau arfaethedig yn y Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd drafft 2017-2022 fel a ganlyn:<br><br>    • Cau Llyfrgell Cemaes, Llyfrgell Moelfre a Llyfrgell Niwbwrch, gan barhau i ymchwilio i gamau lliniaru megis pwyntiau mynediad cymunedol a / neu gynyddu'r ddarpariaeth symudol yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt gan y cau.<br><br>    • Datblygu model cydweithredol â Chanolfan Biwmares mewn perthynas â Llyfrgell Biwmares.<br><br>    • Derbyn ymrwymiad cadarn gan Gyngor Cymuned Llanfaelog mewn perthynas â Llyfrgell Rhosneigr erbyn 2 Ionawr, 2018. Os na ddarperir ymrwymiad cadarn, yna bwrw ymlaen i gau fel y pwynt bwled cyntaf uchod.<br><br>    • Er mwyn sicrhau'r arbedion mwyaf posibl, gweithredu Opsiwn B o fewn costau drafft y Gwasanaeth Llyfrgell (Atodiad 5 i'r adroddiad) tra'n derbyn y risgiau fel y nodir. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 - Strategaeth Drafft Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022<br>Atodiad 2 - Canfyddiadau Ymgynghori<br>Atodiad 3 - Gweithgareddau Ymgysylltu a Nodiadau Cyfarfodydd<br>Atodiad 4 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion (AECA)<br>Atodiad 5 - Drafft arbedion Strategaeth Drafft Gwasanaeth Llyfrgell |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Cynhwysir papurau cefndirol fel dolenni yn yr adroddiad. |

# Strategaeth Ddrafft Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn 2017-2022

## 1. Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn wedi ymgymryd ag Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell gyda'r nod o sicrhau y gellir cyflenwi'r gwasanaeth gorau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r prif ysgogwyr newid yn rhai ariannol a thechnolegol. Yn 2013, heriwyd Cyngor Sir Ynys Môn ("y Cyngor") i ganfod arbedion effeithlonrwydd o £16m yn y 3 blynedd oedd yn dilyn[1].

Yn ogystal, mae'n angenrheidiol i adolygu'r gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus yng ngolau newid technolegol sy'n effeithio ar: sut y mae pobl yn cael mynediad ac yn defnyddio'r cynnig craidd (darllen); sut y mae pobl yn diwallu eu hanghenion o ran gwybodaeth, a sut y mae pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn cael eu rhoi o dan fwy o anfantais fel yr ydym yn symud yn agosach fyth at gymdeithas 'digidol yn gyntaf'.

Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus sy'n gynhwysfawr ac yn effeithlon, fel sy'n ofynnol gan adran 7 o Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964[2]. Yn ogystal, mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (WPLS), a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Nid ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â statud, ond mae'r Cyngor yn cydnabod eu bod yn fodd defnyddiol o feincnodi gwasanaethau llyfrgell ar draws Cymru, ac yn rhoi sicrwydd i'r Gweinidog sy'n gyfrifol o ran y defnydd o'r gwasanaeth, ei safonau a'i ansawdd.

Nod **Strategaeth Ddrafft Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn 2017-2022** ("y Strategaeth Ddrafft") yw gosod sylfeini cynaliadwy cadarn a fydd yn caniatáu i ni wasanaethu ein preswylwyr a chyflawni'r gofynion statudol dros y blynyddoedd i ddod.

Nod y Strategaeth Ddrafft yw cyflenwi'r gwasanaeth gorau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac mae'n cael ei llywio gan yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan y Cyngor yn ystod haf 2017, gan gynnwys y sylwadau a wnaed gan randdeiliaid, ymgyngoreion a defnyddwyr yn ystod y broses honno.

## 2. Cyd-destun / Y broses hyd yma

Mae Cynllun Corfforaethol Ynys Môn 2013-17[3] yn nodi:

*Rydym yn awyddus i gadw ein lle a'n presenoldeb yng nghalon ein cymunedau gan droi ein*

[1] http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2014/04/02/f/n/i/cynllun-corfforaethol-2013---2017.pdf

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1964/75/contents

[3] http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2014/04/02/f/n/i/cynllun-corfforaethol-2013---2017.pdf **t.13**



DRAFT

*llyfrgelloedd yn 'ddrws ffrynt cyffredinol' i ni fel cyngor*

Byddai'r Cyngor yn:

*ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer y ddarpariaeth o Lyfrgelloedd*

Nodwyd y byddai'r mesur llwyddiant fel a ganlyn:

- *Gweithredu ar fodelau newydd o ran rheoli llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth ddiwylliannol*
- *Darpariaeth llyfrgell bwrpasol a chynaliadwy*

a nod y Cyngor fyddai:

*..lleihau costau cyffredinol y gwasanaethau hyn (hamdden, diwylliant a llyfrgelloedd) i'r Cyngor gan 60% dros gyfnod y cynllun hwn.*

O ganlyniad i'r ymrwymiadau hyn, ymgymerwyd ag Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell [4] a oedd yn dadansoddi testunau fel defnydd, anghenion ac opsiynau ar gyfer trawsnewid. Roedd yr adolygiad wedi nodi sawl opsiwn ar gyfer datblygu'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod Hydref 2015 i gasglu barnau ar yr opsiynau a nodwyd gan Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgell ac i wahodd unrhyw syniadau eraill. Cafwyd bron i 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarparwyd drwy holiaduron, sesiynau wyneb yn wyneb a gweithdai [5]. Er nad oes unrhyw opsiwn clir a ffefrir wedi ymddangos o'r atebion hyn, roedd tystiolaeth y byddai'n fanteisiol i geisio cyfleoedd ar gyfer modelau 'cefnogaeth gymunedol', yn gweithio gyda mentrau cymdeithasol neu ddarparwyr amgen i weithio gyda'r Cyngor i gynnal y gwasanaeth, yn hytrach nag unrhyw bosibilrwydd o ddileu'r gwasanaeth.[6]

Cynhaliwyd ail ymgynghoriad cyhoeddus ar strategaeth ddrafft y gwasanaeth llyfrgell 2017-2022 yn ystod haf 2017.

[4] http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/v/f/d/Adolygiad-Gwasanaeth-Llyfrgelleodd-a-Gwybodaeth-2014-15-13-11.pdf

[5] http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/ymgynghoriadau-blaenorol/arolwg-gwasanaeth-llyfrgell/127255.article?redirect=false

[6] http://www.ynysmon.gov.uk/cyhoeddi-canfyddiadau-ymgynghoriad-llyfrgelloedd/128048.article?redirect=false

Rydym wedi gwrando ar farnau ymatebwyr ac wedi ystyried eu sylwadau wrth ddyfeisio'r strategaeth hon. Mae hyn yn cynnwys y cynnig i sicrhau bod llyfrgelloedd yn:

- Cynnal gwasanaeth benthyca llyfrau a werthfawrogir yn fawr
- Cynnal darpariaeth TGCh a Rhwydwaith gref
- Parhau i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i wella eu sgiliau a dysgu
- Cyflenwi gwasanaethau gyda staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Gweithredu fel hwb o fewn y gymuned yn darparu gwybodaeth a gweithgareddau
- Hwyluso mynediad di-dor i wasanaethau'r Cygnor
- Dangos cysylltiad clir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[7]

## 3. Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn

Mae'r galw am wasanaethau llyfrgell yn newid. Yn genedlaethol, mae llai o alw am fenthyca llyfrau ac ymweld â llyfrgelloedd. Mae'r duedd hon yn weladwy ar draws Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn, er i raddau llai na hynny mewn sawl ardal arall yn y DU.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y Stratgaeth Llyfrgelloedd hon, ystyriwyd y canlynol fel rhan o Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion [8]

- Y defnydd o lyfrgelloedd (nifer y defnyddwyr) a chostau gweithredu
- Gwybodaeth Ddemograffig am gymunedau Ynys Môn, gan gynnwys y twf i'r dyfodol
- Lleoliad llyfrgelloedd sefydlog a lle bydd y llyfrgell symudol yn galw
- Patrymau defnydd o'r llyfrgell gan gwsmeriaid
- Maint dalgylchoedd llyfrgelloedd gan gynnwys pellteroedd teithio
- Lefelau amddifadedd mewn dalgylchoedd llyfrgelloedd
- Cyrhaeddiad addysgol plant
- Perchnogaeth ceir a chludiant cyhoeddus

---

[7] http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted

[8] Atodiad 4 Asesiad AECA

• Anghenion pobl a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb

• Perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell: Fframwaith 5 a 6 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

**4. Y Weledigaeth i'r Dyfodol**

*Mae llyfrgelloedd Ynys Môn yn lleoedd croesawgar i ddarllen, dysgu a darganfod – y tywysydd y gellir ymddiried ynddo yng nghalon ein cymunedau.*

Wrth wraidd y weledigaeth, ceir y nodau craidd:

**Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant** – Rydym yn cydnabod bod llyfrgelloedd cyhoeddus wedi cael eu hysgogi bob amser gan egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant.

**Ei gwneud yn hawdd i bawb ddefnyddio ein gwasanaethau** – Rydym yn cydnabod nad yw pawb yn gallu neu'n dymuno cael mynediad i'r gwasanaeth llyfrgell yn yr un modd, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaeth yn gynhwysol i bawb.

**Darparu gwasanaethau o safon uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer** – Byddwn yn cyflenwi adnoddau o safon uchel mewn mannau croesawgar.

**Bod yn dywysydd y gellir ymddiried ynddo** – Rydym ar gael i helpu i gael mynediad i wybodaeth mewn amgylchedd y gellir ymddiried ynddo.

**Partneriaeth gyda sefydliadau ac asiantaethau** – Rydym yn cydnabod bod gan bartneriaethau llwyddiannus rolau a chyfrifoldebau clir, ynghyd â disgwyliadau a reolir a chanlyniadau gweladwy ar gyfer bob partner.

**Staff** – Rydym eisiau i'n staff a'n gwirfoddolwyr eich helpu i wneud yn fawr o'ch llyfrgelloedd. Gwyddwn hefyd mai ein staff yw ein hased mwyaf ac rydym eisiau bod yn lle gwych i weithio ynddo. Rydym eisiau creu cyfleoedd i wirfoddolwyr.

**5. Sut y byddwn yn cyflenwi Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn i gyflawni'r weledigaeth hon**

Gan edrych i'r dyfodol, mae'n rhaid i ni fod yn realistig o ran yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn wasanaeth statudol y mae'n rhaid iddo weithredu o fewn y gyllideb sydd ar gael. Felly mae'r strategaeth ddrafft hon yn anelu at osod sylfeini cynaliadwy a chadarn a fydd yn caniatáu i ni wasanaethu preswylwyr yr ynys a chyflawni'r gofynion statudol yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell, ynghyd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion ("AECA") a'r ymgynghoriad cyhoeddus, yn caniatáu i ni gyflwyno strategaeth ddrafft a fydd yn cyflawni gofynion y gwasanaeth llyfrgell, yn ogystal â chynnig y gwasanaeth gorau bosibl i breswylwyr Ynys Môn.



DRAFT

Dengys tystiolaeth o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion[9] y gallai Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn symud i fod yn Wasanaeth Llyfrgell statudol tair haen ym Môn yn nhermau defnydd, angen, effaith a lleoliad strategol. Byddai patrwm o lyfrgelloedd sefydlog yn ychwanegol i'r Gwasanaeth Llyfrgell Symudol, y Gwasanaeth Llyfrgell i rai sy'n Gaeth i'w Tai a'r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion.

Mae'r categorïau haenog uchod wedi'u llunio yn dilyn dadansoddiad o batrymau/ystadegau defnydd ac maent yn dilyn arfer dda a nodwyd gan Awdurdodau Llyfrgell eraill yng Nghymru[10] a thrwy ystyried yr argymhellion gan Lywodraeth Cymru yn eu hadroddiad diwethaf ar ddyfodol gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, 'Pennu Cwmpas Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Newydd i Gymru'[11]. Maent hefyd yn seiliedig ar ofynion 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru .[12]

Mae'r Cyngor yn agored i'r posibiliadau o ran modelau 'cefnogaeth gymunedol', fel gweithio gyda mentrau cymdeithasol neu ddarparwyr amgen, gan gynnwys model Ymddiriedolaeth ar gyfer Gwasanaethau Llyfrgell Ynys Môn, a gall y Strategaeth Ddrafft hon gefnogi ystod eang o fodelau a gefnogir gan y gymuned.

Yng ngolau'r uchod, yn enwedig yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell, yr ymgynghoriad ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid a gynhaliwyd hyd yma a gweledigaeth ac amcanion y Cyngor, mae'r Strategaeth ddrafft hon yn argymell symud i batrwm o ddarpariaeth yn seiliedig ar:

A. Lyfrgelloedd Ardal
B. Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad yr Awdurdod
C. Gwasanaethau Symudol (Y Llyfrgelloedd Symudol, y Gwasanaeth i rai sy'n Gaeth i'w Tai a'r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion)
D. Pwyntiau mynediad posibl yn y gymuned

Dyma'r model posibl:

DRAFT

[9] Atodiad 4 AECA

[10] http://gov.wales/docs/drah/publications/150211-independent-trusts-community-libraries-cy.pdf

[11] hhttp://gov.wales/docs/drah/publications/151019-scoping-a-future-for-public-libraries-cy.pdf

[12] http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/libraries/public-library-standards/?skip=1&lang=cy

**Haen 1: Llyfrgelloedd Ardal:** Llyfrgell lawn amser, wedi'i staffio'n llawn, sydd ar agor am tua 40 awr yr wythnos, a gefnogir gan dîm proffesiynol ar lefel y Sir gyfan. **Llyfrgell Caergybi a Llyfrgell Llangefni**

**Haen 2: Llyfrgelloedd Cymunedol dan arweiniad y Cyngor gydag elfen o gefnogaeth gan y gymuned:** Tua 20 awr o ran oriau agor gyda staff craidd a ddarperir gan yr Awdurdod, cefnogir y staff rheng flaen (ar lefel cangen) gan dîm proffesiynol ar lefel y Sir gyfan. Ceir potensial i gynnwys cymorth gan y gymuned o amgylch yr oriau llyfrgell craidd. **Llyfrgell Amlwch, Llyfrgell Benllech a Llyfrgell Porthaethwy.**

**Haen 3: Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad y Cyngor:** Tua 10-12 awr o ran oriau agor gyda staff craidd a ddarperir gan yr Awdurdod, cefnogir y staff rheng flaen (ar lefel cangen) gan dîm proffesiynol ar lefel Sir gyfan. Bydd yr adeiladau yn yr haen hon yn cael eu trosglwyddo i'r trydydd sector gyda'r oriau llyfrgell craidd yn aros o fewn darpariaeth / strwythur y Gwasanaeth Llyfrgell. **Llyfrgell Biwmares a Llyfrgell Rhosneigr**

Ochr yn ochr â'r uchod, cynhelir adolygiad llawn o lwybrau'r Gwasanaeth i rai sy'n Gaeth i'w Tai (ar gyfer y rheiny nad ydynt yn gallu gadael eu cartref oherwydd salwch neu anabledd) a'r Llyfrgelloedd Symudol a'r mannau y byddant yn galw ynddynt.
O ganlyniad, mae newidiadau i'r maes gwasanaeth hwn yn anochel wrth fynd ymlaen. Er enghraifft, mae'n bosibl y gweithredir modelau amgen, fel partneru gyda'r trydydd sector i gyflenwi elfennau o'r Gwasanaeth i rai sy'n Gaeth i'w Tai. Fodd bynnag, bydd Gwasanaethau Symudol gan gynnwys Llyfrgelloedd Symudol a'r Gwasanaeth i rai sy'n Gaeth i'w Tai, yn parhau i fod yn rhan o ddarpariaeth Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn.

DRAFT

**6. Tabl sy'n rhoi manylion yr hyn y mae bob haen yn ei feddwl:**

| Haen | Y cyfleusterau a fydd ar gael: |
|---|---|
| **Haen 1**<br>**Llyfrgell Ardal**<br><br>**gyda:**<br><br>Dros 50,000 o ymweliadau blynyddol<br>a,<br>Dros 50,000 o fenthyciadau blynyddol<br>a<br>**Dros 8,000 sesiwn o ddefnydd cyfrifiaduron** | • Lleolir y llyfrgell yn nalgylch y brif ardal siopa<br>• Oriau agor o rhwng 30 a 40 awr yr wythnos<br>• O leiaf 10,000 eitem o stoc ar gael mewn amrywiaeth eang o fformatau, gyda rhwng 10,000 a 15,000 eitem o stoc yn y llyfrgelloedd mwy<br>• Cysylltiad ag e-lywodraeth ac e-ddysgu a'r ddarpariaeth o gasgliadau arbenigol, e.e. - Hanes Lleol, Iechyd a Lles, setiau o lyfrau ar gyfer Grwpiau Darllen<br>• o leiaf 16 cyfrifiadur, gwasanaeth Wi-Fi am ddim, lle i ddefnyddio gliniaduron a thabledi ar gael i'w defnyddio |

| | |
|---|---|
| | • Lle o fewn yr ardal blant ar gyfer gweithgareddau neu fynediad rhwydd i le priodol<br>• Lle, neu fynediad i le, ar gyfer cynnal digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau celf<br>• Ystyriaeth barhaus i gyd-leoli â gwasanaethau tebyg neu bartneriaid |
| **Llyfrgelloedd Cymunedol dan arweiniad y Cyngor gydag elfen o gefnogaeth gan y gymuned: tua 20 awr o wasanaeth craidd a ddarperir gan y Cyngor**<br><br>gyda:<br><br>Dros 12,000 o Ymweliadau Blynyddol<br>a<br>Dros 20,000 o Fenthyciadau Blynyddol<br>a<br>Dros 1500 o Sesiynau Cyfrifiaduron | Lleolir y llyfrgell ger canol y dref / pentref neu o fewn / yn gyfagos i ganolfan gymuned / ysgol<br><br>• Cyd-leoli gyda phartneriaid o'r gymuned / y cyngor neu eraill lle bo modd<br>• Oriau agor: lleiafswm o 20 awr<br>• Elfen o hunanwasanaeth, yn dibynnu ar anghenion lleol ac unrhyw ddefnydd arall a wneir o'r safle cymunedol<br>• O leiaf 6 chyfrifiadur ar gael i'r cyhoedd<br>• Wi-Fi am ddim<br>• Amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth ar bapur ac ar-lein<br>• Lle i gynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cymunedol lle bo modd<br>• Defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer gweithgareddau ychwanegol neu ymestyn oriau agor y tu hwnt i oriau craidd |
| **Llyfrgell a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad y Cyngor:**<br><br>Tua 10-12 awr o wasanaeth craidd a ddarperir gan y Cyngor.<br><br>gyda:<br><br>Llai na 12,000 o Ymweliadau Blynyddol<br>a<br>Llai na 20,000 o Fenthyciadau Blynyddol<br>a<br>Llai na 1500 o Sesiynau Cyfrifiaduron | Lleolir y llyfrgell ger canol y dref / pentref neu o fewn / yn gyfagos i ganolfan gymuned / ysgol<br><br>• Oriau agor: lleiafswm o 10 awr<br>• O leiaf 5,000 eitem o stoc<br>• Cyfrifiaduron ar gael i'r cyhoedd<br>• Wi-Fi am ddim<br>• Amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth ar bapur ac ar-lein<br>• Elfen o hunanwasanaeth, yn dibynnu ar anghenion lleol ac unrhyw ddefnydd arall a wneir o'r safle cymunedol<br>• Lle i gynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cymunedol lle bo modd<br>• Cyd-leoli gyda phartneriaid o'r gymuned / y cyngor neu eraill, lle bo modd<br>• Defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer gweithgareddau ychwanegol neu ymestyn |



DRAFT

| | |
|---|---|
| | oriau agor y tu hwnt i oriau craidd |
| **Gwasanaethau Symudol**<br><br>• **Llyfrgelloedd Symudol yn y gymuned**<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>• **I'r Cartref**<br><br><br><br><br>**Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion** | • Yn gwasanaethu poblogaeth o rhwng 200 a 1000 o fewn pellter cerdded o chwarter milltir<br>• Cyfnod amser pob arhosiad – rhwng chwarter a thri chwarter awr<br>• Dewisir y mannau galw yn ôl defnydd blaenorol, y pellter i'r adeilad llyfrgell agosaf, mynediad i gludiant cyhoeddus ac ystyriaethau iechyd a diogelwch<br>• Ymweliadau misol<br><br><br>• Cynigir 'Gwasanaeth i rai sy'n Gaeth i'w Tai' i'r rheiny na allant ymweld â llyfrgell sefydlog neu'r gwasanaeth llyfrgell symudol oherwydd salwch neu ffactorau eraill<br>• Ymweliadau misol<br><br>Bydd y fan lyfrgell symudol i ysgolion yn ymweld â phob ysgol gynradd sy'n tanysgrifio i'r gwasanaeth, a gall disgyblion fenthyca llyfrau fel y bo angen.<br><br>• Pecynnau Prosiect Thematig<br>• Ymweliadau a gweithgareddau Mynediad i Awdur<br>• Mae costau tanysgrifio yn seiliedig ar niferoedd disgyblion |

**Casgliad**

O fewn cyd-destun yr adnoddau sydd ar gael, bydd y Strategaeth Ddrafft hon yn darparu sylfeini cadarn a chynaliadwy ar gyfer cyflenwi a datblygu gwasanaeth llyfrgell effeithlon ac effeithiol i ddiwallu anghenion y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr llyfrgell, o fewn cyd-destun Safonau Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r fframwaith statudol a nodir yn Neddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

**ATODIADAU**

Atodiad 4 : Asesiad Effaith  Cydraddoldeb ac Anghenion  (AECA)

DRAFT

**Arolwg Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth: Y Ffordd Ymlaen.**
**CANFYDDIADAU YMGYNGHORIAD 2017**

## 1 CYFLWYNIAD

1.1. **Mae Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964** yn gosod **dyletswydd statudol** bob awdurdod lleol ddarparu gwasanaeth Llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon, mewn cyd-destun o angen lleol: hynny yw, yn benodol anghenion y rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio yn yr ardal leol.Mae Deddf 1964 yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i oruchwylio a hybu'r gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus a sicrhau fod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau, yn ogystal mae'n rhoi hawliau arbennig iddo weithredu lle mae awdurdod lleol yn torri ei ddyletswydd[1]

1.2. Mae gofynion statudol darpariaeth gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru wedi eu diogelu gan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964. **Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru** yn caniatáu i ni asesu a yw gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf 1964. Maent hefyd yn asesu effeithlonrwydd yn nhermau'r modd o gyflwyno gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru.[2]

**Bydd rhaid i unrhyw batrwm darparu yn y dyfodol dalu sylw dyledus i Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 a pherfformiad yr Awdurdod yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.**

1.3. Digwyddodd yr ymgynghoriad hwn dros gyfnod o ddeuddeng wythnos yn nhymor yr haf 2017.

**1.4. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd rhoi gwybod i broses gwneud penderfyniadau y Cyngor ac i ddatgelu:**

- A ydi Trigolion Môn yn cytuno gyda Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell – Y Ffordd Ymlaen 2017-22?
- I ba raddau y mae'r ymagwedd tair haen yn un sydd yn cael ei chefnogi?
- Ennyn barn trigolion ar effaith posibl unrhyw newidiadau i'r Gwasanaeth Llyfrgell arnyn nhw fel unigolion
- Llywio'r broses gwneud penderfyniadau

1.5. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ailgynllunio ei wasanaethau llyfrgell ar gyfer y dyfodol, yn unol ag anghenion newidiol dinasyddion. Ar yr un pryd, mae angen i'r cyngor wneud arbedion sylweddol i lawer o wasanaethau, yn cynnwys llyfrgelloedd.

1.6. Mae'r adroddiad hwn yn cyfathrebu crynodeb o ganfyddiadau ymarfer ymchwil ac ymgynghori a gynhaliwyd o fis Gorffennaf hyd ddiwedd Medi 2017. Bwriedir i'r adroddiad

[1] Cymerwyd o Adran y Cyfryngau Diwylliannol a Chwaraeon http://www.culture.gov.uk/what_we_do/libraries/3416.aspx

[2] http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/libraries/wpls/?lang=en

roi **mewnbwn i'r drafodaeth barhaus ynghylch dyfodol llyfrgelloedd Ynys Môn**, gan ddarparu tystiolaeth i bob parti gyfeirio ato.

1.7. Bwriad yr ymgynghoriad hwn oedd cael barn pobl y Sir gyfan. Ymgynghorwyd ar Strategaeth Ddrafft yn cynnig Gwasanaeth Llyfrgell wedi ei seilio ar dair haen o wasanaeth.

1.8. Mae pob ymateb i'r ymgynghoriad, yn eu ffurfiau amrywiol, wedi eu cydnabod ac wedi eu ystyried wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn. Lle cyflwynwyd sylwadau cyffredinol drwy'r sianelau ymgynghori ffurfiol maent wedi eu dadansoddi a'u cynnwys fel "themâu ymateb" o fewn yr adroddiad hwn.

1.9. Denodd yr holiadur ymgynghori ar-lein ac all-lein ("yr arolwg ymgynghori") ymateb sylweddol (450 o ymatebion llawn a 28 o ymatebion anghyflawn) ; yn ogystal bu 748 o ymatebion wyneb i wyneb.

## 2 METHODOLEG

2.1 Mae'r adroddiad yn cyfeirio at ganfyddiadau o ystod o weithgareddau, a oedd yn tynnu ar wahanol fethodolegau casglu data.

| **Beth** | **Lle a pham** | **Pwy** |
|---|---|---|
| Arolwg ymgynghoriad agored | Ar lein ac ar bapur | Unrhyw ddinesydd. Cyfrannodd 478 o bobl eu barn yn y ffordd hon |
| Cyfarfodydd Ardal | Yng nghymunedau'r llyfrgelloedd Haen 3 gan y rhagwelir mai yno y mae'r Strategaeth yn debygol o gael y fwyaf o effaith | Unrhyw ddinesydd. |
| Sesiynau Galw i Mewn | Pob Llyfrgell, Cyswllt Môn, Canolfannau Hamdden – Hyrwyddo i drigolion yn ogystal ârhoi cyfle i pobl drafod a holi yn anffurfiol am y Strategaeth heb orfod gwrando ar gyflwyniad | Unrhyw ddinesydd. |
| Ymgynghoriad Pobl Ifanc | Fforwm Ieuenctid, Cynghorau Ysgol, Grwpiau Ffocws - pwysig cael barn y garfan yma o'r boblogaeth gan mai sicrhau gwasanaeth sydd yn addas at eu anghenion nhw i'r dyfodol ydym ni | Pobl Ifanc |

| | | |
|---|---|---|
| Sesiynau Allgyrraedd | Fforwm Tai Gwarchod<br>Sioe Môn<br>Dyddiau Hwyl i'r Teulu, Oriel Môn, Moelfre, Amlwch<br>Merched y Wawr, Llanddeusant<br>Sesiwn Lleisiau Lleol, Gwelfor (ceir rhestr llawn yn Atodiad3)<br>- Sicrhau ein bod ni yn rhannu'r neges am yr ymgynghoriad mor eang a phosibl | Trigolion Môn a rhanddeiliaid |

2.2 Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad yn ystod Gorffennaf, Awst a Medi 2017:

2.3 Y dulliau a ddefnyddiwyd oedd:

1. Arolwg ymgynghoriad agored: Holiaduron papur ac ar lein (sampl hunan-ddethol)
2. Sesiynau grŵp trafod a gynhaliwyd gyda grwpiau a dargedwyd – e.e. Cynghorau Ysgol; fforwm tai gwarchod; Merched y Wawr, Grwpiau Ffocws Lleisiau Lleol.
3. Gohebiaeth a dderbyniwyd – llythyrau
4. Cyfarfodydd cyhoeddus mewn ardaloedd penodol
5. Sesiynnau galw i mewn
6. Holi a thrafod mewn digwyddiadau mawr –e.e. Sioe Môn

## 3 NEGESEUON ALLWEDDOL O'R YMGYNGHORIAD

3.1 Mae'r negeseuon allweddol a ganlyn yn grynodeb lefel uchel o'r prif bwyntiau a wnaed yn rhan o'r ymgynghoriad. Nid ydynt wedi eu bwriadu i fod yn llwyr gynrychioliadol; maent yn adlewyrchu sylwadau a wnaed drwy'r amrywiaeth o wahanol sianelau sydd ar gael:

• Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r Strategaeth Draft gyda 51.88% o'r rhai gwblhaodd holiadur yn cytuno neu'r cytuno'n gryf gyda'r Strategaeth Draft.

• Roedd 71.53% yn cytuno gyda'r ymagwedd haenau, ond nid o anghenrhaid yn cytuno fod eu llyfrgell o ddewis yn yr haen gywir.

• Dywedodd 44.5% y bydden nhw yn peidio a defnyddio'r Gwasanaeth Llyfrgell petai eu llyfrgell leol yn cau

• Dylid adolygu'r Gwasanaeth Llyfrgell Teithiol fel rhan o'r broses trawsnewid er mwyn lliniaru effaith unrhyw newid ac yna yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y defnydd gorau yn cael ei wneud ohono.

• Ceir thema cyson bod llyfrgelloedd wedi eu marchnata'n wael ac fod prinder hysbysebu ac arwyddion i ddangos lle mae nhw.

• Pobl yn nodi eu bod yn gweld effaith newidiadau ar eraill (pobl hŷn, teuluoedd heb geir, rhai sydd yn chwilio am waith etc) hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi eu effeithio eu hunain. Hefyd effaith posibl arnyn nhw i'r dyfodol pe byddai eu sefyllfa yn newid.

• Gwasanaeth sydd yn bwysig – adeiladau yn llai pwysig

• Nifer yn awgrymu cyflwyno caffi neu beiriant coffi er mwyn creu incwm a chreu awyrgylch mwy hamddenol

• Teimlad cryf fod gormod o bwysau yn cael ei roi ar garfan fechan o wirfoddolwyr sydd yn heneiddio i gynnal gwasanaethau sydd yn bwysig i'r cymunedau

• Nifer o sylwadau am addasu oriau agor llyfrgelloedd i roi cyfle i bobl sydd yn gweithio a phlant sydd yn yr ysgol i gael mynediad

• Trigolion yn poeni am sut fyddan nhw ac eraill yn cael mynediad at y gwasanaeth wrth iddynt heneiddio gan fod trafnidiaeth gyhoeddus yn wael mewn ambell ardal

• Nifer fawr yn poeni am effaith newidiadau i'r Gwasanaeth ar sgiliau plant a chenedlaethau'r dyfodol

• Pryder yn cael ei ddangos am ddiffyg gwasnaethau mewn ardaloedd gwledig a'r ffaith fod colli llyfrgell o bosibl yn cythryblu'r sefyllfa

• Canfyddiad fod angen gwneud mwy o ddefnydd o'r adeiladau waeth beth fydd patrwm rhain i'r dyfodol

• Awgrymiadau y dylid cael mwy o wasanethau'r Cyngor yn y Llyfrgelloedd i bobl beidio gorfod teithio i Langefni i wneud bob dim

• Cafwyd awgrymiadau hefyd y dylid lleihau'r gwasanaeth yn y llyfrgelloedd Haen 1 er mwyn amddiffyn y gweddill

**4 DADANSODDIAD O AROLWG YMGYNGHORI AGORED** (copi os yw'r holiadur ar gael ar gais)

**4.1 Cyfyngiadau i'r Arolwg**

Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn cynrychioli barn y bobl hynny a gymerodd ran. Fel ymgynghoriad cyhoeddus agored, ni ddefnyddiwyd unrhyw dechneg samplu i gynhyrchu ymchwil gynrychioliadol – mae'r ymateb yn hunan-ddetholiadol gan y gallai unhywun â diddordeb gymryd rhan.

4.2 Cyfanswm yr holiaduron arolwg ymgynghori agored a ddychwelwyd oedd 478; 242 copi caled/papur; cwblhaodd 236 ar lein.

**4.3 Penawdau'r rhai a ymatebodd i'r Holiadur Ymgynghori agored yw**:

• Mynegodd bron i 97% o ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn Ynys Môn

• Bron 63% yn fenywaidd

• Roedd 50.58% (215) dros 66 oed

• Roedd 45.12 (185) rhwng 25 a 64

• Roedd 3.25% o gefndiroedd Ethnigol leiafrifol (BME) (pob. Ynys Môn =1.2%)

• Dywedodd 94.26% o'r bobl a atebodd y cwestiwn am ethnigrwydd eu bod yn Wyn

• Roedd 13.03% yn anabl

• Roedd 2.03% yn Lesbiaid yn Hoyw neu'n Ddeurywiol (LGB)

• Mae gan 66% grefydd neu gred grefyddol

4.4 Denodd yr holiadur yn bennaf ymateb gan aelodau presennol llyfrgelloedd (97%). Mae hyn yn gyson ag arolygon cyffelyb mewn lleoedd eraill, fodd bynnag er mwyn sicrhau bod llais rhai nad ydynt yn defnyddio yn cael ei glywed a'i gynnwys, cynhaliwyd nifer o weithgareddau ychwanegol ac fe adroddir arnynt ar wahân isod.

## 5 SESIYNAU ESTYN ALLAN

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgysylltu eraill ac fe gafwyd cysylltiad wyneb i wyneb gyda 748 o unigolion. Nid oedd 207 (27.67%) o rhain yn ddefnyddwyr llyfrgell. Isod ceir y prif negeseuon o'r gweithgareddau ac fe geir nodidadau llawn ohonynt yn Atodiad 3

### 5.1 YMGYNGHORIAD POBL IFANC

#### 5.1.1 Ymgynghoriadau Ysgolion Uwchradd

- YSTJ – Grwp Ffocws o ddisgyblion Blwyddyn 7
- Mae rhai o'r grŵp yn defnyddio llyfrgelloedd a'u gweld fel rhywle i gwrdd ag ffrindiau ar ol ysgol. O'r rheini nad ydynt erioed wedi defnyddio llyfrgell, nid oedd ganddynt fawr ddim cydnabyddiaeth o'r gwasanaeth ac awgrymwyd marchnata a hyrwyddo mewn ysgolion. Dangoswyd pryder am eraill sy'n defnyddio llyfrgelloedd gan gyfeirio at bobl hyn a phobl o bosibl gyda anableddau o bosib yn methu teithio ymhellach i gael mynediad at y gwasanaeth. Awgrymwyd defnydd o gludiant cymunedol fel modd o cyraedd llyrgelloedd. Rhoddodd y grŵp awgrymiadau ynghylch yr hyn maen nhw'n ei feddwl sy'n bwysig mewn llyfrgell

- YUB – Cyngor yr Ysgol
  O'r 10 a oedd yn bresennol nid oedd dim un ohonynt yn defnyddio'r Gwasanaeth Llyfrgell. Cafwyd awgrymiadau am beth fyddai yn denu nhw i ddefnyddio'r Gwasanaeth ac fe nodwyd nad oes Llyfrgell yn ardal Talybolion.
  Awgrymwyd y dylid cau llyfrgelloedd llai a buddsoddi yn y rhai mwy.

#### 5.1.2 Ymgynghoriadau Ysgolion Cynradd

- Ysgol Gynradd Amlwch – Cyngor yr Ysgol – Byddai'r plant yn drist o weld Llyfrgelloedd yn cau. Gweld y llyfrgell fell le tawel i fynd ond fe fydden nhw'n hoffi mwy o liw a chadeiriau cyfforddus i ymlacio ynddyn.
- Ysgol Llanbedrgoch – Grwp Ffocws o Flynyddoedd 5 a 6 – Defnyddia'r holl ddisgyblion lyfrgelloedd ac roedd ganddynt wybodaeth dda o'r hyn y gallent ei wneud mewn llyfrgell. Roeddent yn ymwybodol iawn o'r effaith bosibl ar bobl hŷn a'r rhai â phlant pe bai llyfrgell yn cau ac roeddent yn pryderu sut y byddai pobl yn cyrraedd llyfrgell arall os nad oedd car ganddynt. Mynegwyd y byddent yn drist ac yn siomedig pe bai eu llyfrgell leol yn cau. Mynegwyd eu bod yn ffeindio'r oriau agor yn cyfyngedig "bob amser rwyf am fynd yno mae wedi cau", roedd un ferch yn frwdfrydig iawn i godi potensial oriau agor dydd Sul. Roeddent yn mynegi manteision llyfrgelloedd yn glir, e.e. rhywle i siarad a gwella eu sgiliau Cymraeg a magu hyder.
- Ysgol Rhoscolyn – Cyngor yr Ysgol – Nifer yn defnyddio Llyfrgell Caergybi gyda'u teuluoedd ac yn gyffroes i gael llyfrgell newydd yn Neuadd y Farchnad. Gweld effaith cau llyfrgelloedd ar eraill er na fyddan nhw'n gweld effaith eu hunain. Cafwyd awgrymiadau am

sut i wneud llyfrgell yn fwy deniadol ac fe nodwyd nad oedd digon o wybodaeth am beth sydd ar gael – angen marchnata mwy

### 5.1.3 Llais Ni

- Gwahoddwyd gynrychiolwyr y Gwasanaeth Llyfrgell i gyfarfod Llais Ni yn Llangefni (19/07/17). Mae Llais Ni yn brosiect sy'n gweithio gyda plant a phobl ifanc i sicrhau y clywir eu lleisiau ar y materion sy'n bwysig iddynt.
- Mynychodd 7 o bobl ifanc rhwng 12 a 24 oed y sesiwn. Cyflwynwyd y Strategaeth Ddrafft i'r bobl ifanc ac fe gafwyd trafodaeth frwd ynglyn a'r haenau a beth fyddai'n bosibl. Clywyd barn gref nad oedd y bobl ifanc yn gwrthwynebu cau rhai llyfrgelloedd pe byddai hynny'n golygu parhad yn y gwasanaeth. Nododd bron bob un eu bod yn teithio i'r llyfrgell beth bynnag.
- Roedd 2 o'r 7 a fynnychodd yn defnyddio llyfrgell yn rheolaidd a dwy arall yn achlysurol ond y prif rwystr i ddefnyddio'r llyfrgell i'r dair nad oedd yn defnyddio'r gwasanaeth o gwbl oedd delwedd.

## 5.2 Fforwm Tai Gwarchod Ynys Môn

- Gan fod y sesiwn hwn yn cymryd lle cyn y cyfnod ymgynghori swyddogol fe'i ddefnyddiwyd i rannu gwybodaeth ar yr ymgynghoriad a sut y gellir cymryd rhan.
- 50 o gyfranogwyr.
- Cyflwynwyd y Strategaeth Ddrafft i'r gynulleidfa a chafwyd trafodaeth ar be allai goblygiadau'r Strategaeth fod. Gan fod y mwyafrif yn bresenol yn byw yn ardal Caergybi cafwyd cwestiynau penodol am ddyfodol y Gwasanaeth yng Nghaergybi.

## 5.3 Sesiynau galw mewn yn y Llyfrgelloedd (Nodiadau llawn yn Atodiad 3)

- Cynhaliwyd Sesiwn ym mhob un o'r 10 Llyfrgell
- Cafwyd ymateb cymysg yn yr ardaloedd gyda defnyddwyr Llyfrgelloedd Haen 1 yn nodi na fydden nhw'n cael eu effeithio gan y newidiadau arfaethedig.
- Defnyddwyr yn rhai Llyfrgelloedd yn dadlau bod eu llyfrgell yn yr haen anghywir ac y dylai fod ar agor am oriau hirach.
- Cafwyd sylwadau mewn un llyfrgell yn nodi eu bod yn teimlo nad oedd ei lleoliad yn addas gan ei fod yn bell o'r arhosfan bws ac ar ben rhiw o'r pentref oedd yn ei gwneud yn annodd i bobl hŷn. Pobl yn ei chael yn haws i ddal y bws yn y pentref a mynd i lyfrgell gyfagos.
- Ym mhob achos nodwyd pwysigrwydd staff gwybodus a chymwys yn y llyfrgelloedd.
- Mewn sawl llyfrgell cafwyd neges am bwysigrwydd y llyfrgell fel man cyfarfod ac fel man sydd yn cyfrannu at iechyd a lles unigolion ac yn lleihau unigedd i rai.

## 5.4 Cyfarfodydd Cyhoeddus Cymuned (Nodiadau llawnyn Atodiad 3)

- Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn ardaloedd y Llyfrgelloedd yn Haen 3 (5 ardal – Biwmares, Cemaes, Moelfre, Niwbwrch a Rhosneigr)
- Cafwyd ymateb amrywiol ym mhob ardal gyda chynlleied a 2 aelod o'r cyhoedd yn Moelfre a chynifer a 20 yng Nghemaes.
- Ym Miwmares dau brif neges a gafwyd, nad oedd pobl yn cytuno y dylai fod yn Haen 3 ac fod gwrthwynebiad i leihau yr oriau.
- Nodyn positif a gafwyd ym Miwmares oedd fod y gymuned yn gefnogol o fwriad grwp rheolio Canolfan Biwmares i ddatgan bwriad ffurfiol i gydweithio gyda'r Cyngor Sir i barhau'r gwasanaeth.
- Nodwyd pryder yn Cemaes bod llawer o asedau eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Cyngor Cymuned, sef y toiledau a'r parcio - a yw'n gofyn iormod o'r gymuned i ddisgwyl iddynt gymryd ased arall?

- Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y rhai a oedd yn bresennol yn Cemaes geisio gweithio gyda chymunedau cyfagos i sicrhau dyfodol y Llyfrgell
- Codwyd pryder yn y cyfarfod yn Llanfaelog ynghylch gallu, ariannol a dynol, o fewn y gymuned i gymryd ased arall.
- Roedd y trafodaethau yn Niwbwrch yn bennaf o gwmpas costau rhedeg y llyfrgell gyda'r ffigurau a ddyfynnwyd yn cael eu hesbonio gan swyddogion. Yn dilyn trafodaeth lawn a ffug, penderfynwyd y byddai'r Cyngor Cymuned a Sefydliad Prichard Jones yn archwilio unrhyw botensial i gydweithio i ddiogelu'r llyfrgell.
- Roedd y drafodaeth yn Moelfre yn gyfyngedig, yn bennaf oherwydd y niferoedd oedd yn bresennol. Fodd bynnag, cytunodd y rhai a oedd yn bresennol mewn egwyddor gyda'r Strategaeth Ddrafft.
- Cafwyd penderfyniad i fynd â'r drafodaeth yn ôl i'r Cynghorau Cymuned priodol

## 5.5 GOHEBIAETH A DDERBYNIWYD

### 5.5.1 Prif negeseuon

Crynodeb o'r ymatebion gan y Gymuned

- **Canolfan Biwmares ( Cwmni Cydweithredol)**
  Hwn yw cynghori, yn dilyn cyfarfod misol Cyfarwyddwyr Canolfan Biwmares ddydd Mawrth 11 Ebrill 2017, penderfynwyd yn unfrydol y dylid cynghori'r Cyngor Sir y dylid cofrestru Diddordeb Ffurfiol wrth gymryd y gwaith o redeg y Llyfrgell ym Miwmares. gofynnodd unwaith y cytunir y gellir cynnal trafodaethau i ddod â'r Llyfrgell o dan y brydles bresennol sy'n bodoli rhyngom ni a'r Cyngor Sir. Anfonir llythyr ffurfiol ar bapur Pennawd atoch maes o law.

- **Cyngor Tref Amlwch**
  Wedi trafod y ddogfen ymgynghori diweddaraf ar ddyfodol Llyfrelloedd Mon, hoffwn gadarnhau bod Cyngor Tref Amlwch yn falch o weld bod Llyfrgell Amlwch wedi ei gynnwys yn Haen 2. Mae’r aelodau yn gefnogol iawn o’r cynnig byddai’r Llyfrgell y dref yn parhau ar agor 20 awr yr wythnos gyda’r gwasanaeth yn cael ei gynnal gan aelodau staff proffesiynnol.

- **Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf**
  Mae'r Aelodau yn gefnogol i'r cynnig yn y ddogfen Ymgynghoriad i gadw'r gwasanaeth cyfredol i Lyfrgell Benllech gyda gobaith o fewnbwn gan y gymuned leol i ehangu defnydd o'r safle.Roedd diddordeb gan yr aelodau yn y syniad o gyd leoli gyda phartneriaid o'r gymuned , yn benodol y posibilrwydd o gael swyddfa i Gyngor Cymuned Llanfair M.E o fewn yr adeilad presennol .

- **Cyngor Cymuned Rhosneigr**
  Yn dilyn cyfarfod diwethaf y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar y 26ain o Orffennaf. Cytunodd aelodau pwyllgor Cyngor Cymuned Llanfaelog mewn egwyddor y byddai gan y cyngor cymuned ddiddordeb mewn diogelu llyfrgell Rhosneigr i'r gymuned. Fodd bynnag, byddai hyn yn disgwyliedig ar mwy o wybodaeth ar ôl ymgynghori

- **Cyngor Cymuned Llanbadrig**
  1. Rydym yn cydnabod trylwyredd yr adolygiad strategol y Cyngor o'r gwasanaeth llyfrgell a diolchwn i’r Prif Weithredwr a staff y Llyfrgell am eu presenoldeb yn Cemaes i egluro a thrafod y strategaeth.
  2. Mae'n ymddangos i ni yn debygol mai canlyniad yr adolygiad strategol yw na fydd IOACC yn parhau i ariannu costau rhedeg a chynnal adeilad presennol Cemaes Library.
  3. Credwn fod gwasanaeth llyfrgell parhaus yn Cemaes yn gyfraniad hanfodol i fywyd

cymunedol Cemaes a'r cymunedau cyfagos.
4. Rydym yn cydnabod bod yr adeilad Llyfrgell presennol yn ased sydd heb ei ddefnyddio a bod ganddo'r potensial i ddarparu gwasanaethau ychwanegol ac oriau agor estynedig.
5. Bydd Cyngor Cymuned Llanbadrig yn cysylltu â Chynghorau Cymuned cyfagos i benderfynu a ellid cael menter ar y cyd i greu cefnogaeth gymunedol i elusen dan arweiniad gwirfoddol a allai gymryd cyfrifoldeb am adeilad y llyfrgell. Byddwn hefyd yn cysylltu â chyrff gwirfoddol lleol sefydledig i archwilio a allai fod â diddordeb mewn cefnogi menter o'r fath.

- **Cyngor Cymuned Llaneilian**
  Mae Cyngor Llaneilian wedi trafod dyfodol llyfrgelloedd yr Ynys ers rhai misoedd pellach. Wrth ddarllen y ddogfen ymgynghori diwethaf, roedd yr aelodau yn falch gweld bod llyfrgell Amlwch yn parhau i gynnig 20 awr o wasanaeth. Teimlai'r aelodau bod wir angen diogelu'r llyfrgelloedd gweldig yn ogystal a'r prif lyfrgelloedd yn Llangefni a Chaergybi. Yn wir teimlwyd y dylid cwtogi oriau rheini oes oedd angen er mwyn diogelu gwasanaeth yn y llyfrgelloedd llai. Teimlai'r aelodau bod wir angen edrych ar y defnydd o'r llyfrgell symudol ac y byddai posib arbed arian yma. Byddai hysbysebu yn gyhoeddus pa bryd fydd y bws yn ymweld a gwahanol safleoedd efallai yn denu mwy o ddefnydd ohono

- **Cyngor Cymuned Rhosyr**
  Pawb yn cefnogol o gadw y Llyfrgell cafodd y mater or codi arian ddim ei drafod on mae ar y agenda am mis nesaf achos diffig amser.

- **Cyngor Cymuned Rhoscolyn**
  Fel cyngor rhoddwyd sylw I'ch dogfen ynglŷn â dyfodoly Llyfrgelloedd ar Ynys Môn. Wrth ystyried y cynigion roeddem wrth gwrs, yn hynod filch o'r bwriad I ailsefydlu a moderneiddio'r brif Lyfrgell yng Nghaergybi – sydd o fewn taflaid carreg I fwyafrif y boblogaeth yn yr ardal yma. Yn naturiol nid yw pawb a fyddai'n dymuno, yn gallu mynychu'r adeilad yngh Nghaergybi ac felly meant yn hynod ddiolchgar am y Lyfrgell Deithiol. Mawr hyderwn y bydd y gwasanaeth yma'n parhau a bod y Cyngor yn sicrhau fod y LLyfrgell Deithiol yn gallu cyrraedd mannau sydd efallai yn anghysbell, os oes galw am y gwasanaeth yn r ardaloedd yma.

- **Cyngor Cymuned Pentraeth**
  Mae'r Aelodau'r Cyngor Cymuned yn gefnogol I'r hyn sydd wedi ei wneud hyd yn hyn parthed y gwasanaeth yn llyfrgell Benllech. Maent yn awry n disgwyl I weld beth a faint mae Cynghorau lleol eraill yn yr ardal yn ei fwriadu ei wneud I gyfrannu at redeg y llyfrgell.

**Gellir gweld gohebiaeth ar gais**

**Atodiadau**

**Atodiad 1: Strategaeth Drafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017 -2022**

**Atodiad 2: Nodiadau Ymgysylltu a Cyfarfodau Cyhoeddus**

# Atodiad 3 -Ymgynghoriad ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Ddrafft Ynys Môn - Nodiadau Gweithgaredd Ymgysylltu



| Dyddiad | Gweithgaredd | Cyfanswm y nifer yr ymgynghorwyd â hwy | Nad ydynt yn ddefnyddwyr | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| 15/06/2017 | Fforwm Tai Gwarchod, Gwelfor | 50 | | Yn bresennol: Bethan Hughes Jones a Llio Owen<br><br>- Rhoddwyd gwybod am yr ymgynghoriad a sut i roi eu barn<br>- Rhoddwyd gwybodaeth am y strategaeth ddrafft<br>- Rhoddwyd taflenni ar gyfer cwblhau'r holiadur ar-lein<br>- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch gwell Wi-Fi yn llyfrgell newydd Caergybi |
| 19/06/2017 | Ysgol Gynradd Llanbedrgoch | 6 | | Yn bresennol: Rachel Rowlands a Bethan Hughes Jones<br><br>Grŵp Ffocws Blwyddyn 5 a 6 - Roedd pob disgybl yn defnyddio llyfrgelloedd ac roedd ganddynt wybodaeth dda am yr hyn y gallent ei wneud mewn llyfrgell. Roeddynt yn ymwybodol iawn o'r effaith bosibl ar bobl hŷn a'r rheiny gyda phlant pe bai llyfrgell yn cau, ac roeddynt yn pryderu am sut y byddai pobl yn gallu mynd i lyfrgell arall os nad oedd ganddynt gar. Dywedwyd ganddynt y byddent yn drist ac yn siomedig pe bai eu llyfrgell leol yn cau. Mynegwyd eu bod yn gweld bod yr oriau agor cyfyngedig yn cyfyngu arnynt, "bob tro dwi eisiau mynd yno mae hi ar gau", roedd un ferch yn frwdfrydig iawn o ran hybu potensial agor ar ddyddiau Sul. Roeddynt yn mynegi manteision llyfrgelloedd yn glir, e.e. rhywle i siarad a gwella eu sgiliau Cymraeg ac i fagu hyder. |
| 23/06/2017 | Ysgol Gynradd Amlwch | 13 | 5 | Yn bresennol: Rhian Evans a Rachel Rowlands<br><br>- 6 o blant yn defnyddio Amlwch<br>- 2 o blant yn defnyddio Llangefni<br><br>- Roedd rhai'n arfer darllen, gwneud crefftau, yn dweud fod dewis da o lyfrau<br>- Lle i fod yn dawel<br>- Dywedodd rhai bod gormod o lyfrau ar y silff, yn rhy anodd dewis<br>- Yn hoffi gweld mwy o liw, dodrefn lliwgar a seddi mwy cyfforddus<br><br>- byddent yn drist o weld llyfrgelloedd yn cau, ni fyddent yn gallu dysgu pethau newydd. Yn pryderu am sut y byddai pobl hŷn yn gallu mynd i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | lyfrgell pe na allent gerdded. |
| 28/06/2017 | Ysgol Syr Thomas Jones | 18 | | Yn bresennol: Rachel Rowlands, Bethan Hughes Jones ac Awen Dodd<br><br>Mae rhai o'r grŵp yn defnyddio llyfrgelloedd ac yn eu gweld fel rhywle i gyfarfod ffrindiau ar ôl ysgol. O'r rheiny nad ydynt erioed wedi defnyddio llyfrgelloedd, nid oedd ganddynt ond ychydig neu ddim gwybodaeth am y gwasanaeth ac roeddynt yn awgrymu marchnata a hyrwyddo o fewn ysgolion.<br>Dangoswyd pryder am bobl eraill sy'n defnyddio llyfrgelloedd gyda chyfeiriad at bobl hŷn a phobl ag anableddau o bosib yn methu teithio'n bellach i gael mynediad i'r gwasanaeth.<br>Awgrymwyd defnyddio cludiant cymunedol fel modd o gludo pobl i lyfrgelloedd.<br>Gwnaeth y grŵp awgrymiadau o ran beth yr oeddynt yn ei feddwl oedd yn bwysig mewn llyfrgell |
| 30/06/2017 | Cylch Ti a Fi - Cemaes | 4 | 1 | Yn bresennol: Llio Owen ac Eirian Lewis<br><br>- Y pryder mwyaf oedd colli sesiynau ar gyfer plant<br>- Yn hoffi gweld mwy o weithgareddau rhwng cylchoedd Ti a Fi a llyfrgelloedd (ymweliadau â llyfrgelloedd) |
| 03/07/2017 | Ysgol Uwchradd Bodedern | 10 | 10 | Yn bresennol: Rhian Evans, Llio Owen ac Awen Dodd<br><br>- Lle i ymlacio, caffi neu beiriant diodydd<br>- Roedd y grŵp yn ymwybodol iawn o gostau pethau ar gyfer y Cyngor<br>- Dylid newid eu golwg allanol, adeiladau'n rhy oer ac yn codi ofn<br>- Hysbysebu gwasanaethau'n well, ddim yn ymwybodol o'r Wi-Fi am ddim, gwasanaethau ar-lein ac ati<br>- Gweithio mwy gydag ysgolion er mwyn i ddisgyblion wybod beth sydd ar gael<br>- Rhagor o weithgareddau ar gyfer rhai yn eu harddegau, yn teimlo mai dim ond gweithgareddau ar gyfer plant ifanc neu bobl hŷn sydd ar gael (nosweithiau ffilm, cerddoriaeth ac ati)<br>- Gwerthu llyfrau hefyd |

# Atodiad 3 -Ymgynghoriad ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Ddrafft Ynys Môn - Nodiadau Gweithgaredd Ymgysylltu



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | - Llyfrau mwy cyfoes<br>- Ddim yn ymwybodol o leoliad llyfrgelloedd, yn guddiedig a dim arwyddion<br>- Gemau fideo – twrnameintiau a digwyddiadau<br>- Lle i wneud gwaith cartref gyda ffrindiau, gwersi ychwanegol cyn arholiadau<br>- Cyfleusterau i wylio gemau chwaraeon<br>- Sesiynau Holi ac Ateb gydag awduron<br>- Ymestyn oriau agor, erbyn yr adeg y maent wedi mynd adref o'r ysgol nid oes ganddynt amser i fynd i lyfrgelloedd<br>- Cau llyfrgelloedd bach i fuddsoddi mewn un mwy<br>- Dim llyfrgelloedd yn ardal Talybolion<br>- Byrddau pŵl a thennis bwrdd<br>- Gwerthu nwyddau ar gyfer yr ysgol<br>- Benthyca DVDs a gemau fideo |
| 04/07/2017 | Ffair Haf<br>Ysgol Gynradd Llanfachraeth | 70 | 65 | Yn bresennol: Llio Owen a Bethan Hughes Jones<br><br>- 40 o blant, 30 o rieni<br>- Nid oedd rhai'n poeni llawer – dim llyfrgelloedd yn ardal Talybolion<br>- Rhoddwyd holiaduron a thaflenni er gwybodaeth |
| 04/07/2017 | Cylch Ti a Fi Llanddaniel Fab | 2 | 2 | Yn bresennol: Llio Owen<br>Rhoddwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad<br>- gadawyd holiaduron a thaflenni ar gyfer rhieni |
| 07/07/2017 | Ysgol Gynradd Rhoscolyn | 14 | 14 | Yn bresennol: Bethan Hughes Jones a Llio Owen<br><br>- Roedd rhai'n defnyddio Llyfrgell Caergybi gyda'u teuluoedd<br>- Ychydig iawn o wybodaeth am y gwasanaethau llyfrgell a gynigir ar wahân i fenthyca llyfrau<br>Rhoddwyd gwybodaeth iddynt am weithgareddau a chyfleusterau<br>- Gallent enwi 5 llyfrgell fel grŵp<br>- Nid oeddynt yn defnyddio'r fan lyfrgell, nid oedd wedi galw yn eu hysgol ers tro<br><br>Awgrymiadau:<br>- Caffi / Lle i fwyta gyda ffrindiau |

## Atodiad 3 -Ymgynghoriad ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Ddrafft Ynys Môn - Nodiadau Gweithgaredd Ymgysylltu



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | - Llai o angen i fod yn dawel<br>- Dodrefn mwy lliwgar a newydd / mwy cyfforddus<br>- Trip ysgol i ymweld â'r llyfrgell<br>- Ymestyn oriau agor ar ôl ysgol ac ar benwythnosau<br>- Benthyca iPads a gemau fideo<br>- Mwy o weithdai - Lego, codio<br><br>- Mynegodd rhai y byddant yn drist o weld llyfrgelloedd yn cau<br>(Ni fyddai'n eu heffeithio nhw gymaint, gan fod Llyfrgell Caergybi'n symud i adeilad newydd)<br><br>- Gadawyd taflenni er mwyn i deuluoedd gwblhau'r holiadur ar-lein |
| 11/07/2017 | Cyfarfod Cyhoeddus<br>Ardal Rhosneigr<br>Neuadd Llanfaelog | 10 | 0 | Nodiadau llawn yn nodiadau cyfarfodydd Haen Tri |
| 12/07/2017 | Sesiwn Galw Heibio yn Llyfrgell Niwbwrch | 14 | 0 | Yn bresennol: Rachel Rowlands, Carol Sorahan a Llio Owen<br><br>Aethpwyd â thaflenni ar gyfer yr holiadur ar-lein (dywedodd sawl yn ei bod yn well ganddynt hyn yn lle un ar bapur)<br>Roedd gan un eisoes daflen o'r siop leol<br><br>Dosbarthwyd taflenni a holiaduron papur a thrafodwyd gyda'r grŵp a oedd yn cyfarfod y drws nesaf i'r llyfrgell<br>- Mynegodd sawl un nad ydynt yn defnyddio llyfrgelloedd eu hunain, ond dywedwyd y byddai'n anffodus i'r gymuned pe bai'n cau |
| 14/07/2017 | Sesiwn Galw Heibio yn Llyfrgell Moelfre | 8 | 0 | Yn bresennol: Rachel Rowlands a Bethan Hughes Jones<br><br>Teimlodd rhai'n gryf na fyddent eisiau gweld llyfrgell yn cau, yn meddwl nad oedd y llyfrgell yn y lleoliad gorau yn y pentref. Cydnabuwyd nad oedd llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o'r llyfrgell ond ei bod yn cael ei mwynhau'n helaeth gan y rheiny a oedd yn ei defnyddio.<br><br>Dywedodd dyn lleol a oedd yn cadw siop na fyddai'n bosib iddo ef symud<br><br>Posibilrwydd o gyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned ar 4ydd Medi i gael |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | trafodaeth |
| 18/07/2017 | Cyfarfod Cyhoeddus Ardal Biwmares Canolfan Biwmares | 14 | 0 | Nodiadau llawn yn nodiadau cyfarfodydd Haen Tri |
| 19/07/2017 | Llais Ni | 7 | 6 | Yn bresennol: Rachel Rowlands, Bethan Hughes Jones, Awen Dodd<br><br>- Yn bwysig fel lle i astudio<br>- Nid yw pobl ifanc yn gwybod beth sydd ar gael mewn llyfrgelloedd Angen hysbysebu i ragor o bobl ifanc<br>- Mynediad pwysig i gyfrifiaduron a Wi-Fi<br>- Moderneiddio – newid argraff<br>- Byddai cau llyfrgelloedd yn effeithio pobl mewn gwahanol ffyrdd<br>- Mae'n rhoi sicrwydd ('safety blanket') i rieni Mamau/Rhieni'n cyfarfod fel grwpiau<br>- Dylid gwneud rhagor o ddefnydd o lyfrgelloedd ysgolion<br>- Gall cau llyfrgell effeithio ar addysg plant<br>- A oes digon o gyllid ar gyfer llyfrgell symudol?<br>- Cyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli yn y gymuned<br>- Lle i bobl ifanc fynd ar ôl ysgol tra bo rhieni'n dal yn gweithio |
| 20/07/2017 | Sesiwn Galw Heibio yn Llyfrgell Llangefni | 18 | 0 | Yn bresennol: Rachel Rowlands a Bethan Hughes Jones<br><br>- Yn bwysig cadw gwasanaeth Llyfrgell Llangefni yr un fath<br>- Mae'r rhwydwaith ym Mhorthaethwy'n rhy araf<br>- Mae mynediad i gyfrifiaduron yn hanfodol<br>- Mae'n bwysig cael lle distaw i gyfarfod cleientiaid<br>- "Wneith o ddim fy effeithio i gan fy mod i'n defnyddio Llangefni a Chaergybi ond dwi'n disgwyl y bydd yn effeithio'r cymunedau llai..."<br>- "Mi fydd yn effeithio'r rheiny sydd ddim yn dreifio neu efo tocyn bws (os ydyn nhw'n ddigon lwcus i gael bws)"<br>- "Dwi'n defnyddio Niwbwrch. Allai honno ddim cau. Mae'n rhy bwysig i mi a'm plant"<br>- "Mi fyddwn ar goll heb lyfrgell. Maen nhw'n rhy bwysig i'w cau. Mae'r rhai bach yn werthfawr, i raddau mwy efallai" |

# Atodiad 3 -Ymgynghoriad ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Ddrafft Ynys Môn - Nodiadau Gweithgaredd Ymgysylltu



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 20/07/2017 | Cyngor Cymuned Llanddona | 9 | - | Yn bresennol: Bethan Hughes Jones a Carol Sorahan<br><br>Cyflwynodd Bethan Hughes Jones Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017 - 2022<br>Dywedodd aelodau'r cyhoedd y byddai mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o lyfrgell BIWMARES pe bai ar agor yn rheolaidd<br>Roeddynt yn pryderu am yr effaith ar bobl ifanc a'r henoed pe bai Llyfrgell Biwmares yn cau.<br>Cyhoeddodd Cadeirydd Pwyllgor y Ganolfan (Menter Gymdeithasol), Alwyn Rowlands, bod y Ganolfan yn datgan "Diddordeb Ffurfiol mewn cofrestru i gymryd trosodd rhedeg y Llyfrgell ym Miwmares".<br><br>Derbyniwyd gwahoddiad pellach i fynychu "Drwy'r Oesoedd Llanddona Through The Ages" 09/09/17 a dderbyniwyd.<br>Gofynnwyd am gael erthygl wedi'i hysgrifennu ar gyfer y cylchlythyr lleol. |
| 24/07/2017 | Sesiwn Galw Heibio yn Llyfrgell Cemaes | 6 | 0 | Yn bresennol: Rachel Rowlands a Rhian Evans<br><br>- "Peidiwch â chau fy llyfrgell. Mi fyddai'n rhy anodd mynd i Amlwch ar y bws"<br>- "Meddyliwch am yr effaith"<br>- "Wneith Horizon helpu i gadw'r llyfrgell ar agor?"<br>- "Be' fydd effaith y Wylfa newydd?" |
| 25/07/2017 | Sesiwn Galw Heibio yn Llyfrgell Amlwch | 7 | 0 | Yn bresennol: Rachel Rowlands a Carol Sorahan<br><br>- Cael 3/4 llyfrgell fawr a chau bob dim arall gan gynnwys rhai symudol<br>- Dylai Llyfrgell Amlwch fod ar agor yn llawn amser ac yn Haen 1 |
| 26/07/2017 | Swyddog Sgyrsiau Lleol CyG Môn a Chymdeithas y Byddar Gogledd Cymru | 30 | - | Yn bresennol: Rachel Rowlands a Bethan Hughes Jones<br><br>- Mae llyfrgelloedd yn llefydd pwysig i bobl gymdeithasu - mae rhai'n mynd yno am awr neu ddwy i gael allan o'r tŷ, i ddarllen y papur newydd ac ati<br>- Yn cael eu defnyddio am ddim – does dim angen talu am bapur newydd ac ati, fel rhywun hŷn, fydda i ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd neu e-lyfrau ac ati<br>- Ystyried defnyddio'r lle y tu mewn i adeiladau llyfrgelloedd i gynnal |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | sesiynau estyn allan – budd-dal tai, CAB ac ati. Gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau cymunedol eraill.<br>- Byddai pobl hŷn yn hoffi E-hyfforddiant symlach, sgiliau TG – ddim yn ffurf sesiynau strwythuredig, mwy anffurfiol a pherthnasol.<br>- Ystyried oriau agor mwy hyblyg ar gyfer pobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio, ar benwythnosau ac ati.<br>- Hysbysebu'r Wi-Fi mewn llyfrgelloedd sefydlog, a oes ganddynt Wi-Fi symudol ar y fan symudol? Mae Wi-Fi yn grêt, ond allwch chi gysylltu ac a ydi'r cysylltedd yn dda?<br>- Mae adran archifau yn Llyfrgell Caergybi fel y gall pobl archwilio hanes lleol - yn enwedig yng Nghaergybi a thrwy'r cysylltiadau a'r Amgueddfa Forwrol.<br>- Soniodd rhai nad oedd yn apelio dim mwy iddynt fynd i ganolfan gymuned i ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell – yn well ganddynt 'deimlad' adeilad llyfrgell.<br>- Yn defnyddio canolfannau cymuned i hysbysebu beth sydd ar gael yn ein llyfrgelloedd.<br>- Defnyddio Meddygon Teulu/gofal cartref/fferyllwyr i hysbysebu gwasanaethau i rai sy'n gaeth i'w tai.<br>- Ymestyn Cyswllt Môn – a fyddai modd cael staff y cyngor yn darparu gwasanaethau allgymorth mewn llyfrgelloedd – cysylltu'r Pencadlys efo llyfrgelloedd, bydd yn dod â phobl i mewn i'w gweld a gallant efallai wedyn ddefnyddio gwasanaethau eraill y llyfrgell<br>- Defnydd o le gan bartïon allanol - h.y. busnesau'n defnyddio'r lle ar gyfer arddangosfeydd, i gynhyrchu arian<br>- Nid oedd pobl yn gwybod bod rhaid ffonio Llangefni i gael gwybodaeth am y llyfrgell symudol.<br>- Hygyrchedd – a oes dolen glywed yn y llyfrgell symudol?<br>- Dylid newid y wybodaeth yn y dderbynfa/arddangosfeydd sefydlog yn gyson fel bod pobl yn sylwi ei bod wedi newid ac yn cymryd diddordeb. |
| 26/07/2017 | Sesiwn Galw Heibio yn Llyfrgell Benllech | 6 | 0 | Yn bresennol: Rhian Parry Evans<br>Pwysleisiwyd pwysigrwydd y llyfrgell i bobl hŷn. Bydd y syrjeri meddyg teulu a'r fflatiau newydd sy'n cael eu hadeiladu yn gwneud y llyfrgell hyd yn oed y fwy perthnasol. Yn falch fod Benllech yn Haen 3 ac efallai am gael rhagor o oriau. |

# Atodiad 3 -Ymgynghoriad ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Ddrafft Ynys Môn - Nodiadau Gweithgaredd Ymgysylltu

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 28/07/2017 | Sesiwn Galw Heibio yn Llyfrgell Biwmares | 11 | 0 | Yn bresennol: Rachel Rowlands a Bethan Hughes Jones<br><br>- Yn anghytuno hefo grwpio Biwmares yn Haen 3, fodd bynnag, ar ôl cael eglurhad, yn gweld y gallai'r oriau craidd weithio gyda help gan y 3ydd sector<br>- Angen cynnal lefel o wasanaeth gan fod y cymorth i blant a theuluoedd yn bwysig<br>- Yn casáu gweld yr adeilad yn wag<br>- Teimlad cryf bod toriadau parhaus pan fo'r dreth yn codi'n gynyddol<br>- Mae'r staff yn hanfodol ac yn bwysig<br>- Nid ydi'r adeilad yn hanfodol bwysig ond mae'r gwasanaeth<br>- Mae llyfrgelloedd yn hanfodol ar gyfer lles<br>- Ychydig iawn o arbedion a wneir<br>- Peidiwch â thorri'r oriau – mae Biwmares yn haeddu rhagor |
| 28/07/2017 | Sesiwn Dewch i Chwarae Oriel Môn | 26 | 7 | Yn bresennol: Eirian Lewis<br><br>Rhoddwyd gwybodaeth a chafwyd peth trafodaeth ond roedd y mwyafrif eisiau mynd â'r wybodaeth efo nhw ac ymateb yn ddiweddarach. |
| 31/07/2017 | Canolfan Hamdden Caergybi | 18 | 15 | Yn bresennol: Bethan Hughes Jones a Llio Owen<br><br>- Roedd y mwyafrif yn defnyddio Llyfrgell Caergybi, yn mynegi na fyddai unrhyw newidiadau'n eu heffeithio<br>(eglurwyd iddynt, pe bai llyfrgell haen 3 yn cau, byddai'n cael sgil-effeithiau ar wasanaethau llyfrgell eraill)<br>- Roedd un yn defnyddio'r gwasanaeth symudol yn Llanfaethlu, ond ddim yn ymwybodol fod y fan yn galw yn rhywle oedd yn nes i'w cartref<br>- Roedd rhai'n meddwl fod symud Llyfrgell Caergybi i Neuadd y Farchnad yn gyffrous<br>- Teimlodd rhai'n gryf na ddylai unrhyw lyfrgell gau (eglurwyd iddynt fod y gwasanaeth llyfrgell yn archwilio dulliau amgen o redeg llyfrgelloedd yn hytrach na'u cau) |
| 03/08/2017 | Grŵp Darllen i Rai â Nam ar y Golwg<br>Llyfrgell Caergybi | 14 | 0 | Yn bresennol: Rhian Evans<br><br>- Eglurwyd y broses a'r ymgynghoriad<br>- Defnyddwyr Llyfrgell Caergybi yn unig |

Tudalen 173

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | - Yn hapus o wybod fod Llyfrgell Caergybi yn Haen 1<br>- Yn holi am y symud i'r llyfrgell newydd<br>- Yn hapus o glywed y bydd elfen o Gyswllt Môn yn yr adeilad newydd<br>- Yn pwysleisio pwysigrwydd sesiynau fel hyn i bobl gael trafod eu hanghenion gan nad ydynt eisiau colli allan<br>- Mae cludiant yn elfen hanfodol |
| 15/08/2017<br>16/08/2017 | Sioe Môn | 105<br>90 | -<br>- | Rhoddwyd gwybodaeth a chafwyd trafodaethau |
| 21/08/2017 | Sesiwn Galw Heibio yn Llyfrgell Caergybi | 5 | 0 | Yn bresennol: Rachel Rowlands a Rhian Evans<br><br>2 gynghorydd, Dafydd Rhys a Glyn Haynes<br><br>- Yn hapus fod y llyfrgell yn symud i Neuadd y Farchnad, ond yn poeni am ardaloedd heb fysiau |
| 21/08/2017 | Canolfan Hamdden David Hughes, Porthaethwy | 17 | 16 | Yn bresennol: Carol Sorahan a Llio Owen<br><br>- O ran sawl un, nid oeddynt yn defnyddio'r llyfrgell a heb ddefnyddio'r llyfrgell yn ddiweddar<br>- Roedd un oedd yn defnyddio Llyfrgell Niwbwrch, yn ymwybodol o'r ymgynghoriad ac yn bwriadu mynychu cyfarfod yr ardal |
| 22/08/2017 | Sesiwn Dewch i Chwarae Ysgol Gynradd Moelfre | 25 | - | Yn bresennol: Bethan Hughes Jones a Veronica Chamberlain<br><br>- Roedd pawb yn nodi pa mor bwysig ydi'r gwasanaeth<br>- Roedd rhai ymwelwyr yn nodi eu bod wedi defnyddio'r llyfrgell yn yr haf |
| 23/08/2017 | Sesiwn Dewch i Chwarae Clwb Pêl-droed Amlwch | 15 | 9 | Yn bresennol: Eirian Lewis<br><br>Rhoddwyd gwybodaeth – nid oedd y mwyafrif eisiau trafod pethau ar y pryd. |
| 24/08/2017 | Sesiwn Galw Heibio yn Llyfrgell Rhosneigr | 6 | 0 | Yn bresennol: Rachel Rowlands a Bethan Hughes Jones<br><br>Pwysleisiwyd pwysigrwydd y llyfrgell i dwristiaeth a rhai sy'n berchen ail gartrefi. Pwysleisiwyd y defnydd o'r llyfrgell fel man cyfarfod, yn ogystal â'i phwysigrwydd i bobl hŷn. Dywedwyd fod cysylltiadau cludiant cyhoeddus yn wael. Nodwyd y pwysigrwydd i deuluoedd ifanc a disgyblion ysgol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hefyd. |
| 29/08/2017 | Canolfan Hamdden Amlwch | 15 | 12 | Yn bresennol: Carol Sorahan a Llio Owen<br><br>- “Ni fyddai’n fy effeithio fi’n bersonol, ond fyddwn i ddim yn licio eu gweld yn cau”<br>- Roedd gan rai aelodau teulu a oedd yn defnyddio gwasanaethau llyfrgell<br>- “Mae’r gwasanaeth sy’n cael ei ddarparu’n bwysig iawn” – ar gyfer y rheiny sy’n chwilio am swyddi, pobl sydd ddim yn gallu fforddio prynu llyfrau<br>- Pryderon am swyddi staff presennol y llyfrgell<br>- Pwysigrwydd mynediad i’r rhyngrwyd, nid oes gan bawb hyn adref<br>- Yn bwysig i blant gael mynediad i lyfrau |
| 30/08/2017 | Canolfan Hamdden Plas Arthur | 22 | 15 | Yn bresennol: Carol Sorahan a Llio Owen<br><br>Defnyddwyr Llyfrgelloedd Llangefni, Niwbwrch, Cemaes, Rhosneigr a Phorthaethwy<br><br>- Dywedodd rhai nad oedd yn defnyddio’r gwasanaeth na fyddent yn hoffi eu gweld yn cau ac roeddynt yn gweld eu pwysigrwydd o ran mynediad i’r rhyngrwyd a llyfrau<br>- Roedd gan un plentyn a oedd yn ymweld â’r llyfrgell yn rheolaidd efo’i ffrindiau<br>- Dywedodd un ei fod yn arbennig o bwysig bellach i ddisgyblion gan nad yw’r llyfrgell yn Ysgol Gyfun Llangefni ar agor mwyach<br>- Mae llyfrgelloedd yn hanfodol i blant a’u datblygiad |
| 05/09/2017 | Cyfarfod Cyhoeddus Ardal Niwbwrch Neuadd Prichard Jones | 10 | 0 | Nodiadau llawn yn nodiadau cyfarfodydd Haen Tri |
| 07/09/2017 | Cyswllt Môn Derbynfa’r Cyngor | 9 | 7 | Yn bresennol: Carol Sorahan a Llio Owen<br><br>- Dywedodd rhai nad oeddynt yn defnyddio’r llyfrgelloedd, hyd yn oed os nad ydynt yn eu defnyddio eu hunain, roeddynt yn deall pwysigrwydd y gwasanaeth llyfrgell ac ni fyddent yn hoffi eu gweld yn cau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | - gadawyd taflenni ar gyfer ymwelwyr |
| 07/09/2017 | Sesiwn Galw Heibio yn Llyfrgell Porthaethwy | 5 | 0 | Yn bresennol: Bethan Hughes Jones, Rachel Rowlands<br>Cefnogaeth gref i'r llyfrgell gan y rheini oedd yn bresennol. Mynegwyd ymwybyddiaeth o Gyfeillion Llyfrgell Porthaethwy. Amlygwyd fod lleoliad y llyfrgell yn ardderchog. Roedd mynediad i TG yn bwysig. |
| 09/09/2017 | Drwy'r Oesoedd Llanddona<br>Llanddona | 21 | 15 | Yn bresennol: Carol Sorahan<br><br>- eisiau gweld lle mae'r fan lyfrgell yn galw yn Llanddona yn cael ei adolygu<br>- dywedodd rhywun nad oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, er nad oedd yn defnyddio'r llyfrgelloedd ei hun, na fyddai'n hoffi eu gweld yn cau gan y byddai'n effeithio'r gymuned. |
| 11/09/2017 | Sesiwn Galw Heibio – Canolfan Biwmares | 23 | 17 | Yn bresennol: Carol Sorahan<br><br>- yn hoffi gweld y Ganolfan yn cydweithio hefo'r gwasanaeth llyfrgell<br>- nododd grŵp o bobl 60+ y byddent yn hoffi gweld y gwasanaeth llyfrgell yn gweithio'n agosach efo'r henoed<br>- nododd un, er nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell ar hyn o bryd, byddai defnyddio'r llyfrgell yn ddefnyddiol yn y dyfodol ac fel y maent yn heneiddio<br>- nododd rhai eraill nad oeddynt yn defnyddio'r gwasanaeth na fyddent yn hoffi gweld y llyfrgell ym Miwmares yn cau |
| 12/09/2017 | Cyfarfod Cyhoeddus<br>Ardal Moelfre<br>Ysgol Gynradd Moelfre | 2 | 0 | Nodiadau llawn yn nodiadau cyfarfodydd Haen Tri |
| 14/09/2017 | Merched y Wawr<br>Llanddeusant | 10 | 7 | Yn bresennol: Bethan Hughes Jones<br>Cafwyd trafodaeth am beth mae'r llyfrgelloedd yn ei gynnig a'u pwysigrwydd yn y gymuned. Gwelwyd fod y llyfrgell symudol yn bwysig, er yr ystyriwyd y byddai aros mewn lleoliadau am gyfnodau hirach yn well. Pwysleisiwyd effaith gymdeithasol llyfrgelloedd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 14/09/2017 | Cyfarfod Cyhoeddus<br>Ardal Cemaes<br>Neuadd Bentref Cemaes | 20 | - | Nodiadau llawn yn nodiadau cyfarfodydd Haen Tri |
| 19/09/2017 | Sesiwn Galw Heibio yn Llyfrgell Porthaethwy | 4 | 0 | Yn bresennol: Bethan Hughes-Jones, Rachel Rowlands<br>Roedd lleoliad Llyfrgell Porthaethwy yn allweddol<br>Roedd cyfrifiaduron yn bwysig iawn<br>Yn falch ei bod yn haen 2 |
| 21/09/2017 | Cyswllt Môn<br>Derbynfa'r Cyngor | 12 | 3 | Yn bresennol: Carol Sorahan<br>Dosbarthwyd gwybodaeth |

**Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017 - 2022**
**Cyfarfod Cyhoeddus**

**Ardal Llyfrgell Biwmares**

**Canolfan Biwmares**

**18/07/2017 6pm- 8pm**

**Yn bresennol :**
Delyth Molyneux (Pennaeth Dysgu)
Rachel Rowlands (Rheolwr y Gwasanaethau Llyfrgell)
Bethan Hughes Jones (Cydlynydd Dysgu Gydol Oes)
Rhian Evans (Llyfrgellydd Cymunedol)
Carol Sorahan (Rheolwr Rhaglen)
Llio Owen (Cymorth Gweinyddol)
Delyth Hughes (Cyfieithydd)
Y Cynghorydd R Meirion Jones
Y Cynghorydd Carwyn Elias Jones
Y Cynghorydd Lewis Davies
Y Cynghorydd Alun Roberts
Y Cynghorydd Tref Alwyn Rowlands
11 Aelod o'r Cyhoedd

# Atodiad 3 -Ymgynghoriad ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Ddrafft Ynys Môn - Nodiadau Gweithgaredd Ymgysylltu

**Agorodd Delyth Molyneux, y Pennaeth Dysgu, y cyfarfod gyda chyflwyniad i'r broses hyd yma ynghyd â'r daith sydd i ddod. Dywedodd yn glir nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd y Gwasanaeth Llyfrgell yn cael ei redeg yn y dyfodol.**

**Rhoddodd Rachel Rowlands (Rheolwr y Gwasanaethau Llyfrgell) drosolwg o'r broses ymgynghori a chynnwys strategaeth ddrafft y gwasanaeth llyfrgell 2017-2022.**

| Sylwadau/ Cwestiynau | Ymateb / Trafodaeth |
|---|---|
| Pam fod Llyfrgell Biwmares yn Haen 3? Llyfrgell Biwmares yw'r unig lyfrgell yn ward Seiriol. | Rhoddwyd y llyfrgelloedd mewn haenau yn seiliedig ar set o feini prawf, sy'n ystyried ffactorau fel defnydd, lleoliad a chost. |
| Beth fydd yn digwydd i staff y llyfrgell? | Cynhyrchwyd dwy strategaeth gyda chostau, y mae un ohonynt yn cadw elfen o staff i weithredu'r strwythur newydd ac mae'r llall yn colli oriau staff. Yn y diwedd, bydd yn dibynnu ar lefel y gefnogaeth gan y gymuned a phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith. |
| Beth yw costau adeilad y Llyfrgell? | Costau cyfartalog yr adeilad dros gyfnod o dair blynedd yw £6,517. Dangoswyd y costau hyn ar y sgrin yn y cyfarfod. |
| Beth yw'r cynlluniau ar gyfer y Llyfrgell Symudol? | Mae'r gwasanaeth symudol yn rhan hanfodol o'r Gwasanaeth Llyfrgell. Mae arnom angen llyfrgell symudol i gyrraedd cymunedau Ynys Môn. Rydym yng nghamau terfynol y broses o dendro am fan lyfrgell newydd. Byddwn yn adolygu'r lleoliadau y bydd yn galw ynddynt. |
| Oes digon o gapasiti o fewn y gymuned i'r strategaeth hon weithio? | Bydd hyn yn wahanol ym mhob cymuned, fodd bynnag, bu'r trafodaethau ym Miwmares yn gadarnhaol. |
| Cafwyd cadarnhad gan Alwyn Rowlands, Cadeirydd pwyllgor Canolfan Biwmares (Canolfan Hamdden Gymunedol), sy'n fenter gymdeithasol, y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gweithio gyda'r Gwasanaeth Llyfrgell. Byddai Pwyllgor y Ganolfan yn edrych i ddiogelu'r incwm o faes parcio'r llyfrgell fel rhan o unrhyw gytundeb i'r dyfodol gyda'r Cyngor Sir. | Roedd y rheiny a oedd yn bresennol yn gefnogol i'r egwyddor ac yn croesawu'r cyfle i gadw'r llyfrgell ar agor. |

| | |
|---|---|
| Mynegodd Cynghorwyr lleol eu pryder bod Llyfrgell Biwmares, yr unig un yn Seiriol, yn Haen 3, ynghyd â'r effaith y byddai'r gostyngiad yn ei gael ar y defnydd o'r llyfrgell. | |
| Pe bai'r gymuned yn cymryd trosodd, am beth fyddent yn gyfrifol? | Byddai'r gymuned yn gyfrifol am gostau adeilad y llyfrgell (gwybodaeth ar gael ar lein).<br>Byddai grŵp cymunedol â chyfansoddiad yn gallu ymgeisio am ryddhad NNDR.<br>O edrych yn ôl ar y duedd dros dair blynedd, byddai cost yr adeilad yn tua £6,000 y flwyddyn.<br>Mae'r cyngor yn fwyaf tebygol o ystyried trosglwyddo'r ased i'r grŵp cymunedol ar sail prydles hirdymor. |

**Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017 - 2022**

**Cyfarfod Cyhoeddus**

**Ardal Llyfrgell Cemaes**

**Neuadd Cemaes**

**14/09/2017 6pm- 8pm**



| |
|---|
| **Yn Bresennol:**<br>Gwynne Jones (Prif Weithredwr)<br>Rachel Rowlands (Rheolwr y Gwasanaethau Llyfrgell)<br>Bethan Hughes Jones (Cydlynydd Dysgu Gydol Oes)<br>Carol Sorahan (Rheolwr Rhaglen)<br>Delyth Hughes (Cyfieithydd)<br>Y Cynghorydd Richard Owain Jones<br>Y Cynghorydd Aled Morris Jones<br>Y Cynghorydd Richard Griffiths<br>20 aelod o'r cyhoedd (yn cynnwys Cynghorwyr Cymuned) |

# Atodiad 3 -Ymgynghoriad ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Ddrafft Ynys Môn - Nodiadau Gweithgaredd Ymgysylltu

**Agorodd Gwynne Jones, y Prif Weithredwr, y cyfarfod gyda chyflwyniad i'r broses hyd yma ynghyd â'r daith sydd i ddod. Dywedodd yn glir nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd y Gwasanaeth Llyfrgell yn cael ei redeg yn y dyfodol.**

**Rhoddodd Rachel Rowlands (Rheolwr y Gwasanaethau Llyfrgell) drosolwg o'r broses ymgynghori a chynnwys strategaeth ddrafft y gwasanaeth llyfrgell 2017-2022.**

| Sylwadau/ Cwestiynau | Ymateb / Trafodaeth |
|---|---|
| Pe bai'r gymuned yn cymryd trosodd, am beth fyddent yn gyfrifol? | Byddai'r gymuned yn gyfrifol am gostau adeilad y llyfrgell (gwybodaeth ar gael ar lein).<br>Byddai grŵp cymunedol â chyfansoddiad yn gallu ymgeisio am ryddhad NNDR.<br>O edrych yn ôl ar y duedd dros dair blynedd, byddai cost yr adeilad yn tua £3,825 y flwyddyn.<br>Mae'r cyngor yn fwyaf tebygol o ystyried trosglwyddo'r ased i'r grŵp cymunedol ar sail prydles hirdymor. |
| Beth mae darparu gwasanaeth llyfrgell craidd yn ei olygu? | Eglurodd y swyddogion beth fyddai gwasanaeth llyfrgell craidd yn ei gynnwys. |
| Am faint fyddech chi (Y Cyngor) yn ariannu'r gwasanaeth llyfrgell craidd? | Mae'r Strategaeth yn strategaeth bum mlynedd, fodd bynnag, mae'n amhosib rhoi unrhyw warant o ran cyllid ar gyfer unrhyw wasanaethau i'r dyfodol gan nad ydym yn gwybod beth fydd y setliadau ar gyfer yr ALl gan LlC. |
| Nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r llyfrgell fel ased, a ellid ei defnyddio fel canolfan wybodaeth i dwristiaid? | Pe bai grŵp cymunedol neu drydydd parti'n dod ymlaen i gefnogi'r gwasanaeth byddai hyn yn cyd-fynd â Llyfrgell a Gefnogir gan y Gymuned – ceir enghreifftiau mewn ardaloedd eraill lle mae hyn yn gweithio'n dda. |
| Datblygiadau Wylfa B - a fyddai modd i'r Awdurdod Lleol drafod gyda Phŵer Niwclear Horizon y posibilrwydd o gael cyfraniad Budd Cymunedol i gadw'r llyfrgell ar agor? | Mynegodd y Prif Weithredwr ei farn y byddai'n fater i unrhyw trydydd parti sy'n dymuno gweithio gyda'r gwasanaeth llyfrgell i ymgeisio am gymorth gan Bŵer Niwclear Horizon. |
| Codwyd y posibilrwydd o'r Cynghorau Cymuned yn yr ardal yn gweithio gyda'i gilydd a Chyngor Cymuned Llanbadrig i gefnogi'r llyfrgell. | Roedd y Prif Weithredwr a'r swyddogion yn croesawu'r trafodaethau hyn. |

| | |
|---|---|
| Trafodwyd y posibilrwydd o ddefnyddio Cwmni Cemaes Cyf. Fel cyfrwng posibl ar gyfer bwrw ymlaen â phethau, a phenderfynwyd, os oedd digon o gefnogaeth, y gellid ehangu'r cyfansoddiad i gynnwys rheoli adeilad y llyfrgell. | Roedd y Prif Weithredwr a'r swyddogion yn croesawu'r trafodaethau hyn. |
| Pam fod y Cyngor wedi gwario cymaint ar yr ymgynghoriad hwn? Gellid gwneud gwell defnydd o'r arian sy'n cael ei wario yn cadw Llyfrgell Cemaes ar agor. | Nid oedd unrhyw wariant ychwanegol gan ei fod yn rhan o waith dydd i ddydd y swyddogion. |
| Gwirfoddolwyr – Sut fyddai modd iddynt gynnig gwasanaeth o safon? | Cafwyd ateb gan aelod staff sy'n gweithio yn Llyfrgell Cemaes a eglurodd, er nad yw'n llyfrgellydd cynnwys, ei bod wedi gallu dysgu wrth ei gwaith.<br>Gallai gwirfoddolwr fynd ati'n hawdd i ddysgu am waith dydd i ddydd Cymhorthydd Llyfrgell, gyda hyfforddiant a chymorth gan y gwasanaeth. |
| Nododd y Cynghorydd Cymuned Dobson bod angen i Gemaes fod yn fwy rhagweithiol mewn ymateb i'r cynigion yn y strategaeth ddrafft. | Bu modd i'r swyddogion gyfeirio'r Cynghorydd ymlaen at Menter Môn a Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am ragor o wybodaeth. |



**Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017 - 2022**

**Cyfarfod Cyhoeddus**

**Ardal Llyfrgell Moelfre**

**Ysgol Gynradd Moelfre**

**12/09/2017 6pm- 8pm**

| |
|---|
| **Yn Bresennol :**<br>Delyth Molyneux (Pennaeth Dysgu)<br>Bethan Hughes Jones (Cydlynydd Dysgu Gydol Oes)<br>Carol Sorahan (Rheolwr Rhaglen)<br>Delyth Hughes (Cyfieithydd) |

## Atodiad 3 -Ymgynghoriad ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Ddrafft Ynys Môn - Nodiadau Gweithgaredd Ymgysylltu

| |
|---|
| Y Cynghorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd)<br>2 Gynghorydd Cymuned, un o Foelfre ac un o Bentraeth |

**Agorodd Delyth Molyneux, y Pennaeth Dysgu, y cyfarfod gyda chyflwyniad i'r broses hyd yma ynghyd â'r daith sydd i ddod. Dywedodd yn glir nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd y Gwasanaeth Llyfrgell yn cael ei redeg yn y dyfodol.**

**Rhoddodd Rachel Rowlands (Rheolwr y Gwasanaethau Llyfrgell) drosolwg o'r broses ymgynghori a chynnwys strategaeth ddrafft y gwasanaeth llyfrgell 2017-2022.**

| Sylwadau/ Cwestiynau | Ymateb / Trafodaeth |
|---|---|
| Pe bai'r gymuned yn cymryd trosodd, am beth fyddent yn gyfrifol? | Byddai'r gymuned yn gyfrifol am gostau adeilad y llyfrgell, yn ôl tuedd dros dair blynedd byddai'n tua £885 y flwyddyn ar gyfer Llyfrgell Moelfre (gwybodaeth ar gael ar lein). |
| Beth mae darparu gwasanaeth llyfrgell craidd yn ei olygu? | Eglurodd y swyddogion beth fyddai gwasanaeth llyfrgell craidd yn ei gynnwys. |
| Byddai'r Cyngor Cymuned yn ei chael yn anodd codi arian gan ei fod eisoes wedi cymryd trosodd y gwaith o redeg y toiledau. | Cafwyd trafodaeth am y posibilrwydd o gynyddu'r praesept. Rhoddwyd enghreifftiau o le mae hyn wedi'i wneud i gefnogi llyfrgelloedd, h.y. Cerrigydrudion - mater i'r Cyngor Cymuned fyddai hyn yn y diwedd. |
| A ydych yn chwilio am wirfoddolwyr? | Yn y strategaeth ddrafft mae'r Cyngor yn chwilio am drydydd parti i weithio gyda'r gwasanaeth llyfrgell i gymryd trosodd yr adeilad/costau rhedeg y llyfrgell, a bydd yn parhau i ddarparu gwasanaeth craidd. Byddai unrhyw wirfoddolwyr a fyddai'n gweithio yn y llyfrgell yn ychwanegu gwerth y tu allan i'r amseroedd agor craidd, e.e. gyda gwirfoddolwyr gellid cadw'r llyfrgell ar agor am oriau hirach. |
| Codwyd y posibilrwydd o Gynghorau Cymuned Pentraeth a Moelfre yn cydweithio gyda Llanfair ME i gefnogi'r ddarpariaeth o Lyfrgell yn yr ardal. | Byddai hyn yn cael ei groesawu ac awgrymodd y swyddogion y dylid cael trafodaethau'n lleol. |

**Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017 - 2022**

**Cyfarfod Cyhoeddus**

**Ardal Llyfrgell Niwbwrch**

**Neuadd Prichard Jones**

**05/09/2017 6pm- 8pm**

**Yn Bresennol :**
Delyth Molyneux (Pennaeth Dysgu)
Annwen Morgan (Dirprwy Brif Weithredwr)
Rachel Rowlands (Rheolwr y Gwasanaethau Llyfrgell)
Bethan Hughes Jones (Cydlynydd Dysgu Gydol Oes)
Carol Sorahan (Rheolwr Rhaglen)
Delyth Hughes (Cyfieithydd)
Y Cynghorydd Bryan Owen
Y Cynghorydd Peter Rogers
8 Aelod o'r Cyhoedd



**Agorodd Delyth Molyneux, y Pennaeth Dysgu, y cyfarfod gyda chyflwyniad i'r broses hyd yma ynghyd â'r daith sydd i ddod. Dywedodd yn glir nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd y Gwasanaeth Llyfrgell yn cael ei redeg yn y dyfodol.**

**Rhoddodd Rachel Rowlands (Rheolwr y Gwasanaethau Llyfrgell) drosolwg o'r broses ymgynghori a chynnwys strategaeth ddrafft y gwasanaeth llyfrgell 2017-2022.**

| Sylwadau/ Cwestiynau | Ymateb / Trafodaeth |
|---|---|
| Pe bai'r gymuned yn cymryd trosodd, am beth fyddent yn gyfrifol? | Byddai'r gymuned yn gyfrifol am gostau adeilad y llyfrgell (yn cynnwys rhent a chostau cysylltiedig rheoli'r cyfleuster).<br>Gan edrych yn ôl ar y duedd dros gyfnod o dair blynedd byddai cost yr adeilad yn tua £2,000 y flwyddyn |
| Pwysleisiodd cynrychiolydd o Neuadd Prichard | Roedd y swyddogion yn cydnabod y pwyntiau ac eglurwyd y costau ychwanegol. |

| | |
|---|---|
| Jones(NPJ) pa mor bwysig yw'r llyfrgell i'r NPJ a'r pentref.<br>Yn ogystal, cwestiynodd y gost o redeg y llyfrgell gan mai dim ond £700 yw'r rhent a dderbynnir gan NPJ. | |
| Beth mae darparu gwasanaeth llyfrgell craidd yn ei olygu? | Eglurodd y swyddogion beth fyddai gwasanaeth llyfrgell craidd yn ei gynnwys. |
| Beth yw'r cynlluniau ar gyfer y Llyfrgell Symudol? | Mae'r gwasanaeth symudol yn rhan hanfodol o'r Gwasanaeth Llyfrgell. Mae arnom angen llyfrgell symudol i gyrraedd cymunedau Ynys Môn. Rydym yng nghamau terfynol y broses o dendro am fan lyfrgell newydd. Byddwn yn adolygu'r lleoliadau y bydd yn galw ynddynt. |
| Pwysleisiodd y Cynghorydd Peter Rogers bwysigrwydd y llyfrgell yn nhermau llythrennedd plant ac amlygodd lwyddiant gweithgareddau Her Darllen yr Haf o ran cefnogi hyn. | |
| Cafwyd trafodaeth am y posibilrwydd o gysylltu â gweithgareddau fel clwb cinio. | Roedd y swyddogion yn croesawu'r trafodaethau hyn. |
| Dywedodd cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned a phwyllgor Neuadd Prichard Jones y byddent yn ymchwilio ymhellach i ,a allent weithio gyda'i gilydd i gynnig datrysiad ar gyfer Niwbwrch. | |

**Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017 - 2022**

**Cyfarfod Cyhoeddus**

**Ardal Llyfrgell Rhosneigr**

**Neuadd Bentref Llanfaelog**

**11/07/2017 6pm- 8pm**



**Yn Bresennol :**
Delyth Molyneux (Pennaeth Dysgu)
Rachel Rowlands (Rheolwr y Gwasanaethau Llyfrgell)
Bethan Hughes Jones (Cydlynydd Dysgu Gydol Oes)
Rhian Evans (Llyfrgellydd Cymunedol)
Carol Sorahan (Rheolwr Rhaglen)
Llio Owen (Cymorth Gweinyddol)
Delyth Hughes (Cyfieithydd)
Y Cynghorydd Richard Dew
Y Cynghorydd Gwilym O Jones
8 Aelod o'r Cyhoedd

**Agorodd Delyth Molyneux, y Pennaeth Dysgu, y cyfarfod gyda chyflwyniad i'r broses hyd yma ynghyd â'r daith sydd i ddod. Dywedodd yn glir nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd y Gwasanaeth Llyfrgell yn cael ei redeg yn y dyfodol.**

**Rhoddodd Rachel Rowlands (Rheolwr y Gwasanaethau Llyfrgell) drosolwg o'r broses ymgynghori a chynnwys strategaeth ddrafft y gwasanaeth llyfrgell 2017-2022.**

# Atodiad 3 -Ymgynghoriad ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Ddrafft Ynys Môn - Nodiadau Gweithgaredd Ymgysylltu



| **Sylwadau/ Cwestiynau** | **Ymateb / Trafodaeth** |
|---|---|
| Pe bai'r gymuned yn cymryd trosodd, am beth fyddent yn gyfrifol? | Byddai'r gymuned yn gyfrifol am gostau adeilad y llyfrgell (gwybodaeth ar gael ar lein).<br>Byddai grŵp cymunedol â chyfansoddiad yn gallu ymgeisio am ryddhad NNDR.<br>O edrych yn ôl ar y duedd dros dair blynedd, byddai cost yr adeilad yn tua £5-6,000 y flwyddyn.<br>Mae'r cyngor yn fwyaf tebygol o ystyried trosglwyddo'r ased i'r grŵp cymunedol ar sail prydles hirdymor. |
| Beth mae darparu gwasanaeth llyfrgell craidd yn ei olygu? | Eglurodd y swyddogion beth fyddai gwasanaeth llyfrgell craidd yn ei gynnwys. |
| Trafodwyd y capasiti o fewn y gymuned i reoli ac ariannu adeilad arall. | Roedd y swyddogion yn cydnabod yr anawsterau posibl a rhoddwyd enghreifftiau o fodelau y gellid eu hymchwilio gan y gymuned pe baent yn dymuno gwneud hynny. |
| Pwysleisiwyd pwysigrwydd adeilad y llyfrgell i'r gymuned hŷn. | Cydnabuwyd hyn gan y swyddogion a oedd yn bresennol. |
| Cafwyd trafodaeth ynghylch y posibiliadau o ran lleoli'r llyfrgell yn rhywle arall yn y gymuned. | Roedd y swyddogion yn croesawu hyn a dywedwyd y byddai hyn yn bosibilrwydd o fewn y strategaeth pe bai lleoliad addas arall yn cael ei awgrymu'n ffurfiol. |
| Beth yw'r cynlluniau ar gyfer y Llyfrgell Symudol?<br>Cwestiynwyd pwysigrwydd y Llyfrgell Symudol yn Rhosneigr – gydag awgrym y byddai rhagor yn defnyddio'r llyfrgell sefydlog pe na bai'r llyfrgell symudol yn ymweld â'r ardal. | Mae'r gwasanaeth symudol yn rhan hanfodol o'r Gwasanaeth Llyfrgell. Mae arnom angen llyfrgell symudol i gyrraedd cymunedau Ynys Môn. Rydym yng nghamau terfynol y broses o dendro am fan lyfrgell newydd. Byddwn yn adolygu'r lleoliadau y bydd yn galw ynddynt |
| Byddai disgwyl i drydydd parti gymryd trosodd prydles hirdymor h.y. 25 mlynedd, ond ni allai'r Cyngor ond gwarantu darparu gwasanaeth llyfrgell craidd am 5 mlynedd. | Eglurwyd y gallai'r Cyngor negydu cymal terfynu 5 mlynedd mewn unrhyw brydles hirdymor gyda'r trydydd parti. |
| Cwestiynwyd cost y deunydd ymgynghori. Gallai'r Cyngor fod wedi cadw'r gost i lawr pe na bai'r deunydd darllen wedi'i argraffu mewn | Roedd y Cyngor eisiau i'r deunydd fod yn ddeniadol er mwyn iddo fod yn drawiadol a chael y cyhoedd i ymgysylltu. |

| | |
|---|---|
| lliw. | |
| Yr effaith ddaearyddol – ni fydd llyfrgell i'r de o'r A55 pe bai Llyfrgell Rhosneigr yn cau. | Rhaid rhoi camau lliniaru yn eu lle yn dilyn canfyddiadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion (AECA). |

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion (AECA)

# Y Gwasanaeth Llyfrgell

ATODIAD 4

| | |
|---|---|
| **Y Cynnig** | Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgell - Cyflwyno model rheoli newydd sy'n cynnig gwasanaeth llyfrgell gynaliadwy a chlir o ran ei ganolbwynt |
| **Dyddiad yr asesiad** | Parhaus |
| **Y swyddog sy'n gyfrifol am yr AECA** | |
| **Tîm Asesu** | Bethan Hughes-Jones, Rachel Rowlands, |
| **Dyddiad Adolygu** | |

## 1. Y Cynnig

Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Corfforaethol 2013-17 Cyngor Sir Ynys Môn (“y Cyngor”), mae’r Gwasanaeth Llyfrgell wedi mynd trwy adolygiad llawn, a arweiniodd at restr faith o opsiynau posibl ar gyfer cyflwyno model rheoli newydd sy’n cynnig gwasanaeth llyfrgell cynaliadwy a chlir o ran ei ganolbwynt.
Yn ystod hydref 2015, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ar y rhestr hir o opsiynau er mwyn cael amcan o deimladau’r cyhoedd tuag at yr opsiynau posib. Nid oedd canlyniadau’r ymgynghoriad yn derfynol; fodd bynnag, amlygwyd cefnogaeth y cyhoedd i’r gwasanaeth, ac ymddengys ei bod yn well ganddynt gael model o gefnogaeth gymunedol yn hytrach na cholli’r gwasanaeth. Yn dilyn ymlaen o ganfyddiadau’r ymgynghoriad, dechreuodd y gwasanaeth drafodaethau â chymunedau, grwpiau, mentrau cymdeithasol a chynghorau cymunedol ynghylch y posibiliadau o ran modelau cyflenwi/rheoli amgen. Y cynnig felly yw i’r Cyngor ddatblygu a chyflwyno model rheoli newydd, sy’n cynnig gwasanaeth cynaliadwy a chlir o ran ei ganolbwynt, gyda chymorth gan y gymuned lle bynnag y bo modd a’i fod yn mabwysiadu Strategaeth Ddrafft Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn 2017-22 ("y Strategaeth Ddrafft").

Mae’r AECA hwn yn asesu’r angen am y Gwasanaeth Llyfrgell, ynghyd ag effaith unrhyw newidiadau arfaethedig i’r strwythur rheoli ar y boblogaeth a all fod yn dymuno ei ddefnyddio. Bydd angen ystyried pob opsiwn yn nhermau’r effaith ar breswylwyr Ynys Môn, yn ogystal â gallu’r Cyngor i ddarparu gwasanaeth llyfrgell ‘cynhwysfawr ac effeithlon’ yn unol â Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Yn ogystal, rhoir ystyriaeth i Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â’r anghenion o ran bod Awdurdodau Llyfrgelloedd yng Nghymru yn adrodd are eu perfformiad blynyddol mewn perthynas â’r Safonau hyn.

Y cynnig yw, os mabwysiadir y Strategaeth Ddrafft ym Mhwyllgor Gwaith Tachwedd 27th 2017, cyflwynir ymagwedd dair haen ar gyfer y Gwasanaeth o Ebrill 1af 2018. Bydd hyn yn arwain at gael 2 Lyfrgell Ardal Haen 1, lawn amser, yng Nghaergybi a Llangefni. Llyfrgelloedd Haen 2, a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad y Cyngor gydag elfen o gymorth gan y gymuned (tua 20 awr), yn Amlwch, Benllech a Phorthaethwy, lle byddai cael y gymuned yn chwarae rhan neu gymorth ariannol yn fanteisiol, a gallai gyflawni arbedion ariannol a gwasanaeth estynedig. Llyfrgelloedd Haen 3, a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad y Cyngor, ym Miwmares a Rhosneigr lle mae cael y gymuned yn chwarae rhan neu gymorth ariannol yn hanfodol er mwyn diogelu darpariaeth gwasanaeth bresennol yn y lleoliadau hynny. Mae’n rhaid i’r AECA felly asesu effaith parhad y Gwasanaeth Llyfrgell mewn rhai ardaloedd, y posibilrwydd o ehangu’r gwasanaeth mewn rhai ardaloedd, ynghyd â chau pwyntiau gwasanaeth mewn rhai ardaloedd, sef Cemaes, Moelfre, Niwbwrch ac, o bosib, Rhosneigr, os na cheir ymrwymiad cadarn gan Gyngor Cymuned Llanfaelog erbyn 2 Ionawr 2017.

## 2. Tystiolaeth ac ymchwil

**Pa ymchwil neu wybodaeth arall a ddefnyddiwyd gennych i ddatblygu'r cynnig hwn?**

Gall ymchwil gynnwys gwybodaeth fonitro, arolygon bodlonrwydd, ymchwil pen desg, cylchgronau proffesiynol, sylwadau gan unigolion a grwpiau. Mae'n rhaid i ni gyhoeddi manylion y wybodaeth a ystyriwyd wrth asesu'r effaith.

| Ffynhonnell wybodaeth | Yr hyn y mae wedi'i ddweud wrthych? |
|---|---|
| **Arolwg Defnyddwyr Llyfrgelloedd Cyhoeddus (PLUS) 2014** | Pwy yw ein defnyddwyr ar hyn y maent yn ein defnyddio ar ei gyfer. Mae hefyd yn rhoi syniad i ni o effaith y Gwasanaeth Llyfrgell ar fywydau pobl |
| **Cyfrifiad 2011** | Data gwerthfawr am grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig, perchnogaeth ceir |
| **NOMIS** Ystadegau marchnad lafur swyddogol y Swyddfa Ystadegau Gwladol | Gwybodaeth werthfawr mewn perthynas â'r Farchnad Lafur, gan gynnwys hawlwyr y Lwfans Ceisio Gwaith ("JSA") a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ("ESA") mewn amryw wardiau yng nghyffiniau lleoliadau llyfrgelloedd |
| **StatsCymru** | Gwybodaeth ddemograffig am boblogaeth Ynys Môn |
| **Yr Adran Gwaith a Phensiynau ("DWP")** | Nifer bresennol yr hawlwyr JSA (Awst 2016) yng nghyffiniau lleoliadau'r llyfrgelloedd presennol |
| **Ymgynghoriad Cyhoeddus a gweithgaredd penodol yn ystod hydref 2015 a haf 2017** | Mae barnau'r cyhoedd o ran y newidiadau posibl i'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi cael eu casglu a'u coladu. |
| **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc/'WIMD')** | Gwybodaeth am amddifadedd drwy'r sir gyfan yn ôl yr Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) |
| **Cysylltu'r Gwledydd 2016 (Adroddiad Ofcom)** | Yng ngolau ystyried yr holl ffactorau digidol a demograffig, mae preswylwyr Ynys Môn yn debygol o gael eu hallgáu yn ddigidol |
| | |

ATODIAD 4

**2.1 Poblogaeth**

Mae Ynys Môn yn ymestyn dros 714 $km^2$, mae'r rhan fwyaf ohoni'n wledig, gyda phoblogaeth o tua 70,000 (amcangyfrifon canol blwyddyn) a dwysedd poblogaeth o 99 o bobl y cilomedr sgwâr.

Ceir pum prif dref, Porthaethwy, Biwmares, Amlwch, Llangefni, a Chaergybi. Mae'r ddwy olaf yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**2.2 Demograffi (Oed Rhyw Hil)**

Mae poblogaeth Ynys Môn, fel gweddill Cymru, wedi'i rhannu'n gyfartal o ran rhyw. Fodd bynnag, dengys y data bod canran y bobl ifanc 0-15, sef 17.2%, yn tua 1% yn is na chyfartaledd Cymru. Poblogaeth gweithio'r ynys yw 59.2% o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 62.5%. Ac o ran y 23.7% o'r boblogaeth yn yr oedran dros 65, Ynys Môn yw'r ail yng Nghymru, o dan Gonwy, ar 25.7%. Mae'r ddwy ardal y rhai sy'n denu pobl sydd wedi ymddeol. Cefnogir y dadansoddiad gan y data ar wledydd geni lle ganwyd 28.8% o breswylwyr yr ynys yn Lloegr. Ganed 3.6% y tu allan i'r DU. (tua 2500)



**2.3 Hil**

Mewn ffigyrau gan StatsCymru, yn y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth, 2016, canfuwyd, o'r 69,400 o bobl sy'n byw ar Ynys Môn:-

- dywedodd 68,100 eu bod o gefndir gwyn
- dywedodd 1,300 eu bod o gefndir heb fod yn wyn (1.9% o boblogaeth Ynys Môn)

Rydym wedi ymgymryd â gwaith mapio data yn defnyddio'r System Wybodaeth Ddaearyddol ("GIS") i ganfod a ddylem ystyried unrhyw ardaloedd a chanddynt ddwysedd uwch o ran poblogaethau o leiafrifoedd ethnig.

**2.4 Amddifadedd**


**Cymunedau yn Gyntaf**

Mae Ynys Môn yn gartref i rai o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl Malc. Mae'r ardaloedd hyn yng Nghaergybi (Tref Caergybi, Morawelon, Ffordd Llundain, Kingsland, Porthyfelin a Maeshyfryd) a Llangefni (Tudur). Mae'r Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf (Môn CF) yn rhoi cymorth i'r wardiau hyn. Ei nod yw lleihau'r bwlch rhwng y rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd mwy cyfoethog. Lleolir Llyfrgell Caergybi ar gyrion wardiau Tref Caergybi a Phorthyfelin 1, tra lleolir Llyfrgell Llangefni ychydig i'r de orllewin o ward Tudur.

ATODIAD 4

**Amddifadedd Gwledig**

Er y nodwyd fod y cymunedau mwyaf difreintiedig ym Môn wedi'u lleoli yn y ddwy brif dref, ymddengys fod rhai o'r cymunedau mwy gwledig yn wynebu amddifadedd hefyd. Mae rhai o'r cymunedau gwledig y nodwyd eu bod yn y chwartel isaf (y rheiny a chanddynt y lefelau uchaf o ran amddifadedd) yn wynebu problemau o ran tai, cludiant a diffyg gwasanaethau.




Tudalen 193

ATODIAD 4

**Dechrau'n Deg**

Mae Rhaglen Dechrau'n Deg yn anelu at fynd i'r afael â thlodi plant a rhoi cymorth i deuluoedd drwy ymyrraeth gynnar. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar godau post, sy'n golygu ei bod ar gyfer ardaloedd penodol, ac nid yw o reidrwydd bod y rheini sydd â'r angen mwyaf yn ei defnyddio neu'n cael mynediad iddi. Mae'r ardaloedd a gynhwysir yn y rhaglen ar Ynys Môn yng Nghaergybi, Llangefni, Niwbwrch a Gwalchmai. Mae tua 630 o blant sy'n byw o fewn yr ardaloedd hyn yn destun ymyrraeth Dechrau'n Deg (data yn gywir ar 3ydd Awst 2016).

**Budd-daliadau i'r Di-waith**

Roedd data NOMIS ar gyfer Mai 2016 yn nodi, o'r 5,700 (14% o'r boblogaeth oedran gweithio) sy'n hawlio budd-daliadau ym Môn, roedd 2,850 (7%) yn hawlio ESA a budd-daliadau analluogrwydd, tra bo 930 (2.3%) yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. Mae nifer yr hawlwyr JSA ymhlith dynion bron yn ddwbl nifer y merched sy'n hawlio. Bu'r cyfanswm hwn yn lleihau'n araf ers Mai 2012 (1,786 o hawliadau).

Ffigyrau hawlwyr JSA neu Gredyd Cynhwysol Ynys Môn, Gorffennaf 2016, o fewn ardaloedd llyfrgelloedd



1. LL65 1 (Caergybi) = 170
2. LL68 9 (Amlwch) = 123
3. LL77 7 (Llangefni) = 90
4. LL64 4 (Rhosneigr) = 46
5. LL61 6 (Niwbwrch) =28
6. LL59 5 (Porthaethwy) = 22
7. LL67 0 (Cemaes) = 18
8. LL58 8 (Biwmares) = 16
9. LL74 8 (Benllech) = 15
10. LL72 8 (Moelfre) = 8

(Ffynhonnell Data: Adran Gwaith a Phensiynau Awst 2016)

**Aelwydydd Heb Waith**

Yn y data diwedd blwyddyn ar gyfer 2015, amcangyfrifwyd bod 3,800 o aelwydydd heb waith ar Ynys Môn, sef 18.7%. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru oedd yn 18.3%. O'r aelwydydd hynny, roedd gan 1,000 blant yn byw oddi mewn iddynt, sy'n 9.1% o holl aelwydydd Ynys Môn. (StatsCymru)

Mae 20.2% o'r boblogaeth oedran gweithio ym Môn, ac eithrio myfyrwyr, wedi'u dosbarthu'n economaidd anweithgar (StatsCymru – y flwyddyn yn diweddu 30ain Medi 2016)

**Rhieni Unigol**

Ceir 1811 o aelwydydd ym Môn sy'n cael eu dosbarthu fel y rhai a chanddynt rieni unigol, rhwng 16 – 74 oed, gyda phlant dibynnol.

ATODIAD 4

**Yr Effaith Bosibl**

Gallai cau llyfrgelloedd neu leihad mewn oriau gael effaith negyddol ar hawlwyr JSA ac ESA a Chredyd Cynhwysol nad oes ganddynt fynediad i ddyfais ddibynadwy i fynd ar y rhyngrwyd, neu gysylltiad dibynadwy a fforddiadwy i'r rhyngrwyd. Gallai gallu pobl i wneud a rheoli hawliadau gael ei effeithio, a fyddai wedyn yn golygu na fydd yn bosib hawlio, neu'n arwain at sancsiynau os na fydd hawlwyr yn cydymffurfio â'u cytundeb. Mae'r ffigyrau uchod yn dangos bod y niferoedd uchaf sy'n hawlio JSA yn ardaloedd y llyfrgelloedd yn y tair tref fwyaf ac yn ardaloedd gwledig Niwbwrch, ynghyd â wardiau cyfun Aberffraw a Rhosneigr 1 a 2. Byddai effaith cau llyfrgell yn fwy yn Rhosneigr gan fod cyfrifiaduron personol ar gael i'w defnyddio ar gyfer gwneud ceisiadau o'r fath, ond dim ond I-Pad sydd ar gael yn Llyfrgell Niwbwrch.

**2.5 Allgáu Digidol**

Gall preswylwyr yng Nghymru wledig ddisgwyl cael cysylltedd digidol gwaelach o ganlyniad uniongyrchol i isadeiledd sefydlog neu symudol gwael, yn ôl Ofcom yn eu hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2016.

Mae 'Get Digital' o 'Digital Exclusion Heatmap' 'The Tech Partnership', a ddatblygwyd gyda chymorth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol ac Ysgol Economeg a Gwyddorau Gwleidyddol Llundain, ar y cyd â'r Lloyds Banking Group, yn treiddio ymhellach i Sgiliau Digidol Sylfaenol ynghyd ag effaith isadeiledd er mwyn dangos lle mae allgau digidol yn debygol o fod.
Mae'r 'Digital Exclusion Heatmap' yn dangos, o ganlyniad i isadeiledd, ei bod yn dra thebygol bod preswylwyr Ynys Môn wedi'u hallgáu yn ddigidol. Dengys ymchwil bod 75% o oedolion yn honni bod ganddynt bob un o'r sgiliau digidol (Rheoli Gwybodaeth, Cyfathrebu, Trafod, Datrys Problemau a Chreu). Fodd bynnag, mae llai na 50% o oedolion wedi defnyddio bob un o'r 5 sgil yn y tri mis diwethaf.
Mae llyfrgelloedd ar hyn o bryd yn cynnig cyfleuster o fewn cymunedau sy'n caniatáu i'r rheiny nad ydynt yn gallu gwneud cysylltiadau digidol yn eu cartrefi gael gwneud hynny naill ai drwy ddefnyddio PC neu WiFi.


**2.6 Yr Iaith Gymraeg ym Môn**

Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn ardal o Gymru a chanddi bresenoldeb cryf o ran y Gymraeg. Dengys Cyfrifiad 2011 bod 45.6% o'r boblogaeth yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Dyma'r gyfradd uchaf ond un yng Nghymru, yn ail i Wynedd (56.0%). Cyfartaledd cyffredinol Cymru oedd 14.6% (Cyfrifiad 2011).
Caergybi oedd yr ardal ym Môn lle cafwyd y nifer leiaf o breswylwyr a oedd, ar y cyd, yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Y LSOA yng nghyffiniau'r Fali yng ngorllewin Ynys Môn yw'r ardal lle ceir y ganran uchaf o breswylwyr yn dweud nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg, sef 55.2%.
Mae llyfrgelloedd yn cynnig llyfrau ffisegol ac electronig, ynghyd â gweithgareddau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad anffurfiol, anfygythiol.

ATODIAD 4

**2.7 Y Defnydd o Lyfrgelloedd ar Ynys Môn**

Ceir 10 llyfrgell sefydlog ym Môn sy'n gwasanaethu poblogaeth o tua 70,000 o breswylwyr. Mae'r sêr ar y map a ganlyn yn dangos safleoedd y llyfrgelloedd sefydlog. Mae wyth o'r deg llyfrgell wedi'u hadeiladu'n bwrpasol, gyda'r un yn Niwbwrch wedi'i lleoli yn Neuadd Prichard Jones ac, ym Moelfre, o fewn adain gymunedol yr Ysgol Gynradd.



ATODIAD 4

Mae gwasanaeth i rai sy'n Caeth i'w Tai ynghyd â Gwasanaeth Llyfrgell Symudol yn ymweld â thros 60 o gymunedau, yn galw mewn tua chant o leoedd bob mis. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth i rai sy'n gaeth i'w tai yn ymweld yn fisol â phreswylwyr nad ydynt, yn gorfforol, yn gallu mynd i lyfrgell sefydlog neu lle mae'r gwasanaeth symudol yn galw.

Mae ysgolion ar draws y sir yn tanysgrifio i'r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion ac yn derbyn pecynnau adnoddau i'w cynorthwyo i gynllunio ac ychwanegu at y cwricwlwm, yn ogystal â chael ymweliad gan y fan Lyfrgell Ysgolion unwaith y tymor i alluogi plant i gael y profiad o ddewis eu llyfrau eu hunain.

Dangoswyd y defnydd o'r Gwasanaeth Llyfrgell yn fanwl yn Atodiad 3 o Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgell. Fodd bynnag, isod, ailadroddir y data ar gyfer y llyfrgelloedd sefydlog a gynhwyswyd o fewn y dogfennau adolygu.

Tudalen 197

| Llyfrgell | Oriau agor bob wythnos | Ymweliadau'r flwyddyn | Ymweliadau bob awr y maent ar agor | Eitemau a fenthycwyd y flwyddyn | Eitemau a fenthycwyd bob awr y maent ar agor | Cost ar gyfer bob ymweliad | Cost ar gyfer pob eitem a fenthycwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | 20 | 33,133 | 33.1 | 23,758 | 23.8 | £0.86 | £1.28 |
| Biwmares | 17 | 10,522 | 12.4 | 19,942 | 23.5 | £1.65 | £0.87 |
| Benllech | 16.5 | 33,511 | 40.6 | 23,634 | 28.6 | £0.61 | £0.74 |
| Cemaes | 11 | 3,446 | 6.3 | 6,618 | 12.0 | £3.84 | £1.84 |
| Caergybi | 40.5 | 69,953 | 34.5 | 55,044 | 27.2 | £1.50 | £1.78 |
| Llangefni | 44 | 91,388 | 41.5 | 74,876 | 34.0 | £1.15 | £1.33 |
| Porthaethwy | 20 | 40,787 | 40.8 | 40,109 | 40.1 | £0.92 | £0.88 |
| Moelfre | 11 | 2,422 | 4.4 | 5,348 | 9.7 | £2.47 | £1.62 |
| Niwbwrch | 7 | 1,160 | 3.3 | 4,289 | 12.3 | £4.03 | £0.88 |
| Rhosneigr | 11 | 5,703 | 10.4 | 5,539 | 10.1 | £3.22 | £2.76 |
| **Cyfansymiau** | **198** | **286,254** | **227.3** | **273,552** | **221.3** | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | Costau Cyfartalog | £1.24 | £1.30 |

Mae'r costau uchod yn seiliedig ar gostau uniongyrchol a briodolir i bob Llyfrgell fel yr oeddent ar adeg yr Adolygiad, nid ydynt yn cynnwys stoc, cymorth proffesiynol (sef cymorth llyfrgellwyr sydd wedi'u cymhwyso'n broffesiynol) neu gostau TGCh a ddarperir yn ganolog o fewn y

gwasanaeth. Maent yn cynnwys staff rheng flaen, costau adeiladau. Mae’r costau cyfartalog yn seiliedig ar wariant cyfartalog yn ystod y 3 blynedd cyn cyhoeddi.

Mae patrymau defnydd ar gyfer y llyfrgelloedd yn amrywio, gyda’r defnydd o rai ohonynt yn lleol iawn tra bo eraill yn denu cwsmeriaid o ardal ddaearyddol fawr.
Crëwyd mapiau sy’n dangos o le mae defnyddwyr y llyfrgelloedd yn teithio yn defnyddio data defnyddwyr, ac mae ar gael yn Atodiad 1 o’r ddogfen hon.

## 3. Ymgysylltu



| **Dyddiad ymgysylltu** | **Pwy a wahoddwyd gennych** | **Faint a fynychodd? Pa grwpiau oeddynt yn eu cynrychioli?** | **Prif faterion** |
|---|---|---|---|
| **Hyd – Tach 2015** | Roedd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus wedi gwahodd pob aelod o’r cyhoedd, gan gynnwys rhai sy’n defnyddio Llyfrgelloedd a rhai nad ydynt, i ymateb naill ai’n electronig drwy ‘Smart Survey’, neu ar bapur drwy’r post neu mewn Llyfrgelloedd neu drwy arolwg wyneb yn wyneb ar y stryd yng nghanol trefi (Tua 100) | 1081 o ymatebwyr i’r ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd 90% ohonynt yn defnyddio Llyfrgell yn rheolaidd. | Roedd ymgysylltu â rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr ynghyd â grwpiau sy’n anodd eu cyrraedd er mwyn cael eu barnau yn her. Dysgwyd gwersi a rhoir mwy o bwyslais ar y grwpiau hyn yn y rownd ymgynghori nesaf. |
| **Hyd – Tach 2015** | Ymgynghori â Rhanddeiliaid | 24 o ymatebwyr | Rhestr fanwl o Randdeiliaid a reolir gan PM – y prif fater o ran yr ymgynghoriad oedd mai dim ond tua 5% o’r rheiny a wahoddwyd i fynegi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | barn drwy'r post oedd wedi ymateb. Yn bosib bod angen adnoddau er mwyn canfod cysylltiadau mwy lleol ar gyfer rhai sefydliadau cenedlaethol. |
| **Tach 2015** | Yr holl staff o fewn y gwasanaeth | | |
| **9 a 10/12/2015** | Grwpiau iaith a chwarae yng Nghaergybi (rhieni a gwarcheidwaid plant ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghaergybi - yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn benodol) | 11 - rhieni ifanc, neiniau a theidiau plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg | Angen gallu cerdded /cael mynediad i gludiant cyhoeddus i fynd i weithgareddau<br>Angen gallu ymweld ar adegau sy'n gyfleus o ran ymrwymiadau teuluol eraill fel mynd i'r feithrinfa/danfon a nôl plant o'r ysgol ac ati. |
| **14/12/2015** | Aelodau Fforwm Llais Ni (partneriaeth trydydd sector/ALI sy'n ymgysylltu'n benodol gyda phobl ifanc 10-25) | 24 | Roedd natur wledig yr ardal yn atal llawer o bobl ifanc rhag cael mynediad i wasanaethau gan eu bod yn ddibynnol ar rieni/gwarcheidwaid i gael lifft. Roedd diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael yn rhwystr arall |
| **19-25/11/2015** | Disgyblion o 4 o'r 5 Ysgol Uwchradd prif ffrwd | Tua 200 | Roedd natur wledig yr ardal yn atal llawer o bobl ifanc rhag cael mynediad i wasanaethau gan eu bod yn ddibynnol ar rieni/gwarcheidwaid i gael lifft. Roedd diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael yn rhwystr arall |
| | Prosiect partneriaeth yn y trydydd sector yw Lleisiau Lleol, a sefydlwyd i ganfod barnau pobl a gynrychiolir gan sefydliadau penodol fel Age Cymru, Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru | | |
| **Mehefin – Medi 2017** | Gweler y Cynllun Cyfathrebu ar gyfer yr Ymgynghoriad | | Mae sylwadau a manylion llawn am yr ymgynghoriad ar gael yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad a nodiadau'r gweithgareddau ymgysylltu yn Atodiad 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Hydref 13, 2017** | Cawsom wahoddiad i fynychu | Cydlynydd y Strategaeth Bobl Hŷn, Lleisiau Lleol, Rheolwr Rhaglen ICF, Rheolwr Gweithrediadau Iechyd yr Amgylchedd | Gallai cau Llyfrgell Cemaes ddwysáu effeithiau andwyol prosiect posibl gorsaf bŵer niwclear Wylfa Newydd yn y dyfodol agos gan y bydd yn arwain at lai o leoedd cymunedol i ffwrdd o'r llwch a'r llygredd sŵn all ddod o ganlyniad i'r datblygiad mawr hwn. Mae'n anodd trin Llyfrgell Cemaes yn fwy neu'n llai ffafriol nag unrhyw un arall oherwydd y potensial am ddatblygu yn yr ardal i'r dyfodol.<br>Awgrymwyd yr angen am Asesiad Effaith ar Iechyd a thrafodir hyn ymhellach gyda'r swyddogion sy'n gyfrifol o fewn y Cyngor. |

## 4. Asesu'r Effaith

Yn defnyddio'r tabl isod, nodwch, os gwelwch yn dda:

- P'un a allai'r cynnig arwain at rai grwpiau'n cael eu rhoi dan anfantais neu eu trin yn annheg; neu p'un a allai arwain at gyfle i hyrwyddo cydraddoldeb neu gynhwysiant.
- Lle bo posibiliadau o ran rhoi rhywun dan anfantais neu eu trin yn annheg, beth yw eich cynlluniau i oresgyn hyn, ei liniaru neu ei gyfiawnhau.
- Os nad ydych yn canfod unrhyw effeithiau, mae'n rhaid i chi egluro sut y daethoch i'r penderfyniad hwn.



| | **Ydy'r cynigion yn effeithio ar staff neu gwsmeriaid?** | **A allai'r cynigion arwain at unrhyw grwpiau'n cael eu rhoi dan anfantais neu eu trin yn annheg? Eglurwch pam os gwelwch yn dda.** | **Sut ydych yn bwriadu dileu, lleihau neu gyfiawnhau hyn?**<br><br>**Pwy fydd yn gyfrifol am y cam gweithredu a nodwyd a pha amserlenni sydd dan sylw?** | **A allai'r cynnig hyrwyddo cydraddoldeb? Eglurwch sut os gwelwch yn dda.** |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran (pobl ifanc neu bobl hŷn)** | Cwsmeriaid | Gallant – plant a babanod 0-4 sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus neu'r gallu i gerdded gyda rhiant i lyfrgell.<br>Plant 8-14 sy'n ymweld â'r llyfrgell leol heb eu rhieni<br>Pobl hŷn – mae cyfran uwch o ddefnyddwyr llyfrgelloedd dros 65, felly gallai unrhyw newidiadau gael effaith negyddol ar y grŵp oedran hwn | Ymgymerir ag adolygiad llawn o lwybr ac amserlen y Llyfrgelloedd Symudol a'r Gwasanaeth i Rai sy'n Gaeth i'w Tai, a lle cafwyd gostyngiad neu derfynu gwasanaeth, cyflwyno lleoliadau newydd y bydd y gwasanaethau'n galw ynddynt a/neu ddatblygu Pwyntiau Mynediad Cymunedol mewn lleoliad yn y gymuned. | Mewn ardaloedd lle bydd y gymuned yn chwarae rhan a chymorth ariannol i barhau'r gwasanaeth gallai hyn hybu cydlyniant cymunedol. Drwy annog y defnydd o'r adeilad y tu allan i oriau llyfrgell craidd ar gyfer gweithgareddau eraill, darperir rhagor o gyfleoedd i'r gymuned gael cymdeithasu a chyfarfod pobl mewn lleoliad hamddenol a niwtral. |
| **Anabledd (yn cynnwys gofalwyr)** | Cwsmeriaid | Gallant – gallai cau unrhyw lyfrgell arwain at roi pobl ag anableddau neu eu gofalwyr dan anfantais | Gallai ailfodelu'r Gwasanaeth i rai sy'n gaeth i'r tŷ neu'r Gwasanaeth Symudol liniaru | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | drwy ei gwneud yn anoddach cael mynediad i'r Llyfrgell. | hyn i raddau. Fodd bynnag, ni wnaiff hyn gymryd lle'r weithred o fynychu'r llyfrgell mewn modd mor annibynnol â phosibl. | |
| **Yn briod neu mewn partneriaeth sifil** | | Ni chanfuwyd unrhyw reswm i bobl gael eu rhoi dan anfantais am fod yn briod, yn sengl, wedi ysgaru, neu mewn partneriaeth sifil. | | |
| **Rhyw (yn cynnwys trawsrywedd, beichiogrwydd a mamolaeth)** | Cwsmeriaid | Gallant - mae cyfran uwch o ddefnyddwyr llyfrgelloedd yn ferched, gallai gostyngiad mewn gwasanaeth gael effaith negyddol ar ferched hŷn sy'n dibynnu ar y gwasanaeth ar gyfer eu llesiant. Yn ogystal, gallai effeithio rhieni (y ddau ryw) sy'n dod â phlant ifanc i'r llyfrgell i ddatblygu a chefnogi eu sgiliau llythrennedd a chyfathrebu, yn ogystal ag ar gyfer eu llesiant eu hunain ac i gymdeithasu | Gallai ailfodelu'r Gwasanaeth i rai sy'n gaeth i'r tŷ neu'r Gwasanaeth Symudol liniaru hyn i raddau. Hwyrach nad yw hyn yn ddigonol i gymryd lle'r rhyngweithio a gyflawnir drwy ymweld â llyfrgell sefydlog, ond gallai liniaru'r effaith. | |
| | Staff | Mae mwyafrif gweithlu'r Gwasanaeth Llyfrgell yn ferched ac felly mae unrhyw newidiadau'n debygol o'u rhoi hwy o dan fwy o anfantais na dynion | Gwneud pob ymdrech bosibl i gynnal oriau staffio o fewn y gwasanaeth, a lle bo gostyngiad a newidiadau sylweddol i oriau cytundebol neu ddyletswyddau, gweithredu'n briodol gyda AD i sicrhau bod cyn lleied o effaith ag y bo modd. Lle bydd rhaid cael newidiadau o ran staff, bydd peidio â gwahaniaethu, yn | |

Tudalen 202

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gadarnhaol neu'n negyddol, yn erbyn y naill ryw neu'r llall, o'r pwys mwyaf pe bai rhaid adleoli. | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | Ni ddylai unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth gael effaith uniongyrchol ar unigolion o ganlyniad i'w cyfeiriadedd rhywiol | | |
| **Hil** | | Ni ddylai newidiadau i'r gwasanaeth gael effaith uniongyrchol ar unigolion o ganlyniad i'w hil. | | |
| **Crefydd neu gred** | | Ni ddylai newidiadau i'r gwasanaeth gael unrhyw effaith uniongyrchol ar unigolion o ganlyniad i'w crefydd neu gred | | |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Cwsmeriaid | Gall newidiadau i'r gwasanaeth gael effaith ar allu unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu cymunedau. | Pe bai model Cefnogaeth Gymunedol a arweinir gan y Cyngor yn cael ei fabwysiadu mewn rhai ardaloedd, bydd angen rhoi Cytundebau Lefel Gwasanaeth cadarn yn eu lle i sicrhau bod pobl sydd eisiau defnyddio'r Gwasanaeth Llyfrgell yn gallu gwneud hynny yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ystod oriau craidd a'r tu allan iddynt. Yn ogystal, bydd cau pwyntiau gwasanaeth yn arwain at lai o leoedd cyhoeddus lle gellir defnyddio ac ymarfer y Gymraeg a lle gellir cael mynediad at ddeunyddiau yn y Gymraeg. | |

## 5. Asesu'r effaith ar gydlyniant cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol

O dan y ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol, mae'r gyfraith yn mynnu ein bod yn meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a'r rheiny nad ydynt (cydlyniant cymunedol). Wrth asesu'r effaith ar gydlyniant cymunedol, dylech ystyried y canlynol:

- A allai unrhyw grwpiau ystyried bod y cynigion yn annheg (hyd yn oed os ydych yn meddwl eu bod yn deg)?
- A allai'r cynigion arwain at fwy o gysylltiad rhwng gwahanol grwpiau a'i gilydd?
- A allai'r cynigion achosi neu gyfrannu at wrthdaro neu densiynau rhwng grwpiau?

Dylech hefyd ystyried unrhyw effaith bosibl y cynnig ar gynhwysiant cymdeithasol. Mae cynhwysiant cymdeithasol yn ymwneud â chau'r bwlch rhwng y rhai lleiaf a mwyaf difreintiedig yn y sir.



Ymgymerwyd â gwaith mewn perthynas â'r data diweddaraf. Fodd bynnag, ymddengys fod y cymunedau mwyaf difreintiedig (MALIC) o fewn dalgylch Llyfrgelloedd Llangefni a Chaergybi, a effeithir leiaf gan unrhyw newidiadau i'r model cyflenwi gwasanaeth fel yr awgrymwyd o fewn y Strategaeth Ddrafft.

Mae ardaloedd lle gall unigolion fod dan anfantais oherwydd natur wledig eu hardaloedd neu gysylltiadau gwael wedi cael eu mapio, a rhoir ystyriaeth i gynyddu'r mynediad i'r gymuned i'r gwasanaeth pe bai unrhyw newidiadau i'r model cyflenwi yn arwain at gau unrhyw lyfrgelloedd. Gwneir hyn yn ystod y broses o ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgell Symudol a'r Gwasanaeth i Rai sy'n Gaeth i'w Tai ac fel ymateb i anghenion newidiol cymunedau.

Ceir cyfleoedd i ddatblygu a meithrin cydlyniant cymunedol a gwydnwch mewn cymunedau lle bo awydd i gydweithio â'r Cyngor i gyflenwi gwasanaethau drwy ddulliau newydd. Er enghraifft, ym Mhorthaethwy, bu Cyfeillion Llyfrgell Porthaethwy'n peilota gweithgareddau a all eu galluogi i gyfrannu mewn capasiti cymdeithasol ac ariannol tuag at ddyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell yn y dref. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig gwasanaethau ychwanegol sy'n ategu ac yn ychwanegu gwerth at y Gwasanaeth Llyfrgell Craidd.

Mae'r penderfyniad o ran sut i gyflenwi'r gwasanaeth gorau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael wedi cael ei lywio gan y broses ymgynghori, sylwadau a wnaed gan randdeiliaid, ymgyngoreion a defnyddwyr yn ystod y broses honno.

Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn agored ac yn barod i dderbyn awgrymiadau o ran gwahanol ddulliau o weithio a allai arwain at y Gwasanaeth Llyfrgell yn gwella yn hytrach dirywio, o ganlyniad i strategaeth hirdymor.
Dengys yr ymatebion i’r Ymgynghoriad (haf 2017), er bod y mwyafrif yn cytuno gyda’r Strategaeth Ddrafft, nid oedd rhai ymatebwyr yn cytuno bod y llyfrgell a ffefrir ganddynt yn yr Haen gywir. Nid oes unrhyw faterion o ran cydraddoldeb wrth wraidd yr ymatebion hyn ond ymdeimlad o fod eisiau amddiffyn gwasanaeth lleol sy’n bwysig iawn i’w ddefnyddwyr. Os caiff y Gwasanaeth ei leihau neu ei derfynu mewn ardal, yna darperir gwasanaeth amgen, yn ffurf naill ai mynediad i’r Gwasanaethau Symudol neu bwyntiau Mynediad Cymunedol posibl.

## 6. Any other areas for consideration

Yn y 5 cymuned sydd o fewn Haen 3 o’r Strategaeth Ddrafft, cynhaliwyd trafodaethau manwl gyda Rhanddeiliaid o’r gymuned dros gyfnod o 18 mis, wrth ddarparu’r Strategaeth Ddrafft ac yn ystod y ddau gyfnod ymgynghori.



**Cynhwysiant Digidol**

Mae’n bwysig nodi bod y Cyngor yn ymwybodol o effaith bosibl y Strategaeth Ddrafft o ran Cynhwysiant Digidol rhai unigolion sy’n dibynnu ar gyfleusterau cyfrifiadurol a chysylltedd mewn adeiladau Llyfrgell. Y llyfrgelloedd yn Haen 3 yw’r rheiny a chanddynt y nifer leiaf o sesiynau cyfrifiadur a ddefnyddiwyd ar hyn o bryd, ac sydd â’r nifer leiaf o gyfrifiaduron. Er enghraifft, o’r data ar ddiweithdra, byddwn yn disgwyl gweld nifer gymharol uchel o sesiynau cyfrifiadur yn Llyfrgell Rhosneigr gan yr hawlwyr JSA hynny, ond nid fel hyn y mae hi ac mae’r lefelau defnydd yn gymharol isel. l

ATODIAD 4

# Diffiniadau a gofynion

**Cydraddoldeb: Yr hyn a fynnir gan y ddyletswydd gyfreithiol – amlinelliad byr**

Mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswyddau cyfreithiol eang o ran cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd gyffredinol i roi ‘sylw dyledus’ i’r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd berthnasol ac unigolyn nad ydynt, ynghyd â meithrin cysylltiadau da rhwng unigolion sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a rhai nad ydynt (y ddyletswydd i roi ‘sylw dyledus’)

Yn ôl y gyfraith, mae’n rhaid i asesiad effaith cydraddoldeb:

- Adlewyrchu gwybodaeth am yr effaith bosibl y gallai’r Strategaeth Ddrafft ei chael ar ei gallu i gydymffurfio â’i dyletswydd i roi sylw dyledus
- Canfod dulliau i liniaru neu osgoi unrhyw effaith negyddol



Nid oes rhaid cynnwys hyn mewn un ddogfen o’r enw Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion (AECA), ond mae’n rhaid i ni gyhoeddi manylion y dadansoddiad a gynhaliwyd gennym lle mae’n dangos effaith sylweddol (neu effaith debygol) ar allu’r Cyngor i gyflawni’r ddyletswydd i roi sylw dyledus, gan nodi’r wybodaeth a ystyriwyd gennym. Mae angen i ni ddangos ein bod wedi ystyried a cheisio lliniaru’r effeithiau, ac nid ein bod wedi llwyddo i’w lliniaru.

**Cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol:**


I sicrhau ymagwedd gynhwysfawr, byddwn hefyd yn ystyried cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol yn ein hasesiadau. **Cynhwysiant Cymdeithasol** yw ein dull llaw-fer ar gyfer asesu goblygiadau posibl ehangach cynigion o ran sut y gallant effeithio pawb y gellir eu heithrio rhag cael mynediad i wasanaethau, adnoddau a chyfleoedd. Mae angen i ni ystyried materion fel costau, lleoliadau a chludiant.

Fel yn achos cynhwysiant, nid oes dyletswydd uniongyrchol i hyrwyddo **cydlyniant cymunedol**, ond ceir achos busnes cryf. Mae arnom angen hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol rhwng grwpiau, ynghyd â lleihau’r tensiynau sy’n gysylltiedig ag unrhyw ran o’n gwasanaethau. Os na wnawn hyn, gall fod costau sylweddol o ran y drefn gyhoeddus, diogelwch cymunedol, iechyd, ac economi ac enw da’r sir.

**ATODIAD**

1. **O le daw benthycwyr Llyfrgelloedd**


**Atodiad 1**


O le daw benthycwyr Llyfrgell Amlwch
From where do Amlwch Library borrowers travel
Llyfrgell Cemaes
Llyfrgell Amlwch
Llyfrgell Moelfre
Llyfrgell Caergybi
Llyfrgell Benllech
Llyfrgell Beaumaris
Llyfrgell Llangefni
Llyfrgell Rhosneigr
Llyfrgell Porthaethwy
Llyfrgell Niwbwrch
Benthycwyr fesul km2
Borrowers per km2
1 - 5
6 - 10
11 - 15
16 - 20
21 - 25
26 - 30
31 +
Grid 1km

**Atodiad 1**

## O le daw benthycwyr Llyfrgell Biwmares


## From where do Beaumaris Library borrowers travel



**Atodiad 1**

## O le daw benthycwyr Llyfrgell Benllech


## From where do Benllech Library borrowers travel



**Atodiad 1**

## O le daw benthycwyr Llyfrgell Caergybi

## From where do Holyhead Library borrowers travel




ATODIAD 4


**Atodiad 1**

## O le daw benthycwyr Llyfrgell Cemaes

## From where do Cemaes Library borrowers travel



**Atodiad 1**




O le daw benthycwyr Llyfrgell Llangefni
From where do Llangefni Library borrowers travel
Llyfrgell Cemaes
Llyfrgell Amlwch
Llyfrgell Moelfre
Llyfrgell Caergybi
Llyfrgell Benllech
Llyfrgell Beaumaris
Llyfrgell Llangefni
Llyfrgell Rhosneigr
Llyfrgell Porthaethwy
Llyfrgell Niwbwrch
Benthycwyr fesul km2
Borrowers per km2
1 - 5
6 - 10
11 - 15
16 - 20
21 - 25
26 - 30
31 +
Grid 1km

**Atodiad 1**

**O le daw benthycwyr Llyfrgell Moelfre**


**From where do Moelfre Library borrowers travel**



**Atodiad 1**

## O le daw benthycwyr Llyfrgell Niwbwrch


## From where do Newborough Library borrowers travel




**Atodiad 1**

## O le daw benthycwyr Llyfrgell Porthaethwy

## From where do Menai Bridge Library borrowers travel



**Atodiad 1**



O le daw benthycwyr Llyfrgell Rhosneigr
From where do Rhosneigr Library borrowers travel
Llyfrgell Cemaes
Llyfrgell Amlwch
Llyfrgell Moelfre
Llyfrgell Caergybi
Llyfrgell Benllech
Llyfrgell Llangefni
Llyfrgell Beaum
Llyfrgell Rhosneigr
Llyfrgell Porthaethwy
Llyfrgell Niwbwrch
Benthycwyr fesul km²
Borrowers per km²
1 - 5
6 - 10
11 - 15
16 - 20
21 - 25
26 - 30
31 +
Grid 1km

**Atodiad 5**
**Amcangyfrifon Arbedion Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgell**

**Haen 1: Llyfrgelloedd Ardal**

| | Newidiadau adeilad | Cyfanswm cyfartaledd 3 bl | arfaethedig | Colled incwm (16/17) | Arbedion | (costau 3 blynedd ar gyfartaledd yn cynnwys NNDR) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caergybi | Cadw ond symud i neuadd y farchnad | 31890.38 | 31890.38 | n/a | 0.00 | |
| Llangefni | Cadw | 55405.25 | 55405.25 | n/a | 0.00 | gyfer adeilad y gwasanaeth llyfrgell gyfan, nid y llyfrgell |

**Haen 2:Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad y Cyngor gydag elfen o gymorth gan y gymuned**

| | Newidiadau adeilad | Cyfanswm cyfartaledd 3 bl | arfaethedig | Colled incwm (16/17) | Arbedion | (costau 3 blynedd ar gyfartaledd yn cynnwys NNDR) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | Cadw | 10361.95 | 10361.95 | n/a | 0.00 | |
| Porthaethwy | Cadw | 11895.65 | 11895.65 | n/a | 0.00 | |
| Benllech | Cadw- gyda'r Cyngor Cymuned yn llogi swyddfa am 25 awr yr wythnos am £2,000 ( Ffigwr heb ei gytuno eto ) | 9448.55 | 7448.55 | n/a | 2000.00 | |
| | | | Cyfanswm Arbedion | | 2000.00 | |

**Haen 3: Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad y Cyngor**

| | Newidiadau adeilad | Cyfanswm cyfartaledd 3 bl | arfaethedig | Colled incwm (16/17) | Arbedion | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Biwmares | Tosglwyddo | 15429.35 | 0 | 5150 | 10279.35 | (costau 3 blynedd ar gyfartaledd yn cynnwys NNDR) |
| Cemaes | Cau | 6907.92 | 0 | 147.19 | 6760.73 | |
| Moelfre | Cau | 2358.81 | 0 | 30.77 | 2328.04 | |
| Niwbwrch | Cau | 2562.4 | 0 | 130.98 | 2431.42 | |
| Rhosneigr | Trosglwyddo | 11160.18 | 0 | 0 | 11160.18 | |
| | | | Cyfanswm arbedion | | 32959.72 | |

Cyfanswm Arbedion adeiladau 34959.72

| | | | Arbedion |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm arbedion staffio** | **Strwythur staffio cyfredol** | **534170.00** | |
| | Cost staffio'r strategaeth gan gadw oriau staff cyfredol | 534170.00 | 23.89 |
| | Cost staffio'r strategaeth- lleiafswm staffio isaf | 511530.34 | 22615.77 |
| | Cost y Strategaeth gan gadw 22 awr ar gyfer effeithiau lliniaru cau | 526670.52 | 7538.59 |
| | Cyllideb staff wrth law yn £ 30,000 - cynnig 50% o arbedion | -15000.00 | 15000.00 |
| | a) Arbedion staffio'r strwythur gan gadw staff (£15,000+ £23.89) | 15023.89 | |
| | b)Arbedion staffio'r strwythur -lleiafswm staffio isaf (£15,000+£22615.77) | 37615.77 | |
| | c) Staffio'r strwythur yn cadw 22awr o staff ( £15,000+£7538.59) | 22538.59 | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm arbedion y strwythur Adeiladau + Staff** | **a) Cyfanswn Arbedion y strategaeth yn cadw staffio cyfredol** | **49983.61** |
| | **b) Cyfanswm Arbedion y Strategaeth- lleiafswm staffio isaf** | **72575.49** |
| | **c) Cyfanswm Arbedion gan gadw 22 awr ar gyfer effeithiau lliniaru cau** | **57498.31** |

* 2 x 11 swyddi'r awr @7538.59. Risg sylweddol â pheidio â chadw'r oriau hyn

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **27/11/17** |
| **Pwnc:** | **Peilot 30 awr Gofal Plant am ddim gan Llywodraeth Cymru – rhaglen grant 2017 – 18.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyngh.R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Mrs Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Bethan Hywel Jones**<br>**BethanHJones@ynysmon.gov.uk**<br>**01407767784** |
| **Aelodau Lleol:** | ***Seiriol* - Cyng. Lewis Davies, Carwyn Jones, Alun Roberts,**<br>***Aethwy* - Robin Wyn Williams, Alun Wyn Mummery, R. Meirion Jones,**<br>***LLigwy* - Ieuan Williams, Margaret Murley Roberts, Vaughan Hughes,**<br>***Llifon* – Cyng. Gwilym O Jones, Richard Dew,**<br>***Ynys Cybi* - Dafydd Rhys Thomas, J Arwel Roberts, Trefor Lloyd Hughes,**<br>***Twrcelyn* – Cyng. Richard Owain Jones, Aled Morris Jones, Richard Griffiths,**<br>***Bro Aberffraw* –Cyng. Peter Rogers, Bryn Owen,**<br>**Bro Rhosyr – Cyng.Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts.**<br>***Caergybi* – Cyng. Shaun James Redmond, Robert Llywelyn Jones, Glyn Haynes.**<br>***Talybolion* – Cyng. Llinos Medi Huws, Kenneth P.Hughes, John Griffith.**<br>***Canolbarth Mon* – Cyng. Nicola Roberts, Dylan Rees, Robert G Parry OBE** |

| | |
|---|---|
| | |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|

Gofynnir am benderfyniad y Pwyllgor Gwaith i gytuno ymestyn yr ardaloedd peilot cafwyd eu cytuno yn Chwefror 2017 ac eisoes yn weithredol o Fedi 2017.

Prif amcanion y Llywodraeth wrth ymestyn yr hawl yw:

- i gynnig cefnogaeth i fagu'r genhedlaeth nesaf
- i gynnig mwy o ddewisiadau cyflogaeth i rieni
- i drechu Tlodi
- i hybu cydraddoldeb
- i gefnogi datblygiad plentyn

Mae helpu teuluoedd gyda gofal plant fforddiadwy a hyblyg o safon uchel yn cefnogi adfywio economaidd, yn lleihau pwysau ar incwm teuluoedd ac yn helpu rhieni i weithio, sy'n lleihau'r risg bod y teulu yn byw mewn tlodi. Mae hefyd yn gwella lles plant drwy roi profiadau cadarnhaol a gwerthfawr iddynt yn eu plentyndod.

Hefyd mae'r Cyngor yn gorfod gweithredu dyletswyddau'r Ddeddf Gofal Plant 2006 drwy gynnal asesiad digonolrwydd gofal plant bob 5 mlynedd a datblygu'r maes i sicrhau gofal plant digonol i deuluoedd Mon.

**<u>Gweithredwr Cynnar i'r Cynllun Gofal Plant 30 awr</u>**

Mae'r Llywodraeth wedi enwebu Gwynedd a Môn i fod yn weithredwr cynnar ar y cyd ac mae'r cynllun yma ar y gweill ers Medi 2017. Hyd yma mae Môn a Gwynedd ar y blaen o ran y 6 Sir sydd yn gweithredu'r cynnig gyda 76% o'r targed wedi cyflawni o ran plant yn derbyn y cynnig. Allbynnau eraill Medi 2017:

£20,619 mewn costau gofal wedi talu mewn 1 mis i ddarparwyr lleol
10 darparwyr lleol wedi derbyn plant mis olaf (mis Medi)
73 o blant Môn wedi cofrestru i dderbyn y cynnig
4 o glybiau ar ôl ysgol wedi cofrestru i neud y cynnig
2 cylch meithrin – Llanfairpwll y fwyaf.
13 gwarchodwr
8 meithrinfa dydd llawn.

Mae y Llwyodraeth rŵan yn awyddus i ymestyn y cynnig o mewn dau rhan :
Rhan 1 - ardaloedd nesaf o ran llefydd ym Môn sydd fwyaf llewyrchus o ran data WIMD - sef nifer mewn cyflogaeth. Mae'r ardal yma yn debyg o fod yn weithredol o fis Ionawr 2018 yn dilyn cadarnhad gan y Llywodraeth.

Rhan 2 - fydd gweddill yr Ynys gan gynnwys Caergybi, sef ein hardal fwyaf difreintiedig, sef nifer mewn gwaith yn isel. Fydd yr ardal yma'r ardal wrth gefn ond nid oes cadarnhad eto am amserlen i hon, ond i nodi bydd hyn ddim cyn Medi 2018.

Mae'r ardaloedd peilot yn gweithio o ran cod post sef teulu yn byw o fewn ardal beilot er mwyn derbyn y cynnig - a fydd hyn yn parhau i fod y drefn ar gyfer bod yn deilwng i'r cynnig. Erbyn inni orffen ymestyn i Ran 2 fydd yr holl Sir i mewn yn y cynnig ac ni fydd rhaid gweithio ar sail cod post mwyach.

**Adnabod ardaloedd:**

Rydym wedi adnabod ardaloedd o gwmpas yr agweddau blaenorol pan gytunwyd yr ardal beilot wreiddiol yn Chwefror 2017 sef ddefnyddio data WIMD (Welsh Index of Multiple Deprivation) gan edrych ar y data incwm a chyflogaeth yn bennaf, nifer o enedigaethau o fewn ardaloedd, ardal drefol a gwledig, cynnig gwahanol o ddarpariaeth ddigonol a sefydlog gofal plant.

**Camau nesaf:**

Angen cymeradwyaeth i ymestyn y cynllun i ardaloedd a nodwyd fel Rhan 1 ac wedyn Rhan 2 yn dilyn cael cadarnhad gan y Llywodraeth.
Petai'r Llywodraeth yn cytuno mae yn bosib fydd y Prosiect yn weithredol ar draws Môn cyn diwedd 2018 a Môn yn cael budd llawn. Mae'r tîm gweithredol ar y llawr yn awyddus ac yn barod i weithredu'r cynllun yn llawn.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Diystyru ardaloedd lle mae nifer mewn cyflogaeth yn isel gan fod hwn ar gyfer pobl mewn gwaith er mwyn sicrhau fod cyfle i asesu a datblygu'r sector gofal plant ond gan fod y rhaglen yn datblygu bydd modd i bawb dderbyn hwn maes o law ac efallai cyn 2020. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Y Llywodraeth angen cadarnhad bod y Cyngor yn gefnogol i ymestyn y cynllun oherwydd buddsoddiad ariannol mawr a'r rhaglen yn un o brif raglenni'r Llywodraeth |

| |
|---|
| yma. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae hwn yn grant newydd gan y Llywodraeth. Fydd yn cefnogi teuluoedd mewn gwaith, yn enwedig rhai mewn gwaith gyda chyflog isel. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Dim cyllideb graidd gan y Cyngor - grant blynyddol gan y Llywodraeth . Hyd y peilot yn 3 mlynedd. Cyllideb am y cynnig ac i gael swyddogion i gefnogi'r cynnig. Fydd cyllideb ychwanegol ar gyfer unrhyw ymestyn. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| 1. Llythyr ymestyn y cynnig<br>2. Ardaloedd a data WIMD |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/CS/2431/17

y Cynghorydd Llinos Huws
Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

30 Hydref 2017

Annwyl Llinos,

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio â'ch awdurdod lleol ers mis Rhagfyr 2016 i ddatblygu a chyflawni'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru. Mae hyn wedi cynnwys cydweithio dwys ar ddatblygu'r meini prawf cymhwysedd i rieni, y broses ymgeisio a'r dulliau o dalu darparwyr gofal plant. O ganlyniad i hyn, rhoddwyd gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth i rieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed, ac sy'n byw mewn rhai cymunedau o fewn eich awdurdod lleol ers 4 Medi 2017. Rwy'n ddiolchgar iawn am y gwaith caled a wnaed i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Rwy'n awyddus i ehangu'r ardaloedd lle mae'r Cynnig Gofal Plant ar gael ar Ynys Môn. Rwy'n gwybod bod ein swyddogion yn trafod â'ch swyddogion chi. Gobeithio y byddaf mewn sefyllfa i allu cytuno ar yr ardaloedd newydd hyn yn fuan.

Fel Llywodraeth Cymru, rydym wedi ymrwymo i roi'r Cynnig Gofal Plant ar waith yn llawn erbyn mis Medi 2020. Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, mae cynnydd yn swm y cyllid i gefnogi'r cynnig gofal plant, bydd yn £25m yn 2018-19, ac yn £45m yn 2019-20. Bydd hyn yn caniatáu i ni ehangu a phrofi rhai agweddau ar ddarparu'r cynnig mewn awdurdodau lleol eraill o fis Medi 2018 ymlaen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel rhan o hyn, byddaf yn disgwyl i’r rheini sy’n ymuno â ni gydweithio â naill ai awdurdodau lleol presennol neu awdurdodau lleol cyfagos wrth roi’r cynnig ar waith.  Fel awdurdod sydd wedi mabwysiadu’r cynllun yn gynnar, rydych eisoes wedi bod trwy’r broses ac wedi sefydlu eich systemau a’ch gweithdrefnau.  Oherwydd hynny, mae’n allweddol bod yr awdurdodau lleol hynny sy’n ymuno â ni yn y cam nesaf, yn cydweithio â chi i ychwanegu at arfer orau a sicrhau arbedion maint.

Rwy’n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi wrth i ni roi’r cynnig hwn ar waith a’i roi i rieni a phlant ledled Cymru.

Yn gywir,



**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Atodiad 2/appendix 2 – GOFAL PLANT 30 AWR AM DDIM/ 30 HOURS FREE CHILDCARE

| **Pentrefi o fewn yr ardal WIMD villages within this area** | **Ardal WIMD Areas (Wales Index of Multiple Deprivation)** | **Rhif WIMD/WIMD Number -** | **Allan o 44 WIMD yn Ynys Mon /Out of 44 WIMD areas on Anglesey** | **Cyflogaeth yn Mon WIMD/Anglesey Employment WIMD** | **WIMD Incwm yn Mon/WIMD Income Anglesey** |
|---|---|---|---|---|---|
| Valley , Llanynghenedl | Valley 2 | W01000044 | 43 | 42 | 43 |
| Four Mile Bridge, Rhoscolyn and Trearddur Bay | Trearddur 1 | W01000039 | 34 | 39 | 37 |
| Trearddur Bay to Holyhead mountain | Trearddur 2 | W01000040 | 33 | 35 | 41 |
| Penmynydd, Pentre Berw, Gaerwen | Llanfihangel Esceifiog | W01000025 | 28 | 36 | 36 |
| Brynteg, Tynygongl, Benllech | Brynteg | W01000010 | 38 | 37 | 35 |
| Llanbedrgoch, Gors Coch, Red Wharf Bay | Llanbedrgodch | W01000019 | 35 | 34 | 34 |
| Pentraeth, Llanddona a Rhoscefnhir | Pentraeth | W01000035 | 27 | 29 | 31 |
| Pentrefelin, Burwen | Amlwch rural | W01000004 | 29 | 20 | 32 |
| Bodorgan, Malltraeth, Llangristiolus | Bodorgan | W01000007 | 22 | 27 | 30 |
| Llanfihangel yn Nhowyn | Llanfari yn Neubwll 2 | W01000024 | 15 | 30 | 18 |
| Bodedern | Llanfair yn Neubwll 1 | W01000023 | 16 | 31 | 13 |
| Aberffraw a Rhosneigr | Aberfraw a Rhosneigr 1 | W01000001 | 30 | 21 | 29 |
| Llaingoch | Parc ar Mynydd | W01000034 | 31 | 22 | 24 |
| Rhosybol, Llandyfrydog | Llaneilian | W01000021 | 21 | 18 | 21 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Brynrefail, Moelfre | Moelfre | (W01000032 | 18 | 28 | 23 |
| Llanfachraeth, Llanfwrog, Rhydwyn, Llanfaethlu | Llanfaethlu | W01000022 | 11 | 23 | 17 |
| Carrreglefn, Tregele, Llanfariynghornwy a Llanfechell | Mechell | W01000031 | 13 | 19 | 22 |
| Rhan 2 estyniad/ Part 2 expansion | | | | | |
| Penrhyn, Cemaes, Betws | Llanbadrig | W01000018 | 23 | 14 | 16 |
| Caergybi | Porthyfelin 2 | W01000037 | 25 | 13 | 15 |
| LLanfaelog a Rhosneigr | Aberffraw a Rhsoneig 2 | W01000002 | 14 | 15 | 19 |
| Bodffordd LLynfaes, Mona | Bodffordd | W01000006 | 17 | 16 | 20 |
| Vali | Valley 1 | W01000043 | 20 | 17 | 12 |
| Bryngwran a Gwalchmai | Bryngwran | W01000009 | 12 | 11 | 9 |
| LLanerchymedd, Carmel, Elin | LLanerchymedd | W01000028 | 9 | 12 | 10 |
| Amwlch | Amlwch port | W01000003 | 8 | 8 | 8 |
| Caergybi | Kingsland | W01000017 | 6 | 7 | 5 |
| | Maeshyfryd | W01000030 | 7 | 5 | 6 |
| | Morawelon | (W01000033 | 1 | 2 | 1 |
| | Porthyfelin 1 | W01000036 | 5 | 1 | 7 |
| | Lonodn Road | W01000029 | 3 | 4 | 4 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Holyhead Town | W01000016 | 2 | 3 | 2 |

Nifer o blant yn rhan 1 / Number of children in Part 1 – approx. 250

Nifer o blant yn rhan 2 / Number of children in Part 2 – approx. 250

**Areas were chosen on the following basis :-**

1. The **least d**eprived areas based on the WIMD statistics
2. The **least** deprived areas based on the WIMD with a high number of individuals in work and therefore eligible for the childcare offer
3. The **least d**eprived areas based on the WIMD statistics with the highest level of income across Anglesey who will be eligible for the childcare offer
4. Parity across the Island in that number eligible are in three tranches should the Welsh Government decide upon a further expansion to the programme.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 27.11.17 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd Gwasanaethau Plant |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Llyr Bryn Roberts – Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant (Gweithrediadau)<br>01248 752 765<br>llyrbrynroberts@YnysMon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Margaret Peters, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid, Gwasanaethau plant<br>01248 751812<br>MargaretPeters@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Perthnasol i'r holl Aelodau |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| 1.1 Yr Aelodau i gadarnhau a ydynt yn fodlon gyda'r camau a gymerwyd gan y Gwasanaethau Plant a chyflymder y broses mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed gyda'r Cynllun Gwella Gwasanaeth. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae cyfrifoldeb cyffredinol ar Y Pwyllgor Gwaith i sicrhau bod gwasanaethau'n perfformio'n effeithiol a bod yr adnoddau priodol ganddynt. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn darparu gwasanaeth statudol o dan amryw o ddeddfwriaethau, yn fwyaf diweddar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Mae’r adroddiad yn rhoi diweddariad ar Rhaglen Wella Gwasanaeth Plant. Tra nad oes oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o’r papur hwn, bydd y Pwyllgor Gwaith yn dymuno nodi bod pwysau ariannol ar y Gwasanaeth yn parhau, a hyn yn deillio yn rhannol o’r cynnydd sylweddol yn y nifer o blant sydd mewn gofal dros y dair mlynedd ddiwethaf:<br>• Mae’r trosiant sylweddol mewn staff wedi arwain at gyflogi Gweithwyr Cymdeithasol asiantaeth dros y ddwy flynedd diwethaf; bydd y trefniadau hyn yn parhau am gyfnod pellach tra bo’r Gwasnaeth yn cwblhau y broses o ail-strwythuro ac yn parhau i recriwtio<br>• Mae’r cynnydd yn y costau o leoli plant sydd mewn gofal wedi cynnyddu’n sylweddl; mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Trafodwyd a chymeradwywyd yr adroddiad cynnydd a’r Cynllun Gwella yn yr UDA ar y 6ed o Dachwedd. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Trafodwyd a chymeradwywyd yr adroddiad cynnydd a’r Cynllun Gwella yn yr UDA ar y 6ed o Dachwedd. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Trafodwyd a chymeradwywyd yr adroddiad cynnydd a’r Cynllun Gwella yn yr UDA ar y 6ed o Dachwedd. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mae’r Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi bod yn ymwneud â’r mater hwn ar bob cam o'r broses o Ailstrwythuro’r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiadau ysgrifenedig ac ar lafar gan y Swyddogion, penderfynodd y Pwyllgor –<br>Nodi’r cynnydd hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>Nodi bod yr holl ffrydiau gwaith sy’n ymwneud â’r Cynllun Gwella Gwasanaeth i weld ar darged hyd yma.<br>Nodi a chydnabod pryder y Panel mewn perthynas â’r swyddi gwag sy’n parhau yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | y gwasanaeth.<br><br>Bod y Pwyllgor yn fodlon gyda'r camau a'r cyflymder gan y Gwasanaethau Plant mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ond mae'n rhaid nodi bod angen rhoi sylw i'r mater swyddi gwag sy'n parhau yn y gwasanaeth.<br><br>CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL A GYNIGIWYD: Bod awgrymiadau'r Pwyllgor o gymryd ymagwedd mwy uniongyrchol a rhagweithiol at recriwtio e.e. gydag ysgolion a phrifysgolion, yn cael eu hymgorffori yn y Strategaeth Recriwtio. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Argymhellion AGGCC a dolen i'r Cynllun Gwella Gwasanaeth<br>Atodiad 2 – Cynllun Gwella Gwasanaeth |

| **FF - Cefndir:** |
|---|
| 5.1 Cafodd Gwasanaethau Plant arolwg gan CSSIW yn ystod mis Hydref a Thachwedd 2016. Canolbwyntiodd yr arolwg ar y modd y caiff plant a theuluoedd eu grymuso i gael mynediad at help a gwasanaethau gofal a chymorth ac ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnir ar gyfer plant sydd angen help, gofal a chefnogaeth ac/neu eu diogelu, gan gynnwys plant |

sydd wedi dod i ofal yr awdurdod lleol yn ddiweddar. Fe wnaeth yr arolwg hefyd werthuso ansawdd yr arweinyddiaeth, rheolaeth a'r trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle er mwyn datblygu a chefnogi'r ddarpariaeth o wasanaeth. Cyhoeddwyd yr adroddiad CSSIW terfynol ar 7 Mawrth 2017. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 14 o argymhellion, saith a oedd yn flaenoriaeth a saith y mae angen eu gweithredu erbyn Mawrth 2018.

5.2 Mewn ymateb i'r canlyniadau a'r argymhellion, mae'r awdurdod wedi rhoi'r trefniadau hyn yn eu lle:

- Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) diwygiedig, yn cynnwys yr holl Argymhellion a wnaed yr Adroddiad Arolwg CSSIW yn erbyn y 5 thema (gweler Atodiad 2)
- Rhoi trefniadau Rheoli Prosiect newydd yn eu lle gyda Grŵp Gwella mewnol o swyddogion yn cyfarfod yn fisol ac yn adrodd yn ôl i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Gwaith.
- Sefydlu Panel newydd o Aelodau Etholedig yn dilyn yr etholiadau awdurdod lleol a fydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

5.3 Yn ychwanegol at hyn, mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Plant a'r Pennaeth Adnoddau Dynol er mwyn goruchwylio datblygiad a gweithrediad y Strategaeth Gweithlu ac er mwyn sicrhau bod cyflymder priodol o ran penodi i'r swyddi Rheolwr Gwasanaeth ac Arweinwyr Ymarfer.

**Canolbwynt y gwaith**
5.4 Mae gallu recriwtio a chadw staff sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc yn Ynys Môn yn hanfodol os ydym am gyflawni'r rhwymedigaethau a y mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu arnynt. Mae gweithlu ansefydlog dros y blynyddoedd diwethaf ynghyd â nifer gynyddol o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sydd ar y gofrestr amddiffyn plant wedi rhoi straen sylweddol ar ein gwasanaethau. (CGG 1.1)
5.5 Mae mynd i'r afael â hyn yn elfen allweddol o'n Cynllun Gwella Gwasanaeth ac rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar yr elfennau canlynol yn ystod y misoedd diwethaf:

5.6 **Ailstrwythuro'r Gwasanaeth** - daeth y strwythur newydd i rym ar 4 Hydref (CGG 4.2) lle cymerodd yr 8 Arweinydd Ymarfer gyfrifoldeb am eu Grwpiau Ymarfer. Maent yn rheoli grwpiau llai ar draws y maes Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys, gyda phob Arweinydd Ymarfer yn gyfrifol am dri neu bedwar Gweithiwr Cymdeithasol. Mae hyn yn golygu y bydd gan bob Gweithiwr Cymdeithasol fwy o fynediad i'w rheolwr sy'n golygu y gallant gael cyngor yn fuan ar ddelio ag achosion unigol ac y byddant yn derbyn cymorth a goruchwyliaeth ddigonol. Mae gwaith pellach i'w wneud er mwyn cwblhau'r gwaith ailstrwythuro gan gynnwys adolygu trefniadau'r Tîm Lleoli Plant, gwneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i gefnogi teuluoedd ynghyd â sicrhau bod cymorth gweinyddol yn briodol er mwyn i Grwpiau Ymarfer allu cyflawni eu dyletswyddau statudol mewn modd effeithiol.

5.7 **Recriwtio –** cychwynnodd y **Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth** yn

ei swydd ym mis Awst ac fe gychwynnodd yr holl Arweinwyr Ymarfer ym mis Medi. Cafodd 4 o'r Arweinwyr Ymarfer eu recriwtio o du allan i'r sefydliad ac mae ganddynt lefel uchel o wybodaeth a sgiliau yn y meysydd a nodwyd yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth sydd angen eu datblygu ymhellach. Roedd y 4 Arweinydd Ymarfer arall a benodwyd yn ymarferwyr profiadol a oedd yn gweithio yn y Gwasanaethau Plant ac a oedd yn barod am ddyrchafiad (CGG 1.2).

5.8 **Rydym wedi recriwtio 7** Gweithiwr Cymdeithasol newydd dros y misoedd diwethaf sydd yn lleol a heblaw am 1 gweithiwr cymdeithasol, mae pob un ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl a fydd yn sicrhau y byddwn yn gallu bodloni anghenion ieithyddol y plant a'r teuluoedd sy'n dod i gysylltiad â'r Gwasanaeth. Mae 6 staff asiantaeth profiadol yn parhau i weithio dros dro oherwydd y swyddi Gweithwyr Cymdeithasol gwag a bydd ymgyrch i geisio denu Gweithwyr Cymdeithasol profiadol yn barhaol yn dechrau ym mis Tachwedd. (CGG 1.2.)

5.9 Rydym wedi penodi **2.5 Swyddog Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn** a bydd 1.5 swydd ychwanegol drwy'r **Grant Teuluoedd yn Gyntaf** yn cael eu llenwi dros yr wythnosau nesaf. Bydd hyn yn cryfhau yn sylweddol ein capasiti o ran Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, rhywbeth y mae angen i'r holl awdurdodau lleol ei sefydlu yn dilyn gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

5.10 Mae'r **Tîm Teuluoedd Gwydn** bellach â'r nifer angenrheidiol o staff ac maent ar hyn o bryd yn gweithio ag 8 teulu er mwyn atal y teuluoedd hynny rhag torri i lawr a chefnogi'r plant sy'n byw adref (CGG 5.2). Mae Arweinydd Ymarfer y tîm hwn wedi ennill gwobr genedlaethol yn ddiweddar gan y **Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol** (BASW) am ei gwaith o ddatblygu cymorth ar gyfer plant sy'n gadael gofal a threfniadau i gefnogi gofalwyr maeth er mwyn atal lleoliadau rhag torri lawr.

5.11 Rydym ar hyn o bryd yn recriwtio i nifer o swyddi ychwanegol eraill o fewn y Gwasanaeth a fydd yn parhau i gryfhau ein gwasanaethau cefnogi teulu. Maent yn cynnwys recriwtio:

- 3 x swydd **Gweithiwr Cymorth ychwanegol** yn y Tîm o Amgylch y Teulu, swyddi wedi'u hariannu gan y Grant Teuluoedd yn Gyntaf.
- Swydd **Ymgynghorydd Personol ychwanegol** sydd wedi'i hariannu gan grant Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth Cymru er mwyn darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i bobl ifanc sy'n gadael gofal pan fyddant yn 18 oed.

5.12 Fel gwasanaeth, rydym wedi datblygu trefniadau **Hyfforddai Gweithiwr Cymdeithasol** yn fewnol fel y gall 2 o'n staff hyfforddi i fod yn Weithwyr Cymdeithasol Cymwys (cwrs 2 flynedd). Gan ein bod wedi gweld trosiant uchel o staff dros y 18 mis diwethaf, nod y strategaeth hon o 'ddatblygu ein staff ein hunain' yw sicrhau y bydd gennym Weithwyr Cymdeithasol a fydd yn gweithio i'r Gwasanaeth am o leiaf 2 flynedd ar ôl iddynt gymhwyso (CGG 1.2).

5.13 Mae'r trefniadau i benodi Pennaeth Gwasanaeth newydd wedi dechrau ac efallai y bydd

y Prif Weithredwr Cynorthwyol yn rhannu gwybodaeth ychwanegol yn y Pwyllgor Sgriwtini.

5.14 Mae'r **Strategaeth Gweithlu** a gymeradwywyd dros yr haf bellach yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol a'u bod yn gallu darparu'r cymorth sydd ei angen ar blant, pobl ifanc a theuluoedd Ynys Môn. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu gyda chefnogaeth llawn Adnoddau Dynol ac fe gynhelir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos, a gadeirir gan y Pennaeth Gwasanaeth, er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y Cynllun Gweithredu (CGG 1.1) ac mae'r prif elfennau yn cynnwys:

- Datblygu cyfres o ddeunyddiau marchnata sy'n cynnwys manylion am y buddion o weithio i'r Awdurdod – i'w cyflwyno ar yr holl wahanol gyfryngau.
- Datblygu cynllun recriwtio ar gyfer pob swydd, ar y cyd ag Adnoddau Dynol, unwaith y bydd rhywun yn ymddiswyddo.
- Sefydlu dulliau effeithiol o ddewis ymgeiswyr
- Sicrhau bod prosesau yn canolbwyntio ar recriwtio diogel
- Lleihau'r oedi yn y gwahanol gamau o'r broses recriwtio
- Datblygu rhaglen gynefino gyson ac effeithiol
- Creu diwylliant cefnogol, herio perfformiad gwael drwy ddarparu arweiniad clir, goruchwyliaeth reolaidd a chymorth datblygu er mwyn galluogi ein holl staff i allu perfformio'n effeithiol.
- Datblygu ein staff presennol a darparu amgylchedd gwaith diogel i bawb ynghyd â chyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd ac i ddatblygu.

5.15 **Goruchwyliaeth** – fe wnaethom lansio'r Polisi Goruchwyliaeth newydd ym mis Mawrth 2017, yn dilyn ymgynghoriad â staff (CGG 1.3) ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio i adolygu achosion bob mis ac i gymryd camau gweithredu cynnar os oes angen unrhyw newid o ran gwneud penderfyniadau. Mae amlder goruchwyliaeth yn cael ei fonitro ac mae archwiliad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd er mwyn i ni allu bod yn siŵr bod y polisi yn cael ei weithredu'n llawn. Cynhelir gweithdai goruchwylio i Arweinwyr Ymarfer dros y misoedd nesaf sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a phwrpas y rhain yw eu cefnogi i edrych ar eu rolau goruchwylio ac i ystyried gwerth goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr gwaith cymdeithasol ac ar gyfer y sefydliad. Fe ddylai hefyd gryfhau rôl rheoli'r Arweinwyr Ymarfer, ystyried sgiliau craidd a heriau ar gyfer gwahanol Grwpiau Ymarfer.

5.16 Mae'r **Fframwaith Sicrwydd Ansawdd** wedi ei gymeradwyo yn y Gwasanaeth (CGG 3.2). Nod y fframwaith yw mynd ati i sicrhau y bydd y Gwasanaethau Plant yn:

- Darparu arferion proffesiynol diogel
- Cefnogi'r plant/oedolion cywir, yn y ffordd gywir, ar yr amser cywir
- Gwerthuso a yw'n gwneud gwahaniaeth o ran gwella ymarfer
- Darparu cyd-destun proffesiynol sy'n cefnogi dysgu, adlewyrchu, bod yn agored a darparu a her gefnogol.

Bydd y gwasanaeth yn defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau tystiolaeth er mwyn tanategu'r adroddiad gwerthuso Ymarfer chwarterol megis:

- Archwiliadau o Ffeiliau Achos Misol
- Archwiliadau o Ffeiliau Achos Misol – Uned Ddiogelu a Gwella Ansawdd
- Arsylwi Ymarferion
- Archwiliadau Goruchwylio
- Dysgu gan ein partneriaid a dysgu gyda'n partneriaid
- Dysgu gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau
- Goruchwylio a Herio
- Dysgu gan ein staff
- Swyddog Adolygu Annibynnol Parhaus a Chydlynydd Amddiffyn Plant

5.17 Mae'r gwasanaeth yn cynnal cyfarfod Ansawdd a Perfformiad bob mis. Mae'r cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar ddeall y data o werthusiadau ymarfer, mae'n gyfle i ddadansoddi a nodi datrysiadau i wella perfformiad ac ansawdd gwasanaeth. Mae gan y cyfarfod hwn rôl o ran sicrhau trosolwg clir o ansawdd ymarfer yn y gwasanaeth a datblygu cynlluniau gweithredu clir er mwyn rhoi sylw i'r gofynion o ran gwelliant. Hefyd, mae gan y cyfarfod hwn rôl glir o safbwynt cydnabod yr hyn sy'n gweithio'n dda yn y Gwasanaeth ac i sicrhau y rhennir dysgu ar draws y system gyfan. Bydd y cyfarfod hefyd yn gwerthuso effaith y dysgu a'r gwelliant.

5.18 Dangosodd yr **Adroddiad Gwerthuso Ymarfer** ar gyfer Chwarter 1 bod arferion yn parhau i fod yn anghyson. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o arfer dda sydd wedi eu cadarnhau gan CSSIW fel rhai sy'n sicrhau'r canlyniadau angenrheidiol ar gyfer y plentyn/plant a'u teuluoedd. Mae Rheolwyr wedi parhau i ganolbwyntio ar wella ansawdd arferion Gwaith Cymdeithasol mewn perthynas â gwaith Llys, cofnodi achosion, asesu, dadansoddi risg, Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ac ymweliadau, ymweliadau Amddiffyn Plant, cyfarfodydd grŵp Craidd a Chynlluniau Llwybr (CGG 3.3).

Mae ymyraethau wedi'u targedu yn parhau i gael eu cynnal gyda Gweithwyr Cymdeithasol sydd heb wella ansawdd eu harferion. Mae'r gwasanaeth bellach wedi cytuno i flaenoriaethu gwelliannau mewn arferion asesu Gwaith Cymdeithasol.

5.19 Mae **Cynllun Gweithredu Llys** wedi'i ddatblygu er mwyn canolbwyntio ar wella ansawdd a'r dadansoddiad o'r holl asesiadau yr ymgymerir â nhw er mwyn hysbysu ein penderfyniadau a bydd yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer paratoi achosion cyfraith cyhoeddus yn fuan yn y broses. Mae gan Arweinwyr Ymarfer bellach drosolwg o amserlen y Llysoedd ar gyfer achosion o fewn eu Grwpiau ymarfer a byddant yn cefnogi ac yn arwain Gweithwyr cymdeithasol er mwyn sicrhau gwell paratoadau ar gyfer y Llys a bod dogfennau'n cael eu ffeilio ar amser.

5.20 Er yr anghysondeb o ran ymarfer, mae gennym dystiolaeth gadarnhaol o'r gweithlu yn gweithio'n uniongyrchol â theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau. Rydym wedi gweld

**gostyngiad sylweddol** yn nifer y plant ar y **Gofrestr Amddiffyn Plant** o 102 ym mis Mawrth 2017 i 56 ar y gofrestr ar 31 Awst, 2017 sy'n ostyngiad o 55%. Mae'r Gwasanaethau Plant wedi mabwysiadu'r **Model Risg Thornton / Gwynedd** er mwyn parhau i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i weithio'n rhagweithiol â theuluoedd er mwyn rheoli risg - treulio llawer iawn mwy o amser ochr yn ochr â nhw er mwyn eu helpu nhw i newid er mwyn i'r teulu fod yn lle diogel ar gyfer eu plant. Mae angen rŵan i sefydlogi'r model risg o fewn yr arferion ac i gefnogi ymarferwyr ac arweinwyr ymarfer i allu datblygu eu sgiliau ymhellach o ran sefydlu'r model yn gadarn er mwyn cefnogi penderfyniadau risg effeithiol. Mae Bruce Thornton, cydawdur y model, yn ymgymryd â rôl **Datblygu Hyfforddwr Ymarfer** am gyfnod o 7 mis er mwyn canolbwyntio ar:

- Ddarparu hyfforddiant a mentora er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a gallu ymarferwyr ac arweinwyr ymarfer.
- Cefnogi Rheolwyr Gwasanaeth i weithredu, prosesu, systemau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y Model Risg yn cael ei weithredu o fewn prosesau gwasanaeth.
- Cefnogi datblygiad y Model Risg o fewn goruchwyliaeth feirniadol ac adlewyrchol.

5.21 Mae'r gwaith o gryfhau rôl yr Awdurdod Lleol fel rhiant corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi'i gytuno gan y Panel Rhiant Corfforaethol gyda'r nod o sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn ymgymryd â'i ddyletswyddau yn llawn er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cyflawni eu potensial llawn a'u bod yn trawsnewid i fod yn oedolion mewn modd llwyddiannus. Bydd **Strategaeth Tair Blynedd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Gadael Gofal** (2018-2020) yn cael ei datblygu gan ddarparu fframwaith a fydd yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau. Y bwriad yw dod â'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n digwydd ar draws y Cyngor at ei gilydd a, chyda threfniadau partneriaeth plant ar bob cam o'r siwrnai gofal, canolbwyntio'n glir ar gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd, lle bynnag mae hi'n ddiogel iddynt wneud hynny, a lleihau'r angen i blant ddod yn blant sy'n derbyn gofal.

5.22 Mae pum **Canllaw Ymarfer Aml-asiantaeth** (CGG 2.2) wedi eu datblygu gan y Gwasanaethau Plant fel ymateb uniongyrchol i'r arolwg CSSIW gyda'r nod o gryfhau gwaith aml-asiantaeth. Maent yn canolbwyntio ar ddarparu arweiniad clir ar:

- Sut i wneud Atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant
- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant – Trothwyon Ymchwilio
- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd
- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant – Trothwyon Cofrestru
- Sut i reoli honiadau amddiffyn plant a wneir yn erbyn y Canllawiau Ymarfer Proffesiynol.

5.23 Bydd y Canllawiau Ymarfer yn cael eu cadarnhau yn y Bwrdd Diogelu Corfforaethol a bydd sesiynau hyfforddiant yn cael eu trefnu ar gyfer y gweithlu er mwyn canolbwyntio ar wella arferion aml-asiantaeth a threfniadau diogelu.

5.24 Mae'r Gwasanaethau Ataliol yn cael eu hadolygu a bydd strategaeth newydd yn cael ei datblygu ar y cyd â phartneriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau cefnogi teuluoedd mwy effeithiol a chomisiynu Grant Teuluoedd yn Gyntaf, er mwyn lleihau nifer y plant a phobl ifanc y mae angen eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac sydd angen Derbyn Gofal (CGG 4.4.)

5.25 Mae rhaglenni cyfarfodydd yr **Aelodau Etholedig a Phaneli'r Uwch Arweinwyr** wedi parhau i ganolbwyntio ar fonitro a herio gweithrediad y Cynllun Gwella Gwasanaeth gan ddal y Cyfarwyddwr a'r Gwasanaeth i gyfrif. Mae pedwar cyfarfod wedi eu cynnal hyd yma ac mae'r eitemau rhaglen canlynol wedi eu trafod gan y Panel:

- Cylch Gorchwyl, Cynllun y Prosiect a gosod y cyd-destun
- Cynllun Gwella Gwasanaeth – trosolwg lefel uchel
- Trosolwg – Ymweliadau Laming – rhaglen dreigl o ymweliadau ac adrodd yn ôl
- RHAN 1: % o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a oedd i fod i'w cynnal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau [SCC/025]
- Thema 3: Sicrwydd Ansawdd, edrych mewn mwy o fanylder ar Argymhellion 2, 11, 13 a 14 – Adroddiad CSSIW
- Adolygu'r trefniadau ar gyfer Ymweliad Laming / Adborth o'r ymweliad cyntaf
- "Diwrnod ym mywyd gweithiwr cymdeithasol gwasanaethau plant"

5.26 Bydd hyn yn cael ei ategu gan hyfforddiant ac ymweliadau i gefnogi uwch arweinwyr ac aelodau er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau ynghlwm â darparu gwasanaethau plant (CGG 1.5).

5.27 Rhaid i aelodau etholedig gynnal **Ymweliadau Laming** â staff rheng flaen er mwyn hysbysu eu hunain am ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ac er mwyn cymryd camau priodol i unioni unrhyw ddiffygion wrth iddynt ddod i'r amlwg. Roedd yr Arglwydd " Laming, Ymchwiliad Victoria Climbie (2003) yn hollol glir bod "uwch reolwr ac aelodau etholedig mewn sefydliadau yn atebol am ansawdd, effeithlonrwydd ac effeitholrwydd gwasanaeth lleol" a bod raid iddynt roi cyfrif am unrhyw fethiant i ddiogelu plant bregus rhag niwed bwriadol neu gamfanteisio."

5.28 Mae **ymweliadau Laming** ar gyfer Aelodau wedi eu trefnu tan Mai 2018. Cynhaliwyd ymweliad Laming â'r Tîm Lleoli Plant ar 27.10.17 gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cadeirydd Sgriwtini ac aelod o'r Panel. Nododd yr adroddiad a gwblhawyd yn ystod yr ymweliad:

- Cadarnhaodd yr holl staff eu bod yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd, sy'n hynod effeithiol. Nododd y Gweithwyr Cymdeithasol bod Goruchwyliaeth reolaidd bob amser wedi digwydd yn rheolaidd o fewn y Tîm Lleoli.
- Roedd pawb a oedd yn bresennol yn brofiadol yn eu rôl ac roedd eu hyder yn amlwg o'r ffordd y gwnaethant gyfrannu at y cyfarfod.
- Nododd y Cynghorydd Richard Griffiths yn ystod y cyfarfod bod eu brwdfrydedd tuag at weithio â phlant, teuluoedd a Gofalwyr Maeth yn glir ac roedd pawb yn cytuno â hyn.

- Diolchodd y Cynghorydd Aled Morris Jones i bawb a oedd yn bresennol am eu gwaith caled a'u hymrwymiad, a oedd yn amlwg i'w weld ac fe'i nodwyd.

**Fel blaenoriaeth**:

1. Dylai'r awdurdod fwrw ymlaen â'i ymrwymiad i ddatblygu fframwaith ar gyfer darparu gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig yn ogystal â darparu help a chymorth cynnar sy'n oedi'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth. CG 4.4

2. Dylid sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant aml-asiantaeth effeithiol i sicrhau bod y staff a'r partneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesu gwasanaethau plant statudol a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys datblygu protocol trothwyon diogelu plant aml-asiantaeth sy'n ymgorffori'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. CG 3.4

3. Dylai uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu barhau i gydweithio'n rhagweithiol i sicrhau gwelliannau i ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau diogelu plant. CG 2.2

4. Dylai'r cyngor barhau i gynorthwyo uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur gymhleth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant, er mwyn rhoi sicrwydd iddynt hwy, eu partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r eithaf. CG 1.5

5. Dylid datblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu i gynnwys nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor er mwyn recriwito a chadw gweithwyr cymdeithasol. CG 1.1

6. Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolwyr timau ac uwch ymarferwyr er mwyn sicrhau capasiti digonol i ddarparu arolygiaeth gan reolwyr o benderfyniadau a herio a chyfeirio staff ar draws y gwasanaeth; dylid bod rhaglen arweinyddiaeth a datblygiad ar gael er mwyn datblygu gwytnwch. CG 1.4

7. Dylai uwch reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd arolygiaeth staff rheng flaen; mae'n rhaid cyflwyno dull sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd. CG 1.3

**Yn ystod y 12 mis nesaf:**

8. Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal. CG 1.5

9. Dylid sefydlu trefniadau aml-asiantaeth i atgyfnerthu cynlluniau gweithredol a fydd yn cynorthwyo cydlyniad effeithiol o waith cwblhau Fframweithiau Asesu ar y Cyd gan bartneriaid statudol. CG 2.3

10. Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau i sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod dealltwriaeth glir o'r canlyniadau, amserlenni a'r cyfrifoldebau am weithredoedd a ddymunir. CG 2.1

11. Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion; dylai pob aelod o staff a rheolwr sicrhau bod eu cofnodion o safon dda, eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n systemataidd. CG 2.1

12. Dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid gydweithio i ddatblygu dull gydlynol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu'r broses o greu cynlluniau strategol er mwyn cyflawni aliniad effeithiol darpariaeth gwasanaethau rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol. CG 4.4

13. Mae angen ymgorffori trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, yn cynnwys craffu ar y galw am wasanaethau ac archwilio ansawdd arfer yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol, berthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd i'w galluogi i wneud eu swyddi yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau. CG 3.2

14. Dylid monitro baich achosion ac adroddiadau ar ansawdd perfformiad gweithwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod capasiti digonol i alluogi'r gweithwyr i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd. CG 3.2

Argymhellion Adroddiad yr AGGCC – Gwasanaethau Plant [Mawrth, 2017]

*CSSIW Report Recommendations – Children's Services [March, 2017]*

**As a priority:**

1. The authority should progress its commitment to developing a framework for the provision of preventive work with children and families that will deliver an integrated service and provide early help and support that effectively delays the need for care and support. SIP 4.4

2. Effective, multi-agency quality assurance systems and training arrangements should be established to ensure that thresholds for assessment to statutory children's services are understood by staff and partners and are consistently applied; this should include the development of a multi-agency child protection thresholds protocol incorporating recent Welsh Government guidance. SIP 3.4

3. Senior leaders in social services and the police should continue to work proactively together to ensure improvements to the quality, consistency and timeliness of child protection enquiries. SIP 2.2

4. The council should continue to support senior leaders to improve their knowledge and understanding of the complexities and risks involved in delivering children's services to assure themselves, partners, staff and communities that their responsibilities are discharged to maximum effect. SIP 1.5

5. A robust workforce strategy should urgently be developed to include short, medium and long term aims for recruitment and retention of social workers. SIP 1.1

6. Arrangements for team managers and senior practitioners should be reviewed to ensure capacity to effectively and consistently provide management oversight of decision making, challenge and direction for staff across the service; a leadership and development programme should be made available to build resilience. SIP 1.4

7. Senior leaders should take steps to improve the frequency, consistency and quality of front line staff supervision; an assurance mechanism must be implemented to ensure compliance and quality. SIP 1.3

Over the next 12 months:

8. Strong political and corporate support for children's services must continue to ensure the service improvements needed are prioritised and the pace of improvement accelerated and sustained. SIP 1.5

9. Multi-agency arrangements should be established to strengthen operational plans to support effective co-ordination of statutory partners' completion of Joint Assessment Frameworks. SIP 2.3

10. The quality of assessments and plans should be improved to ensure that they are consistently of a good quality, with a clear focus on the needs, risks and strengths of children and families, and that desired outcomes, timescales and accountabilities for actions are clear. SIP 2.1

11. The quality and consistency of record keeping should be improved; all staff and managers should ensure that their records are of good quality, are up to date and are systematically stored. SIP 2.1

12. The local authority and partners should work together to develop a cohesive approach to the collection and analysis of information about the needs of communities, that includes the voices of children and families. This should be used to inform the shaping of strategic plans to achieve effective alignment of service delivery between information, advice and assistance services, the preventive sector and statutory services. SIP 4.4

13. Performance management and and quality assurance arrangements, including scrutiny of service demand and routine auditing of the quality of practice, needs to be embedded so that managers at all levels have timely, relevant and accurate performance and quality assurance information to enable them to do their jobs effectively and to deliver improvements. SIP 3.2

14. Caseloads and reports regarding the quality of workers' performance should be continuously monitored to ensure there is sufficient capacity for workers to engage effectively with children and their families. SIP 3.2

## Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | **Gweithlu hyderus a chymwys gyda chapasiti digonol i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol** | | | | | | |
| 1.1 | Datblygu'r **Strategaeth Gweithlu** i gynnwys:<br>• Arfer dda o ran recriwtio<br>• Cadw a chefnogi staff<br>• Trefniadau cynefino clir<br>• Cyfeillio<br>• Hyfforddi a mentora<br>• Cysgodi<br>• Cyfleoedd gwell i hyfforddi a datblygu ar ôl cymhwyso<br>• Canllawiau blwyddyn gyntaf o ymarfer (nid oes angen hwn gan ein bod yn dilyn Canllawiau y Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer a luniwyd ar gyfer Cyngor Gofal Cymru)<br><br>Dolen Argymhelliad rhif 5 yr AGGCC: Dylid datblygu strategaeth gweithlu gadarn ar frys a fydd yn cynnwys amcanion ar gyfer y tymor byr, canolig a hir ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol. | **Awst 2017**<br>• Mae cynllun hyfforddeiaeth wedi cael ei ddatblygu ar y cyd ag AD sy'n cynnig y cyfle i un aelod staff hyfforddi i fod yn Weithiwr Cymdeithasol dros ddwy flynedd drwy Brifysgol Bangor, gyda'r posibilrwydd o ddiogelu swydd barhaol yn y gwasanaeth ar ôl cymhwyso.<br>• Rhaglen Gynefino'r Gwasanaeth wedi'i llunio ar gyfer staff newydd.<br>• Mae Cynllun Gweithredu'r Gweithlu yn cael ei yrru yn ei flaen i fonitro cynnydd yn erbyn y camau tymor byr hyd at Ragfyr 2017.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Strategaeth Gweithlu wedi'i gwblhau.<br>• Cynllun Gweithredu'n cael ei baratoi.<br><br>**Mai 2017**<br>• Strategaeth Gweithlu Drafft wedi'i lunio ar y cyd ag AD sy'n cynnwys rhannau perthnasol ar recriwtio, cadw a chymorth, trefniadau cynefino, cyfeillio, hyfforddi a mentora, cysgodi, cyfleoedd hyfforddi a datblygu estynedig ar ôl cymhwyso, canllawiau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o ymarfer.<br>• Y strategaeth wedi'i rhannu â staff am eu sylwadau.<br>• Disgwyliadau ar Reolwyr o ran cynefino wedi'u hamlygu – mae hyn yn gysylltiedig â manteision strwythur newydd a nifer uwch o arweinwyr ymarfer.<br>• Materion yng nghyswllt AD – cyfarfodydd wythnosol wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r holl faterion perthnasol gan gynnwys recriwtio.<br>• 4 gweithiwr cymdeithasol dwyieithog newydd gymhwyso wedi'u recriwtio.<br>• Pob swydd gweithiwr cymdeithasol wedi'u llenwi gyda staff dros dro/parhaol/trefniadau recriwtio ar waith.<br>• Hysbyseb agored ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol.<br>• Sesiwn i Reolwr ar ganllawiau Cynefino wedi ei gynnal ym mis Mawrth.<br>• Canllawiau ar flwyddyn gyntaf ymarfer wrthi'n cael eu hadolygu gan y Cydlynydd Dysgu Ymarfer. | • Sesiwn Gynefino Gorfforaethol ar gael yn fisol ar gyfer staff newydd.<br>• Sicrhau cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn adrodd eu bod wedi derbyn cyfarwyddyd a disgwyliadau clir, cefnogaeth, ac adborth adeiladol ynghylch eu hymarfer ac ar ansawdd eu gwaith.<br><br>Staff yn nodi'n gadarnhaol eu bod yn fodlon yn y gweithle ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.<br><br>Tystiolaeth bod cyfarfodydd cynefino yn cael eu cynnal a bod staff newydd o'r farn eu bod yn ddefnyddiol mewn perthynas â chanllawiau a disgwyliadau, cymorth, llywio eu hymarfer ac ansawdd y gwaith.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Archwiliad o waith sy'n darparu tystiolaeth o weithlu hyderus a chymwys.<br><br>Gwelliant amlwg mewn cyfraddau recriwtio a chadw gyda mwy o staff yn cael eu recriwtio i swyddi parhaol a gostyngiad yn nifer y staff sy'n gadael.<br><br>Cynefino - pob aelod newydd o staff yn cael cyfnod cynefino cynhwysfawr ac yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. | Melanie Jones a Leighton Rees | Ion 2017 | Rhag 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.2 | **Materion o ran Datrys Staffio** i gynnwys:<br>• Recriwtio i swyddi parhaol<br>• Strategaeth ymadael ar gyfer staff asiantaeth | **Awst 2017**<br>• Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos rhwng AD ac uwch reolwyr y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod materion o ran recriwtio a datblygu'r gweithlu yn symud yn eu blaenau'n gyflym. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar lefelau staffio, siart staffio a llwyth achosion.<br>• Wedi penodi'r Tîm Teuluoedd Gwydn.<br>• Wedi penodi 2.5 Swyddog Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn.<br>• 8 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi erbyn hyn, yn dechrau ar y 4ydd o Fedi.<br>• Byddir yn cynnal trafodaethau ynghylch ymestyn cytundebau Staff Asiantaeth hyd at ddiwedd mis Rhagfyr.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Cytundebau staff asiantaeth wedi'u hymestyn tan ddiwedd Medi 2017 i sicrhau gweithlu digonol o ran niferoedd a phrofiad. Nod i leihau nifer y gweithwyr cymdeithasol asiantaeth yn ystod mis Medi.<br>• 1 gweithiwr cymdeithasol cymwys a 3 myfyriwr gwaith cymdeithasol wedi'u penodi i swyddi. 1 cymwys ac 1 myfyriwr yn dechrau ym mis Gorffennaf. 5 swydd wag yn cael eu hysbysebu ar sail treigl.<br>• 7 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi. Swydd wag arall yn cael ei hysbysebu.<br>• Wedi penodi i swydd IRO wag gyda dyddiad dechrau y 10th o Orffennaf.<br>• Wedi penodi Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal. Yn dechrau ganol Awst.<br>• Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys wedi'i benodi. Rheolwr Gwasanaeth Asiantaeth yn cyflawni'r swydd dros dro.<br>• Mae cadw Gweithwyr Cymdeithasol dros dro a pharhaol yn parhau i fod yn sialens i'r Gwasanaeth.<br>• Mae darparu cefnogaeth ac arweiniad digonol i'r staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth.<br><br>**Mai 2017**<br>• Cyfarfodydd misol wedi'u sefydlu rhwng AD ac uwch reolwyr y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod materion o ran recriwtio a datblygu'r gweithlu'n symud yn eu blaenau'n gyflym. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar lefelau staffio, siart staffio a llwyth achosion. | • Recriwtio mwy o staff profiadol | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Gweithlu sefydlog a pharhaol sy'n arwain at:<br>• Gysondeb ymarfer ar draws y gwasanaeth.<br>• Cymorth o ansawdd gwell i blant a theuluoedd.<br>• Sefydlu gwell perthnasau rhwng teuluoedd a gweithwyr cymdeithasol yn arwain at well canlyniadau i blant a theuluoedd.<br><br>Partneriaid yn adrodd bod gwelliant o ran y trefniadau cydweithio â'r Gwasanaethau Plant o ganlyniad i ostyngiad mewn trosiant staff. | Uwch Dîm Rheoli ac AD | Tach 2016 | Rhag 2017 |

Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant fersiwn 4.0 Awst 2017

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Rydym yn parhau i hysbysebu swyddi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol ar sail treigl.<br>• AD wedi cynnal sesiynau briffio ar recriwtio i Reolwyr.<br>• AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch cyfraddau'r Gwasanaeth o ran recriwtio a chadw staff.<br>• Arweiniad parhaus gan yr Adran Gyllid ar oblygiadau cost cyflogi staff asiantaeth.<br>• Strategaeth ymadael yn ei lle ar gyfer staff asiantaeth lle mae swyddi wedi cael eu llenwi gan weithwyr parhaol. | | | | | |
| 1.3 | Adolygu'r **Polisi Goruchwylio**. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:<br>• Cod Ymarfer<br>• Goruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol neu ad-hoc<br>• Pwrpas Goruchwylio<br>• Manteision Goruchwylio<br>• Rolau a Chyfrifoldebau<br>• Isafswm y Sesiynau a Gynhelir a threfniadau Canslo<br>• Cynllunio ar gyfer Sesiwn Goruchwylio<br>• Cofnodi Goruchwyliaeth<br>• Anghydfodau<br>• Cyfrinachedd a Mynediad<br>• Cysylltiadau â Pholisiau a Gweithdrefnau Eraill<br><br>Dolenni i Argymhelliad rhif 7 AGGCC: Dylai uwch arweinwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd y goruchwylio ar gyfer staff rheng flaen; rhaid sefydlu mecanwaith sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd. | **<u>Awst 2017</u>**<br>• Gwnaed trefniadau gyda Rhonwyn Dobbing o ran ymgymryd â hyfforddiant ar oruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer Arweinwyr Ymarfer. Cynhelir tri gweithdy a'u pwrpas fydd rhoi cymorth i oruchwylwyr archwilio eu rôl o ran goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd ag ystyried gwerth goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o ran defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr, ymarfer gwaith cymdeithasol ynghyd ag ar gyfer y sefydliad. Yn ogystal, dylai gryfhau rôl y goruchwyliwr, rhoi sylw i sgiliau craidd a'r heriau ar gyfer gwahanol grwpiau ymarfer.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Hyfforddiant ar y polisi Goruchwyliaeth wedi'i gynnal, ynghyd â hyfforddiant ar y model risg ym mis Mehefin.<br>• Tracio a monitro trefniadau goruchwylio'n barhaus i sicrhau cydymffurfiaeth o ran y Polisi.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Polisi Goruchwyliaeth wedi'i adolygu a'i rannu gyda staff.<br>• Trefniadau tracio yn eu lle i fonitro cydymffurfiaeth lwyr â'r polisi Goruchwyliaeth.<br>• Polisi Goruchwyliaeth wedi'i gwblhau.<br>• Hyfforddiant ar y Model Risg a'i gyswllt â Goruchwylio staff wedi'i ddarparu ar gyfer yr holl staff ym mis Mehefin.<br>• Hyfforddiant Goruchwyliaeth wedi'i ddarparu i bob aelod staff a'r Rheolwyr. | • Mentora ar gyfer rheolwyr ar oruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddatblygu ymarfer myfyriol.<br><br>• Bydd archwiliadau o oruchwyliaeth yn dechrau ym Medi 2017 ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant, gan gynnwys canfyddiad staff o oruchwyliaeth drwy holiaduron a grwpiau ffocws a sefydlir.<br><br>• Cyngor ac arweiniad parhaus wedi'i ddarparu i weithwyr cymdeithasol unigol ar gwblhau asesiadau, cofnodi ac asesu risg.<br><br>• Rheolwyr Gwasanaeth i gynnal Archwiliad o Oruchwyliaeth 4 gwaith y flwyddyn a samplu ar hap.<br><br>• Bydd ffurflen adborth yn cael ei drafftio gan gydweithwyr ym maes Hyfforddiant i ofyn beth y maent wedi ei ddysgu o'r hyfforddiant a dderbyniwyd ganddynt, p'un a ydynt wedi rhoi yr hyn a ddysgwyd ganddynt ar waith, beth fyddent yn ei newid am y cwrs os oes unrhyw beth. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Staff yn dweud eu bod yn cael eu cefnogi yn effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau.<br><br>Staff yn adrodd yn gadarnhaol bod ansawdd eu hasesiadau a'u cynlluniau wedi gwella trwy oruchwyliaeth reolaidd o ansawdd.<br><br>Rheolwyr yn dweud eu bod yn gallu cefnogi staff i'r safonau gofynnol.<br><br>Arweiniad clir ar safonau ac arfer dda yn cael ei gyfleu'n glir ac ar gael i bawb trwy Oruchwyliaeth reolaidd.<br><br>Rheolwyr yn cydymffurfio â'r Polisi Goruchwylio a'r Model Risg wedi ei ymgorffori yn y sesiynau Goruchwylio gyda staff.<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn dangos Goruchwyliaeth o safon dda a chyson.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Mecanwaith sicrwydd wedi ei sefydlu'n ganolog i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi Goruchwylio. | Melanie Jones a Leighton Rees | Rhag 2016 | Tracio a monitro parhaus<br><br>SA Mehefin 2017 |
| 1.4 | Darparu **cyfleoedd datblygu ar gyfer Arweinwyr Ymarfer** i **gefnogi'r gweithlu** i gyflawni eu dyletswyddau. Meysydd i ganolbwyntio arnynt:- | **<u>Awst 2017</u>**<br>• Ymgymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 a gadarnhaodd bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i | • Angen trafodaethau i gwblhau'r trefniadau ailstrwythuro ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol a staff eraill ac aildrefnu'r cynllun llawr. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Rheolwyr yn dweud bod ganddynt fwy o hyder yn eu sgiliau o ran gwneud penderfyniadau rheoli achos cywir a diogel. | Uwch Dîm Rheoli | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 244 | • Egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau cywir a diogel o ran rheoli achosion (rheolwyr â throsolwg o'r drefn gwneud penderfyniadau)<br>• Gwella a rheoli ymarfer a pherfformiad gan gynnwys darparu her a chyfarwyddyd adeiladol i staff<br>• Rheoli sgyrsiau anodd<br>• Darparu goruchwyliaeth reolaidd o ansawdd<br>• Datblygu arweinwyr ymarfer mewn sgiliau hyfforddi a mentora<br><br>Dolen i argymhelliad rhif 6 AGGCC: Dylai trefniadau ar gyfer rheolwyr tîm ac uwch ymarferwyr gael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod capasiti ymysg rheolwyr i gadw golwg yn effeithiol ac yn gyson ar y drefn gwneud penderfyniadau, darparu her a chyfeiriad ar gyfer staff ar draws y gwasanaeth; dylai rhaglen arweinyddiaeth a datblygu fod ar gael i adeiladu gwytnwch. | Strategaeth a Chynhadledd: Ansawdd Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu.<br>**Dyma'r Themau Allweddol:**<br>Mae presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth wedi gwella<br>Defnydd wedi cynyddu o ran yr offeryn Risk 2<br>Cyfarfodydd Strategaeth amserol<br>Defnydd cynyddol o Gronolegau yn amlwg<br>Gwell ansawdd yn amlwg o ran asesiadau<br>Mae cysondeb ffurflenni'n dal i fod yn broblem (Adroddiad G.C/Craidd/Risk2/ mae'r Asesiad Gofal a Chymorth a'r offeryn Cymhwyster yn cael eu defnyddio).<br>Nid yw'r cam cysyniadol o hidlo risg i ganfod cryfderau wedi'i wreiddio'n llawn<br>• Cynhaliwyd Bore Cwrdd i Ffwrdd o'r gwaith ar y 28ain o Orffennaf ar gyfer Uwch Aelodau Staff i gytuno ar drefniadau ar gyfer ailstrwythuro'r gwasanaeth ac i ddechrau trafod trefniadau ar gyfer Arweinwyr Ymarfer.<br>• Llwyddwyd i benodi 8 Arweinydd Ymarfer.<br>• Mae rhaglen gynefino'r gwasanaeth yn ei lle ar gyfer mis Medi, i gynnwys sesiynau hyfforddiant ar:<br>Y Weledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth, sefydliad trosfwaol, CGG, rheoli absenoldeb salwch a Chyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith<br>Cwynion a'r system Fflecsi<br>Cyfathrebu ar y Cyd<br>Gweithdai Goruchwylio -3 x gweithdy diwrnod llawn ar oruchwyliaeth yn seiliedig ar ganlyniadau<br>PLO a gwaith Llys<br>Rheoli Amser a Rheoli Dyddiadur, Blaenoriaethu Gwaith a Disgwyliadau<br>Cyflwyno Sesiynau Gwaith Grŵp ACE i Rieni<br>Perfformiad<br>Galluogrwydd<br>Cwrs Dull Rheoli<br>Sicrwydd Ansawdd ac Archwiliadau<br>Trothwyon a gwneud penderfyniadau cywir ynghyd â staff yn cyflawni camau gweithredu<br>Cynllunio Gofal ac Adolygu Gofal a Chymorth, Amddiffyn Plant a LAC<br>Cofnodi achosion<br>Asesiadau a'r Model Risg<br>Rheoli Llwyth Achosion – Neilltuo achosion, camu i lawr i TAF a pheidio â chau achosion i'r Gwasanaethau Plant, llwyth achosion llai ar gyfer rhai sydd newydd gymhwyso – uchafswm o 12 achos | • AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â chyfraddau recriwtio a chadw ar gyfer y Gwasanaeth. | Staff yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwell cefnogaeth gan eu rheolwyr llinell i gyflawni eu cyfrifoldebau gyda hynny'n arwain at ostyngiad o ran trosiant staff, cyfraddau gwell o ran cadw staff a mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu.<br><br>Adborth gan bartneriaid yn dangos mwy o hyder yn y gweithlu ac enw da'r sefydliad.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achosion yn dangos gwelliant yn ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth.<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaeth sy'n dangos fod Rheolwyr yn gwneud penderfyniadau rheoli cywir a diogel. | | | |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 245 | | Cynadleddau Grŵp Teulu, Cyfranogi a Gwaith Datblygu Rhiantu<br>Uned Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Gogledd Cymru<br>CAFCASS<br>Cyfweld Ysgogiadol<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Archwiliadau wedi dechrau ar gyfer Chwarter 1: archwiliadau o ffeiliau achosion, archwiliadau amlasiantaethol, archwiliadau thematig, dadansoddiadau ar gael ddiwedd Gorffennaf.<br>• Hyfforddiant wedi'i gynnal ar gyfer Rheolwyr ar reoli sgyrsiau anodd.<br>• 7 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi, 4 staff mewnol a 3 allanol.<br>• Hyfforddiant wedi'i ddarparu i Reolwyr ar ddarparu Goruchwyliaeth reolaidd o safon.<br>• Mae 4 o reolwyr ar hyn o bryd yn derbyn hyfforddiant achrededig ym maes Arweinyddiaeth a Datblygu.<br>• Bydd ailstrwythuro gwasanaethau a sefydlu timau gweithredol llai yn cael eu gyrru yn eu blaenau a bydd yn sicrhau mwy o gapasiti ymysg Rheolwyr i roi arweiniad, goruchwyliaeth a chefnogaeth gyson i staff.<br>• Gwnaed trefniadau i Reolwyr Gwasanaethau Oedolion roi cymorth i Reolwyr Gwasanaethau Plant gyda'u datblygiad proffesiynol. | | | | | |
| 1.5 | Argymhelliad 4 AGGCC: Parhau i gefnogi uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant er mwyn bodloni eu hunain, partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r lefel orau bosib.<br><br>**AGGCC Argymhelliad 8 AGGCC:** Rhaid i'r gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gryf ar gyfer gwasanaethau plant barhau er mwyn sicrhau bod y gwelliannau y mae angen eu gwneud i'r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu a bod y gwelliant yn cyflymu ac yn cael ei gynnal | **Awst 2017**<br>• Mae rhestr o ymweliadau Laming misol rhwng Gorffennaf 2017 a Mai 2018 wedi cael eu cyflwyno a'u cytuno gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant ar 21/08/17. Mae ymweliadau Laming wedi cychwyn.<br>• Cynhaliwyd trafodaeth gychwynnol gydag Andrew Bennett, Hyfforddiant ac Ymgynghoriaeth 'Public Health Research', am y posibilrwydd o redeg sesiwn fyddai ar gael i'r holl Aelodau/Uwch Arweinyddion ynghylch Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod.<br>• Cynhaliwyd yr ail Banel Aelodau ar 21ain o Awst a lluniwyd dogfen dracio ar gyfer gwaith y panel.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Mae Arweinydd newydd y Cyngor/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant a'r Rheolwr Sgriwtini Dros Dro wedi adolygu rôl y panel Aelodau GC a Llesiant o ran creu Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Plant. | • Parhau i roi cymorth i uwch arweinwyr wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau plant.<br><br>• Adolygu pwrpas ymweliadau Laming a chysylltu'r cwestiynau a ofynnwyd yn ystod ymweliadau gyda chanlyniadau perthnasol yn y CGG. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn dweud bod eu cyfranogiad yn y Panel Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu eu dealltwriaeth o'r materion sylfaenol allweddol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth a'u gallu i sgriwtineiddio effeithiolrwydd y gwasanaeth.<br><br>Uwch reolwyr yn y gwasanaeth yn dweud bod y cymorth a'r her a ddarperir gan uwch arweinwyr ac aelodau etholedig wedi parhau i wella.<br><br>Partneriaid proffesiynol a chymunedau yn dweud bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol yn unol â'r Ddeddf GC a Llesiant. | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | Ionawr 2017 | Parhaus |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd.<br>• Grŵp Gwella'r Gwasanaethau Plant yn cael ei gynnal yn fisol, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i yrru ymlaen y gwelliannau a'r newidiadau a fynnir.<br><br>**Mai 2017**<br>• Panel GC a Llesiant i barhau i fonitro'r broses o gwblhau'r Cynllun Gwella Gwasanaeth.<br>• Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd.<br>• Gwaith Rhianta Corfforaethol i gael ei ddatblygu ymhellach (gweler 5.3).<br>• Angen adnoddau ychwanegol i gael gwell dealltwriaeth o gymhlethdodau'r Gwasanaethau Plant. | | **Wedi cychwyn**<br>Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn adrodd bod y Cynllun Gwella Gwasanaeth yn cael ei gyflwyno'n unol â'r amserlen ac i'r safon gofynnol. | | | |



**2. Asesiadau, ymyriadau a phenderfyniadau amserol o safon uchel yn cael eu gwneud i ddiogelu, cefnogi a rheoli'r risgiau i blant: cronolegau, cofnodion a thystiolaeth a phecynnau cymorth ymchwil o ansawdd da**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Gwelliant o ran ansawdd ymarfer.<br><br><u>Meysydd i ganolbwyntio arnynt:</u><br>1. Amddiffyn plant, amddiffyn plant ac ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC<br>2. Model Risg – gwella'r dadansoddiad o risg<br>3. Asesu – Beth sy'n bwysig, 5 maes asesu.<br>4. Cynlluniau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br>5. Cwblhau cynlluniau Gofal a Chymorth o dan y Ddeddf GC a Llesiant.<br>6. Sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br>7. Cadw cofnodion | **<u>Awst 2017</u>**<br>• Archwiliadau – ffeiliau achosion a thematig – fesul gwasanaeth ac amlasiantaethol – wedi'u cynnal yn ystod y mis. Mae'r llwythi achosion ar gyfer y tîm rheng flaen yn parhau i fod yn uwch nag y byddai'r tîm rheoli gwasanaeth yn ei ddymuno, mae tystiolaeth o archwiliadau'n awgrymu fod ymarfer yn parhau i fod yn anghyson.<br>• Fframwaith Drafft ar gyfer Gwella Ansawdd Ymarfer wedi'i ddatblygu ar gyfer ymgynghori.<br>• Mae'r UDRh yn ystyried canfyddiadau adroddiad ansawd Ch1 – yn argymell blaenoriaethu gwelliannau o ran arferion asesu.<br>• Wedi herio a chefnogi gweithwyr unigol i wella eu hymarfer<br>• Dogfen Adroddiad Gwerthuso Ymarfer Ch1 2017/18 Gwaith archwilio ffeiliau achos wedi'i gwblhau ar y meysydd ymarfer a ganlyn: archwiliad camu i lawr LAC, adroddiad ar gyfer y panel lleoli, archwiliadau ffeiliau achos misol wedi'u cynllunio gan Reolwyr | • Adroddiad Gwerthuso Ymarfer Ch1 2017/18 – Rhaid i'r gwasanaeth ganolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion sylfaenol i wella data perfformiad. Y flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yw gwella ymarfer asesu. Darperir hyfforddiant gan Bruce Thornton ar weithredu'r model risg mewn asesiadau. Mae gwaith ar fynd o ran ymgysylltu â staff i ddiffinio safonau ar gyfer asesiadau.<br>• Ymarfer Myfyriol mewn Gwaith Cymdeithasol:<br>1. Amddiffyn plant<br>2. Sut i sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br>3. Cadw cofnodion. | **Heb ey gwneud hyd yma**<br>Gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc gyda lleihad yn nifer y plant ar y CAP a'r plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Tystiolaeth o 'atal' a 'chefnogi' gyda mwy o blant yn aros yn eu cartrefi.<br><br>Cynnal archwiliadau rheolaidd yn cadarnhau gwelliannau yn ansawdd yr ymarfer, asesu risg a chadw cofnodion<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd sy'n dangos gwelliant yn ansawdd a chysondeb y cofnodion a'u bod yn gyfredol ac yn cael eu storio yn systematig.<br><br>Cynnydd mewn adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar y cynnydd a gyflawnwyd ganddynt gyda chymorth y Gwasanaethau Plant. | Uwch Dîm Rheoli<br><br>Hyfforddiant | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 8. Cwrs Cyfathrebu ar y Cyd ar sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau.<br><br>**Argymhelliad 10:**<br>Dylid gwella ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn gyson o ansawdd da, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod y canlyniadau a ddymunir, amserlenni ac atebolrwydd ar gyfer camau gweithredu yn glir. | Timau, archwilio ymatebol (cwynion Cam 2) a phenderfynu cychwynnol, sgrinio, trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth ac asesu syml. Barnau defnyddwyr gwasanaeth a gwerthuso adolygiadau rheoli a gynhaliwyd yn flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod ymarfer yn dal i fod yn anghyson, fodd bynnag, ceir enghreifftiau o arfer dda y mae AGGCC wedi cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r canlyniad a fynnir ar gyfer y plentyn/plant a'u teuluoedd.<br>• Roedd AGGCC wedi tracio dau achos – 'Darllenwyd ffeiliau achos, cyfwelwyd gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr a theuluoedd. Darparodd yr achosion dystiolaeth o ganlyniadau da i deuluoedd. Defnyddiwyd ystod dda o wasanaethau yn effeithiol. Roedd y gweithwyr cymdeithasol a gyfwelwyd yn llawn cymhelliad ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Roeddynt yn cyflawni lefel uchel iawn o ymgysylltu gyda'r teuluoedd. Roedd y teuluoedd yn frwdfrydig ac yn cael cymorth i fynd i'r afael â phatrymau ymddygiad a oedd wedi gwreiddio'n ddwfn o ran camddefnyddio sylweddau a thrais domestig. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn cael eu cefnogi'n dda ond nid bob amser drwy oruchwyliaeth ffurfiol'.<br>**Roedd Achos 2 yn darparu tystiolaeth o:**<br>'Ddefnydd da o systemau a gwasanaethau. Ystod dda o wasanaethau - LAC, Trais Domestig, FGC mewn cynllunio, asesiad therapiwtig gwasanaeth arbenigol. Mae anghenion plant a theuluoedd wedi'u diwallu. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn fedrus, yn gallu cynnal ei pherthynas gyda'r fam a'r plant a gwneud gwaith uniongyrchol gyda'r plant. O'r trafodaethau a'r ffeil, roedd wedi gwneud cyfraniad sylweddol o ran newid disgwyliadau'r fam, ei meddyliau a'i hymddygiad.'<br>• Ymgymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i Strategaeth a Chynhadledd: Ansawdd Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu.<br>**Dyma'r Themau Allweddol:**<br>Mae presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth wedi gwella<br>Defnydd wedi cynyddu o ran offeryn Risk 2<br>Cyfarfodydd Strategaeth amserol<br>Defnydd cynyddol o Gronolegau yn amlwg<br>Gwell ansawdd yn amlwg o ran asesiadau | 4. Datblygu canllawiau ar ymarfer da mewn perthynas â chadw cofnodion.<br>• Cynhelir cwrs Cyfathrebu ar y Cyd ar y 28ain a'r 29ain o Fedi.<br>• Canllawiau ymarfer i gael eu datblygu mewn perthynas ag AP ac ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC.<br>• Canllawiau i'w datblygu ar arfer dda o ran cadw cofnodiadau – comisiynwyd Bruce Thornton i sefydlu model gweithredol o fewn y system newydd - WCCIS. | **Wedi'u cwblhau**<br>Sicrhau bod templedi rhanbarthol ar gyfer 'asesu' / cynllunio gofal a chefnogaeth' sy'n cofnodi glir anghenion, risgiau, cryfderau, canlyniadau, atebolrwydd am weithredoedd a'u hamserlenni cysylltiedig ar gael i'w defnyddio o fewn y gwasanaeth. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 248 | | Mae cysondeb ffurflenni'n dal i fod yn broblem (Adroddiad G.C/Craidd/Risk2/ mae'r Asesiad Gofal a Chymorth a'r offeryn Cymhwyster yn cael eu defnyddio). Nid yw'r cam cysyniadol o hidlo risg i ganfod cryfderau wedi'i wreiddio'n llawn.<br>• Mae canllawiau ymarfer Teulu Môn yn cael eu datblygu gan y Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar.<br>• Comisiynwyd Bruce Thornton i lunio Arweiniad ar Gadw Cofnodion a Gwneud Penderfyniadau.<br>• Mae ansawdd yr ymarfer yn parhau i fod yn anghyson.<br>• Mae canllawiau ymarfer amlasiantaethol wedi'u cwblhau a fydd yn cael eu cadarnhau yn y Grŵp Diogelu Cyflawni Lleol ym mis Hydref, meysydd a gynhwysir yw:<br>Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru.<br>Rhan 4 AWCPP2008<br>Gwneud Atgyfeiriadau<br>• Lluniwyd dogfen ddrafft sy'n nodi'r dull gweithio ar gyfer y gwasanaeth (cyfathrebu ar y cyd, cyd-gynhyrchu ac asesu risg). Wrth baratoi'r ddogfen hon, mae'r gwasanaeth wedi ystyried yr angen i wella ymarfer o ran ffurfio asesiadau o ansawdd da ynghyd ag ymateb i'r gofynion o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i weithio ar y cyd gyda phlant a theuluoedd. Mae'r ddogfen hon yn nodi gweledigaeth y gwasanaeth o ran sut y byddwn yn asesu risg, yn cyd-gynhyrchu ac yn cynnal cyfathrebu ar y cyd gyda phlant a theuluoedd ym Môn.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Archwiliadau wedi dechrau ar gyfer Chwarter 1: Archwilio ffeiliau achosion, archwiliadau amlasiantaethol, archwiliadau thematig, dadansoddiad ar gael ddiwedd Gorffennaf.<br>• Wedi herio a rhoi cymorth i weithwyr unigol wella eu hymarfer.<br>• Mae ansawdd ymarfer yn parhau i fod yn anghyson. | | | | | |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Sesiwn ar gyfer staff wedi'i gynnal ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol i drafod safonau ymarfer, ynghyd â gofyn i staff am syniadau o ran beth fyddai'n eu helpu i wella eu dulliau gweithio.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Yr Uned Hyfforddi wedi trefnu hyfforddiant i'r holl staff gofal cymdeithasol ar:<br>Asesu Gofalwyr yn y tymor hir<br>Gweithredu'r Fframwaith Cynefino ar gyfer Gofalwyr Maeth<br>Newid Diwylliant a Mesur Perfformiad yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant<br>Cyfathrebu Cydweithredol / sgyrsiau sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau<br>Templedi rhanbarthol – gan gynnwys Asesu, Beth sy'n Bwysig, 5 maes asesu, cynluniau Gofal a Chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>Gwneud y Gorau o Oruchwyliaeth – ar gyfer Rheolwyr<br>Darparu Adborth Adeiladol a Rheoli Sgyrsiau Anodd<br>Gwneud y Gorau o Oruchwyliaeth – ar gyfer staff<br>Hyfforddiant Teuluoedd Gwydn GICD (gan gynnwys Therapi Byr sy'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau a Chyfweld Ysgogiadol<br>Cyfathrebu Cydweithredol – dilyn i fyny<br>Diogelu Cyffredinol ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol<br>Model Risg<br>Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chyfweliadau ar gyfer Dychwelyd Adref<br>Cyfweld Ysgogiadol | | | | | |
| 2.2 | Argymhelliad 3 AGGCC:<br>Bydd uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau o ran:<br>1. ansawdd,<br>2. cysondeb, ac<br>3. amseroldeb<br>ymholiadau amddiffyn plant.<br><br>Datblygu Canllaw Ymarfer rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant mewn perthynas ag atgyfeiriadau diogelu plant, trafodaethau / cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau. | **<u>Awst 2017</u>**<br>• Rydym wedi cyfarfod â'r hyb IAA cyfatebol yng Nghynghorau Sir Conwy a Sir y Fflint er mwyn archwilio opsiynau a rhannu eu profiadau. Mae'r ymweliad â Chonwy a Sir y Fflint wedi ein cynorthwyo i ffurfio cenhadaeth gliriach ar gyfer ein IAA ein hunain.<br>• Wedi datblygu cwmpas y gwaith gyda'r heddlu ar yr archwiliad ar y cyd a gwelliant o ran atgyfeiriadau, cyfarfodydd Strategaeth ac archwiliadau Adran 47.<br>• Cynhaliwyd archwiliad ar bob un o'r 81 atgyfeiriad a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant oddi wrth Uned Diogelu'r Cyhoedd yn ffurf CID 16's rhwng y 1af a'r 14eg o Fehefin 2017. Ystyriwyd nad oedd 20 o'r atgyfeiriadau'n glir o ran y rheswm dros rannu'r wybodaeth. O'r 81, dim ond saith oedd yn nodi beth fyddai'r canlyniad disgwyliedig ar gyfer yr atgyfeiriad. Dim ond 15 atgyfeiriad oedd yn cynnwys llais y plentyn. | | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd yn dangos gwelliant yn ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant gan arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn cael arweiniad cliriach a bod ganddynt well dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau oherwydd gweithrediad y Canllawiau Ymarfer. | Rheolwyr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Hydref 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 250 | | Rhaid i Uned Diogelu'r Cyhoedd sicrhau eu bod yn fwy penodol o ran pam maent yn atgyfeirio'r wybodaeth ac ni ddylent atgyfeirio dim ond oherwydd bod plant yn gysylltiedig â'r oedolion dan sylw.<br>• CSE a Chyfweliadau Dychwelyd Adref ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae gwaith yn cael ei wneud i wella perfformiad yn y meysydd hyn gyda phartneriaid – yr Heddlu a 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru.<br>• Ymgymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i Strategaeth a Chynhadledd: Ansawdd Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu. Gweler 2.1<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Mae protocolau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>  • Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>  • Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>  • Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>Set o brotocolau'n debygol o fod yn barod ar gyfer mis Hydref.<br>• Dadansoddiad pythefnos wedi dechrau ar 10/07/17 mewn perthynas â phob CID16 a dderbynnir yn Teulu Môn er mwyn sicrhau gwneud atgyfeiriadau priodol i'r Cyngor a deall y data ac archwilio rhannu gwybodaeth. Cynhaliwyd cyfarfod ar 26ain Mehefin.<br>• Trefnir cyfarfodydd misol rhwng y Gwasanaethau Plant a Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â materion gweithredol ac i ddatblygu Canllawiau Ymarfer mewn perthynas ag atgyfeiriadau amddiffyn plant, trafodaethau /cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau.<br>• PG yn cael gwybod am unrhyw anawsterau gweithredol mewn perthynas â chydweithio gyda'r Heddlu i sicrhau eu bod yn cael sylw brys ac nad yw plant yn cael eu gadael mewn sefyllfaoedd sy'n golygu eu bod yn agored i niwed.<br>• Cynnal archwiliad i fonitro ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant. | | | | | |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mai 2017**<br>• Cynhaliwyd trafodaeth gadarnhaol gyda'r Heddlu ynghylch cydweithredu. | | | | | |
| 2.3 | **Argymhelliad 9 AGGCC:**<br>Dylid sefydlu trefniadau amlasiantaethol i gryfhau cynlluniau gweithredol i gefnogi cydlyniad effeithiol er mwyn sicrhau bod partneriaid statudol yn cwblhau 'Fframweithiau Asesu ar y Cyd'.<br><br>Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol – cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth. | **Awst 2017**<br>• Canllawiau ymarfer wedi'u cwblhau, gweler 2.2<br>• Cyfarfodydd wedi eu cynnal efo CAFCASS a CAMHS<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Gwnaed trefniadau i gynnal grŵp tasg a gorffen amlasiantaethol o dan y grŵp cyflawni diogelu lleol i ddatblygu y canllawiau ymarfer.<br><br>**Mai 2017**<br>• Y Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol wedi cytuno ar 16.2.17 y dylid cynnal cyfarfod amlasiantaethol rhwng Gwynedd ac Ynys Môn i drafod trefniadau gwaith ac anawsterau presennol a'u dwyn i sylw'r BRhDP.<br><br>• Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol - cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth, gweler. 3.3 (4) | • Rydym wedi derbyn caniatâd gan Lywodraeth Cymru i gyfuno'r Fframwaith Asesu ar y Cyd (JAF) efo'r ffurflen asesu gofal a chefnogaeth. Bydd gwaith yn cychwyn ym mis Medi ar gynnwys y mesuriadau sy'n cael eu casglu yn y Fframwaith Asesu ar y Cyd. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Gwell trefniadau diogelu amlasiantaethol sy'n arwain at well canlyniadau a phrofiadau i blant a phobl ifanc<br>**Wedi cychwyn**<br>Canllaw Ymarfer amlasiantaethol sydd yn rhoi diffiniad clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau lleol a threfniadau diogelu. | Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar | Ionawr 2017 | Hydref 2017 |

Tudalen 251

**3. Fframwaith sicrhau ansawdd a pherfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Adolygu'r holl blant sydd mewn gofal er mwyn sicrhau bod cynlluniau cymorth a gofal yn seiliedig ar ganlyniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod ganddynt sefydlogrwydd tymor hir.<br><br>Dealltwriaeth ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol o broffil plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ar y CAP.<br><br>Adolygu bob achos lle mae enwau plant wedi bod ar y Gofrestr | **Awst 2017**<br>• Ymgymerwyd ag adolygiad o gofnodion Cynadleddau Achos ar gyfer 34 o blant – dangosodd, mewn cryn nifer o achosion nad oedd tystiolaeth i gyfiawnhau'r farn o ran niwed arwyddocaol pellach. Mae Arweinydd Ymarfer wrthi'n adolygu'r un cofnodion mewn ymgais i gadarnhau'r canfyddiadau.<br>• Atgyfeiriwyd un achos i sylw rheolwyr gan y bu'r plant ar y gofrestr am 4 blynedd. Roedd hyn yn gadarnhaol ac arweiniodd at wneud penderfyniadau, cyfeiriad a gweithredu cliriach.<br>• Mae proffil y plant ar y gofrestr AP wedi'i gwblhau, mae gwaith wedi mynd yn ei flaen i leihau nifer y plant ar y | • Nod i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal drwy:<br>Ymgysylltu â theuluoedd, ffrindiau a'r gymuned yn gynt<br>Bod yn greadigol – cymorth /darpariaeth ychwanegol<br>Cwblhau Asesiadau Gofal a Chymorth manwl<br>Ymgysylltu â'r plentyn/unigolyn ifanc yn y broses Asesu<br>Gwrando ar blant a phobl ifanc<br>Cynllunio Gofal a Chymorth SMART<br>Ymyrraeth Teuluoedd Gwydn | **Wedi cychwyn**<br>Gwaith dwys gyda phlant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sydd angen trefniadau 'camu i lawr' llwyddiannus yn arwain at well canlyniadau.<br><br>Y Cyngor yn cael sicrwydd bod lleoliadau yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Plant yn cael eu hadsefydlu'n ddiogel yn eu cartrefi trwy leoliadau gyda'u rhieni/cyflawni Gorchmynion Gofal. | | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 252 | Amddiffyn Plant am 12 mis + er mwyn penderfynu os y dylid eu trafod mewn Panel Porthgadw Cyfreithiol (achosion gofal). | gofrestr. Nifer y plant ar y gofretsr ar 31ain Awst 2017 oedd 56, o gymharu â 102 ddiwedd Mawrth 2017, gostyngiad o 55%. Mae Arweinydd Ymarfer wedi'i ganfod i roi sylw i welliannau o ran ansawdd y gwaith mewn perthynas â chynadleddau AP a lleihau'r cyfnod amser y mae plant yn aros ar y gofrestr.<br>• Mae gwaith wedi dechrau ar ddeall a herio "cyfnodau rhybudd" a roir gan ddarparwyr gofal.<br>• Mae gwaith wedi dechrau ar herio Ansawdd y lleoliadau a gynigir.<br>• Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn wedi'i benodi ac rydym wedi dechrau gweithio o dan y model Teuluoedd Gwydn gyda theuluoedd.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Yr holl blant sy'n derbyn gofal wedi'u hadolygu a phlant sydd angen trefniadau 'Camu i Lawr' wedi'u hadnabod.<br>• Y Pennaeth Gwasanaeth yn cadeirio grŵp – panel adolygu mewnol ar gyfer lleoliadau preswyl:<br>Sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn cyflawni eu canlyniadau llesiant i sicrhau bod argymhellion adolygiadau LAC yn cael eu gweithredu ac i sicrhau gwerth am arian.<br>• Swyddi Tîm Teuluoedd Gwydn wedi cau erbyn hyn.<br>• Angen cryfhau cynlluniau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal drwy ddatblygu canllawiau ymarfer ychwanegol.<br>• Polisi Parhad yn cael ei adolygu ar hyn o bryd<br>• Rydym wedi cychwyn ymarfer yn wahanol ac yn fwy dwys efo nifer fechan o deuluoedd yn dilyn model tebyg i waith y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd. Dyma'r gwaith y bydd y Tîm Teuluoedd Gwydn yn ei wneud i roi cymorth i blant sy'n byw adref: gan atal yr angen am lety a rhoi cymorth ar gyfer cynlluniau i ddychwelyd adref.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Rheolwyr Tîm i gadarnhau erbyn Mawrth 2017 pa blant / pobl ifanc fydd yn cael cynlluniau gofal a chymorth 'camu i lawr'.<br>• Daethpwyd i gytundeb erbyn mis Mawrth 2017 ynghylch y tasgau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a'r gwaith dwys y mae angen ei wneud gyda phlant sy'n derbyn gofal / pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn sicrhau bod trefniadau 'camu i lawr' yn llwyddiannus.<br>• Swyddi o fewn y Tîm Teuluoedd Gwydn a phenodiadau wedi eu gwneud erbyn Mai 2017.<br>• Cryfhau'r broses o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal trwy ddatblygu Canllawiau Ymarfer ychwanegol. | • Angen symud i ffwrdd o feddwl mai'r modd gorau o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yw drwy eu rhoi mewn gofal.<br>• Mae angen mynd ati'n raddol i ddileu'r defnydd o seibiannau (dros nos) oddi wrth rieni.<br>• Pan fydd rhieni'n gofyn am gael rhoi eu plentyn/plant mewn gofal, rhaid dweud wrthynt bod rhaid gweithio drwy'r camau a nodir uchod*.<br>• Angen cadrnhau'r polisi parhad. | Gweithwyr Cymdeithasol yn rhoi blaenoriaeth i argymhellion Adolygiadau LAC a bod y broses o gwblhau asesiadau a gwaith sydd ar ôl i'w wneud yn digwydd yn gyflym ac yn cael ei chynnal.<br><br>Lleihad yn nifer y plant mewn lleoliadau preswyl erbyn diwedd mis Mawrth 2018 o ganlyniad i waith dwys a wnaed i'w symud i drefniadau 'camu i lawr'.<br><br>Costau a gwariant ar leoliadau costus wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i drefniadau 'camu i lawr' ar gyfer plant a phobl ifanc'.<br><br>Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod cynllunio gofal gan Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gwella'n sylweddol drwy weithredu'r Canllaw Ymarfer.<br><br>Mae adolygu'r plant sy'n derbyn gofal a'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn darparu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth o'u hanghenion. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda'r strategaeth atal a gwaith y Tîm Teuluoedd Gwydn. | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.2<br><br>Tudalen 253 | Cryfhau ac ymgorffori'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd o fewn y Gwasanaeth, trwy:<br>1. SAA a CAP i adrodd yn chwarterol ar eu hasesiad o berfformiad gweithredol cynadleddau ac adolygiadau.<br>2. SAA a CAP i ddwyn sylw, ar sail thematig, at faterion yn ymwneud ag ansawdd a dysgu ar gyfer y Gwasanaeth.<br>3. Rheolwyr i gynnal archwiliadau rheolaidd ar feysydd sy'n canolbwyntio ar:<br>• Oruchwylio<br>• Cofnodi<br>• Asesu<br>• Ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant<br><br>Llwyth achosion ac adroddiadau ynghylch ansawdd perfformiad gweithwyr i gael eu monitro yn barhaus.<br><br>Argymhelliad 13 AGGCC: Mae angen gwreiddio trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, gan gynnwys sgriwtineiddio'r galw am wasanaethau ac archwiliadau rheolaidd o ansawdd ymarfer, fel bod rheolwyr ar bob lefel yn cael gwybodaeth amserol a pherthnasol o safon uchel am berfformiad a sicrwydd ansawdd i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau<br><br>Argymhelliad 14 AGGCC: Dylai Llwyth achosion ac adroddiadau ynghylch ansawdd perfformiad gweithwyr gael eu monitro'n barhaus er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd. | **Awst 2017**<br>• Wedi penodi Swyddog Cymorth Busnes ar gyfer Adolygiadau Statudol a Chynadleddau Achos<br>• Wedi hysbysebu swydd y Cydlynydd Gwella Ymarfer, sef y 'Rheolwr Sicrwydd Ansawdd' gynt.<br>• Bu rheolwyr yn ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd o'r meysydd sydd o dan sylw i fonitro ansawdd perfformiad gweithwyr.<br>• Mae archwiliadau pellach o'r broses benderfynu yn dangos gwelliant o ran ymarfer. Gweler 2.1<br>• Archwiliadau – ffeiliau achosion a thematig – fesul gwasanaeth ac amlasiantaethol – wedi'u cynnal yn ystod y mis.<br>• Fframwaith ar gyfer Gwella Ansawdd Ymarfer wedi'i ddatblygu mewn ffurf drafft ar gyfer ymgynghori.<br>• UDRh yn ystyried canfyddiadau adroddiad ansawdd Ch1 – yn argymell blaenoriaethu gwelliannau o ran ymarfer asesu.<br>• Wedi herio a rhoi cymorth i weithwyr unigol wella eu hymarfer.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>▪ Mae'r gwaith sicrwydd ansawdd yn Chwarter 1 wedi cynnwys:<br>Dadansoddiad proffil Plant sy'n Derbyn Gofal<br>Awdit o Ffeiliau Achos<br>Dadansoddi Llwyth Achosion<br>• Recriwtio i'r swydd cefnogi busnes ar gyfer Adolygiadau Statudol a Cynadleddau Achos erbyn diwedd mis Gorffennaf.<br>• Penodiad i'r swydd Swyddog Adolygu Annibynnol wedi'i wneud ym mis Gorffennaf.<br>• Mwy o ddatblygiadau wedi digwydd mewn perthynas â'r awdit sicrhau ansawdd amlasiantaethol efo Addysg a'r Bwrdd Iechyd i wella ansawdd cyfeiriadau a gwybodaeth sy'n cael eu rhannu efo asiantaethau sy'n bartneriaid.<br>• Mae arian ychwanegol wedi ei gytuno i ailsefydlu'r swydd Rheolwr Sicrhau Ansawdd, cafodd y swydd ei hysbysebu ond wedi methu penodi.<br>• Awdit o Achosion 'Public Law Outline' wedi ei orffen<br><br>**Mai 2017**<br>• Fframwaith Sicrhau Ansawdd wedi cael ei ddiwygio a'i gymeradwyo gan y Gwasanaethau Plant.<br>• Cynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd wedi cael ei gytuno ar gyfer y 12 mis nesaf yn canolbwyntio ar archwiliadau rheolaidd ar feysydd sy'n canolbwyntio ar:<br>Oruchwylio<br>Cofnodi<br>Asesu | • Canllawiau i gael eu datblygu mewn perthynas â rheoli llwyth achosion i sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr fedru ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd.<br><br>• Bydd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Gwasanaethau Plant gan ddechrau yn yr hydref, mae'r amserlen wedi llithro oherwydd y penderfyniad a wnaed gan Uwch Arweinyddion i oedi recriwtio i'r swydd Rheolwr Sicrwydd Ansawdd oherwydd recriwtio mewnol ar gyfer y swyddi Arweinyddion Ymarfer. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>WCCIS yn cefnogi rheoli perfformiad a rheoli llwyth achosion drwy nodweddion 'adrodd' hwylus sydd ar gael i Reolwyr.<br><br>Mae gan weithwyr gapasiti digonol i ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd oherwydd bod Rheolwyr yn gweithredu'r Canllawiau llwyth achosion.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Archwiliadau o adroddiadau sicrwydd ansawdd a ffeiliau achos yn dangos tystiolaeth o welliant yn ansawdd yr ymarfer a'r dysgu a bod penderfyniadau diogel yn cael eu gwneud ar bob lefel.<br><br>Adroddiadau ansoddol rheolaidd ac amserol yn cael eu cyflwyno yn ddi-oed i'r tîm arweinyddiaeth, gan gynnwys aelodau.<br><br>Y sefydliad yn arddangos trefniadau llywodraethu a chraffu mwy strwythuredig drwy archwilio ffeiliau achosion yn rheolaidd.<br><br>Mae gan y Swyddog Adolygu Annibynnol / CAP rôl well o ran sicrhau ansawdd gyda hynny'n arwain at ddysgu a gwelliant yn ansawdd yr ymarfer.<br><br>Mae rheolwyr yn darparu adroddiadau misol i reolwyr gwasanaeth a'r PG ar y prif bwyntiau o ran ansawdd perfformiad gweithwyr i sicrhau bod digon o gapasiti i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.<br><br>Yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd i yrru gwelliannau a newid mewn ymarfer ar draws y Gwasanaeth wrth ddysgu o adroddiadau thematig ac ansoddol.<br><br>Gwelliant o ran ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant. | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Adroddiadau Sicrwydd Chwarterol i'w trafod yn y cyfarfod Rheoli Gwasanaethau Plant a Grŵp Gwella Ymarfer i'w sefydlu i fwrw ymlaen â gwelliannau o ran ymarfer.<br>• Rheolwyr i ddarparu adroddiadau misol i reolwyr gwasanaeth a'r PG ar y prif bwyntiau o ran ansawdd perfformiad gweithwyr i sicrhau bod digon o gapasiti iddynt fedru ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd. | | | | | |
| 3.3 | Datblygu'r fframwaith perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Plant ac Oedolion i gynnwys:<br><br>1. Dangosyddion perfformiad Amlinellol wedi eu rhannu'n berfformiad Cenedlaethol, Corfforaethol a Gwasanaeth.<br>2. Trefniadau llywodraethu i gynnwys adrodd, atebolrwydd a mecanwaith i yrru gwelliant.<br>3. Gwelliant parhaus wedi ei ymgorffori yn y fframwaith.<br>4. Fframwaith i ddarparu tystiolaeth o ansawdd ymarfer a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth.<br>5. Angen gwelliant mewn meysydd perfformiad blaenoriaeth sydd y tu hwnt i'r lefel dderbyniol a thargedau:<br>• Asesu<br>• Adolygiadau Plant LAC<br>• Ymweliadau Plant LAC<br>• Ymweliadau plant ar y gofrestr<br>• Cyfarfodydd grwpiau craidd<br>• Cynlluniau Llwybr<br>Byddir yn dod â'r rhain yn ôl o fewn y targed. | **<u>Awst 2017</u>**<br>• Rydym yn parhau i herio a rhoi cymorth i weithwyr unigol wella eu hymarfer.<br>• Gwnaed cryn welliant o ran ymweliadau adolygiadau LAC ar gyfer Awst ar ôl adolygu sut yr oedd y dangosyddion yn cael eu mesur. Mae 86% o ymweliadau'n cael eu cynnal o fewn yr amserlen.<br>• Rydym bellach yn blaenoriaethu dangosyddion mewn perthynas ag Adolygiadau LAC, ymweliadau LAC, ymweliadau AP, cyfarfodydd grŵp craidd. Byddwn yn canolbwyntio ar Amserlenni, Pwrpas, Recordio a Pherfformiad.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Wedi herio a chefnogi gweithwyr unigol i wella ymarfer<br>• Canllawiau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>• Mae safonau gwasanaeth yn cael eu datblygu i sicrhau arfer dda mewn perthynas â pherfformiad allweddol sydd y tu hwnt i'r lefel dderbyniol a thargedau.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>▪ Comisiynu arbenigedd allanol ym mis Mai 2017 / Mehefin i ddatblygu'r fframwaith perfformiad ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion<br>▪ Bydd system dracio fanylach yn cael ei datblygu, wedi ei selio ar arfer dda o fannau eraill; wedi'i chyfuno â strwythur newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant, bydd yn galluogi Rheolwyr Timau/Arweinwyr Ymarfer i sicrhau fod ymweliadau'n cael eu cynnal pan fo staff yn absennol o'r gwaith (p'un a ydynt ar wyliau blynyddol neu'n absennol oherwydd salwch). | | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Yn gyffredinol, gwelliant parhaus mewn perfformiad a chanlyniadau ar gyfer plant/pobl ifanc.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Gwelliant o ran lefel dealltwriaeth y staff o ddangosyddion perfformiad a'r cysylltiad clir gydag ansawdd ac phrydlondeb ymarfer. Mae hyn yn arwain at welliant parhaus mewn perfformiad a chanlyniadau i blant / pobl ifanc - un dangosydd yw gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Cryfhau'r trefniadau adrodd a monitro mewn perthynas â gwybodaeth am Berfformiad.<br><br>Gwybodaeth perfformiad yn dangos gwelliant mewn perfformiad i lefelau derbyniol:<br>• Asesu<br>• Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal<br>• Ymweliadau Plant sy'n Derbyn Gofal<br>• Ymweliadau plant ar y Gofrestr<br>• Cyfarfodydd grwpiau craidd<br>• Cynlluniau Llwybr | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Mawrth 2017 | Hydref 2017 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.4<br><br>Tudalen 255 | Argymhelliad 2 AGGCC: Sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant amlasiantaethol i sicrhau bod staff a phartneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesiadau gwasanaethau plant statudol ac y glynir wrth trothwyon hynny'n gyson.<br><br>Datblygu protocol ar gyfer trothwyon amddiffyn plant amlasiantaethol a bod y protocol hwnnw'n ymgorffori canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru.<br><br>Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol - trothwy atgyfeirio y cytunwyd arno, trothwy asesu, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth. | **August 2017**<br>• Dogfen Adroddiad Gwerthuso Ymarfer Ch1 2017/18 Gwaith archwilio ffeiliau achos wedi'i gwblhau ar y meysydd ymarfer a ganlyn: archwiliad camu i lawr LAC, adroddiad ar gyfer y panel lleoli, archwiliadau ffeiliau achos misol wedi'u cynllunio gan Reolwyr Timau, archwilio ymatebol (cwynion Cam 2) a phenderfynu cychwynnol, sgrinio, trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth ac asesu syml. Barnau defnyddwyr gwasanaeth a gwerthuso adolygiadau rheoli a gynhaliwyd yn flaenorol. Mae canlyniadau chwarter 1 wedi cael eu dadansoddi, gweler 2.1<br>• Yn gwneud cynnydd gyda phartneriaid (yr Heddlu, Iechyd ac Addysg) o ran gweithredu'r system sicrhau ansawdd amlasiantaethol y cyfeirir ati isod.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Mae fframwaith sicrwydd ansawdd amlasiantaethol wedi'i ddatblygu i'w gymeradwyo rhwng y Gwasanaeth a'r Heddlu, y Gwasanaeth a'r Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth ac Addysg.<br>• Bydd canlyniadau'r archwiliadau a wnaed yn Chwarter 1 yn cael eu dadansoddi yn chwarter 1 ac yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Cyflawni Lleol ar gyfer sicrwydd ansawdd.<br>• Canllawiau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>Set o ganllawiau yn debygol o fod yn barod ar gyfer mis Hydref.<br><br>**Mai 2017**<br>Partneriaid yn darparu cytundeb i ddatblygu a chefnogi / blaenoriaethu:<br>• Systemau sicrhau ansawdd amlasiantaethol<br>• Hyfforddiant ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid ar drothwyon ar gyfer asesu a rolau a chyfrifoldebau phartneriaid.<br>• Datblygu trothwy amddiffyn plant amlasiantaethol.<br>• Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg i gynnwys pob maes gwaith lle mae angen gwneud gwaith datblygu. | | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>System sicrhau ansawdd amlasiantaethol y cytunwyd arni yn arwain at welliant o ran ansawdd a phrydlondeb ymarfer.<br><br>Yr holl staff a phartneriaid allweddol wedi cael yr hyfforddiant a nodwyd ac mae tystiolaeth o welliant o ran lefel y ddealltwriaeth o drothwyon ar gyfer atgyfeiriadau, asesiadau ac amddiffyn plant a'r modd y dylid defnyddio'r trothwyon hynny. Mae hyn o ganlyniad i weithredu'r Canllawiau Ymarfer.<br><br>Mae gwybodaeth/atgyfeiriadau gan yr Heddlu i'r Gwasanaethau Plant yn cael eu craffu ymlaen llaw yn cynnwys crynodeb sy'n rhoi rheswm dros yr atgyfeiriad a'r camau gweithredu y gofynnwyd amdanynt. Bydd hyn yn arwain at welliant yn ansawdd yr atgyfeiriadau a'r penderfyniadau ac yn gostwng yn sylweddol nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir gan y Gwasanaethau Plant wrth y drws ffrynt.<br><br>Mae ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i'r gwelliant yn ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan bartneriaid. Bydd hyn yn galluogi staff i ganolbwyntio ar sefydlu perthynas gadarnhaol gyda theuluoedd a darparu ymyriadau o ansawdd. | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrwydd Ansawdd | Rhagfyr 2016 | Rhagfyr 2017 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.5 | **Argymhelliad 11 AGGCC:**<br>Dylid gwella ansawdd a chysondeb cadw cofnodion; dylai'r holl staff a rheolwyr sicrhau bod eu cofnodion o ansawdd da, yn gyfredol ac yn cael eu storio yn systematig.<br><br>Staff i dderbyn hyfforddiant ar y safonau disgwyliedig o safbwynt cadw cofnodion.<br><br>Canllawiau ymarfer ar gadw cofnodion i gael eu datblygu er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd. | **Awst 2017**<br>• Fel rhan o'r cofrestriad fel Gweithwyr Cymdeithasol, mae gan staff y cyfrifoldeb i sicrhau cofnodi o ansawdd da mewn modd amserol.<br><br>• Ymgymerir ac archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achosion i fonitro ansawdd ac amseroldeb y cofnodion a gedwir mewn perthynas ag achosion unigol.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Mae Cadw Cofnodion yn parhau i fod yn anghyson<br>• Cynnal archwiliad pellach o ffeiliau achosion sy'n agored i ganfod p'un a oes gwelliant yn ansawdd y cofnodi. | • Canllawiau i'w datblygu ar arfer dda o ran cadw cofnodiadau – comisiynwyd Bruce Thornton i sefydlu model gweithredol o fewn y system newydd - WCCIS.<br><br>• Staff i dderbyn hyfforddiant ar yr arferion gorau o ran cadw cofnodion a'r Canllawiau Ymarfer. | **Wedi cychwyn**<br>Rheolwyr yn archwilio ffeiliau achos yn rheolaidd gyda hynny'n dangos gwelliant yn ansawdd a chysondeb y cofnodion.<br><br>Cefnogaeth ac arweiniad i staff trwy oruchwyliaeth reolaidd o safon yn arwain at welliant yn ansawdd y cofnodion a gedwir. | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd a Rheolwyr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Medi 2017 |

**4. Gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli – treulio llawer mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd yn eu helpu i newid fel bod y teulu yn lle diogel ar gyfer eu plant.**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Sicrhau bod ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â'r ffordd wahanol o weithio gyda theuluoedd dan y Ddeddf Newydd ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig, gan adeiladu ar gryfderau pobl a'u galluogi i gymryd rhan yn y broses o roi sylw i anghenion a chyflawni canlyniadau.<br>Hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn canolbwyntio ar:<br>1. Gwrs Cyfathrebu ar y cyd ar sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau.<br>2. Ymyriadau GICD<br>3. Newid diwylliant<br>4. Mesur perfformiad<br>5. Cyfweld ysgogiadol | **Awst 2017**<br>• Rydym wedi parhau i roi cymorth i staff weithio gyda theuluoedd gan ganolbwyntio ar eu cryfderau, cael 'sgwrs beth sy'n bwysig', gofynion o ran eiriolaeth a chyd-gynhyrchu.<br>• Rydym yn gweld tystiolaeth o'r gweithlu'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau – gan ein bod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y plant ar y gofrestr AP o 102 ym Mawrth 2017 i 56 ar 31$^{ain}$ Awst 2017, gostyngiad o 55%.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Mae'r hyfforddiant isod wedi digwydd<br>• Rydym yn parhau i roi ffocws ar ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn aliniedig efo'r dull gwahanol o weithio efo teuluoedd o dan y Ddeddf newydd fel: Y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', gofynion eiriolaeth a chyd-gynhyrchu, mae hyn oll yn parhau i fod yn sialens i'r gwasanaeth oherwydd bod teuluoedd yn amharod i ymgysylltu.<br><br>**Mai 2017**<br>• Hyfforddiant yn digwydd ar hyn o bryd ar Gyfweld Ysgogiadol a'r ymagweddau 'Teuluoedd Gwydn'.<br>• Cynhelir hyfforddiant cyfathrebu ar y cyd ym mis Mawrth ar gyfer yr holl Reolwyr. | • Adborth/dysgu o'r newidiadau sydd wedi digwydd o fewn ymarfer gwaith cymdeithasol yn dilyn y sesiynau hyfforddiant.<br>• Bydd cwrs Cyfathrebu ar y Cyd pellach yn cael ei gynnal ar y 28$^{ain}$ a'r 29$^{ain}$ o Fedi. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Staff yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ac yn gallu gwneud mwy o ymyriadau uniongyrchol gyda theuluoedd.<br><br>Gwybodaeth bod mwy o blant yn cael eu cefnogi i barhau i fyw adref gyda'u teuluoedd.<br><br>Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth bod ansawdd ymyriadau yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Tystiolaeth bod y gweithlu yn ddigon medrus i weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau - enghraifft o hyn yw gostyngiad yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. | Uwch Dîm Rheoli | Mawrth 2017 | Mawrth 2018 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Hyfforddiant ar ymyriadau GICD yn cael ei ddarparu'n flynyddol.<br>• Hyfforddiant ar newid diwylliant a mesur perfformiad yn cael ei gynnal ym mis Mawrth ar gyfer Rheolwyr. | | | | | |
| 4.2 | Adolygu'r strwythur gwasanaeth presennol i fynd i'r afael â'r angen am ymyriadau ataliol ac ymyriadau dwys gwell.<br><br>Sefydlu timau llai gydag Arweinwyr Ymarfer i ddarparu cymorth a goruchwyliaeth effeithiol i staff. | **Awst 2017**<br>• Dau Uwch Reolwr wedi cychwyn (Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys)<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Strwythur gwasanaeth newydd wedi'i weithredu.<br>• Yn parhau i benodi i'r swyddi i sefydlu timoedd llai efo Arweinwyr Ymarfer<br>• Yn parhau i adolygu ein gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal o gwmpas y rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf'<br><br>**Mai 2017**<br>• Daw'r cyfnod ymgynghori gyda staff i ben ar 24.2.17.<br>• PG Dros Dro wedi darparu dadansoddiad o'r sylwadau a'r adborth yn yr adroddiad gydag argymhellion.<br>• Penderfyniad terfynol ac amserlenni i'w cytuno a'u rhannu yn y Gynhadledd staff ar 27.3.17. | • Byddir yn trosglwyddo'n raddol i'r strwythurau newydd ym mis Medi gydag Arweinwyr Ymarfer yn eu swyddi ar 4ydd o Fedi. Ymgynghorwyd â Gweithwyr Cymdeithasol am y meysydd gwaith a ffafriwyd ganddynt h.y. Ymyrraeth Gynnar neu Ymyrraeth Ddwys.<br>• Bydd Gweithwyr Cymdeithasol yn trosglwyddo i Grwpiau Ymarfer ar yr 2il o Hydref.<br>• Bydd yr adolygiad o'r Tîm Lleoli yn dechrau ym mis Hydref drwy ymgynghori â staff. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Bydd strwythur newydd y gwasanaeth yn cefnogi ac yn cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau ataliol ac ymyriadau dwys yn sylweddol, ac enghraifft o hyn fydd gostyngiad yn nifer y plant sy'n dod i ofal.<br><br>Rheolwyr yn dweud bod strwythur newydd y gwasanaeth yn cynyddu eu gallu i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol i gefnogi'r gweithlu trwy oruchwyliaeth reolaidd o ansawdd.<br><br>Staff yn adrodd eu bod yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio'n ddigonol gan eu rheolwyr wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.<br><br>Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos gwelliant amlwg yn ansawdd yr ymarfer o ganlyniad i'r llwybrau a systemau clir o fewn y Gwasanaeth a thrwy oruchwyliaeth reolaidd. | Uwch Dîm Rheoli | Ionawr 2017 | Mai 2017 2017 |
| 4.3 | Gweithredu model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ar gyfer Ynys Môn | **Awst 2017**<br>• Mae Swyddogion Ymgysylltu wedi dechrau yn eu swyddi.<br>• Mae Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn ei swydd.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Rheolwr Ymgysylltu Dros Dro wedi'i benodi.<br>• Hysbysebion allan ar gyfer y Swyddogion Ymgysylltu, dyddiad cau 12/07/17<br>• Deunyddiau hyrwyddo wedi'u cadarnhau.<br>• Nifer o ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth wedi'u trefnu ar gyfer yr Eisteddfod, Sioe Môn ac ati ynghyd â nifer o ddiwrnodau hwyl/carnifals ac ati yn y gymuned.<br>• Archwiliadau Amlasiantaethol (Iechyd, Addysg a'r Heddlu) mewn perthynas ag ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbynnir yn Teulu Môn<br>• Gwaith parhaus gydag asiantaethau sy'n bartnieriaid o ran rhannu gwybodaeth a chydweithio gyda Teulu Môn | • Bydd Arweinydd Ymarfer parhaol wedi'i benodi ar gyfer Teulu Môn | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Dinasyddion yn dweud ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau a bod gofal cwsmer yn dda.<br><br>Gwell cydlyniant o ran gwasanaethau a strategaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yn cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Llai o ddyblygu ymdrech fel sy'n digwydd ar hyn o bryd oherwydd bod nifer o 'ddrysau ffrynt' ar gael. | Rheolwr Gwasanaeth | Rhagfyr 2016 | Ebrill 2017 |

Tudalen 257

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Dadansoddiad pythefnos wedi dechrau ar 10/07/17 o ran yr holl CID16's a dderbynnir yn Teulu Môn er mwyn sicrhau gwneud atgyfeiriadau priodol i'r Cyngor ac archwilio rhannu gwybodaeth.<br>• Bydd gwaith yn dechrau i sefydlu Protocol Rhannu Gwybodaeth.<br><br>**Mai 2017**<br>• Llunio, cymeradwyo a chyfieithu'r holl bolisïau, protocolau, trothwyon a'r templedi cysylltiedig sy'n ofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau.<br>• Cytuno ar fesurau llwyddiant<br>• Sgopio anghenion TGCh<br>• Cytuno ar y gofynion hyfforddi.<br>• Enw'r tîm 'Teulu Môn', y Cyfryngau Cymdeithasol, cytunwyd ar rif ffôn.<br>• Hyfforddi staff wedi cychwyn<br>• Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar fin symud i'r Pencadlys ddiwedd mis Ionawr<br>• Logo ar gyfer y gwasanaeth newydd wrthi'n cael ei ddylunio.<br>• Y bwrdd prosiect yn cyfarfod yn fisol<br>• Grŵp tasg a gorffen Marchnata yn cyfarfod ac yn datblygu allbynnau marchnata ar gyfer y gwasanaeth.<br>• Tîm newydd yn cychwyn ar gyfnod o 'adeiladu tîm'<br>• Staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar y newidiadau o fewn y Gwasanaeth a thrwy Sesiynau Gwybodaeth.<br>• Ymgynghori ar y strwythur diwygiedig wedi'i gwblhau.<br>• Un pwynt mynediad ar gyfer pob ymholiad o ran plant a theuluoedd wedi'i sefydlu ac yn weithredol erbyn 03.04.17 | | | | | |
| 4.4 | Datblygu Strategaeth Atal Gorfforaethol; rhaid i'r ALl ddarparu ystod a lefel o wasanaethau ataliol ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.<br><br>Darparu gwasanaeth integredig a rhoi help a chymorth cynnar sydd, i bob pwrpas, yn fodd effeithiol o ohirio'r angen am ofal a chymorth.<br><br>Bydd yr asesiad poblogaeth yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i nodi'r gwasanaethau ataliol sydd eu hangen. | **Awst 2017**<br>• Mae Strategaeth Darpariaeth Gwasanaeth yn ei lle.<br>• Mae LlC wedi cytuno i ariannu 3 o staff cymorth i deuluoedd ychwanegol o fewn TAF ynghyd ag 1.5 o Swyddogion Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn. Bydd hyn yn cryfhau'r gwasanaethau ataliol er mwyn gohirio'r angen am ofal a chymorth.<br>• Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar gyfer Ynys Môn. Mae briff wedi cael ei ddrafftio ar gyfer ymgynghori gyda grwpiau cymunedol plant a theuluoedd ac asiantaethau sy'n bartneriaid ar Ynys Môn. Mae strategaeth ddrafft wedi cael ei llunio. Lluniwyd hon gan wybod bod gennym wybodaeth o | • Ymgysylltiad ac ymgynghoriad ystyrlon gyda theuluoedd, plant, pobl ifanc a defnyddwyr gwasanaeth.<br>• Byddwn yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen arnynt. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Rydym wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen arnynt.<br><br>Ailgomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LlC drwy ddefnyddio data lleol, safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ac Anghenion y Boblogaeth / Cynlluniau Ardal Lleol yn arwain at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd (gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal). | Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant<br><br>Alwyn Jones, Pennaeth | Ionawr 2017 | Hydref 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 259 | Cryfhau'r swyddogaeth gomisiynu o fewn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion i'n cefnogi i gyflawni'r agenda hon.<br><br>Argymhelliad 1 AGGCC.<br>Datblygu fframwaith ar gyfer gwneud gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig ac yn rhoi help a chymorth cynnar gyda hynny i bob pwrpas, yn fodd effeithiol o ohirio'r angen am ofal a chymorth.<br><br>**Argymhelliad 12 AGGCC:**<br>Dylai'r awdurdod lleol a phartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau, sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio hyn i lywio'r broses o lunio cynlluniau strategol er mwyn sicrhau aliniad effeithiol rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol. | ran anghenion teuluoedd Ynys Môn drwy'r asesiad anghenion lleol, ein data ein hunain ac ymchwil a gomisiynwyd yn flaenorol gan Cordis Bright. Mae gwaith yn cael ei wneud ar ffurfio cysylltiadau â grwpiau cymunedol fel Caru Amlwch. Cynhaliwyd trafodaethau gyda darparwyr presennol o ran sut y gallant ddarparu gwasanaethau mewn modd gwahanol yn y dyfodol.<br>Bydd strategaeth yr adran o ran gwaith ataliol yn bwydo i mewn i broses y strategaeth ataliol ehangach ar gyfer yr Awdurdod Lleol. Bydd canfod ACE'au yn ffurfio rhan o'n strategaeth. Gwnaed cysylltiadau ag Andrew Bennet (Hyfforddiant ac Ymgynghoriaeth 'Public Health Research') a gomisiynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflwyno ymarfer sy'n ymwybodol o ACE'au mewn meddygfeydd ar yr ynys. Cynhaliwyd trafodaethau i gynnwys y maes hwn o fewn ysgolion yn y gobaith y gallwn ddatblygu ysgolion sy'n ymwybodol o ACE'au ym Môn. Gwnaed cysylltiadau â grwpiau cymunedol a chanddynt ddiddordeb mewn defnyddio ACE'au o fewn eu hymagweddau.<br><br>• Mae archwiliad o achosion TAF wedi dechrau. Gwnaed hyn i wella ein dealltwriaeth o'r teuluoedd yr ydym yn gweithio â hwy. Mae angen i ni sicrhau bod y teuluoedd iawn yn cael mynediad i'r gwasanaeth. Yn ystod y cyfnod cynnar hwn yn yr archwiliad, mae'n ymddangos y gellir cau achosion o fewn y TAF a chyfeirio teuluoedd ymlaen i gael mynediad at wasanaethau penodol sydd wedi'u targedu.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Yn adolygu pob gwasanaeth a gomisiynir o dan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Ymgynghori gyda staff ac asiantaethau sy'n bartneriaid o ran canfod y bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth.<br>• Cais i ailddosbarthu cyllid gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i anfon at LlC.<br>• Cais ar gyfer Grant Rhiantu Teuluoedd yn Gyntaf ychwanegol yn cael ei gyflwyno erbyn 14/07/17.<br>• Arian wedi ei gymeradwyo ar gyfer Rheolwr Atal Corfforaethol i sicrhau bod y strategaeth atal yn cael ei gwireddu ar draws yr Awdurdod Lleol. | | Lleihad yn nifer y plant sy'n dod i ofal a chynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu cefnogi i fyw adref efo'u teuluoedd.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar Ynys Môn.<br><br>'Teulu Mon', y gwasanaeth GCCh (IAA) newydd ar gyfer Ynys Môn yn weithredol ac yn rhan allweddol o'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar / atal. | Gwasanaethau Oedolion<br><br>Dafydd Bulman, Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes<br><br>Melanie Jones, Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Llyr Ap Rhisiart, GICD | | |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mai 2017**<br>• Bydd adolygiad o'r gwasanaeth ataliol cyfredol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnal yn fuan yn 2017.<br>• Ail-gomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LlC drwy ddefnyddio data lleol ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth gyda hynny'n arwain at ganlyniadau o ansawdd oherwydd ymyrraeth gynnar.<br>• Swyddog comisiynu, cydlynu a monitro'r grant Teuluoedd yn Gyntaf, wedi trosglwyddo i'r Gwasanaethau Plant erbyn mis Ebrill 2017.<br>• Adolygu ac aildrefnu 'Gofal Ysbaid' sy'n cael ei gynnig drwy'r Gwasanaeth Arbenigol Plant i gefnogi teuluoedd. | | | | | |

**5.Gwella gwasanaethau cymorth i deuluoedd a'u targedu tuag at ddarparu cefnogaeth ddwys a chyflym ar adeg pan fydd teuluoedd yn chwalu mewn ymagis i gadw'r teulu gyda'i gilydd.**

Tudalen 260

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Adolygiad o Wasanaethau Cefnogi Plant i ganolbwyntio ar:<br>1. Gyswllt dan oruchwyliaeth<br>2. Rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith ataliol<br>3. Rôl y Swyddog Rhianta | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>•Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth mae'r gwaith cychwynol o ran 'Teuluoedd Gwydn' wedi cychwyn i leihau'r angen am gyswllt o dan oruwchwyliaeth ar gyfer gweithwyr cefnogol, mae hyn yn rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith mwy dwys efo plant a theuluoedd i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i fyw adref.<br><br>**Mai 2017**<br>• Mae gwaith wedi cychwyn ar adolygu achosion lle nad oes angen i'r awdurdod lleol oruchwylio cyswllt. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall y capasiti sydd ar gael i'w drosglwyddo i'r Tîm Teuluoedd Gwydn. | Byddwn yn adolygu Gwasanaethau Cymorth i Blant yn Hydref 2017 i ganolbwyntio ar:<br>• Gyswllt dan oruchwyliaeth<br>• Rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith ataliol<br>• Rôl y Swyddog Rhianta<br>• Bydd gwaith yn dechrau ar hyn | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Mae'r gwasanaeth yn gwneud gwell defnydd o'i adnoddau ac yn canolbwyntio ar gefnogi plant i barhau i fyw o fewn eu teuluoedd.<br><br>Darparu cymorth rhianta 1: 1 ac / neu mewn Grŵp i rieni i gryfhau safon y gofal a gaiff eu plant.<br>Mwy o blant yn cael eu cefnogi i fyw adref.<br><br>Gostyngiad yn nifer y plant sy'n dod i dderbyn gofal. | Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys | Ionawr 2017 | Mai 2017 |
| 5.2 | Gweithredu'r Tîm Teuluoedd Gwydn | **Awst 2017**<br>• Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn wedi'i benodi a bydd y staff i gyd yn eu swyddi erbyn dechrau mis Medi.<br>• Mae LlC wedi rhoi grant ychwanegol o £96,000 i roi cymorth pellach i sefydlu'r Tîm Teuluoedd Gwydn. Ceisir rhagor o arweiniad gan LlC mewn perthynas â sut y gellir defnyddio'r grant hwn. | • Bydd rhaglen hyfforddi a datblygu sgiliau yn cael ei llunio ar gyfer y Tîm newydd.<br>• Bydd angen gwneud gwaith i sefydlu sut y bydd y grant Teuluoedd Gwydn yn cael ei ddefnyddio. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos bod cysylltiad uniongyrchol rhwng ymyrraeth y tîm hwn a nifer y plant a phobl ifanc y llwyddwyd i'w hadsefydlu'n ôl yn eu cartrefi. | Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Mai 2017 |

**Argymhellion AGGCC mewn coch – blaenoriaeth uchel**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Reciwtio i'r swyddi Arweinydd Ymarfer, Gweithiwr Cymdeithasol a Gweithwyr Cymorth, wedi eu hysbysebu, cyfweliadau i'w cynnal erbyn diwedd Gorffennaf.<br>• Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth mae'r gwaith cychwynol o ran 'Teuluoedd Gwydn' wedi cychwyn i leihau'r angen am gyswllt o dan oruwchwyliaeth ar gyfer gweithwyr cefnogol, mae hyn yn rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith mwy dwys efo plant a theuluoedd i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i fyw adref.<br><br>**Mai 2017**<br>• Mae gwaith wedi cychwyn ar adnabod y plant a phobl ifanc y gellir gwneud gwaith dwys â hwy er mwyn eu galluogi i ddychwelyd adref yn ddiogel.<br>• Mae Disgrifiadau Swydd newydd wedi cael eu llunio a byddir yn cychwyn recriwtio i'r swyddi ddiwedd mis Mawrth 2017. | | Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos cyswllt uniongyrchol rhwng gwaith y tîm a lleihad yn yr angen am leoliadau maethu/preswyl costus.<br><br>Gall y tîm ddangos tystiolaeth o ymyrraeth yn seiliedig ar atal a dad-ddwysáu drwy gyfrwng adroddiadau chwarterol.<br><br>Mae archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu teilwra o amgylch anghenion y teulu unigol, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Mae'r tîm newydd yn weithredol ac yn darparu cefnogaeth ddwys i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel y gallant barhau i fyw gyda'u teuluoedd. | | | |
| 5.3 | Gwella cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fel Rhiant Corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Meysydd y dylid canolbwyntio arnynt:<br>• Adolygu'r gwasanaeth gadael gofal (ôl-ofal)<br>• Creu 'Polisi Llety â Chymorth'<br>• Cytuno ar 'Bolisi Ariannol Gadael Gofal'<br>• Trefniadau profiad gwaith a phrentisiaethau yn y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd<br>• Mynediad am ddim / am bris gostyngol i wasanaethau hamdden a gwasanaethau llyfrgell<br>• Penodi Aelod Lleol fel Hyrwyddwr ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal | **Awst 2017**<br>• Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys wedi paratoi adroddiad ar gyfer y panel rhiantu corfforaethol gydag opsiynau o ran sut i gryfhau rôl y panel rhiantu corfforaethol.<br>• Drwy grant Dydd Gŵyl Dewi LlC a'r grant Cymorth i Rai sy'n Gadael Gofal derbyniwyd £31,000. Mae gwaith wedi mynd yn ei flaen gyda chydweithwyr AD i ganfod cyfleoedd o ran lleoliadau gwaith o fewn yr Awdurdod Lleol. Bydd y grŵp prosiect ôl-ofal yn gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Cyfarfu'r Panel Rhiantu Corfforaethol ar 10/07/17, yr aelodaeth, yr agenda a'r Cylch Gorchwyl i'w hadolygu ac i gynnwys pobl ifanc.<br>• Digwyddiad Rhiantu Corfforaethol wedi'i gynllunio ar gyfer aelodau lleol ac uwch swyddogion ar 20/07/17<br>• Penodi Aelod Lleol fel Hyrwyddwr Plant sy'n Derbyn Gofal.<br>• Gwaith yn parhau i baratoi ar gyfer seremoni wobrwyo 'STARS' ym mis Tachwedd i ddathlu llwyddiannau plant sy'n derbyn gofal. | • Mae angen gwneud penderfyniad o ran cyllid grant ychwanegol gan LlC mewn perthynas â phrofiad gwaith a phrentisiaethau. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Gwaith clir o ran cynllunio llwybr yn darparu amcanion yn y cynllun i baratoi'r unigolyn ifanc ar gyfer bod yn oedolyn.<br><br>Rhai sy'n gadael gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod yr awdurdod yn eu cefnogi yn y cyfnod trosiannol cyn gadael gofal.<br><br>Mae plant sy'n derbyn gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt ddylanwad ar y modd y darperir gwasanaethau ar eu cyfer.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Canllawiau clir ar waith ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol drwy bolisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant mewn perthynas â gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. | Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **<u>Mai 2017</u>**<br>• Sefydlwyd prosiect ôl-ofal gyda chynllun gweithredu cytunedig.<br>• Cymeradwywyd protocol ôl-ofal a thai ym mis Chwefror 2017<br>• Cynhaliwyd trafodaethau gydag AD a Hamdden ynglŷn â phrofiad gwaith a gwasanaethau hamdden.<br>• Wedi llunio drafft cynnar o'r polisi ariannol Ôl-ofal.<br>• Yn ystyried cynnal Digwyddiad Rhianta Corfforaethol ar gyfer aelodau lleol ac uwch swyddogion i gytuno ar gryfhau'r trefniadau presennol.<br>• Sefydlwyd grŵp ymgynghori gyda phlant sy'n derbyn gofal lle gallant roi eu barn am y gwaith datblygu y mae angen ei wneud. | | | | | |
| 5.4 | Datblygu a gweithredu Protocol ar gyfer Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gan fyfyrio ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 - Rhan 8 Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | **<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Dim cynnydd o ran adolygu'r protocol mewnol mewn perthynas a rôl drosfwaol y Cyfarwyddwr oherwydd materion capasiti.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Mae'r adolygiad o'r protocol mewnol o ran rôl drosfwaol y Cyfarwyddwr yn nodi<br>A<br>B<br>C<br>• Bydd gwaith yn dechrau ar gryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017. | | **Heb ei wneud hyd yma**<br>Cryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr Awdurdod Lleol. | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Dafydd Bulman, Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes | Hydref 2017 | Chwefror 2018 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **27 Tachwedd 2017** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Rheoli Asedau Tai Cyngor [Cyfrif Refeniw Tai] 2018-2023** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dafydd Rowlands – Rheolwr Gwasanaethau Technegol**<br>**01248 752240**<br>**drxhp@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r holl Aelodau Etholedig** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**A1**. Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth ddrafft Rheoli Asedau y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018-2023.

**Rhesymau**

**1.0 Cefndir**

**1.1** Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau (SRhA) ddrafft sydd ynghlwm ar gyfer y cyfnod 2018-23 yn diffinio sut byddwn yn mynd ati i reoli asedau ein Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Hon yw ein Strategaeth Rheoli Asedau gyntaf ac mae'n canolbwyntio ar dair thema allweddol, sef:

- Buddsoddi mewn Stoc
- Rheoli Asedau'n Rhagweithiol
- Cefnogi amcanion ehangach

**1.2 Buddsoddi mewn Stoc**

Gweithgaredd yw hwn sy'n cynnal a chadw'r stoc tai i safon sy'n cwrdd ag anghenion y cwsmer a busnes a gofynion rheoleiddiol. Mae Safon Ansawdd Tai Cymru yn benodol yn datgan y dylai pob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn cartrefi o ansawdd da sydd:

- Mewn cyflwr da,
- Yn Saff ac yn Ddiogel,
- Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi eu hinswleiddio yn dda
- Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern,

- Wedi eu lleoli mewn amgylcheddau deniadol a diogel,
- Cyhyd ag sy'n bosib, yn ateb gofynion penodol yr aelwyd (e.e. anableddau penodol).

Mae ein rhaglenni buddsoddi mewn stoc wedi eu dylunio i wneud yn siŵr bod pob eiddo yn parhau i gydymffurfio â'r safonau uchod am gyfnod llawn y Cynlluniau Busnes 30 blynedd blynyddol. Mae Adran 5 y Strategaeth Rheoli Asedau yn nodi sut y bydd gwaith buddsoddi mewn stoc yn cael ei gynllunio.

**1.3 Rheoli Asedau'n Rhagweithiol**

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r gweithgareddau sy'n gwella perfformiad eiddo sydd efallai'n perfformio'n wael yn gymdeithasol, yn economaidd neu'n amgylcheddol. Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yn cynnwys galw isel am dai neu gostau uchel, a gellir mynd i'r afael â'r rhain trwy raglenni gwella neu eu hamnewid am eiddo sy'n addas i bwrpas.

Mae'r SRhA yn gosod allan broses gwerthuso opsiynau a fydd yn cael ei chwblhau i bennu pa ddefnydd a wneir yn y dyfodol o stoc sy'n tanberfformio.

**1.4 Cefnogi Amcanion Ehangach**

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn amlinellu tair prif flaenoriaeth:

- Sicrhau bod cyfleoedd i bobl ffynnu a gwireddu potensial hirdymor
- Cefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Sicrhau y gall ein cymunedau ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau gan hefyd amddiffyn amgylchedd naturiol ein hynys

Gall y Gwasanaeth Tai ddangos cyfraniadau positif at flaenoriaethau Corfforaethol trwy greu amodau lle mae gan fusnesau lleol bob cyfle i fidio am waith buddsoddi mewn stoc, sy'n caniatáu cyfleoedd i'n trigolion ddatblygu sgiliau tra'n hyrwyddo prentisiaethau ac yn diogelu cyflogaeth bresennol.

Yn ogystal, trwy gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r stoc presennol ynghyd â chynlluniau datblygu newydd sydd wedi'u sefydlu, byddwn yn cynyddu opsiynau tai ac yn hyrwyddo byw'n annibynnol yn ein cymunedau.

Bydd datblygiadau tai a rhaglenni gwella yn cael eu llywio gan gyfrifoldeb ariannol a chynaladwyedd tymor hir.

**1.5 Cynllun Cyflawni Rheoli Asedau (CCRhA)**

| |
|---|
| Bydd rhaglenni gwaith i gyflawni'r nod o fuddsoddi mewn stoc yn cael eu datblygu yn ystod Ch3 a Ch4 2017-18 ar ôl cwblhau Arolwg Cyflwr Stoc ar sampl 20% cynrychioliadol yn ystod haf 2017. Bydd y data a gasglwyd yn cyfrannu at gynlluniau gwariant yn y dyfodol mewn perthynas â gwaith buddsoddi mewnol, gwaith cynnal a chadw allanol traddodiadol sydd wedi'i gynllunio, ac amnewid hen foeleri gwresogi.<br><br>Bydd y Gwasanaeth Tai hefyd yn dwyn i gof yr arolwg gan Swyddfa Archwilio Cymru a wnaed yn ystod mis Hydref 2017. Yn arbennig, byddwn yn datblygu cynlluniau buddsoddi sy'n dangos sut y bydd y Gwasanaeth Tai yn lleihau nifer y methiannau derbyniol yng nghyswllt Perfformiad Ynni. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Nid oes unrhyw opsiynau eraill i'w hystyried. Ystyrir bod mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau yn arfer dda ac ei bod yn ddogfen bwysig i gefnogi Cynllun Busnes 30 Blynedd y Cyfrif Refeniw Tai a derbyn y Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr gan Lywodraeth Cymru. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'n ymwneud â Chynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â Blaenoriaethau Corfforaethol mewn perthynas ag Adfywio Cymunedol a Datblygu Economaidd, cynyddu ein opsiynau tai a lleihau tlodi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Adroddiad wedi ei gyflwyno ai gefnogi gan UDA. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylw |
| **5** | **Eiddo** | Dim sylw |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | Dim sylw |
| **8** | **Sgriwtini** | Ar Ddydd Llun, 13eg Dachwedd:<br>Penderfynwyd derbyn y Strategaeth Rheoli Asedau y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018/23 ac argymell ei fod yn cael ei Mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.<br><br>GWEITHRED YCHWANEGOL A GYNIGIR: Y Gwasanaeth Tai i adrodd yn ôl i gyfarfod Ionawr 2018 o'r Pwyllgor Sgriwtini ar ei gynlluniau ar gyfer cefnogi cartrefi sy'n profi a/neu sydd â risg o dlodi tanwydd. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Dim sylw |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Strategaeth Rheoli Asedau ddrafft 2018-2023 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cynllun Busnes 30 Blynedd y Cyfrif Refeniw Tai 2017-2047 |

**Strategaeth Rheoli Asedau y Cyfrif Refeniw Tai 2018-2023**

**Cynnwys**


1.0 Crynodeb Gweithredol

2.0 Cyflwyniad

3.0 Blaenoriaeth Strategol 1 – Data am y Stoc a'r Angen I Fuddsoddi

4.0 Blaenoriaeth Strategol 2 – Rheoli Asedau mewn modd gweithredol

5.0 Blaenoriaeth Strategol 3 – Cynllunio Buddsoddiadau

6.0 Blaenoriaeth Strategol 4 – Sicrhau'r Canlyniadau Gorau


7.0 Blaenoriaeth Strategol 5 – Fforddiadwyedd a Hyfywedd

8.0 Blaenoriaeth Strategol 6 – Cynllun Cyflawni


DRAFT

## 1.0 Crynodeb Gweithredol

Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau newydd (AMS) yn diffinio ein hymagwedd tuag at reoli asedau Cyfrif Refeniw Tai (HRA) Cyngor Sir Ynys Môn. Gwelir crynodeb yn y diagram isod o'r Fframwaith Rheoli Asedau Isod:-




**Fframwaith Rheoli Ased**

## 1.1 Crynodeb Gweithredol

Mae'r strategaeth wedi'i chynllunio er mwyn mynd 'r afael â thri phrif amcan:-

## 1.2 Buddsoddiadau mewn Stoc

Ystyr buddsoddiadau mewn stoc yw gweithgareddau sy'n cynnal y stoc i safon sy'n bodloni anghenion cwsmeriaid ac anghenion busnes yn ogystal â gofynion rheoliadol. Dyma mewn gwirionedd yw'r rhaglen buddsoddi stoc sydd wedi'i chynllunio i gadw'r holl eiddo i'r safon fuddsoddi y cytunwyd arni am gyfnod llawn y Cynllun Busnes. Mae buddsodd mewn stoc yn cynnwys gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio yn ogystal â gwaith trwsio ymatebol, atgyweirio eiddo gwag a gwaith trwsio cylchol.

## 1.3 Rheolaeth Asedau mewn modd gweithredol

Gweithgareddau i wella perfformiad asedau sydd â pherfformiad cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol gwael, oherwydd galw isel neu gostau uchel ac un ai eu gwella neu ddarparu eiddo sy'n addas i'r diben yn eu lle.

## 1.4 Cefnogi Amcanion Ehangach

Bod yn glir am ble a sut mae rheoli asedau yn cefnogi amcanion y Cyngor, megis cwrdd ag angen am dai a darparu gwasanaethau gofal a chymorth o safon uchel, yn unol â'n Nodau Strategol. Yn ychwanegol at hynny, mae amcanion ehangach yn gysylltiedig â'r cyd-destun cenedlaethol ac yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae pob adran o'r AMS yn ymwneud ag un o'r amcanion a nodir uchod:-

1. **Data am Stoc a'r Angen i Fuddsoddi.** Deall ein portffolio asedau a'r buddsoddiad sydd ei angen er mwyn bodloni nodau strategol y Cyngor, safonau cyfreithiol a rheoliadol, cadw stoc mewn cyflwr sy'n golygu y gellir ei osod a gwarchod y llif incwm drwy gydol cyfnod Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai.

2. **Rheoli Asedau mewn modd Gweithredol.** Deall perfformiad ariannol ac anariannol asedau tai y Cyngor a rheoli'r asedau hyn mewn modd gweithredol ac effeithiol.

3. **Cynllunio Buddsoddiadau.** Cynllunio'r buddsoddiadau angenrheidiol o ran asedau tai y Cyngor mewn ffordd arloesol a fforddiadwy sy'n bodloni ein hanghenion a'n blaenoriaethau ni a'n cwsmeriaid.

4. **Sicrhau'r Canlyniadau Gorau.** Cynllunio i ddarparu agwedd gydgysylltiedig o fewn y Gwasanaethau Tai er mwyn sicrhau'r canlyniadau ariannol ac anariannol gorau o ran y **portffolio tai**.

5. **Fforddiadwyedd a Hyfywedd.** Sicrhau bod modd arddangos fforddiadwyedd a hyfywedd y cynllun yn glir.



DRAFT

**6. Cynllun Cyflawni.** Cyflawni'r Strategaeth Rheoli Asedau a'r Cynllun Cyflawni dilynol o ran Rheoli Asedau gan sicrhau gwerth am arian a sicrhau bod cymaint â phosib o fuddion cymunedol ar gael o ganlyniad i'r buddsoddiad.

DRAFFT

## 2.0 Cyflwyniad

### 2.1 Cwmpas

Mae'r strategaeth yn berthnasol i reolaeth asedau'r holl stoc tai HRA sy'n berchen i Gyngor Sir Ynys Môn ac sydd ar gael i'w rentio.

Mae stoc tai sy'n berchen i CSYM ac sy'n cael ei rentio ganddo yn hanfodol er mwyn gwireddu ein gweledigaeth a chyflawni ein hamcanion corfforaethol. Mae'r asedau hyn wedi cael eu nodi fel ein hasedau hanfodol ac maent yn ganolbwynt canolog i'r AMS. Fodd bynnag, mae'r strategaeth hefyd yn ymwneud â'n hasedau perthnasol (e.e. tir neu garejys HRA) lle maent yn ffurfio rhan o gynlluniau tai.

### 2.2 Cyd-destun

Mae diwygiadau sylweddol gan y Llywodraeth i lesiant, gosod rhenti, tai a chynllunio wedi eu gosod o fewn y cyd-destun o leihau diffyg ariannol a datganoli atebolrwydd a gwneud penderfyniadau i lefel leol. Mae'r Rheoleiddiwr, Llywodraeth Cymru, angen ymagwedd sy'n seiliedig ar risg ac sy'n canolbwyntio'n gryf ar warchod ac ehangu ein hasedau tai cymdeithasol.

Mae heriau allweddol yn cynnwys:

- Materion fforddiadwyedd cwsmeriaid o ganlyniad i newidiadau diwygio lles, newidiadau demograffig, costau ynni cynyddol a chostau;
- Toriadau i gyllidebau llywodraeth leol sy'n arwain at doriadau i wasanaethau statudol.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n hanfodol bod penderfyniadau da yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod buddsoddiad yn ein hasedau yn gynaliadwy ac yn bodloni anghenion a dyheadau ein cwsmeriaid yn ogystal â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau (AMS) wedi'i gysylltu'n agos â'r Cynllun Cyflawni Rheoli Asedau (AMDP). Mae'r ddau yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan y stoc tai fforddiadwy gynllun manwl a fforddiadwy er mwyn bodloni'r angen buddsoddi ac er mwyn sicrhau bod asedau'n cael eu rheoli mewn modd gweithredol er mwyn sicrhau'r enillion gorau drwy gydol tymor cynllun busnes yr HRA.

Mae'r AMDP yn gosod y rhaglen fuddsoddi ar gyfer y dyfodol a'r cyllid sydd ei angen ar gyfer y cyflawniad effeithiol yr AMS a chydymffurfiaeth barhaus â Safonau Ansawdd Tai Cymru (WHQS).

### 2.3 Gweledigaeth / Nodau ac Amcanion Strategol y Gwasanaeth

Ein datganiad o weledigaeth yw:



DRAFT

**Cartrefi o Safon: Cymunedau Cynaliadwy**

Mae'r weledigaeth wedi'i thanategu gan werthoedd gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar:

- Ganolbwyntio ar y cwsmer a bod yn atebol
- Cynnig gwerth am arian
- Ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth, a
- Bod yn arloesol yn ein hagwedd.

Mae'r Gwasanaeth Tai yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol i flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, sef:

- Sicrhau bod cyfleoedd yn bodoli i bobl allu ffynnu a chyflawni eu potensial hirdymor
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Sicrhau bod ein cymunedau yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod amgylchedd naturiol ein hynys.

## 2.4 Rhanddeiliaid

Rydym wedi adnabod ein rhanddeiliaid allweddol a'u diddordebau allweddol fel a ganlyn:

Mae gan ein **cwsmeriaid** ddiddordeb yn ansawdd, diogelwch a fforddiadwyedd eu cartrefi a'u cymdogaethau. Rydym yn cydnabod hyn drwy ymgynghori â'n cwsmeriaid ar gwmpas a safonau'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu gan sicrhau bod cynlluniau buddsoddi yn fforddiadwy er mwyn gallu gwarchod yr asedau a rheoli iechyd a diogelwch yn unol â'n polisïau.

Mae gan y rhai hynny sydd ag **angen am dai** yn yr ardal yr ydym yn gweithredu ynddi (gallant fod yn denantiaid presennol neu beidio) ddiddordeb mewn gwarchod y tai fforddiadwy presennol a'r cyflenwad newydd er mwyn bodloni anghenion lleol. Rydym yn cydnabod y diddordebau hyn drwy gael cynllun buddsoddi fforddiadwy er mwyn cadw stoc mewn cyflwr da, gwerthuso asedau nad ydynt yn gynaliadwy a sicrhau gwerth am arian er mwyn creu gwarged ar gyfer ei ailfuddsoddi.

**Cymunedau.** Mae gan y rhai hynny sy'n byw yn lleol, o fewn y cymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt, ddiddordeb yn y gwaith o reoli a chynnal a chadw ein hasedau tai a thir.

Mae gan y **Cyngor Sir** amrywiaeth eang o ddiddordebau gan gynnwys: Y cyflenwad o dai o safon (rhai newydd a rhai cyfredol) er mwyn cwrdd a'r angen a'r dyhead am dai sydd wedi'i nodi; datblygu cymdogaethau a chymunedau

cynaliadwy; iechyd a lles y cyhoedd; llesiant a datblygiad economaidd. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a gwasanaethau statudol eraill ac yn cefnogi amcanion ehangach y Cyngor.

**Llywodraeth Cymru**. Diddordeb mewn gwarchod a datblygu ymhellach gynlluniau tai fforddiadwy, gwerth am arian, gwarchod a diogelu tenantiaid a sicrhau bod y stoc dai yn bodloni safonau rheoleiddiol. Mae arddangos cydymffurfiaeth barhaus gyda WHQS yn hanfodol er mwyn derbyn y grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) gan Lywodraeth Cymru.

## 2.5 Amcanion

2.5.1 Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau hon yn gosod 6 blaenoriaeth strategol ar gyfer Rheoli Asedau fel y nodir isod:

1. **Data mewn perthynas â Stoc a'r Angen i Fuddsoddi.** Deall ein portffolio asedau a'r buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cwrdd â nodau strategol y Cyngor, safonau cyfreithiol a rheoliadol, Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS), cadw stoc mewn cyflwr sy'n golygu y gellir eu gosod a gwarchod y llif incwm drwy gydol cyfnod Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (HRA).

2. **Rheoli Asedau mewn modd gweithredol.** Deall perfformiad ariannol ac anariannol asedau tai y Cyngor a rheoli'r asedau hyn mewn modd gweithredol ac effeithiol.

3. **Cynllunio Buddsoddiadau.** Cynllunio'r buddsoddiadau angenrheidiol o fewn asedau tai y Cyngor mewn ffordd sy'n arloesol a fforddiadwy a ffordd sy'n bodloni ein hanghenion a'n blaenoriaethau ni a'n cwsmeriaid.

4. **Sicrhau'r Canlyniadau Gorau.** Cynllunio i ddarparu ymagwedd gydgysylltiedig o fewn y Gwasanaethau Tai er mwyn sicrhau'r canlyniadau ariannol ac anariannol gorau gan y **portffolio tai**.

5. **Fforddiadwyedd a Hyfywedd.** Sicrhau bod modd arddangos fforddiadwyedd a hyfywedd y cynllun yn glir.

6. **Cynllun Cyflawni.** Cyflawni'r Strategaeth Rheoli Asedau a'r Cynllun Darparu Rheolaeth Asedau Dilynol gan sicrhau gwerth am arian a sicrhau bod cymaint â phosib o fuddion cymunedol ar gael o ganlyniad i'r buddsoddiad.

Mae pob adran o'r Strategaeth yn nodi sut y byddwn yn cyflawni yn erbyn y 6 blaenoriaeth hyn.

## 2.6 Cysylltiad â'r Cynllun Busnes HRA

Mae'r modd y bwriedir cyflawni'r Strategaeth wedi'i ddylunio er mwyn cyd-fynd â'r Cynllun Busnes HRA. Ni ddylai'r AMS hwn, nac unrhyw adolygiadau iddo, gael eu cymeradwyo heb gadarnhad gan y Gwasanaethau Cyllid bod



DRAFT

fforddiadwyedd wedi'i brofi a bod y dull yn fforddiadwy ac o fewn ffiniau'r Cynllun Busnes.

## 2.7 Rheoli Risg

Os na chânt eu rheoli'n effeithiol, gall asedau ddod yn rhwymedigaethau a all fygwth hyfywedd y Cyfrif Refeniw Tai a chael effaith sylweddol ar denantiaid a chymunedau.

Mae'r risgiau allweddol i'r broses o gyflawni amcanion rheoli asedau wedi eu hadnabod a'u cofnodi yn ein cofrestri risg ac fe adroddir arnynt yn rheolaidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Tai, yn cynnwys:

- Cywirdeb y wybodaeth am asedau (yn cynnwys data am gyflwr stoc)
- Cyflwr ffisegol y stoc o ganlyniad i ddiffyg gwaith trwsio neu waith cynnal a chadw a buddsoddi.
- Difrod i stoc/colledion o ganlyniad i dywydd, tân, llifogydd a pheryglon eraill.
- Methu â rheoli cydymffurfiaeth gyda rheolau iechyd a diogelwch a allai achosi risg i gwsmeriaid, staff a chontractwyr.

Rydym wedi sefydlu prosesau i reoli risg. Bydd cynlluniau lliniaru risg yn cael eu gweithredu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli mewn modd priodol. Bydd y mesurau hyn yn cael eu dogfennu o fewn cofrestri risg ac yn cynnwys:

- Cynllun Busnes HRA wedi'i ariannu'n llawn
- Strwythurau'r tîm Rheoli Asedau a gweithredu systemau gwell o ran casglu data
- Cynllun Buddsoddi Cyfalaf wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor
- Gwell strwythurau a darpariaeth mewn perthynas â gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw
- Prosesau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch cryf
- Rheolaeth ariannol ac adrodd cryf

## 2.8 Buddion a Chanlyniadau

Fe ddylai buddion strategaeth rheoli asedau effeithiol gynnwys:

- Gwell perfformiad ariannol.
- Risg wedi'i reoli
- Gwell gwasanaethau ac allbwn.
- Arddangos cyfrifoldeb cymdeithasol.
- Arddangos cydymffurfiaeth.
- Gwella enw da.
- Gwella cynaliadwyedd sefydliadol.

- Gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Tai o safon uwch ar gyfer ein tenantiaid.
- Lleihau tlodi tanwydd ar gyfer ein tenantiaid

Fel rhan o'n gwaith, rydym wedi adnabod nifer o gyfleodd i sicrhau'r buddion hyn, yn enwedig y broses gwerthuso opsiynau, fel y nodir yn 4.3. Yn ychwanegol at hynny, bydd y cynllun datblygu hefyd yn creu cyfleoedd pellach.

## 2.9 Perchnogaeth

Y Pennaeth Gwasanaeth Tai sy'n arwain ar y AMS. Bydd Cynllun(iau) Cyflawni Rheolaeth Asedau yn cael eu datblygu er mwyn cefnogi'r Strategaeth hon a fydd yn nodi perchnogaeth ar gyfer meysydd unigol o gyfrifoldeb.

## 2.10 Cynllun Gweithredu ac Atebolrwydd

Bydd yr AMDP yn cael ei ddatblygu i gyflawni'r amcanion yn yr AMS a bydd yn nodi:

- Yr amcanion a sefydlwyd o dan bob un o'r amcanion AMS;
- Adnabod y swyddogion cyfrifol;
- Sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro;
- Amserlenni gweithredu.

## 2.11 Llywodraethiant ac Adrodd

Bydd y cynllun buddsoddi yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i'r Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo. Bydd hyn yn cynnwys sylwebaeth er mwyn darparu sicrwydd ar:

1. Cadernid ac ansawdd y data mewn perthynas â chyflwr y stoc yn gyrru'r cynllun gan gynnwys canran y stoc sydd wedi ei archwilio yn y 12 mis blaenorol a dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

2. Proses cynllunio buddsoddiadau gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau i'r rhagdybiaethau/graddfeydd fesul uned sy'n cefnogi'r rhagolygon o'r costau.

3. Monitro a chyllido'r gofynion o ran sicrhau cydymffurfiaeth statudol.

4. Gofynion caffael a staffio

5. Y diweddaraf ynghylch cynaliadwyedd asedau a manylion am y modd y bwriedir gweithredu mewn perthynas â stoc anghynaladwy

6. Trefniadau rheoli risg

Bydd Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) yn cael eu monitro'n fisol o fewn y Tîm Gwasanaethau Technegol. Bydd KPIs y cynllun buddsoddi chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Tai, bob chwe mis i'r Bwrdd Gwasanaethau tai a bob blwyddyn i'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys sylwebaeth er mwyn darparu sicrwydd ar:

- Y gwaith a gyflawnwyd yn erbyn targedau ar y lefel sylfaenol;
- Gwir wariant yn erbyn costau targed y gyllideb (wedi'u haddasu ar gyfer gwir ddarpariaeth)
- Costau alldro yn erbyn costau wedi'u tendro a'r rhagdybiaethau cost sylweddol/graddfeydd fesul uned;
- Cysoni gwaith a gwblhawyd gyda'r data am gyflwr y stoc.

Bydd canlyniadau'r gwerthusiadau opsiynau sy'n arwain at gynigion buddsoddi amgen ar gyfer asedau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer eu cymeradwyo.

Bydd cyflawni'r AMDP yn cael ei fonitro drwy gynhyrchu adroddiad "goleuadau traffig" blynyddol.

## 2.12 Adnoddau

Bydd y Gwasanaeth Tai yn adolygu'r strwythur rheoli yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd gyda chyflawni'r cynllun hwn a'i fod yn gyraeddadwy.

Bydd anghenion busnes yn parhau i newid wrth i ni symud ymlaen a byddwn yn sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r profiad cywir er mwyn gallu bodloni'r disgwyliadau hyn.

Bydd y strwythur yn bodloni anghenion dros bum mlynedd y strategaeth ac yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod gennym staff â'r sgiliau addas, adnoddau a gallu i ddarparu canlyniadau a blaenoriaethau allweddol.

## 2.13 Adolygiad

Mae'r strategaeth hon yn ymwneud â chyfnod o bum mlynedd rhwng 2018 a 2023 a bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol yn unol â Chynllun Busnes 30 mlynedd yr HRA.

DRAFT

## 3.0 Blaenoriaeth Strategol 1 – Data mewn perthynas â Stoc a'r Angen i Fuddsoddi

Y flaenoriaeth strategol yw deall ein portffolio asedau a'r buddsoddiad sydd ei angen er mwyn bodloni nodau strategol y Cyngor, safonau cyfreithiol a rheoliadol, Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS), cadw stoc mewn cyflwr sy'n golygu ei bod yn addas ar gyfer ei osod a gwarchod y llif incwm drwy gydol cyfnod Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (HRA).

Er mwyn bodloni'r flaenoriaeth hon rydym wedi gosod yr amcanion isod. Mae pob amcan yn gysylltiedig ag adran o'r ddogfen hon sy'n nodi'r hyn a fydd yn cael ei gyflawni:

1. Cwblhau cofnodion cyflawn, manwl gywir sydd wedi'u rheoli sy'n ymdrin â natur a nodweddion y stoc; Adran 3.1;

2. Cadw gwybodaeth gyfredol o safon uchel am gyflwr y stoc. Adran 3.2;

3. Cadw gwybodaeth ddiweddar a dilys ar hyd oes weddilliol rhai elfennau o gyflwr y stoc a'r cost o'u hadnewyddu yn eu lle er mwyn cynhyrchu rhagolygon ynghylch gwariant ar waith mawr yn y dyfodol. Adran 3.3.

4. Cadw gwybodaeth ddilys er mwyn rhagweld gofynion o ran gwariant arall ar gynnal a chadw yn y dyfodol. Adran 3.4;

5. Sicrhau bod y cynllun yn ariannu cynaliadwyedd y gofynion/safonau cyfreithiol a rheoleiddiol. Adran 3.5;

6. Cyflwyno senarios a chytuno ar wariant ar gyfer gwaith gwella dewisol a deall yr effaith ar y cynllun busnes a chwsmeriaid; Adran 3.6;

7. Creu Rhagolygon Buddsoddi 30 mlynedd i'w hymgorffori yn y Cynllun Busnes HRA; Adran 3.7;

### 3.1 Data Asedau a Phroffil

Mae'r portffolio stoc tai yn cynnwys ardal ddaearyddol eang ar draws Ynys Môn. Mae trefi Caergybi, Llangefni, Amlwch a Phorthaethwy yn cynnwys dwysedd uwch o stoc gyda chanrannau llai wedi eu lleoli ger neu o fewn pentrefi ar hyd a lled y Sir.

Yn Ebrill 2017, roedd Cyngor Sir Ynys Môn yn berchen ar ac yn rheoli 3,803 o eiddo. Y tri math o eiddo mwyaf cyffredin yw:

- Eiddo traddodiadol sy'n cynnwys tai annibynnol, tai pâr, tai teras, byngalos a ffatiau;

- Eiddo waliau solet
- Eiddo anhraddodiadol megis tai concrid parod ac eiddo fframiau coed

Mae canrannau’r mathau gwahanol o eiddo fel a ganlyn:

| Math o Eiddo | Nifer | % o’r Stoc |
|---|---|---|
| Tai | 2020 | 53% |
| Byngalos | 699 | 18% |
| Fflatiau | 594 | 16% |
| Tai Gwarchod | 490 | 13% |
| **Cyfanswm** | **3803** | **100%** |

***** Mae ffigyrau yn cynnwys 30 eiddo a gafwyd ar ôl Ebrill 2015***

Mae proffil oedran ein stoc wedi’i rannu i’r bandiau oedran canlynol:

| Oedran | Nifer yr Eiddo | % o’r Stoc |
|---|---|---|
| Cyn 1919 | 43 | 1% |
| 1919 - 1944 | 292 | 8% |
| 1945-1964 | 1494 | 39% |
| 1965 - 1974 | 1079 | 28% |
| Ôl 1974 | 895 | 24% |
| **Cyfanswm** | **3803** | **100%** |

*****Mae ffigyrau yn cynnwys 30 eiddo a gafwyd ar ôl Ebrill 2015***

Ar hyn o bryd, mae data am y stoc craidd yn cael ei gadw yn Keystone, ein cronfa ddata rheoli asedau. Mae Keystone yn ddatrysiad rheoli asedau sy’n ffurfio rhan o'r System ehangach ar gyfer Rheoli Tai.

Mae’n system sydd wedi’i chynllunio er mwyn hwyluso gweithrediadau sy’n ymwneud â swyddogaethau technegol landlordiaid cymdeithasol. Bydd adolygiad llawn a chysoniad o ddata asedau’n cael ei gwblhau yn ystod 2017-18 er mwyn sicrhau bod yr holl ddata rheoli asedau wedi’i gysoni.

Bydd caffael arolwg pellach o gyflwr 20% o stoc cynrychioliadol yn ystod 2017-18 yn hysbysu ac yn cynorthwyo’r broses ddilysu hon.



DRAFT

Rydym yn cadw'r wybodaeth ganlynol:

- Oedran
- Archdeip
- Daliadaeth
- Adeiladwaith (traddodiadol/anhraddodiadol)
- Rhinweddau cydymffurfiaeth

## 3.2 Data Cyflwr Stoc

Mae'r wybodaeth a gedwir mewn perthynas â stoc wedi'i chasglu gan Savills fel rhan o arolwg llawn o gyflwr stoc a gynhaliwyd yn ystod 2008-09 ac, yn dilyn hynny, arolwg cyflwr stoc cynrychioliadol 20% a gwblhawyd yn ystod 2013. Ar hyn o bryd mae gennym ddata arolwg ar 94% o'r eiddo yn y portffolio a 100% o ddata o arolwg o flociau allanol a rhannau cyffredin. Mae'r 6% o'r data eiddo sy'n weddill wedi'i glonio o'r arolygon hynny sydd eisoes wedi'u cwblhau er mwyn rhoi darlun o gyflawr y stoc llawn.

Bydd y data am gyflwr y stoc yn cael ei ddilysgu drwy:

- Gasglu data ar y 6% sy'n weddill;
- Cynnal arolwg o'r stoc o leiaf unwaith bob 5 mlynedd. Er yn draddodiadol yr ystyrir ei bod yn arfer dda i gynnal arolwg stoc ar sai rhaglen dreigl gan archwilio % o stoc bob blwyddyn, oherywdd maint y stoc dai fe allai fod yn fwy ymarferol i ni wneud nifer mwy yn llai aml er mwyn sicrhau gwerth am arian.
- Dilysiad allanol o unrhyw ddata cyflwr stoc a gesglir yn fewnol.
- Argymhellir ein bod o fewn cyfnod oes y strategaeth 5 mlynedd hon yn caffael arolwg cyflwr stoc llawn.
- Yn ystod Chwarter 2 o 2017-2018 byddwn yn caffael arolwg cyflwr stoc cynrychioliadol 20%

Bydd data asedau yn cael ei ddiweddaru yn dilyn cwblhau'r gwaith.

## 3.3 Gofyniadau Cyflwr Stoc y Dyfodol

Mae'r data cyflwr stoc fel y nodir yn 3.2 yn darparu gwybodaeth er mwyn galluogi Cynllun Buddsoddi 30 mlynedd cadarn i gael ei greu. Drwy sicrhau bod y stoc bresennol yn cael arolwg cyflwr stoc bob 5 mlynedd, byddwn yn hwyluso cynhyrchiad rhagolwg gwariant diweddar er mwyn ymdrin ag:

- Adnewyddu cydrannau adeiladu, ffitiadau a gosodiadau o bryd i'w gilydd;
- Cadw'r eiddo mewn cyflwr sy'n golygu ei fod yn addas i'w osod
- Cynnal cydymffurfiaeth â Safonau Ansawdd Tai Cymru (WHQS).

Yn ei hanfod, ystyr hyn yw newid elfennau mewnol yr adeilad (ceginau, ystafelloedd molchi ac ati) ac elfennau allanol (ffenestri, drysau, toeau a

strwythurau ac ati). Bydd dyddiad amnewid yr elfennau hyn yn cael ei ddarogan drwy ddefnyddio asesiad o gyflwr a chylch oes disgwyliedig y cydrannau. Wedi'i gyfuno â chost newid yr elfennau hyn, mae'r data yn darparu rhagolwg o'r angen ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal â chadw data am gyflwr stoc, yn unol â 3.2 uchod, mae'n hanfodol bod data manwl gywir ar oes cydrannau a chost darnau newydd yn cael ei gadw. Bydd y pethau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac yn cael eu cymharu â'n profiadau, y wybodaeth am y farchnad a chost alldro cyflawni'r gwaith.

Mae cylch bywyd presennol yr elfennau allweddol y caniatawyd ar eu cyfer yn ein rhagdybiaethau o'r costau ar gyfer y cynllun 30 mlynedd yn cynnwys:

- Cegin – 15 mlynedd
- Ystafell Molchi – 25 mlynedd
- Boeleri - 15 mlynedd
- Rheiddiaduron – 25 mlynedd
- Ail weirio llawn – 25 years

Bydd y gost o ddarparu cydrannau newydd yn cael ei defnyddio fel y raddfa fforddiadwy h.y. y pris y gall y busnes fforddio ei dalu i adnewyddu'r elfen. Bydd y gallu i gyflawni'r gwaith o fewn y gost yn profi hyfywedd y cynllun busnes.

### 3.4 Gofynion Cynnal a Chadw eraill yn y dyfodol

Parheir i gadw rhestr o ragdybiaethau a chostau fesul uned a fydd yn sylfaen i gostau cyflwr eiddo nad yw'n rhan o'r stoc yn y cynllun HRA a'r modelau gwerthuso. Mae'r rhain yn cynnwys y meysydd canlynol:

Gwaith Atgyweirio Annisgwyl Sylweddol
Cydymffurfiaeth
Cynnal a Chadw Cylchol
Gwaith Cynnal a chadw ymatebol a gwaith ar eiddo gwag
Asedau Perthnasol

Mae'r fethodoleg ar gyfer rhagweld yr angen ym mhob un o'r meysydd hyn wedi'i nodi o dan bob un o'r is-benawdau isod. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac yn cael eu cymharu â'n profiadau, y wybodaeth am y farchnad a'r gost bresennol o gyflawni'r gwasanaeth.

Mae'r rhagolygon yn cynnwys nifer o ragdybiaethau yn seiliedig ar wybodaeth leol am stoc a phrofiadau staff.



DRAFT

Bydd pob un o'r rhagdybiaethau a ddefnyddir er mwyn adeiladu darlun o'r anghenion nad ydynt yn ymwneud â'r stoc yn cael statws Coch, Melyn, Gwyrdd (RAG) yn seiliedig ar lefel yr hyder ynddynt.

### 3.4.1 Gwaith Atgyweirio Annisgwyl Sylweddol

Cyfeirir yma yn benodol at waith nad yw wedi'i ragweld mewn unrhyw ran arall o'r arolwg ond, o brofiad, y gellir ei ddarogan fel rhywbeth sy'n debygol o godi. Mae enghreifftiau yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, teis mewn waliau ceudod yn dod yn rhydd, ymsuddiant/setliad lle nad oes yswiriant, diffygion strwythurol cyffredinol, systemau carthffosiaeth yn torri a diffygion cudd yn y gwaith adeiladu a lwfansau uwch ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflawni gwaith cyfalaf.

Y rhagdybiaeth ar hyn o bryd yw caniatau swm cyfwerth â 3% o gost gwaith sylweddol yn y dyfodol.

### 3.4.2 Cydymffurfiaeth

Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Tai wedi adolygu ei bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau ac wedi cynnal trafodaethau â chyflenwyr er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau angenrheidiol fel landlord. Mae hyn yn helpu i sicrhau iechyd a diogelwch cwsmeriaid, pobl sy'n ymweld â'u cartrefi, a staff. Mae'r gofynion o ran gwaith wedi eu hamlinellu yn y polisi ac mae nifer yr unedau sydd angen cydymffurfio wedi'i gofnodi yn y priodoleddau cydymffurfiaeth yn unol â'n protocolau rheoli data. Bydd gofynion cydymffurfiaeth yn cael eu hariannu'n llawn drwy weithredu'r cyfraddau priodol fesu uned ar gyfer nifer yr unedau sydd angen y gwasanaeth.

### 3.4.3 Cynnal a Chadw

Mae'r gofynion o ran gwaith cynnal a chadw cylchol sydd wedi'u nodi yn y cynllun yn cynnwys gwaith addurno cylchol allanol a gwaith atgyweirio cysylltiedig yn y dyfodol. Bydd y rhaglen waith hon yn cael ei chyflawni ar gylch 8 mlynedd.

### 3.4.4 Gwaith Cynnal a Chadw Ymatebol a gwaith ar eiddo gwag

Gwaith cynnal a chadw ymatebol a gwaith ar eiddo gwag yw gwaith cynnal a chadw y mae ymrwymiad ar y landlord i'w wneud, naill ai ar gais tenant neu neu'n dilyn archwiliad gan aelod o staff neu mewn cysylltiad ag ail-osod eiddo.

Hefyd wedi'i gynnwys o dan y pennawd hwn mae Cymhorthion ac Addasiadau. Mae'r Cyngor yn darparu cymhorthion ac addasiadau er mwyn cynorthwyo cwsmeriaid ag anableddau i fyw yn eu cartrefi. Mae'r gwaith yn cael ei ariannu'n llawn gan yr HRA.



DRAFT

### 3.4.5 Asedau Perthnasol

Mae'r rhan hon yn ymwneud ag asedau yn y stoc y mae ymrwymiad i'w cynnal a'u cadw ond lle nad yw'r costau wedi eu cynnwys yn y categorïau uchod. Byddai Gwaith Trin Carthffosiaeth, garejys a thir yn enghreifftiau o hyn.

### 3.5 Safonau Cyfreithiol, Rheoleiddiol a Lleol

Mae angen i'r Cyngor fodloni'r gofynion canlynol:

Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) fel y caiff ei grynhoi isod:

Mae "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru" yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru y dylai "holl aelwydydd Cymru...gael y cyfle i fyw mewn anheddau o safon sydd":

- Rhan 1: Wedi'u hatgyweirio i safon dda
- Rhan 2: Yn ddiogel
- Rhan 3: Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn danwydd-effeithlon ac wedi'u hinswleiddio'n dda.
- Rhan 4: Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
- Rhan 5: Yn cael eu rheoli'n dda (tai rhent).
- Rhan 6: Wedi'u lleoli mewn mannau diogel a deniadol.
- Rhan 7: I'r graddau y mae hynny'n bosibl, yn addas ar gyfer gofynion penodol y cartref.

Roedd Cyngor Sir Ynys Môn yn un o'r Awdurdodau cyntaf i fodloni gofynion WHQS yn ystod Rhagfyr 2012. Cafodd hyn ei wirio'n annibynnol gan Savills yn ystod arolwg cyflwr a oedd yn gynrychioladol o 20% o'r stoc yn 2013.

Rydym yn fodlon, lle bynnag y mae hynny'n ymarferol bosibl, bod yr holl eiddo yn bodloni safonau WHQS ac eithrio'r meini prawf methiannau derbyniol.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i gydymffurfio ag arweiniad statudol sydd wedi'i gymeradwyo a'r gweithdrefnau cydymffurfio cysylltiedig sydd wedi'u rhestru isod:

- Tystysgrif diogelwch nwy: Ymgymerir â hyn yn flynyddol gan weithwyr mewnol ble bynnag y mae hynny'n bosibl a bydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi yn y Modiwl Gwasanaethu Keystone.
- Glendid Dŵr: Cyflogwyd contractwyr i gynnal arolwg ac fe gofnodwyd yr holl safleoedd cymunedol sydd â risg o Legionella yn ystod 2016.
- Diogelwch Tân: Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gynnal trefniadau diogelwch tân. Rhaid i eiddo â mannau cymunedol neu gyffredin gael eu hasesu yn achlysurol ar gyfer risg tân er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth statudol drwy'r amser.



DRAFT

- Diogelwch Trydanol: Bydd profion trydanol yn cael eu cynnal bob pum mlynedd.
- Rheolaeth Asbestos: Yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Asbestos, rhaid i'r sawl y mae dyletswydd arnynt gymryd camau rhesymol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos ac i gadw cofnod o leoliad yr asbestos a'r deunyddiau lle rhagdybir bod asbestos. Mae ein data yn cael ei gadw yn y Modiwl Rheoli Asbestos o fewn Keystone.
- Tanwydd Solet: Rhoddir prawf yn flynyddol ar simneiau tanwydd solet

.

Byddwn yn anelu i fynd y tu draw i ofynion sylfaenol y WHQS er mwyn bodloni ein nodau strategol.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac i ddarparu gwres fforddiadwy ar gyfer ein tenantiaid.

Rydym yn cymryd perfformiad amgylcheddol ein hasedau o ddifrif pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau i fuddsoddi a rhoddir ystyriaeth hefyd i arferion gorau ac arweiniad e.e. mae cyhoeddiad diweddar y Llywodraeth "Tai Cynnes, Tai Gwyrdd: Strategaeth Rheoli Ynni Cartrefi" yn awgrymu y dylid cyflawni graddfa SAP o 70 ar gyfer tai cymdeithasol erbyn 2020.

Mae'r targed hwn wedi'i fabwysiadu yn ein Polisi Cydymffurfiaeth WHQS.

Rydym wedi casglu gwybodaeth ynni yn y gorffennol ac, fel rhan o'r arolygon cyflwr stoc, byddwn yn casglu data ynni newydd (SAP) ar gyfer pob eiddo fel rhan o'r strategaeth hon.

Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cadw data, gan cynnwys data ar allyriadau CO2 a chostau rhedeg ar gyfer pob eiddo.

Mae'r data yn caniatáu i ni dargedu'n strategol yr eiddo/cymdogaethau hynny sydd â sgorau ynni isel fel rhan o'r broses cynllunio buddsoddiadau.

Ar hyn o bryd, rydym yn targedu gwelliant yng nghyfartaledd y sgorau SAP er mwyn lleihau nifer y methiannau derbyniol a gwella effeithlonrwydd ynni:

- Ar hyn o bryd (206-17) rydym yn adrodd i Lywodraeth Cymru bod 726 o'n heiddo yn methu â chyrraedd targed ynni'r WHQS o 65. Bydd y ffigwr hwn yn lleihau wrth i ni gynnal arolygon pellach i adlewyrchu gwaith effeithlonrwydd ynni sydd eisoes wedi'i wneud a phan fyddwn yn ail asesu eiddo ar ôl i waith gael ei gwblhau yn y dyfodol.

Byddwn hefyd yn edrych am gyfleoedd i ddenu arian ar gyfer gwaith ychwanegol er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni'r stoc dai a lleihau costau rhedeg ar gyfer ein cwsmeriaid.

### 3.6 Gwelliannau

Mae gwaith gwella yn gyffredinol yn golygu:

- Gosod cydrannau nad ydynt yn bodoli mewn eiddo ar hyn o bryd ond a fyddai'n gwella'r eiddo e.e. PV/solar thermal ac ati;
- Uwchraddio safon eitem ar adeg gosod un newydd, e.e. cegin o safon uwch;
- Amnewid yr elfen cyn i'r cyflwr ddirywio er mwyn gwella'r eiddo.

Gwariant dewisol yw hwn ac mae angen ei flaenoriaethu er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael.

### 3.7 Rhagolwg o'r gwariant 30 mlynedd

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys cynhyrchu rhagolygon o'r gwariant am gyfnod o 30 mlynedd.

Bydd y rhagolygon hyn yn cael eu hailystyried os bydd unrhyw newid sylweddol i'r AMS neu'r data perthnasol.

Beth bynnag fo'r sefyllfa, cynhelir yr ymarfer yn flynyddol.

## 4.0 Blaenoriaeth Strategol 2 – Rheoli Asedau mewn modd Gweithredol

Yr Amcan yw deall perfformiad ariannol ac anariannol asedau tai y Cyngor a mynd ati mewn modd gweithredol ac effeithlon i reoli'r asedau hyn.

Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon, pennwyd yr amcanion.

Mae pob amcan wedi'i gysylltu ag adran o'r strategaeth hon sy'n nodi'r hyn a fydd yn cael ei ddarparu:

1. Monitro perfformiad ariannol drwy asesiad Gwerth Net Presennol (NPV) asedau. Adran 4.1;
2. Diffinio a monitro perfformiad anariannol gan ddefnyddio dangosyddion sy'n mesur cynaliadwyedd asedau a'r galw amdanynt er mwyn mesur gallu'r asedau i fodloni amcanion ehangach. Adran 4.2;
3. Defnyddio proses werthuso er mwyn categoreiddio asedau yn ôl perfformiad cyffredinol (ariannol ac anariannol) a darparu statws RAG ar draws y stoc gyfan. Adran 4.3;
4. Ymgymryd ag ymarfer gwerthuso opsiynau mewn perthynas â stoc nad yw'n bodloni gofynion cynaliadwyedd neu lle byddai gwerthusiad yn ddefnyddiol am reswm arall. Adran 4.4;

DRAFT

## 4.1 Perfformiad Ariannol – Gwerth Net Presennol

Ar gyfer unedau sy'n perfformio'n wael neu unedau problemus, bydd y Gwasanaeth Tai yn gwerthuso perfformiad ariannol asedau unigol a grwpiau o asedau er mwyn nodi eiddo sydd, ac sydd ddim, yn addas i fuddsoddi ynddynt dros gyfnod y Cynllun Busnes HRA. Bydd amrywiaeth o ddata yn cael ei werthuso, yn cynnwys:

- Incwm rhent a cholledion rhent oherwydd bod eiddo'n wag;
- Gwariant ar waith trwsio a chynnal a chadw;
- Gwariant ar waith cynnal a chadw a gynllunnir ar gyfer y 30 mlynedd nesaf;
- Costau Rheoli Tai

Defnyddir y data hwn er mwyn rhoi gwerth net presennol (NPV) ar gyfer pob ased unigol neu grŵp o asedau.

## 4.2 Perfformiad Anariannol – Bodloni'r Amcanion Ehangach

Ochr yn ochr â pherfformiad ariannol mae angen i'n hasedau fodloni ein hamcanion ehangach a pharhau i fod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r dadansoddiad hwn yn ein galluogi i adnabod unrhyw ddirywiad posibl a allai ddigwydd yn y dyfodol o ran dymunoldeb yr asedau ac o'r herwydd yn ein galluogi i gynllunio mewn modd mwy effeithiol er mwyn bodloni anghenion y dyfodol a gwarchod y llif cynhyrchu incwm.

Mae hefyd yn ein galluogi ni i werthuso i ba raddau y mae ein hasedau yn cefnogi ein hamcanion newydd o ran busnes a datblygu. Mae'r dangosyddion Rheoli Tai isod yn mesur i ba raddau y mae asedau yn bodloni ein hamcanion rheoli tai:

- Ôl-ddyledion rhent
- Dwyster rheoli (nifer yr achosion)
- Cynaliadwyedd Tenantiaethau (nifer y rhybuddion, llythyrau rhybudd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol)
- Eiddo anodd eu gosod
- Nifer yr eiddo gwag hirdymor

Rhoddir ystyriaeth hefyd i gael gwared ar asedau gwerth uchel ac edrychir ar ddefnyddio unrhyw gyfalaf a dderbynnir o ganlyniad i werthiant er mwyn datblygu nifer uwch o unedau mewn ardal lle mae tystiolaeth o alw am dai cymdeithasol / fforddiadwy.



DRAFT

### 4.3 Gwerthusiad Opsiynau

Lle bydd gwerthusiad yn nodi asedau sy'n perfformio'n wael, un ai am resymau ariannol neu anariannol, bydd gwerthusiad opsiynau manylach yn cael ei gynnal a bydd yr holl opsiynau ar gyfer gwella yn cael eu hymchwilio. Bydd cyn lleied ag sy'n bosibl yn cael ei wario yn y tymor byr ar yr asedau hynny sy'n cael eu hadnabod fel rhai sydd angen gwerthusiad opsiynau cyn y gwneir penderfyniadau buddsoddi hirdymor.

Ymgynghorir â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn ystod y broses werthuso hon.

Bydd sbardunau ar gyfer gwerthuso opsiynau yn cynnwys

- Stoc sydd â NPV negyddol;
- Stoc sydd â NPV ymylol;
- Stoc sydd wedi'i gategoreiddio fel stoc â lefel uchel o gyfle.

Gallai opsiynau allweddol posibl ar gyfer stoc gynnwys:

| Rhif. | Categori | Opsiwn |
|---|---|---|
| 1 | Cyfalaf | Ailwampio llawn i safon 30 mlynedd |
| 2 | Cyfalaf | Buddsoddiad er mwyn cefnogi newid defnydd |
| 3 | Cyfalaf | Dymchwel ac ailddatblygu |
| 4 | Cyfalaf | Oes gyfyngedig – cynllun buddsoddi tymor canolig |
| 5 | Ymatebol | Buddsoddiad tymor byr er mwyn dod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd am gost isel am gyfnod cyfyngedig. |
| 6 | Ymatebol | Buddsoddiad bychan a derbyn yr angen i wneud mwy o waith atgyweirio ymatebol a chylchol |
| 7 | Gwarediad | Cael gwared ar rai neu'r holl unedau ar y farchnad agored. |
| 8 | Newid Defnydd | Newid defnydd – naill ai yn y tymor byr neu'r tymor hir |
| 9 | Rheolaeth | Newid dynodiad yr eiddo a'r dull rheoli |

Ni fydd yn briodol modelu pob datrysiad ym mhob gwerthusiad felly dylid trin y rhestr uchod fel yr amrediad llawn o opsiynau. Ym mhob gwerthusiad, bydd y rhestr yn cael ei hidlo er mwyn modelu'r opsiynau amgen mwyaf ymarferol.

Bydd y gwerthusiad yn nodi'r stoc craidd (Gwyrdd) sy'n bodloni'r nodau a'r gofynion ariannol ac anariannol. O ganlyniad, gall y stoc Coch a Melyn fod yn destun gwerthusiad manylach.

## 5.0 Blaenoriaeth Strategol 3 – Cynllunio Buddsoddiad

Y drydedd flaenoriaeth strategol yw cynnal a buddsoddi yn yr asedau mewn ffordd sy'n arloesol, fforddiadwy ac sy'n bodloni ein safonau a'n blaenoriaethau ni ein hunain a'n cwsmeriaid.

Er mwyn bodloni'r flaenoriaeth hon, mae'r amcanion isod wedi eu gosod. Mae pob amcan wedi'i chysylltu ag adran o'r ddogfen hon sy'n nodi'r hyn a fydd yn cael ei gyflawni:

1. Datblygu a chynnal cynlluniau buddsoddi sydd wedi'u cymeradwyo ac sy'n fforddiadwy ar gyfer cyflawni gwaith. Adran 5.1;

2. Cynnal, a glynu wrth, gyfres o reolau a blaenoriaethau a ffiniau buddsoddi er mwyn gweithredu fel porth i wneud penderfyniadau buddsoddi a sicrhau bod ein buddsoddiadau wedi eu targedu tuag at stoc gynaliadwy a chronfeydd sydd wedi'u clustnodi yng Nghynllun Busnes yr HRA. Adran 5.2;

3. Mae cwmpas y gwaith i fod yn unol â chyfres fforddiadwy o safonau cyflawni. Adran 5.3;

## 5.1 Proses

Mae'r broses cynllunio buddsoddiadau wedi'i chynllunio er mwyn penderfynu:

- Pa waith sydd angen ei wneud
- I ba eiddo
- Fel rhan o ba becyn gwaith
- Ym mha flwyddyn
- Y gyllideb angenrheidiol

DRAFT

Mae angen y broses uchod er mwyn sicrhau bod gofynion y cynllun buddsoddi wedi eu cynnwys ac yn fforddiadwy o fewn ffiniau Cynllun Busnes yr HRA.

Bydd rhaglenni buddsoddi yn cael eu datblygu yn seiliedig ar ddata ynghylch cyflwr stoc yn ogystal â blaenoriaethau buddsoddi fel y gellir datblygu rhaglen fuddsoddi 5 mlynedd.

Bydd hyn yn cael ei adolygu yn flynyddol er mwyn bodloni unrhyw flaenoriaethau neu gyfyngiadau cyllidebol a all newid. Bydd y gwaith o fewn y rhaglenni:

- Wedi'i gyfuno, lle mae'n bosibl er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n effeithlon. Mae hyn weithiau yn her yn ein stoc gan fod natur y gwaith mewnol yn gallu ei gwneud hi'n anodd cyflawni'r gwaith os oes rhywun yn byw yn yr eiddo;

- Wedi'i gyfuno mewn rhaglenni gwaith sy'n cynorthwyo darpariaeth effeithlon ac sy'n rheoli'r effaith ar y cwsmer;
- Wedi'i wirio er mwyn sicrhau nad oes arian yn cael ei fuddsoddi mewn asedau anghynaladwy;
- Blaenoriaethu priodol, gan ddefnyddio'r wybodaeth fusnes sydd ar gael, yn unol â chyfres o flaenoriaethau y cytunwyd arni er mwyn sicrhau mai'r gwaith sydd â'r flaenoriaeth uchaf sy'n cael ei chwblhau gyntaf;
- Wedi ei nodi yn unol â'r safonau buddsoddi a gytunwyd.

Bydd y rheolau buddsoddi yn gweithredu fel ffilter er mwyn sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad a wneir yn cael ei wneud mewn stoc sy'n gynaliadwy ar gyfer y tymor hir. Cyfyngir ar fuddsoddiad tra bydd opsiynau'n cael eu gwerthuso.

Mae Safonau Ansawdd Tai Cymru/Gofynion Ansawdd Datblygu yn nodi, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol bosibl, yr egwyddorion a'r meini prawf perfformiad i'w cyflawni o ran dyluniad ac adeiladwaith prosiectau buddsoddi.

Mae datblygiad cynllun buddsoddi 5 mlynedd gyda lefel uwch o sicrwydd yn caniatáu ar gyfer agwedd gydlynol mewn perthynas â chaffael y deunyddiau a'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer darpariaeth effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys adnabod mannau lle mae angen gwariant sylweddol yn gynnar fel y gellir caffael y telerau gorau posibl ar gyfer y Cyngor.

## 5.2 Rhaglenni Buddsoddi

Bydd gwaith yn cael ei gyflawni ar y rhaglenni canlynol:

Rhaglen 1 – Gwaith Mewnol

Rhaglen 2 – Waliau allanol / To / Llinellau Toeau / Ffenestri / Drysau a'r Rhaglen Waith Amgylcheddol

Rhaglen 3 - Boeleri a systemau gwresogi newydd

Rhaglen 4 – Gwaith Cymunedol

Rhaglen 5 – Gwaith addurno cylchol a gwaith atgyweirio cysylltiedig

Mae manylion pellach wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

## 5.3 Rheolau a Blaenoriaethau Buddsoddi

Bydd rhaglenni buddsoddi yn blaenoriaethu gwaith ar gyfer stoc sy'n gynaliadwy yn y tymor hir o fewn y cyllidebau sydd ar gael.

Bydd gwaith yn cael ei flaenoriaethu gan ddefnyddio'r blaenoriaethau a gytunwyd arnynt, a nodir isod:

1. Cydymffurfiaeth statudol – diogelwch nwy, diogelwch tân ac ati



DRAFT

2. Gwaith sy’n cael ei adnabod fel rhan o asesiad risg iechyd a diogelwch neu waith atgyweirio a allai gynyddu’r risg o niwed os nad yw’n cael ei ddatrys;
3. Gwaith strwythurol sy’n beryglus a/neu a allai arwain at gostau uwch a lleihau gwerth yr ased os na chaiff ei ddatrys;
4. Gwaith i sicrhau safonau cyfreithiol a rheoliadol
5. Disodli elfennau sy’n achosi costau atgyweirio a chynnal a chadw uchel
6. Gwaith i gynnal cyfnod oes llawn cydrannau e.e. gwaith ailaddurno allanol cylchol
7. Ceginau ac ystafelloedd molchi mewnol er mwyn darparu cyfleusterau modern (blaenoriaethu’r rhai hynaf yn gyntaf);
8. Gwelliannau effeithlonrwydd ynni
9. Gwelliannau amgylcheddol
10. Gwelliannau eraill a blaenoriaethau cwsmeriaid a fydd yn gwella bodlonrwydd a / neu’n bodloni dyheadau.

Bydd yr arolwg cyflwr stoc yn hysbysu’r cynllun buddsoddi ar sail amcanion, fodd bynnag, mae adnoddau ariannol wedi eu cyfyngu i’r ddarpariaeth sydd wedi’i chynnwys o fewn cynllun busnes yr HRA.

Pe na fyddai’r Cyngor yn gallu ymrwymo’r lefel o gyllid angenrheidiol, byddai’n rhaid ail flaenoriaethu yn unol â’r blaenoriaethau hyn a byddai’r gwaith sydd â’r lleiaf o flaenoriaeth yn cael ei dynnu o bob rhaglen tan y byddai’r rhaglen yn fforddiadwy.

### 5.4 Safonau Buddsoddi

Mae Safonau Buddsoddi’r Cyngor yn sefydlu sgôp y gwaith fydd yn cael ei wneud. Byddant yn cyd-fynd â Safonau Ansawdd Tai Cymru a’r cyfraddau fforddiadwy a nodwyd er mwyn sicrhau cyflawniad cyson.

## 6.0 Blaenoriaeth Strategol 4 - Sicrhau’r Adenillion Gorau Posib

Y bedwaredd flaenoriaeth strategol yw darparu agwedd traws-adrannol tuag at sicrhau bod ein hasedau’n darparu’r adenillion ariannol ac anariannol gorau.

Er mwyn cyflawni’r flaenoriaeth hon, mae’r amcanion isod wedi eu pennu. Mae pob amcan wedi’i chysylltu ag adran o'r ddogfen hon sy’n nodi’r hyn a ddarperir:

1. Cynhyrchu Cynlluniau Buddsoddi sy’n adlewyrchu cynaladwyedd y stoc a’n rheolau, ein blaenoriaethau a’n safonau buddsoddi. Adran 6.1.

2. Cyflawni gwaith drwy agwedd wedi’i chynllunio a gwneud y mwyaf o’r arian sydd ar gael i’w wario ar waith atgyweirio a chynnal a chadw. Adran 6.2.

3. Sicrhau bod yr angen i gydymffurfio’n cael ei ddeall a’i ariannu a bod cyfleoedd i leihau risg a chostau cydymffurfiaeth yn cael sylw. Adran 6.3.



DRAFT

4. Cefnogi datblygiad newydd drwy adnabod cyfleoedd o fewn y portffolio presennol a sicrhau bod unrhyw asedau neu ddatblygiadau newydd yn cael eu rheoli’n effeithiol. Adran 6.4.

## 6.1 Cynllun Buddsoddi

Mae’r Cynllun Buddsoddi yn nodi’r hyn yr ydym yn bwriadu ei fuddsoddi yn y stoc ar gyfer y cyfnod 2018 – 2023.

Bydd pum mlynedd gyntaf y cynllun yn cael eu gosod allan mewn rhaglenni gwaith y gellir eu cyflawni.

Mae’r cynllun hwn yn parhau i fod yn ddogfen fyw a chaiff ei adolygu a’i ddiweddaru yn dilyn unrhyw arolygon o gyflwr stoc a gynhelir yn y dyfodol.

## 6.2 Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

Yn gyffredinol, mae’n hanfodol bod gwariant ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw ymatebol a gwaith ar eiddo gwag, yn cael ei ddarparu yn unol â rheolau buddsoddi. Drwy gynllunio a rhaglennu effeithiol, gellir cyflawni gwaith mewn modd cynlluniedig sy’n symud i ffwrdd o agwedd ymatebol. Mae hyn yn rhoi cyfle i sicrhau gwell gwerth am arian a llai o wariant ar waith cynnal a chadw ymatebol.

Drwy rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiadau cyfalaf wedi’u cynllunio, megis diweddaru ceginau a gwaith cynnal a chadw traddodiadol gyda phwyslais ar ansawdd a dibynadwyedd, bydd costau ymatebol yn lleihau yn y dyfodol. Gellir blaenoriaethu gwaith cynlluniedig lle mae costau cynnal a chadw yn uchel.

Er mwyn osgoi dyblygu gwariant neu wariant diangen, a sicrhau bod cofnodion yn cael eu cynnal a’u cadw yn briodol, rhaid i’r tîm atgyweirio a chynnal a chadw wybod lle a phryd mae eiddo wedi eu nodi ar gyfer buddsoddiadau.

Rhaid i’r tîm gwaith trwsio a chynnal a chadw gael mynediad llawn at y Cynllun Buddsoddi a bod yn gwbl ymwybodol ohono. Bydd hyn yn golygu y gellir gwneud penderfyniadau rhesymol a, lle mae cynlluniau i fuddsoddi, y gallu i gynghori tenantiaid (neu ddarpar denantiaid) y bydd gwaith yn cael ei wneud o fewn cyfnod penodol o amser.

Eiddo Gwag: Mae gan y Cyngor drosiant tai gwag o 7% o’i eiddo bob blwyddyn. Er mwyn sicrhau’r incwm uchaf o renti, bydd tai gwag yn cael eu dychwelyd i’r stoc rhent cyn gynted ag sy’n ymarferol ac mae’r Gwasanaeth Tai yn benderfynol o roi blaenoriaeth i’r maes gwaith hwn.

Er yr uchod, mae’n bolisi gennym i wneud unrhyw waith WHQS e.e. ceginau, ystafelloedd molchi, gwaith ail-weirio, ar ddiwedd cyfnod y denantiaeth a chyn ail osod yr eiddo. Bydd hyn yn parhau hyd nes y bydd yr holl elfennau mewnol yn cydymffurfio’n llawn. Pan newidir y denantiaeth, rhoddir Tystysgrif



DRAFT

Cydymffurfiaeth i'r Tenant(iaid) newydd yn cadarnhau % y gydymffurfiaeth â WHQS.

## 6.3 Cynllun Cydymffurfio

Mae'r Rheolwyr Asedau wedi datblygu cynlluniau, polisïau a gweithdrefnau er mwyn rheoli pob maes o gydymffurfiaeth ar draws pob agwedd o'r stoc.

Mae cynlluniau'n ymwneud ag amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar Gydymffurfiaeth o ddydd i ddydd a gofynion Rheoliadol ac sy'n amlinellu'r gofynion rheoli penodol a'r gweithredoedd sy'n lliniaru'r materion hynny sydd wedi eu hadnabod gan sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn y maes hwn. Mae cynlluniau yn cynnwys eitemau megis:

- Glendid Dŵr
- Rheolaeth Asbestos
- Diogelwch Nwy
- Diogelwch Trydanol
- Diogelwch Tân
- Lifftiau

Mae'r cynlluniau wedi'u datblygu fel bod buddsoddiad wedi'i dargedu a'i flaenoriaethu ar sail risg ac er mwyn sicrhau eu bod:

- Yn dilyn ymagwedd traws-swyddogaethol
- Yn seiliedig ar ddealltwriaeth gynhwysfawr ac asesiad o faterion y deuir ddeir ar eu traws ym mhob maes Cydymffurfio gyda mesurau lliniaru a chamau gweithredu priodol.

## 6.4 Cynllun Datblygu

Mae'n hanfodol bod ein hasedau, ac felly'r strategaeth asedau hon, yn cefnogi amcanion y Cyngor ar gyfer twf a datblygiad. Bydd hyn yn cael ei gyflawni mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys nodi asedau sydd ar gael drwy gynnal adolygiad o'r tir sydd yn ein perchnogaeth (yn cynnwys garejys a mannau agored) er mwyn adnabod cyfleoedd ar gyfer darparu cartrefi newydd.

Mae Strategaeth Tai Cyngor 2015-2020 y Cyngor yn gosod y sylfaen ar gyfer sicrhau cynnydd o 255 o unedau yn ein stoc tai cymdeithasol dros gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r cynnydd arfaethedig mewn tai fforddiadwy yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol sy'n cynnwys:

- Cynyddu ein hopsiynau tai a lleihau tlodi, ac
- Adfywio cymunedau a datblygu'r economi.



DRAFT

Bydd cyfleoedd ar gyfer twf yn canolbwyntio ar gynyddu ein stoc mewn meysydd lle mae angen wedi'i adnabod ar gyfer tai rhent fforddiadwy ac fe allai gynnwys:

- Tai newydd
- Prynu eiddo presennol gan gynnwys hen dai Cyngor a gollwyd drwy'r cynllun Hawl i Brynu.
- Datblygu tai rhent marchnad ganolraddol
- Cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol
- Cynlluniau Tai Gwarchod

Fe ddylai tai newydd neu rhai a brynir fod o fath a manyleb sy'n cefnogi gallu'r Cyngor i fodloni anghenion tai a darparu gwerth am arian o ran y gallu i'w cynnal a'u cadw yn y dyfodol pan fydd hi'n dod yn amser rheoli'r asedau hyn.

Wrth ystyried datblygiadau newydd neu gaffael eiddo sydd eisoes yn bodoli byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r mathau o anheddau sydd eu hangen a'r galw o fewn yr ardal fel sydd i'w weld o'r gofrestr dai gyffredin a'r gofrestr tai fforddiadwy.

Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddatblygiadau fforddiadwy newydd yn bodloni lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy sef y safon sylfaenol a ddisgwylir gan "Ofynion Ansawdd Datblygu" Llywodraeth Cymru. Bydd cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol yn sicrhau bod disgwyliadau cynaliadwyedd o ran defnydd ynni a fforddiadwyedd yn cael eu bodloni a lle bo hynny'n bosibl, eu rhagori arnynt.

Bydd y Gwasanaeth Tai yn gweithio gyda'r Grŵp Rheoli Asedau Corfforaethol er mwyn nodi safleoedd nad ydynt yn rhai HRA ac nad oes eu hangen bellach ac sydd wedi eu clustnodi fel safleoedd ar gyfer eu gwaredu e.e. safleoedd ysgol a allai fod yn addas ar gyfer tai fforddiadwy ac fel rhan o gynlluniau adfywio'r Cyngor.

## 7.0 Blaenoriaeth Strategol 5 - Fforddiadwyedd a Hyfywedd

Y pumed flaenoriaeth strategol yw sicrhau bod y strategaeth hon wedi'i ariannu'n llawn ac yn fforddiadwy o fewn cynllun busnes y HRA.

Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon, mae'r amcanion isod wedi eu pennu. Mae pob amcan wedi'i chysylltu ag adran o'r ddogfen hon sy'n nodi'r hyn a ddarperir:

1. Cynnal cyswllt â Chynllun Busnes yr HRA (i brofi fforddiadwyedd y cynllun). Adran 7.1;
2. Dangos bod modd cysoni data cwblhau a chostau alldro er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn fforddiadwy a bod y cynllun busnes yn hyfyw. Adran 7.2;

## 7.1 Cyswllt â'r Cynllun Busnes



DRAFT

Mae’r cynllun hwn wedi ei alinio gyda’r Cynllun Busnes HRA a’i gymeradwyo gan y Swyddog Adran 151. Ni ddylai unrhyw adolygiadau dilynol gael eu cymeradwyo heb gadarnhad gan y Swyddog Adran 151 bod prawf fforddiadwyedd wedi'i gynnal a bod y dull yn fforddiadwy.


Fel rhan o’r broses o gymeradwyo’r Cynllun Buddsoddi yn flynyddol, bydd y Swyddog Adran 151 yn cadarnhau ei fod yn alinio â’r Cynllun Busnes HRA.

Cynhelir profion straen ar y Cynllun Busnes HRA er mwyn gallu deall yr effaith y byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn ei chael. Mae’r profion straen hyn wedi eu hamlinellu yn ein Cynllun Busnes HRA.

## 7.2 Cysoni gwaith a gwblhawyd a Chostau Alldro

Mae cynnal a chadw data dilys a manwl gywir ynghylch asedau yn hanfodol er mwyn hysbysu cyfanrwydd ein cynlluniau busnes, rhagweld gwariant yn y dydofol ac oes weddilliol elfennau o’r stoc a bydd proses gysoni’n cael ei chynnal yn rheolaidd mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi ei cwblhau.

Ein hamcan yw bod systemau allweddol yn parhau i fod wedi’u halinio:




Mae’r gwaith cysoni rheolaidd hwn yn cynnwys:

- Diweddaru’r gronfa ddata asedau gyda dyddiadau amnewid cydrannau – manylion a geir o fonitro gwaith sydd wedi ei gwblhau
- Monitro costau alldro ar lefel yr elfennau a’u cymharu gyda’r graddfeydd sydd wedi eu cynnwys o fewn y cynllun busnes er mwyn atal effaith negyddol ar y Cynllun Busnes a thenantiaid;
- Bydd gwaith a gwblheir o fewn y cynllun buddsoddi neu waith trwsio a chynnal a chadw’n cael ei gofnodi ar y gronfa ddata asedau. Bydd y broses hon yn ein galluogi i adnabod a datrys



DRAFT

unrhyw anghysondebau ac o ganlyniad, gwella cywirdeb y data a gedwir yn y gronfa ddata.

## 8.0 Blaenoriaeth Strategol 6 – Cynllun Cyflawni

Y chweched flaenoriaeth strategol yw darparu'r cynllun ar gyfer buddsoddi mewn stoc gan sicrhau gwerth am arian, bod rhaglenni'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n gwarchod Iechyd a Diogelwch yr holl staff, y cwsmeriaid a'r rhai hynny yng nghyffiniau'r gwaith ac i reoli'n effeithiol yr holl gontractwyr sydd yn gysylltiedig â chynlluniau. Bydd y manylion yn cael eu datblygu a'u nodi yn y Cynlluniau Darparu Rheolaeth Asedau.

Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon, mae'r amcanion isod wedi eu gosod. Mae pob amcan yn gysylltiedig ag adran o'r ddogfen hon sy'n nodi'r hyn a ddarperir:

1. Gwerthuso opsiynau cyflawni mewnol ac allanol a chynhyrchu gwaith a gwasanaethau sy'n darparu'r gwerth gorau am arian. Adran 8.1;

2. Rheoli contractau er mwyn sicrhau safon a bodlonrwydd cwsmeriaid. Monitro faint o waith a gyflawnwyd  a'i gost fesul elfen a'i feincnodi yn erbyn pris y tendr a rhagdybiaethau'r cynllun; Adran 8.2;

### 8.1 Opsiynau darparu, caffael a gwerth am arian

Mae casglu data ar gyflwr stoc yn golygu y gellir creu cynlluniau buddsoddi ar gyfer y tymor byr, canol a thymor hir ac mae'n cynnig cyfle ar gyfer cynllunio adnoddau yn fanwl gywir, caffael nwyddau a gwasanaethau mewn modd effeithiol a sicrhau arbedion effeithlonrwydd a fydd, gyda'i gilydd, yn darparu gwerth am arian.

Mae'n hanfodol bod ein ffordd o weithio yn cyd-fynd gyda, ac yn cefnogi, y cyflawniad o'n hamcanion strategol tra'n parhau i fod yn berthnasol ac yn ymarferol.

Mae caffael hefyd yn golygu'r angen i ganolbwyntio ar lywodraethiant, risg, gwerth am arian a chydymffurfiaeth. Mae'r holl gaffael yn cael ei reoleiddio gan Reolau Sefydlog Ariannol y Cyngor a Chyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus Ewrop.

### 8.2 Rheoli a monitro contractau

Mae rhagdybio costau cydrannau allweddol sydd i'w hamnewid a phrosiectau yn hysbysu rhan o'r Cynllun Busnes HRA a'r rhagolwg gwariant 30 mlynedd.

Mae'n hanfodol felly bod prosiectau'n cael eu cyflawni o fewn y rhagdybiaethau hyn ac i'r safon cywir.



DRAFT

Bydd ansawdd y gwaith a chynnydd contractwyr yn erbyn rhaglen waith ar y safle yn cael ei reoli drwy'r broses ôl-archwilio. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i archwilio gwaith yn rheolaidd er mwyn gwirio cynnydd a bod 100% o'r gwaith yn cael ei gwblhau.

Bydd cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu datblygu er mwyn monitro'r meysydd canlynol:

- Cymharu gwir gostau a dendrwyd yn erbyn y costau a ragwelwyd gyda sylwebaeth ar unrhyw amrywiadau.
- Sicrwydd Ansawdd / Rheoli Safon drwy raddfeydd archwilio a % llwyddo/methu.
- Bodlonrwydd cwsmeriaid
- Perfformiad Iechyd a Diogelwch

DRAFFT

## Atodiad 1 – Rhaglenni Buddsoddi

### Rhaglen 1 - Gwaith Mewnol

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys ar gyfer:

- Ceginau
- Ystafelloedd Molchi
- Rhaglen ail wefru fel y penderfynir gan brofi trydanol

Mae'r tabl isod yn cadarnhau ein sefyllfa bresennol mewn cysylltiad ag adnewyddu'r elfennau mewnol allweddol:

| Elfen | Cyfanswm sydd wedi'u cynnwys yn arolwg cwmpasu 2008-09 ar gyfer eu newid | Cyfanswm sydd wedi eu newid hyd yma | Nifer y Tenantiaid a wrthododd | Cyfanswm yr eiddo sydd heb eu nodi yn yr arolwg cwmpasu ar gyfer newid |
|---|---|---|---|---|
| **Cegin** | 3073 | 3416 | 207 | 150 |
| **Cyfanswm ystafelloedd molchi / cawod mynediad gwastad** | 2271 | 3331 | 131 | 311 |
| **Ailweirio** | 1543 | 3023 | 106 | 644 |

Mae'r cyfanswm o 444 o denantiaid a wrthododd a nodwyd uchod yn ymwneud â 315 eiddo.

Bydd gwaith sydd angen ei wneud mewn eiddo o fewn ffenestr gynllunio pum mlynedd yn cael ei wneud ar yr un pryd h.y. os oes angen cegin ac ystafell molchi o fewn yr un ffenestr yna gwneir y ddau beth ar yr un pryd. Os mai dim ond cegin neu ystafell molchi sydd eu hangen,dim ond yr elfen honno fydd yn cael sylw.

Yn ystod 2017-18, cysylltir â'r holl denantiaid sydd wedi dewis gwrthod uwchraddio'r holl elfennau mewnol neu rai ohonynt. Os oes unrhyw rai o'n tenantiaid yn y categori hwn bellach yn cytuno i'r gwaith gael ei wneud, bydd y gwaith yn cael ei gynllunio cyn gynted ag sy'n ymarferol ac ariannol bosibl.



DRAFT

Mae hefyd yn fwriad gennym i gynnal gwaith arolwg a dadansoddi pellach ar yr elfennau nad ydynt wedi'u hadnabod ar gyfer eu hamnewid yn ystod yr arolwg gwreiddiol o'r stoc. Bydd unrhyw waith sy'n cael ei adnabod yn cael ei drefnu i'w wneud rhwng 2017 a 2020

**Rhaglen 2 – Waliau Allanol/Toeau/Llinellau Toeau/Ffenestri/ Drysau a Rhaglen Waith Amgylcheddol**

Yn cynnwys adnewyddu gorchudd toeau / llinellau toeau yn cynnwys simneiau, atgyweirio waliau allanol megis talcenni ac ail adeiladu, ail bwyntio, ail rendro ac ati. Yn ychwanegol at hynny, bydd drysau a ffenestri yn cael eu hadnewyddu fel rhan o'r pecyn hwn. Eto, bydd yr holl waith sydd angen ei wneud i eiddo o fewn y ffenestr gynllunio 5 mlynedd yn cael ei wneud ar yr un pryd.

Bydd gwaith amgylcheddol yn cael ei wneud ar yr un pryd â Rhaglen 2. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys atgyweiriadau amgylcheddol yn bennaf a gwelliannau o fewn cwrtil yr eiddo megis ffensys, llwybrau a waliau terfyn.

Yn ychwanegol at hynny, mae gwariant ar ddymchwel garejys a gwelliannau amgylcheddol dilynol yn disgyn i'r categori hwn ond byddant yn cael eu caffael ar wahân.

**Rhaglen 3 - Gosod Boeleri a Systemau gwresogi Newydd**

Yn cynnwys gosod boeleri newydd yn lle rhai hŷn sy'n dod i ddiwedd eu hoes, 15 mlynedd fel arfer. Bydd systemau dosbarthu gwres yn cael eu hasesu ac fe drefnir i'w huwchraddio pan fydd y boeler yn cael ei newid os ystyrir hynny'n briodol.

Dylid nodi y cafodd y gwaith o ddarparu systemau gwres canolog a/neu'r gwaith o ddiweddaru boeleri a systemau gwresogi ei wneud yn bennaf rhwng 2002 a 2008. Drwy ddefnyddio'r cylch bywyd 15 mlynedd a nodir uchod, mae'n dilyn y bydd rhaglenni amnewid yn amlwg drwy gydol y 5 mlynedd y mae wnelo'r AMS hwn ag ef.

**Rhaglen 4 – Gwaith ar lecynnau Cymunedol**

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys amnewid gwasanaethau cymunedol megis lifftiau, ardaloedd cymunedol mewn blociau, systemau gwarchod rhag tân, gwaith trydan cymunedol a goleuadau argyfwng, drysau mynediad a systemau drws mynediad ac ati.

**Rhaglen 5 – Gwaith Addurno Cylchol a Gwaith Atgyweirio Cysylltiedig**

Bydd gwaith addurno cylchol yn cael ei wneud ar gylch 8 mlynedd. Bydd stoc yn cael ei flaenoriaethu gan ystyried blaenoriaethau buddsoddi a rhaglenni gwaith sydd wedi'u hadnabod yn y cynllun buddsoddi. Ni fydd unrhyw elfen yn



DRAFT

cael ei phaentio os yw wedi’i chynnwys ar gyfer ei hamnewid o fewn y cynllun pum mlynedd.

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad:** | **27 Tachwedd, 2017 (Y Pwyllgor Gwaith)**<br><br>**12 Rhagfyr, 2017 (Y Cyngor Llawn)** |
| **Pwnc:** | **Y dirprwyaethau sydd eu hangen i'r Cyngor allu cymryd rhan yn y gwaith o archwilio ceisiadau Prosiect Isadeiledd o Bwys Cenedlaethol (prosiect Wylfa Newydd a Chysylltiad Gogledd Cymru) o dan Ddeddf Cynllunio 2008** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cyng. Carwyn Elias Jones**<br>**Y Cyng. Richard Dew** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan J Williams**<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Annwen Morgan<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol<br>01248 752 185<br>AnnwenMorgan2@anglesey.gov.uk<br><br>Dylan J Williams<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>01248 752 499<br>DylanWilliams@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| Bod y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn cymeradwyo'r canlynol: -<br><br>1. Dirprwyo i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaeth) i gynnal pob trafodaethau budd-dal cymunedol anstatudol ac, lle mae amser (yn ei barn hi) o'r hanfod, i wneud unrhyw benderfyniadau perthnasol i bob un trafodaethau o'r fath mewn cysylltiad â, neu'n deillio o un neu ddau o'r prosiectau dan sylw sef Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru y National Grid a Phrosiect Adeilad Niwclear Wylfa Newydd;<br><br>2. Ymadael o'r polisi dwyieithog ar gyfer dogfennau, sylwadau a chyflwyniadau a wnaed fel rhan o'r broses Orchymyn Caniatâd Datblygu lle mae'n bwysig neu yn amhosibl i Swyddogion gydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor a lle'r mae'r Prif Weithredwr yn cymeradwyo ymadawiad o'r fath. |

3. Dirprwyo i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y dasg o ymgymryd â holl swyddogaethau statudol y Cyngor o dan Ddeddf Cynllunio 2008 fel yr Awdurdod Lleol a'r Awdurdod Cynllunio mewn cysylltiad â, neu'n deillio o un neu ddau o'r prosiectau dan sylw sef Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru y National Grid a Phrosiect Adeilad Niwclear Wylfa Newydd;

4. Caniateir i'r dirprwyaethau a gynigir ym mharagraffau 1 a 3 uchod ac unrhyw gamau gweithredu sydd i'w cymryd oddi tanynt gael eu dirprwyo ymhellach i unrhyw swyddog o'r Cyngor gan y swyddogion y mae'r pwerau wedi eu dirprwyo iddynt.

Dros y 10-15 mlynedd nesaf, bydd Ynys Môn yn elwa o fuddsoddiad posib o dros £10bn, ac mae potensial i hwn drawsnewid economi a chymunedau Ynys Môn. Bydd y buddsoddiad posib hwn yn bennaf o ganlyniad i Adeilad Gorsaf Niwclear Wylfa Newydd Pŵer Niwclear Horizon (HNP) a phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru y National Grid – mae'r ddau brosiect yma yn Brosiectau Isadeiledd o Bwys Cenedlaethol (NSIP) a bydd angen Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar eu cyfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn ôl argymhelliad yr Arolygaeth Gynllunio.


Gellir rhannu'r datblygiad arfaethedig gan HNP, sef Gorsaf Niwclear Wylfa Newydd, i ddau faes; y datblygiad ar y safle a'r datblygiadau cysylltiedig oddi ar y safle. Mae Horizon yn bwriadu adeiladu dau Uwch Adweithydd Dŵr Berw y DU (cyflenwir gan Hitachi-GE) ar y safle a chânt eu cefnogi gan gyfleusterau eraill gan gynnwys Cyfleusterau Dadlwytho yn y Môr, adeiladau ac offer. Mae eu datblygiadau cysylltiedig oddi ar y safle yn cynnwys cyfleuster parcio a theithio dros dro, gwelliannau i'r briffordd a chanolfan rheoli argyfwng amgen.

O ganlyniad i'r Adeilad Niwclear Newydd arfaethedig yn Wylfa mae National Grid yn cynnig gwneud ail gysylltiad i'r grid. Ar hyn o bryd mae National Grid yn cynnig llinell uwchben rhwng Wylfa a Phentir ac yn cynnig gosod rhan o'r cysylltiad o dan y ddaear (twnelu) ar draws y Fenai.

Er mwyn sicrhau bod CSYM yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y broses DCO mae'n hanfodol ein bod yn cytuno ar ddull i awdurdodi'r dogfennau a'r cynrychiolaethau sydd ynghlwm. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu'r dirprwyaethau sydd eu hangen i alluogi CSYM i ymateb i'r terfynau amser heriol. Oherwydd newidiadau yn strwythur a phersonél y Cyngor ynghyd â gwell eglurder ar sgôp y ceisiadau argymhellir fod y dirprwyaethau presennol yn cael eu diwygio i adlewyrchu amgylchiadau cyfredol ac i sicrhau bod y dirprwyaethau priodol yn eu lle cyn dechrau'r prosesau DCO. Mae HNP a'r National Grid wedi cynnal eu ymgynghoriadau terfynol cyn gwneud cais yn ddiweddar, cyn iddynt gyflwyno eu DCO. Disgwylir y bydd y ddau DCO yn cael eu cyflwyno i'r Arolygaeth Gynllunio yn ystod 2018, bydd HNP yn cyflwyno eu DCO ar gyfer Wylfa Newydd ym mis Awst a'r National Grid yn cyflwyno eu DCO ar gyfer prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru ym mis Hydref.

Mae Deddf Cynllunio 2008 wedi creu proses ganiatâd newydd ar gyfer datblygiadau mawr sy'n syrthio i'r diffiniad o Brosiectau Isadeiledd o Bwys Cenedlaethol. Gall prosiectau o'r fath ymgeisio am Orchymyn Caniatâd Datblygu ("DCO") gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae DCO yn disodli'r angen am ganiatâd cynllunio ac amryw o ganiatadau eraill a gall gynnwys materion a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried o dan drefnau eraill megis pwerau prynu gorfodol. Bwriedir i'r broses ddarpar system ganiatâd lyfn  fel bod modd i brosiectau mawr gael sawl caniatâd gyda'i gilydd o fewn amserlen benodedig

Mae Ffig. 1 isod yn crynhoi Rôl yr Awdurdod Lleol yn y broses DCO:




Rhoddwyd gwybod i'r aelodau ar 19 Tachwedd 2012 fod angen i'r Cyngor wahanu swyddogaethau statudol y Cyngor yn y broses DCO oddi wrth drafodaethau a phenderfyniadau ar gyfraniadau buddion cymunedol anstatudol mewn cysylltiad â'r orsaf niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa. Ar yr adeg honno rhoddwyd mesurau yn eu lle i sicrhau bod cyfrifoldebau Swyddogion ac Aelodau mewn perthynas â swyddogaethau caniatáu y Cyngor yn cael eu cadw ar wahân i drafodaethau a phenderfyniadau ar gyfraniadau buddion cymunedol anstatudol. Fe gymeradwyodd y Cyngor ddirprwyaethau i'r Prif Weithredwr drafod a negodi'r cynigion anstatudol gyda datblygwr Wylfa ac i'r Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy ymgymryd â swyddogaethau statudol y Cyngor.

Mae'r prosiectau Wylfa Newydd a Chysylltiad Gogledd Cymru y National Grid yn tynnu at derfyn y cyfnod cyn gwneud cais. Pan gaiff y ceisiadau DCO eu cyflwyno byddwn yn mynd

i'r cyfnod derbyn o 28 diwrnod. Yn dilyn y cyfnod hwn byddwn wedyn yn mynd i'r cyfnodau cyn archwilio, archwilio, penderfyniad a'r cyfnod ar ôl penderfyniad.

Gan fod y prosiectau'n symud yn eu blaenau tuag at gyflwyno'r DCOs, rydym wedi adolygu'r trefniadau dirprwyo sydd mewn lle i ddelio gyda'r rhain. Hyd yma, wrth ymateb i ymgynghoriadau allweddol cyn gwneud cais mae CSYM wedi cyflwyno drafftiau terfynol i'r Cyngor llawn ac yn amodol ar gefnogaeth yr Aelodau Etholedig mae wedi gofyn am ganiatâd i roi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr wneud unrhyw fân addasiadau, newidiadau neu gywiriadau a nodwyd ac yr oedd angen rhesymol amdanynt cyn cyflwyno'r ymateb yn ffurfiol. Mae'r drefn hon wedi bod yn effeithiol yn ystod y camau cyn gwneud cais, ond nid yw'r amserlen sy'n arwain i fyny at, ac yn ystod yr archwiliad ffurfiol ar gyfer y broses gorchymyn caniatâd datblygu yn gadael digon o amser i ddefnyddio'r drefn hon ar gyfer caniatadau. Mae'n rhaid i'r mwyafrif o'r cyflwyniadau yn ystod yr archwiliad gael eu darparu o fewn mater o ddyddiau er mwyn cwrdd ag amserlen yr archwiliad.

Mae nifer o'r terfynau amser yn y broses archwilio'r cais DCO yn cael eu gosod ar yr Awdurdod Archwilio (panel o Archwilwyr a benodir i archwilio'r ceisiadau) ac nid oes gan yr Awdurdod y pŵer i'w newid, hyd yn oed os caiff gais i wneud hynny gan un ai'r ymgeisydd neu CSYM. Yn fwy na hyn, hyd yn oed o ran terfynau amser a gaiff eu gosod ar ddisgresiwn yr Awdurdod Archwilio, anaml iawn y cânt eu newid ac am y rheswm hwn mae canllawiau PINS yn datgan bod rhaid i awdurdod leol dybio na ellir strwythuro amserlen yr archwiliad i ffitio o gwmpas ei gylch pwyllgorau (Yr Arolygaeth Gynllunio, Nodyn Cyngor Dau: Rôl awdurdodau lleol yn y broses ganiatáu datblygiad).

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo rhoi trefn ddirprwyo mewn lle i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol [(..)] gynnal unrhyw drafodaethau ynghylch buddion cymunedol anstatudol, ac yn rhoi ail drefn ddirprwyo mewn lle i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ymgymryd â holl swyddogaethau statudol y Cyngor o dan Ddeddf Cynllunio 2008 fel yr Awdurdod Lleol a'r Awdurdod Cynllunio. Bydd y Prif Weithredwr yn parhau i gael trosolwg strategol barhaus dros y ddwy drefn ddirprwyo hyn wrth iddynt gael eu gweithredu. Bydd hyn yn caniatáu i'r Aelodau gymeradwyo a mabwysiadu'r polisïau ac egwyddorion, ac yn caniatáu dirprwyo'r cyfrifoldeb am gadarnhau'r manylion yn derfynol yn unol â'r polisïau a'r egwyddorion hynny a chyflwyno'r dogfennau i'r uwch swyddogion priodol. Mae'r trefniadau dirprwyo arfaethedig yn cadw'r rhaniad rhwng rolau statudol ac anstatudol y Cyngor ond yn cymryd i gyfrif y newid mewn rolau a phersonél sydd wedi digwydd ers yr adroddiad blaenorol, ac maent hefyd yn rhoi sylw i'r angen i roi dirprwyaethau mewn lle ar gyfer proses DCO y National Grid a hefyd Wylfa ac i ymateb yn llawn yn ystod y broses.

Caniateir i'r dirprwyaethau a gynigir ac unrhyw gamau gweithredu sydd i'w cymryd oddi tanynt gael eu dirprwyo ymhellach i unrhyw swyddog o'r Cyngor gan y swyddog penodedig. Mae angen gallu dirprwyo ymhellach er mwyn i swyddogion allu cynrychioli'r Cyngor yn effeithiol mewn gwrandawiadau a chytuno ar faterion mewn gwrandawiadau o'r fath.

| |
|---|
| Mae’r staff y cynigir trefniadau dirprwyo iddynt yn yr adroddiad hwn wedi bod yn ymwneud o’r blaen â’r prosiectau a fydd yn ceisio am DCO, a hynny mewn gwahanol rolau yng nghyswllt yr ystyriaethau statudol ac anstatudol. Dylai swyddogion sy’n arfer y trefniadau dirprwyo hyn, yn enwedig ar yr ochr statudol, ei gwneud yn glir yn eu penderfyniad pa gyngor a gwybodaeth y maent wedi rhoi sylw iddynt a sut mae hynny wedi cael ei bwyso a’i fesur wrth wneud y penderfyniadau, er mwyn sicrhau tryloywder ac i gynorthwyo i sicrhau bod penderfyniadau’n gyfreithiol gadarn trwy osod allan yr ystyriaethau pwysig perthnasol y maent wedi rhoi sylw iddynt. Mae hyn yn efelychu’r gofynion arferol ar gyfer gwneud nifer o benderfyniadau o dan bwerau statudol ac ni ddylai hyn roi unrhyw faich afresymol ar swyddogion. Cyhyd â bod swyddogion yn egluro eu rhesymeg ac nad ydynt wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ffactorau dibwys, yna nid ystyrir bod symud unrhyw swyddog o’r ochr anstatudol i’r ochr statudol neu fel arall yn cynrychioli risg o her lwyddiannus yn erbyn penderfyniadau a wneir yn nes ymlaen.<br><br>Yn ychwanegol i’r trefniadau dirprwyo argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo’r hyblygrwydd, pan fo’n angenrheidiol a phan fo’r Prif Weithredwr yn cymeradwyo hynny, i wyro oddi wrth bolisi dwyieithrwydd y Cyngor ar gyfer dogfennau a gynhyrchir gan y Cyngor fel rhan o broses archwilio’r gorchymyn caniatâd datblygu fel yr eglurir yn Atodiad A yr adroddiad hwn. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ar hyn o bryd nid yw pob un o swyddogaethau’r Cyngor o dan Ddeddf Cynllunio 2008 wedi eu dirprwyo ac maent felly wedi eu cadw i’r Cyngor llawn; mae angen rhyw fath o ddirprwyaeth i alluogi’r Cyngor i gwrdd â therfynau amser y broses archwilio yn effeithiol. Ystyrir bod y trefniadau dirprwyo y ceisir amdanynt yn rhoi cydbwysedd priodol rhwng ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i’r penderfyniadau polisi ac egwyddorion allweddol sydd eu hangen trwy gydol y broses ac wedyn gadael i’r Swyddogion gymeradwyo dogfennau terfynol i sicrhau bod modd cyflwyno ymatebion yn unol â’r amserlen. Mae gofyn hefyd gallu dirprwyo ymhellach o’r swyddogion a enwyd i Swyddogion eraill er mwyn galluogi swyddogion i gynrychioli’r Cyngor yn effeithiol yn y broses, er enghraifft mewn gwrandawiadau llafar. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|

| |
|---|
| |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| A – Defnyddio'r polisi dwyieithrwydd |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|

**Atodiad A -**

1 **GOFYNION STATUDOL**

1.1 Mae gofyn i'r Cyngor, fel awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, gydymffurfio â Mesur yr Iaith Gymraeg a'r safonau a gyflwynwyd yn ei sgil gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn yr hysbysiad cydymffurfio dyddiedig 30 Medi 2015. Nid yw'r hysbysiad cydymffurfio yn cynnwys safon sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu ei ymatebion i'r broses DCO yn Gymraeg.

1.2 Cyfrifoldeb yr Awdurdod Archwilio trwy'r Arolygaeth Gynllunio (PINs) fydd darparu cyfleusterau cyfieithu a chyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog a byddant yn hwyluso cyfranogiad y cyhoedd yn y broses trwy gyfrwng y Gymraeg.

1.3 Gan mai'r Arolygaeth Gynllunio yw'r corff sy'n rhedeg y broses ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, ei gyfrifoldeb ef yw sicrhau bod unrhyw ofynion iaith Gymraeg perthnasol yn cael eu bodloni, ac nid y Cyngor. Bydd cyfleusterau cyfieithu a chyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog yn gyfrifoldeb i'r Awdurdod Archwilio (trwy'r Arolygaeth Gynllunio) a byddant yn hwyluso'r cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Arolygaeth Gynllunio ar hyn o bryd yn llunio rhestr o leoliadau i gynnal gwrandawiadau lle gellir darparu gwasanaethau cyfieithu addas ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a byddant yn cynnal fersiwn Gymraeg o'r wefan archwiliad (serch hyn, bydd y fersiwn hon o'r wefan yn eithaf cyfyngedig a bydd y llyfrgell ddogfennau yn rhoi cyswllt i'r dogfennau Saesneg fel arfer).

2 **DULL A CHYNGOR YR AROLYGAETH GYNLLUNIO**

2.1 Cyngor yr Arolygaeth Gynllunio, pan fydd dogfennau dwyieithog yn cael eu cyflwyno, yw y dylent gael eu cyflwyno gyda'i gilydd er mwyn atal unrhyw ddryswch, sy'n golygu nad yw'n ddymunol darparu fersiynau Cymraeg ar ôl cyflwyno'r fersiwn Saesneg. Os caiff dogfennau eu cyfieithu ar ôl eu cyflwyno, yn ogystal â bod angen nifer fawr o adnoddau arbenigol (yn enwedig o gofio natur dechnegol llawer o'r broses hon), mae'n golygu y bydd dogfennau Cymraeg yn cael eu cyflwyno ar ôl i'r ymateb i'r ddogfen honno gael ei chynhyrchu, h.y. bydd y fersiwn Gymraeg ar ei hôl hi o sawl cam yn y broses ac ni fydd yn gyson â'r trafodaethau a newidiadau. Ni fydd hyn yn helpu unrhyw un i gymryd rhan yn ystyrlon.

2.2 Ni all y Cyngor orfodi'r ymgeiswyr i ddarparu dogfennau dwyieithog ac mae'n debyg na fydd nifer o'r cyflwyniadau y mae gofyn i'r Cyngor ymateb iddynt ar gael yn Gymraeg. Mae'r Arolygaeth Gynllunio yn cynhyrchu rhestr o'r dogfennau y bydd disgwyl i'r ymgeisydd eu cynhyrchu yn Gymraeg, bydd y rhestr hon yn cynorthwyo'r Cyngor i ragweld anawsterau ymarferol o ran ymateb yn Gymraeg

(er enghraifft pan fo dogfennau sydd ond yn bodoli yn y Saesneg, mae'n annhebygol y byddai'n ymarferol gwneud defnydd safonol o newidiadau wedi eu tracio i awgrymu drafft amgen).

## 3 LEFEL DEBYGOL Y GALW A'R AMSERLENNI

3.1 Mae'r broses DCO yn cynnwys y camau cyn gwneud cais, gwneud y cais, cyn archwilio, archwilio a'r penderfyniad. Mae amserlenni targed ynghlwm â'r holl gamau ar ôl gwneud y cais a bydd yr Arolygaeth Gynllunio dan bwysau i gwrdd â'r amserlenni hyn. Dylai'r cam archwilio yn y broses gymryd dim mwy na 6 mis a bydd amryw o derfynau amser yn cael eu gosod o fewn y cyfnod hwnnw. Mae'n arfer cyffredin i osod terfynau amser ar gyfnodau o bob pythefnos, a gallai hynny leihau i bob wythnos tuag at ddiwedd y cam archwilio. Gall yr Awdurdod Archwilio ymestyn y cyfnod archwilio chwe mis ond mae'n debygol o fod dan bwysau (yn cynnwys gan Horizon o bosib) i beidio gwneud hynny. Ni fydd yr Awdurdod Archwilio yn dwyn i gyfrif unrhyw gyflwyniadau a wneir ar ôl dyddiau cau y cyfnod archwilio, er hyn cânt eu hanfon at yr Ysgrifennydd Gwladol.

3.2 Mae nifer o brif gyflwyniadau'r Cyngor megis yr Adroddiad Effaith Leol a sylwadau gan ei gynrychiolwyr yn rhai y gellir eu gwneud yn fuan iawn yn y broses, a gellir dechrau cyfieithu'r rhain cyn gwneud y cais. Daw'r cyfnod mwy anodd yn ystod yr archwiliad lle mae gofyn rhoi ymatebion o fewn wythnosau neu hyd yn oed ddyddiau. Yn ogystal ag ymateb i'r cyflwyniad a roddwyd i'r terfyn amser blaenorol erbyn y terfyn amser nesaf, bydd yr Awdurdod Archwilio hefyd yn cyflwyno setiau ffurfiol o gwestiynau y mae'n rhaid eu hateb, fel arfer o fewn 2 wythnos. Gall nifer a sgôp y cwestiynau hyn amrywio'n fawr, ac ni ellir eu darogan ymlaen llaw. Mae archwiliadau DCO blaenorol wedi cyflwyno cwestiynau lefel uchel eang lle mae angen atebion sylweddol, a setiau o gwestiynau manwl (hyd at gannoedd ohonynt). Mae'n arferol (a bydd gan Horizon) cael yr adnodd staff i ymateb i'r galw uchel hwn, a bydd hynny'n cynnwys llawer o staff yn gweithio tu allan i oriau swyddfa a dros y penwythnos yn ymateb i geisiadau o'r fath yn amserol. Bydd disgwyl i'r Cyngor gyfateb i'r brys hwn er gwaethaf y gwahaniaeth mewn adnoddau sydd ganddo.

3.3 Cyfeirir at nifer y dogfennau a gynhyrchwyd ar gyfer archwiliad Hinkley fel arwydd o'r galw posib. O'r 1,068 o ddogfennau yn y llyfrgell ddogfennau ar gyfer y caniatâd hwnnw[1], mae'r caniatâd yn cyfrif am 308 o ddogfennau ac mae 599 arall o'r cyfanswm yn ddogfennau a grëwyd yn ystod y cyfnod archwilio 6 mis[2]. Fe gyflwynodd y gwahanol Gynghorau 115 o ddogfennau, neu cânt eu nodi fel awduron neu un o awduron y dogfennau hynny. O'r rhain, mae tua 80 ohonynt

[1] Ar 8 Awst 2017, bydd y prosesau ar ôl caniatâd sy'n mynd rhagddynt yn cynyddu'r ffigwr hwn.

[2] Dyma raniad o'r ffigyrau fesul cam – Cais 308; Cyn yr Archwiliad 38, Archwiliad 599; Penderfyniad 50; Ar ôl penderfyniad 72. Roedd y cais Hinkley yn llai nag ambell i un arall, er enghraifft roedd cais y Lagŵn Llanwol yn Abertawe yn cynnwys 548 o ddogfennau ar gyfer y cais, a dim un ohonynt yn Gymraeg. Rydym yn disgwyl nifer uwch o ddogfennau ar gyfer Wylfa a llai o bosib ar gyfer y National Grid.

gan y Cynghorau Sir a Dosbarth ac maent felly'n cynrychioli'r lefel oedd y Cynghorau yn ei chwarae wrth gyflawni'r swyddogaethau sydd gan CSYM fel awdurdod unedol. Nid yw'r nifer hwn ar ei ben ei hun yn rhoi syniad o faint a chymhlethdod amrywiol y dogfennau hyn, nac yn dweud y bydd y galw wedi'i rannu'n gyfartal trwy gydol y broses, ond mae yn rhoi syniad o lefel yr adnoddau sydd eu hangen yn gyffredinol.

3.4 Yn ôl ein profiad ni o DCOs, caiff dogfennau eu newid hyd at ben draw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno (hanner nos neu hanner dydd yn aml iawn), ac mae'n normal i wneud newidiadau terfynol ar y diwrnod cyflwyno. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod dogfennau'n dueddol o fod yn gysylltiedig â'i gilydd ac mae'n rhaid i ymatebion o un ddogfen gael eu cario drosodd i ddogfennau eraill, er enghraifft efallai y byddai'n rhaid i ymatebion ar bynciau technegol gael eu hadlewyrchu mewn ymatebion ar ofynion y DCO, ac wedyn eu hymgorffori mewn ddiweddariadau at y Datganiad Tir Cyffredin. Mae hefyd yn rhannol oherwydd natur y broses a'r angen i gymryd cyngor technegol er mwyn gallu ymateb, a gallai gymryd peth amser i gael gafael ar y cyngor technegol hwn. Yn y cefndir, mae'n rhaid trosglwyddo newidiadau trwodd i ddogfennau hefyd, megis unrhyw gytundeb adran 106, ac mae hynny'n creu galw parhaus yn y cefndir ar yr un adnoddau â sy'n paratoi'r ymatebion.

3.5 O ystyried yr amserlenni tynn yn ystod y cam archwilio i gyfieithu'r holl ddogfennau ac ymatebion i'r Gymraeg cyn eu cyflwyno, byddai angen i'r broes gyfieithu fod yn llawer cynt nag ydyw ar hyn o bryd; i bob pwrpas byddai'n rhaid cyfieithu dogfennau wrth iddynt ddatblygu yn Saesneg. O ystyried cyn lleied o amser a gawn i gynhyrchu sylwedd yr ymatebion, mae'n annhebygol y byddai'n ymarferol cwblhau drafftio'r dogfennau ddyddiau ymlaen llaw er mwyn hwyluso'r drefn gyfieithu arferol. Golyga hyn, yn ymarferol, y byddai angen cael adnodd cyfieithu sydd wedi cymhwyso a'i friffio'n addas yn rhan greiddiol o'r tîm dogfennau, a byddai'n rhaid iddo gael adnoddau digonol i gwrdd â chyfnodau o alw uchel ar fyr rybudd. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer mewnbwn technegol a chyfreithiol lle byddai angen cyfieithiad arbenigol o fewn terfynau amser byr iawn. Rhagwelir felly na fydd y Cyngor yn gallu cydymffurfio â'i bolisi Iaith Gymraeg ar gyfer pob terfyn amser, yn syml oherwydd y pwysau amser.

## 4 GWERTH CYFIEITHIADAU CYMRAEG MEWN PROSES LLE MAE'R SAESNEG YN FLAENLLAW

4.1 Mae pryder hefyd y bydd diffyg gwerth i rai cyfieithiadau. Er enghraifft bydd yna ystyriaeth fanwl a maith o ddrafftio'r DCO ac yn arbennig y gofynion, ond mae'n annhebygol y bydd y drafftiau DCO gwreiddiol yn cael eu cynhyrchu a'u diweddaru yn Gymraeg. Nid yw'n glir sut y bydd cyfieithiadau Cymraeg o drafodaethau ynghylch union eiriad y DCO Saesneg yn ychwanegu gwerth i'r rheini sy'n dymuno cymryd rhan yn y broses, oherwydd heb DCO yn Gymraeg bydd eu gallu y gyfrannu'n ystyrlon trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig. Ni wyddwn a fyddai fersiwn Gymraeg o gwestiynau'n cael ei chyflwyno, ond byddai

hynny'n anarferol; o'n profiad[3] o DCOs yng Nghymru hyd yma, nid ydynt wedi cynnwys cwestiynau dwyieithog. Pan gaiff nifer fawr o gwestiynau eu cyflwyno gan yr Awdurdod Archwilio, yr arfer gyffredin yw ymateb i'r rhain mewn fformat cwestiwn ac ateb ac nid fel cyflwyniadau unigol, heb gwestiynau yn Gymraeg gellir cwestiynu beth fyddai gwerth cyfieithu'r atebion yn y fformat hwnnw.

4.2 Bydd gofyn cyfieithu cyflwyniadau cyfreithiol o dan y polisi dwyieithrwydd. Yn ogystal â bod yn eithriadol o arbenigol, mae yna wastad risg gyda chyfieithiadau cyfreithiol o greu dau safbwynt ychydig yn wahanol. Er enghraifft, mae'r gwahaniaeth ystyr rhwng *'can'*, *'will'*, *'may'* a *'shall'* yn Saesneg wedi bod yn destun amryw o benderfyniadau barnwrol ac mae sawl penderfyniad gan y llys Ewropeaidd lle mae gwahanol gyfieithiadau o'r un gyfarwyddeb wedi arwain at wahanol ofynion o dan beth ddylai fod yr un safbwynt cyfreithiol. Felly byddai'n rhaid i unrhyw gyfieithiad o ddeunydd cyfreithiol fod yn destun cafeat mai'r fersiwn Saesneg sy'n cymryd blaenoriaeth petai anghysondeb.

Mae'n dal yn fwriad gan y Cyngor i gydymffurfio â'r polisi dwyieithrwydd cyhyd â bod hynny'n ymarferol, a cheisir yr awdurdod hwn i wyro oddi wrth y polisi dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol yn yr amgylchiadau.

**Argymhelliad:** Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo gwyro oddi wrth y polisi dwyieithog ar gyfer dogfennau, sylwadau, a chyflwyniadau a wneir fel rhan o'r broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu pan fo'n anymarferol neu'n amhosib i Swyddogion gydymffurfio â'r polisi, a phan fo'r Prif Weithredwr yn caniatáu gwyro oddi wrth y polisi yn y fath fodd.

[3] Roedd 11 o DCOs wedi cael penderfyniad terfynol yng Nghymru ar 8 Awst 2017, ac rydym wedi adolygu'r cwestiynau cyntaf ar gyfer pob un o'r rhain. Er bod rhai Awdurdodau Archwilio wedi darparu'r llythyr clawr yn Gymraeg (er enghraifft, Cysylltiad Brechfa Forest, cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru, Glyn Rhonwy) roedd y cwestiynau eu hunain wedi cael eu cyflwyno'n Saesneg yn unig.

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

***Atodiad 3 / Appendix 3 Finances 2017-18 with narrative***

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972<br>[un neu fwy o/one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C]</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</td><td>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Gwybodaeth yn ymwneud â materion busnes neu ariannol unrhyw unigolyn penodol (Gan gynnwys yr awdurdod sy’n dal y wybodaeth) (para 14)<br><br>Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information) ( para 14)<br><br>as there is sensitive in relation to the café lease franchise at Oriel Môn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad - Mae budd y cyhoedd wrth gadw’r eithriad o bwys mwy na/llai na* budd y cyhoedd wrth ddatgelu’r wybodaeth. [* - dilëwch y geiriau amherthnasol]<br>Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs/does not outweigh* the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate]</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# DIM I'W GYHOEDDI / NOT FOR PUBLICATION

**Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliannol –Trosglwyddo Carchar a Llys Biwmares i Gyngor Tref Biwmares**
**Transforming the Cultural Service-Transfer of the Gaol and Court House Beaumaris to Beaumaris Town Council**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff,14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph,14 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd **wrth ddatgan** oherwydd / There is a public interest **in disclosure** as:-<br><br>Mae dyfodol yr ased dreftadaeth yma'n bwysig i'r cyhoedd o'r ochr dwristiaeth , diwylliant ac economi'r ynys.<br><br>**********************************<br>*The future of this heritage asset is important to the public from a tourism, culture and economic perspective.* | Y budd y cyhoedd **with beidio datgelu** yw / The public interest **in not disclosing** is: -<br><br>Mae'r adroddiad prisiwr a gomisiynwyd gan y Cyngor yn datgan faint o incwm all y Cyngor ei dderbyn parthed gwerthu'r ased. Buasai datgelu'r wybodaeth yma yn debygol o wneud y Cyngor yn wan a/neu'n agored i niwed wrth negodi.<br><br>Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ariannol / busnes sy'n ymwneud â'r Cyngor ac i drydydd partïon. Mae gan hyn y potensial i osod y Cyngor, a'r pwrs cyhoeddus, dan anfantais yn achos unrhyw drafodaethau masnachol yn y dyfodol yn ymwneud â gwaredu'r safle fel arall, drwy werthu rhydd-ddaliad.<br><br>**********************************<br>*The valuation report commissioned by the Council includes the potential sale value of the asset. Disclosure of this information will weaken the Council's negotiating position in the event of a sale.*<br><br>*Additionally, the report contains financial / business information relating to the Council and to third parties. This has the potential to place the Council, and the public purse, at a disadvantage in the event of any future commercial negotiations relating to disposal of the site otherwise that by way of a freehold sale.* |

V08/11/2017

**Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.
**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank